

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

13/01/2016

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth](#)

[1. Questions to the Minister for Finance and Government Business](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus](#)

[2. Questions to the Minister for Public Services](#)

[3. Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgor](#)

[3. Motion to Elect Members to a Committee](#)

[4. Bil Cymru Drafft](#)

[4. Draft Wales Bill](#)

[6. Dadl Fer: Cenedl sy'n Cynnig Lloches? Y Rôl y Gall Cymru ei Chwarae yn yr Argyfwng Ffoaduriaid](#)

[6. Short Debate: A Nation of Sanctuary? The Role that Wales Can Play in the Refugee Crisis](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 1 is questions to the Minister for Finance and Government Business. I'm going to group questions 1 and 8. Question 1 is Mohammad Asghar.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yw Eitem 1. Byddaf yn grwpio cwestiynau 1 ac 8. Daw cwestiwn 1 gan Mohammad Asghar.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi

The Communities and Tackling Poverty Portfolio

13:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi? OAQ(4)0640(FIN)

1. What priorities were considered by the Welsh Government when allocating funding to the communities and tackling poverty portfolio? OAQ(4)0640(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio cymunedau a threchu tlodi yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0648(FIN)

8. Will the Minister make a statement on the funding allocation to the communities and tackling poverty portfolio in the 2016-17 draft budget? OAQ(4)0648(FIN)

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

As set out in our draft budget, our commitment to social justice and protecting the delivery of front-line services underpins everything we do.

Fel y nodwyd yn ein cyllideb ddrafft, mae ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a diogelu darpariaeth gwasanaethau rheng flaen yn sail i bopeth a wawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:31 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. One of the key aims of your Government is to create a fair society, free from discrimination, harassment and victimisation, with cohesive and inclusive communities. Since your draft budget cuts the communities and tackling poverty budget by £3 million in cash terms, what consideration was given to meeting this aim, at a time of increasing hate crime and rising tension among the communities in Wales?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Un o brif amcanion eich Llywodraeth yw creu cymdeithas deg, heb unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth, gyda chymunedau cydlynol a chynhwysol. Gan fod eich cyllideb ddrafft yn torri £3 miliwn yn nhermau arian parod oddi ar y gyllideb cymunedau a threchu tlodi, pa ystyriaeth a roddwyd i gyflawni'r nod hwn, mewn cyfnod pan fo troseddau casineb yn cynyddu a thensiwn yn codi ymhlith cymunedau Cymru?
- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, if we had had your Welsh Conservative budget back in 2011, the cut to local government social justice would have been 12.5 per cent. But as we have had the settlement, which has produced our draft budget, of course, we then seek to deliver in terms of the quality objectives of the Welsh Government. And it is important that that does include the equality and inclusion grant, and the role that we can play in terms of protecting and safeguarding our community cohesion co-ordinators, which, of course, we are supporting and funding.
- Wel, wrth gwrs, pe baem wedi cael eich cyllideb chi, y Ceidwadwyr Cymreig, yn ôl yn 2011, byddai'r toriad i gyfiawnder cymdeithasol llywodraeth leol yn 12.5 y cant. Ond gan ein bod wedi cael y setliad, sydd wedi cynhyrchu ein cyllideb ddrafft, wrth gwrs, byddwn yn ceisio cyflawni amcanion ansawdd Llywodraeth Cymru. Ac mae'n bwysig fod hynny'n cynnwys y grant cydraddoldeb a chynhwysiant, a'r rôl y gallwn ei chwarae o ran amddiffyn a diogelu ein cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol, sydd, wrth gwrs, yn cael eu hariannu a'u cefnogi gennym ni.
- 13:32 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as part of the very welcome announcement by the Minister for Communities and Tackling Poverty last month of £2.8 million for the community facilities programme, the Underwood Baptist Church in my constituency will have a new extension, providing a kitchen and toilets, and allowing more groups and more activities to take place. Previously, the Hope Centre in Somerton—a Communities First area—had substantial funding. Will you ensure that Welsh Government continues to support this vital community fabric, which allows community activity and regeneration to take place across Wales?
- Weinidog, fel rhan o gyhoeddiad y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y mis diwethaf o £2.8 miliwn ar gyfer y rhaglen cyfleusterau cymunedol, sydd i'w groesawu'n fawr, bydd Capel y Bedyddwyr Underwood yn fy etholaeth yn cael estyniad newydd, gan ddarparu cegin a thoiledau, a chaniatáu i fwy o grwpiau a mwy o weithgareddau gael eu cynnal. Cyn hynny, derbyniodd Canolfan Hope yn Somerton—ardal Cymunedau yn Gyntaf—arian sylweddol. A wnewch chi sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r adeiladau cymunedol hanfodol hyn, sy'n caniatáu i weithgareddau ac adfywio cymunedol ddigwydd ledled Cymru?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank John Griffiths for that question, because our draft budget for 2016-17, 'Fairer, Better Wales', does set out plans for allocating over £230 million in new capital investment. But that is very targeted, and the Minister for Communities and Tackling Poverty did announce on 22 December £2.8 million funding for 10 projects through the community facilities programme. And, of course, not only is that supporting Underwood Baptist Church, it's also supporting, for example, Llanfairfechan community library in Conwy, it's supporting the Penparcau community forum in Ceredigion—that's a former Communities First area—and also KPC Youth in Bridgend. And, of course, these are all communities where the funding will help tackle poverty.
- Diolch i John Griffiths am ei gwestiwn, gan fod ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17, 'Cymru Decach, Cymru Well', yn nodi cynlluniau ar gyfer dyrannu dros £230 miliwn mewn buddsoddiad cyfalaf newydd. Ond mae hwnnw wedi'i dargedu'n fanwl, ac ar 22 Rhagfyr cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gyllid o £2.8 miliwn ar gyfer 10 o brosiectau drwy'r rhaglen cyfleusterau cymunedol. Ac wrth gwrs, yn ogystal â chefnogi Capel y Bedyddwyr Underwood, mae hefyd yn cefnogi llyfrgell gymunedol Llanfairfechan yng Nghonwy, er enghraifft, a fforwm cymunedol Penparcau yng Ngheredigion—un o gyn-ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf—ac Ieuenctid a Chymuned Mynydd Cynffig, Corneli a'r Pîl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ac wrth gwrs, mae'r rhain oll yn gymunedau lle y bydd y cyllid yn helpu i drechu tlodi.
- 13:33 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as far as funding is concerned, has the Communities First programme, which set out to create prosperous, healthier and learning communities, in your opinion, provided us with value for money?
- Weinidog, o ran cyllid, a yw rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a sefydlwyd er mwyn sicrhau cymunedau ffyniannus, iachach sy'n dysgu, wedi sicrhau gwerth am arian yn eich barn chi?

13:34

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, the Communities First programme has been developed, evaluated, and improved to deliver further outcomes. The focus, of course, particularly on delivering outcomes in terms of jobs and training, has been demonstrated, in terms of the latest reports. But, also, we recognise the importance of Communities First investing in our most deprived communities, to ensure that our commitment to tackling poverty and social justice is upheld.

Yn amlwg, mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei datblygu, ei gwerthuso, a'i gwella er mwyn darparu canlyniadau pellach. Mae'r adroddiadau diweddaraf wedi dangos bod y ffocws, wrth gwrs, ar sicrhau canlyniadau o ran swyddi a hyfforddiant yn arbennig. Ond rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddiad Cymunedau yn Gyntaf yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, er mwyn cynnal ein hymrwymiad i drechu tlodi ac i gyfiawnder cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will have seen the Institute for Fiscal Studies data, which shows that, under the current Government, the number of children whose families are in work but who are living in poverty has increased from 54 per cent to 63 per cent. We are getting what we know always happens with a Tory Government in Westminster: the rich get richer and the poor get poorer. And we now have to face the challenge of universal credit, which will again do the same as the tax credit reforms that were proposed. What evaluation is the Welsh Government taking of the impact of universal credit changes to families within Wales and the impact on the increasing poverty that will inevitably result?

Weinidog, byddwch wedi gweld data'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, sy'n dangos bod nifer y plant y mae eu teuluoedd yn gweithio ond sy'n byw mewn tlodi wedi cynyddu o 54 y cant i 63 y cant o dan y Llywodraeth bresennol. Rydym yn gweld yr hyn y gwyddom ei fod yn digwydd bob amser gyda Llywodraeth Doriaidd yn San Steffan: mae'r cyfoethog yn mynd yn gyfoethocach a'r tlawd yn mynd yn dlotach. Ac yn awr mae'n rhaid i ni wynebu her credyd cynhwysol, a fydd unwaith eto yn gwneud yr un fath â'r diwygiadau i'r credyd treth a argymhellwyd. Pa werthusiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o effaith newidiadau i'r credyd cynhwysol ar deuluoedd yng Nghymru a'r effaith ar y tlodi cynyddol a fydd yn sicr o ddeillio o hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Mick Antoniw is quite right: the evidence from the Institute for Fiscal Studies and also our own Bevan Foundation, which published its analysis of Wales's uptake of benefits currently last November—. If we just look at the IFS evidence, it showed that the total impact of the UK Government's tax and benefit changes, including universal credit, mean that lower income households lose out more than households around middle income distribution, and these changes will increase the number of households in Wales, as you say, below the poverty line in both absolute and relative terms. But, let's also look at the Resolution Foundation. They estimate that up to a further 600,000 children in the UK will fall into poverty once all the summer budget policy measures on tax, pay and benefits have taken effect, and two thirds of this increase is among children in working households. And, also, finally, the IFS' analysis shows that the UK Government's u-turn on the main tax credit cut will only provide short-term protection because tax credits will be phased out by 2018 and the planned cuts to universal credit were not reversed. So, that means the long-term impact, when all policy changes have been fully rolled out, remains broadly the same.

Wel, mae Mick Antoniw yn llygad ei le: mae'r dystiolaeth gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn ogystal â'n Sefydliad Bevan ni, a gyhoeddodd ei ddadansoddiad o'r nifer sy'n cael budd-daliadau ar hyn o bryd yng Nghymru fis Tachwedd diwethaf—. O edrych ar dystiolaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn unig, gwelwn fod holl effaith newidiadau Llywodraeth y DU i drethi a budd-daliadau, gan gynnwys credyd cynhwysol, yn golygu bod cartrefi incwm isel yn colli allan yn waeth na chartrefi incwm canolig, a bydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r nifer o gartrefi yng Nghymru, fel y dywedwch, sydd o dan y ffin tlodi mewn termau absoliwt a chymharol. Ond gadewch i ni hefyd edrych ar y Resolution Foundation. Maent yn amcangyfrif y bydd hyd at 600,000 yn ychwanegol o blant y DU yn byw mewn tlodi ar ôl i holl fesurau polisi cyllideb yr haf ar dreth, cyflogau a budd-daliadau ddod i rym, gyda dwy ran o dair o'r cynnydd hwnnw ymysg plant ar aelwydydd sy'n gweithio. Ac yn olaf hefyd, mae dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos mai diogelwch byrdymor yn unig a geir yn sgil tro pedol Llywodraeth y DU ar y prif doriad i gredydau treth gan y bydd credydau treth wedi cael eu diddymu fesul cam erbyn 2018, ac ni ddiddymwyd y toriadau arfaethedig i gredyd cynhwysol. Felly, mae hynny'n golygu y bydd yr effaith hirdymor, pan fydd yr holl newidiadau polisi wedi'u cyflwyno'n llawn, yn aros fwy neu lai yr un fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, in terms of supporting Wales's many diverse communities and helping to tackle poverty, would you agree with me about the importance of adequately funding to the best of our ability the voluntary sector, so that it is capable of playing a significant role in building and improving community cohesion? Furthermore, Minister, would you also agree with me that, in these times of heightened tensions created by the actions of extremist and far-right hate groups, we must support to the best of our ability those organisations that are seeking to help and work with our most vulnerable people and community groups?

Weinidog, o ran cefnogi holl gymunedau amrywiol Cymru a helpu i drechu tlodi, a fydddech yn cytuno â mi ynglŷn â phwysigrwydd ariannu'r sector gwirfoddol hyd eithaf ein gallu, er mwyn iddo allu chwarae rhan sylweddol yn adeiladu a gwella cydlyniant cymunedol? Yn ogystal, Weinidog, yn ystod y cyfnod hwn o densiynau a grëwyd gan weithredoedd grwpiau casineb eithafwyr ac asgell dde, a fydddech yn cytuno â mi hefyd fod yn rhaid i ni gefnogi hyd eithaf ein gallu y sefydliadau sy'n ceisio helpu a gweithio gyda'n pobl a'n grwpiau cymunedol sydd fwyaf agored i niwed?

13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I completely agree with Jeff Cuthbert's question and I think the short debate this afternoon, 'A Nation of Sanctuary?', will allow us to discuss many of these issues as an Assembly. We have, and I've already mentioned that we fund, eight regional community cohesion co-ordinators to work with local authorities to mainstream cohesion, tackle hate crime and make sure that there are systems in place for monitoring tensions. Also, the Minister for Communities and Tackling Poverty is working very closely with the third sector organisations that, Jeff Cuthbert, you mentioned, on how to implement fully our tackling hate crimes and incidents framework for action.

Wel, cytunaf yn llwyr â chwestiwn Jeff Cuthbert, a chredaf y bydd y ddatllyth fer y prynhawn yma, 'Cenedl sy'n cynnig lloches?', yn caniatáu i ni drafod nifer o'r materion hyn fel Cynulliad. Mae gennym, ac rwyf eisoes wedi sôn ein bod yn ariannu, wyth o gydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol i weithio gydag awdurdodau lleol i brif ffrydio cydlyniant, i drechu troseddau casineb ac i sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer monitro tensiynau. Hefyd, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn gweithio'n agos iawn gyda'r mudiadau trydydd sector a grybwyllwyd gennych chi, Jeff Cuthbert, ar sut i weithredu ein framwaith ar gyfer mynd i'r afael â throseddau casineb.

Y Gyllideb Ddrafft (Blaenoriaethau)

The Draft Budget (Priorities)

13:38 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth bennu'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0650(FIN)

2. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities when setting the draft budget for 2016-17? OAQ(4)0650(FIN)

13:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Our budget for a 'Fairer, Better Wales—Investing for the Future' addresses our main priorities of health and health services, growth and jobs, educational attainment, and supporting children, families and deprived communities.

Mae ein cyllideb ar gyfer 'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol' yn mynd i'r afael â'n prif flaenoriaethau o ran iechyd a gwasanaethau iechyd, twf a swyddi, cyrhaeddiad addysgol, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

13:38 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank you for that answer, Minister, and I welcome the Government's draft budget, which contains record levels of investment in our health services and increased spending on social services, ensuring that people here in Wales continue to receive higher per capita figures for health and social care than they do in England. But do you agree with me that this investment demonstrates confidence in our NHS and its workforce and that the NHS in Wales is safe in Labour's hands?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, a chroesawaf gyllideb ddrafft y Llywodraeth, sy'n cynnwys y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad yn ein gwasanaethau iechyd a mwy o wariant ar wasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod pobl Cymru yn parhau i gael swm uwch y pen ar iechyd a gofal cymdeithasol na phobl Lloegr. Ond a ydych yn cytuno fod y buddsoddiad hwn yn dangos hyder yn ein GIG a'i weithlu, a bod y GIG yng Nghymru yn ddiogel yn nwylo Llafur?

13:38

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we have demonstrated our confidence in the Welsh NHS. We're allocating an additional £293 million to the NHS, including £200 million to support core delivery and to support a sustainable NHS. But, also, you mentioned health and social services and the importance of the extra support for the intermediate care fund; an extra £30 million in funding available for older people mental health services; an extra £33 million for capital; and, of course, those all-important figures we got last November that, in Wales, we're spending on health and social services 7 per cent more per head than in England.

Wel, rydym wedi dangos ein hyder yn GIG Cymru. Rydym yn dyrannu £293 miliwn yn ychwanegol i'r GIG, gan gynnwys £200 miliwn i gynorthwyo'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau craidd ac i gefnogi GIG cynaliadwy. Ond hefyd, fe sonioch am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a phwysigrwydd y gefnogaeth ychwanegol i'r gronfa gofal canolraddol; mae £30 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn; £33 miliwn yn ychwanegol o gyllid cyfalaf; ac wrth gwrs, y ffigurau hollbwysig hynny a gawsom fis Tachwedd diwethaf a ddangosai ein bod yn gwario 7 y cant yn fwy y pen yng Nghymru nag yn Lloegr ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Obviously, in preparing your draft budget, finance Minister, you chose to give higher education a good kicking and, in particular, there is a danger that has been pointed out from the Higher Education Funding Council for Wales over the risk to research and development in our universities should the draft budget become a reality. Compare that with what the Chancellor announced here in Cardiff last week about the Catapult semiconductor centre—£50 million-worth of investment. Given the representations you've had, are you minded now to change the terms of the draft budget in relation to higher education so research and development can prosper here in Wales rather than leave for other parts of the United Kingdom?

Yn amlwg, wrth baratoi eich cyllideb ddrafft, Weinidog cyllid, fe ddewisoch roi cic go heger i addysg uwch, ac yn arbennig, nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru y perygl i ymchwil a datblygu yn ein prifysgolion pe bai'r gyllideb ddrafft yn cael ei gwireddu. Cymharwch hynny â chyhoeddiad y Canghellor yma yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf ynglŷn â chanolfan lled-ddargludyddion Catapult—gwerth £50 miliwn o fuddsoddiad. O gofio'r sylwadau rydych wedi'u cael, a ydych yn ystyried newid telerau'r gyllideb ddrafft yn awr mewn perthynas ag addysg uwch fel y gall ymchwil a datblygu ffynnu yma yng Nghymru yn hytrach na symud i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, higher education has been relatively protected from the impact of the UK Government's cuts to our budget. Let's just remember—an 8 per cent real-terms cut to our budget over the last five years, and another 4.5 per cent cut to revenue in the forthcoming years, compared to other parts. But, of course, the Minister for Education and Skills will provide a steer on Welsh Government priorities for higher education in his annual remit letter to the funding council shortly. And it will be for HEFCW to determine how it allocates its resources.

Wel, wrth gwrs, mae addysg uwch wedi'i diogelu i raddau rhag effaith toriadau Llywodraeth y DU i'n cyllideb. Gadewch i ni gofio—toriad o 8 y cant mewn termau real i'n cyllideb dros y pum mlynedd diwethaf, a thoriad arall o 4.5 y cant mewn refeniw yn y blynyddoedd sydd i ddod, o gymharu â rhannau eraill. Ond wrth gwrs, bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyfeirio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch yn ei lythyr cylch gwaith blynyddol i'r cyngor cyllido cyn bo hir. A chyfrifoldeb CCAUC fydd penderfynu sut y mae'n dyrannu ei adnoddau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we know that very, very challenging decisions have to be made with the settlement we've had from the UK Government, but we know that part-time study plays a crucial role in widening the number of people who can access higher education, and it's about empowering people to get work or progress in their careers. I am concerned, therefore, that any cuts in the money available to the higher education sector, resulting from the Welsh Government's real-terms budget cuts, could disproportionately impact on part-time students. We know there's a social justice issue here, a point made to me by the Open University. How is the Welsh Government taking this into account in determining its budget?

Weinidog, gwyddom fod angen gwneud penderfyniadau anodd iawn, iawn gyda'r setliad a gawsom gan Lywodraeth y DU, ond gwyddom fod astudiaethau rhan-amser yn chwarae rhan hanfodol yn chwyddo nifer y bobl sy'n gallu cael mynediad at addysg uwch, ac mae'n ymwneud â grymuso pobl i gael gwaith neu gamu ymlaen yn eu gyrfaedd. Rwy'n bryderus, felly, y gallai unrhyw doriadau yn yr arian sydd ar gael i'r sector addysg uwch, o ganlyniad i doriadau mewn termau real i'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru, gael effaith anghymesur ar fyfyrwyr rhan-amser. Gwyddom fod cwestiwn yn codi ynghylch cyfiawnder cymdeithasol yma, pwynt a wnaed gan y Brifysgol Agored. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn wrth bennu ei chyllideb?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think what is very important is that we had difficult decisions to make in terms of our priorities. It is very important to recognise that the further education budget for 2016-17 is protected from cuts, and I know that you will, and have, welcomed that, and, also, that we've provided an extra £5 million for apprenticeships and we're providing a further £5 million to support an additional 2,500 apprenticeships next year. So, it is about ensuring that we can reach out to all sectors. And, of course, in terms of the opportunities for those people who perhaps want to go into part-time education and further progression in terms of education, further education often provides that route. But I do think it's important also to recognise that we made the decision to put an additional £10 million in the budget for next year to ensure that no Welsh student faces tuition fees above the basic level, and we do continue that existing student support provision.

Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod wedi wynebu penderfyniadau anodd o ran ein blaenoriaethau. Mae'n bwysig iawn cydnabod bod y gyllideb addysg bellach ar gyfer 2016-17 wedi'i diogelu rhag toriadau. Gwn y byddwch yn croesawu hynny, a'ch bod wedi gwneud hynny, a'n bod hefyd wedi darparu £5 miliwn yn ychwanegol ar gyfer prentisiaethau. Byddwn yn darparu £5 miliwn arall i gefnogi 2,500 o brentisiaethau ychwanegol y flwyddyn nesaf. Felly, mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd pob sector. Ac wrth gwrs, o ran y cyfleoedd i bobl sydd o bosibl yn dymuno cael addysg ran-amser a chamu ymlaen ymhellach yn eu haddysg, yn aml gall addysg bellach ddarparu'r llwybr hwnnw. Ond credaf ei bod yn bwysig cydnabod hefyd ein bod wedi gwneud y penderfyniad i roi £10 miliwn yn ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr o Gymru yn wynebu ffioedd dysgu uwch na'r lefel sylfaenol, a'n bod yn parhau i ddarparu'r cymorth hwnnw sydd ar gael ar hyn o bryd i fyfyrwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae'r diwydiant cyhoeddi llyfrau yn wynebu 10 y cant o doriad yn eich cyllideb ddrafft chi. Mae hyn yn mynd i effeithio yn uniongyrchol, wrth gwrs, ar y cyngor llyfrau, ond hefyd yn mynd i effeithio ar ysgrifenyddwyr yng Nghymru, ac ar y busnesau cyhoeddi ac argraffu yng Nghymru, fel Y Lolfa, Parthian, Golwg, Gomer ac eraill yn fy etholaeth i. Rŷm ni wedi gweld cynnydd ardderchog dros y 10 i 15 mlynedd diwethaf yma yn yr ystod ac amrywiaeth o lyfrau sydd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru, ac mae'r cynnydd yna o dan beryg gyda toriad ar y raddfa annisgwyl yma. Cyn cymryd y penderfyniad felly i dargedu toriad o 10 y cant ar y sector benodol yma, pa asesiad wnaethoch chi o sefyllfa economaidd toriad ar y raddfa yma ar fusnesau?

Minister, the books publishing industry is facing a 10 per cent cut in your draft budget, and this will have a direct impact on the Welsh Books Council, of course, but it will also have an impact on authors in Wales and on publishers and printers, such as Y Lolfa, Parthian, Golwg, Gomer and others in my constituency. We've seen huge progress over the past 10 to 15 years in the range and variety of books published in both Welsh and English in Wales, and that increase is put at risk with a cut of this unexpected scale. Prior to taking the decision to target a cut of 10 per cent in this particular sector, what assessment did you carry out of the economic impact of a cut of this scale on businesses?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, we do not wish, as Welsh Government, to be in the position of making these tough decisions in terms of cuts to very important parts of our sectors in terms of education and the book publishing industry, not just in terms of the opportunities for authors and writers, but also, for the businesses and the advice that they get. But, clearly, we have had a tough budget, and these decisions will have been considered in relation to impact assessments, which, of course, are afforded to all our budget decisions.

Yn amlwg, fel Llywodraeth Cymru, nid ydym yn dymuno bod mewn sefyllfa lle rydym yn gwneud y penderfyniadau anodd hyn o ran toriadau i rannau pwysig iawn o'n sectorau yn nhermau addysg a'r diwydiant cyhoeddi llyfrau, nid yn unig o ran y cyfleoedd i awduron a llenorion, ond hefyd o ran y busnesau a'r cyngor y maent yn ei gael. Ond yn amlwg, rydym wedi cael cyllideb anodd, a bydd y penderfyniadau hyn wedi cael eu hystyried yng ngoleuni asesiadau effaith a gynhelir, wrth gwrs, mewn perthynas â phob un o'n penderfyniadau cyllidebol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:43

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call the party spokespeople to question the Minister, starting this week with the Welsh Conservative spokesperson, Nick Ramsay.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, gan ddechrau yr wythnos hon gyda llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. Minister, what discussions have you had with the Minister for Public Services on mitigating the 2 per cent cut to the local government budget?

Diolch. Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â lliniaru'r toriad o 2 y cant i gyllideb llywodraeth leol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is not only the Minister for Public Services. The settlement—which wasn't 2 per cent; it was 1.4 per cent—has been widely welcomed. Everywhere I have been meeting with people over the past few weeks, it has been, within local government, a huge relief that we have been in the position where we made that decision to ensure that the cuts that were forecast and anticipated for local government did not take place.

Nid gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn unig. Mae'r setliad—nad oedd yn 2 y cant; roedd yn 1.4 y cant—wedi cael croeso mawr. Ym mhob man y bŵm yn cyfarfod â phobl yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, gwelwyd rhyddhad enfawr o fewn llywodraeth leol ein bod wedi bod mewn sefyllfa i wneud y penderfyniad i sicrhau na fyddai'r toriadau a ragwelwyd ac a ddisgwyliwyd ar gyfer llywodraeth leol yn digwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that answer. That's the first time I've heard local government welcoming a cut to their budget; you're obviously speaking to different people to me. That cut is clearly going to cause serious hardship, but worst of all, as I'm sure you're aware, that hardship is going to be unevenly spread, and will disproportionately affect rural authorities in Wales. I've got a breakdown of the settlements for the 22 authorities here: Ceredigion is down 3.4 per cent, my own authority of Monmouthshire is down 3.1 per cent and Powys is down a whacking 4.1 per cent—that's a good bit of bargaining from the Liberal Democrats there. Why is your Government hellbent on penalising rural areas of Wales?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Dyna'r tro cyntaf i mi glywed llywodraeth leol yn croesawu toriad i'w cyllideb; rydych yn siarad â phobl wahanol i mi, yn amlwg. Mae'r toriad hwnnw'n amlwg yn mynd i achosi caledi difrifol, ond yn waeth na dim, fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, bydd y caledi hwnnw wedi'i daenu'n anwastad, a bydd yn effeithio'n anghymesur ar awdurdodau gwledig yng Nghymru. Mae gennyf ddadansoddiad o'r setliadau ar gyfer y 22 awdurdod yma: mae Ceredigion i lawr 3.4 y cant, mae fy awdurdod i, sef Sir Fynwy, i lawr 3.1 y cant a Phowys i lawr yn aruthrol, 4.1 y cant—bargeinio da gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Pam y mae eich Llywodraeth yn benderfynol o gosbi ardaloedd gwledig Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I just say that, in terms of the response from the Welsh Local Government Association on 9 December, councillor Bob Wellington said:

'Times remain tough, but this settlement at least shows that Welsh Government Ministers are listening to local government leaders and working with us to protect local services from the worst impacts of austerity. Today's settlement offers a welcome slow-down in the daunting level of budget cuts...'

So, perhaps you'd like to also speak to your leader who, I'm sure, also would have welcomed the settlement in terms of the tough challenges that we had from the spending review from the Conservative UK Government.

Of course, in terms of looking at the situation, we are now in the period when we can consider the impact of the provisional local government settlement. I believe the Minister for Public Services also attended committee this morning, and now is the time to consider these issues. You know perfectly well that the formula is a formula that is agreed each year in partnership with local government, local authorities and the Welsh Local Government Association, who are represented on the group that considers changes to the formula, including independent members as well. This is a provisional local government settlement; it's currently being consulted upon and discussions will take place as part of that process.

A gaf fi ddweud, o ran yr ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 9 Rhagfyr, fod y cynghorydd Bob Wellington wedi dweud:

'Rydyn ni'n wynebu talcen caled o hyd ond mae'r dyraniad yma'n dangos, o leiaf, fod Gweinidogion Cymru yn gwrandao ar arweinyddion y cynghorau lleol ac yn cydweithio â ni i ddiogelu gwasanaethau lleol rhag effeithiau gwaethaf llymder. Rhaid croesawu'r dyraniad yma sy'n dangos bod toriadau cyllidebol ym maes llywodraeth leol wedi arafu ychydig...'

Felly, efallai yr hoffech siarad hefyd â'ch arweinydd a fyddai, rwy'n siŵr, wedi croesawu'r setliad o ran yr heriau anodd a gawsom o'r adolygiad o wariant gan Lywodraeth Geidwadol y DU.

Wrth gwrs, o edrych ar y sefyllfa, rydym yn awr yn y cyfnod lle y gallwn ystyried effaith y setliad llywodraeth leol dros dro. Credaf fod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mynychu'r pwyllgor y bore yma hefyd, a nawr yw'r amser i ystyried y materion hyn. Gwyddoch yn iawn fod y fformiwla yn fformiwla y cytunir arni bob blwyddyn mewn partneriaeth â llywodraeth leol, awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n cael eu cynrychioli yn y grŵp sy'n ystyried newidiadau i'r fformiwla, gan gynnwys aelodau annibynnol hefyd. Setliad llywodraeth leol dros dro yw hwn; mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a bydd trafodaethau yn cael eu cynnal yn rhan o'r broses honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I'm sure that Councillor Bob Wellington is pleased with the fact that Torfaen has only had a 1.7 per cent cut. However, councillor Peter Fox from Monmouthshire is far less pleased with his 3.1 per cent cut in Monmouthshire. You only have to look at the figures for urban areas to see the disparity with the so-called party of fairness. Cardiff is down 0.1 per cent, Newport is down 0.7 per cent and Merthyr Tydfil is down 0.9 per cent—coincidentally, all Labour local authorities. I think the people of Wales, Minister, deserve to know why this Welsh Government continues to allow rural authorities to be hardest hit. Isn't it time for a new local government formula that recognises the costs associated with delivering services over larger rural areas? Sadly, isn't the message that this budget, draft or not, is sending out to the people of Wales one that says 'the Welsh Government doesn't really give a toss about rural Wales, does it'?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n siŵr fod y Cynghorydd Bob Wellington yn falch mai toriad o 1.7 y cant yn unig y mae Torfaen wedi'i gael. Fodd bynnag, mae'r cynghorydd Peter Fox o Sir Fynwy yn llawer llai bodlon â'r toriad o 3.1 y cant yn Sir Fynwy. Nid oes ond yn rhaid i chi edrych ar y ffigurau ar gyfer ardaloedd trefol i weld yr anghyfartalwch gan 'y blaidd deg' honedig. Mae Caerdydd i lawr 0.1 y cant, mae Casnewydd i lawr 0.7 y cant a Merthyr Tudful i lawr 0.9 y cant—pob un yn digwydd bod yn awdurdod lleol Llafur. Credaf fod pobl Cymru, Weinidog, yn haeddu cael gwybod pam y mae'r Llywodraeth hon yn parhau i ganiatáu i awdurdodau gwledig ddioddef fwyaf. Onid yw'n bryd cael fformiwla llywodraeth leol newydd sy'n cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig mwy o faint? Yn anffodus, onid y neges y mae'r gyllideb hon, drafft neu beidio, yn ei hanfon at bobl Cymru yw nad yw Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yn malio dim am y Gymru wledig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I know things are getting very excitable as we approach the election, but language is important and elegance is important for proper political dialogue. So Members better watch it, including you, Mr Ramsay.

Trefn. Gwn fod pethau'n cynhyrfu cryn dipyn wrth i ni nesáu at yr etholiad, ond mae iaith yn bwysig a gwedduster yn bwysig mewn trafodaeth wleidyddol briodol. Felly byddai'n well i'r Aelodau fod yn ofalus, gan eich cynnwys chi, Mr Ramsay.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would also like to quote directly from councillor Peter Fox, your leader and the Welsh Local Government Association Conservative group leader, because he also said in that response:

'The announcement of the local government settlement shows that while the Welsh Government have listened on a number of key issues raised by local government, we clearly still need to fundamentally review the funding formula and take into account the needs of rural communities.'

He is recognising that he has a responsibility, as local government does, which I welcome. I also very much welcome Councillor Peter Fox's—your leader's—very full involvement in what is going to progress as a very important opportunity with the city deal for the region that you are part of.

Hoffwn hefyd ddyfynnu'r cynghorydd Peter Fox, eich arweinydd ac arweinydd grŵp Ceidwadol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn uniongyrchol, gan iddo ddweud hefyd yn yr ymateb hwnnw:

'Mae'r dyraniad yma'n dangos bod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar y cynghorau lleol ynglŷn â nifer o faterion allweddol, ond mae'n amlwg bod angen adolygu craidd y fformiwla ariannu a chymryd anghenion cymunedau cefn gwlad i ystyriaeth.'

Mae'n cydnabod bod cyfrifoldeb ganddo, fel sydd gan lywodraeth leol, a chroesawaf hynny. Croesawaf hefyd ymwneud llawn y Cynghorydd Peter Fox—eich arweinydd—yn yr hyn sy'n mynd i ddatblygu'n gyfle pwysig iawn gyda'r cytundeb dinas ar gyfer eich ardal chi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Yn awr, llefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn dilyn y llifogydd diweddar yma a'r £3.5 miliwn sydd wedi'i addo i gynghorau Cymru, o ble y mae'r arian hwnnw'n dod? A yw'n dod o gyllidebau adrannol neu o arian wrth gefn?

Following recent floods and the £3.5 million that's been pledged to Welsh councils, where is that funding coming from? Is it coming from departmental budgets or from reserves?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That money is allocated as a result of decisions by the Minister for Natural Resources in terms of his budget flexibilities.

Mae'r arian hwnnw'n cael ei ddyrannu o ganlyniad i benderfyniadau gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn ôl ei hyblygrwydd cyllidebol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:49 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n cymryd, felly, mai arian sydd eisoes wedi'i glustnodi yn y gyllideb ydy'r £3.5 miliwn hynny. Mae'r Prif Weinidog wedi addo, ac rwy'n credu y bu cadarnhad yma ddoe, y bydd cynllun atal llifogydd Tal-y-bont a'r A55 gerllaw yn cael ei ariannu'n llawn. Buaswn yn hoffi cadarnhad o hynny. A yw'r arian hwnnw'n dod o gyllidebau'r adran drafnidiaeth ac adran yr amgylchedd?
- I assume, therefore, that the £3.5 million is funding already delegated within the budget. The First Minister has pledged, and I think there was confirmation of this yesterday, that the Talybont and nearby A55 flood prevention scheme will be fully funded. I would like confirmation of that. Is that funding coming from the budgets of the transport and environment departments?
- 13:49 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We have made decisions, particularly in responding to the very difficult adverse flooding that took place after Christmas. As you know, it's not just the £2.3 million; we've already also announced £1 million for local authorities for immediate repairs and maintenance for homes and properties. And, of course, the Minister responded in full yesterday in terms of the flood events and the allocation of funding that we're making available.
- Rydym wedi gwneud penderfyniadau, yn enwedig wrth ymateb i'r llifogydd difrifol a ddigwyddodd ar ôl y Nadolig. Fel y gwyddoch, mae'n fwy na'r £2.3 miliwn; rydym eisoes hefyd wedi cyhoeddi £1 miliwn i awdurdodau lleol tuag at atgyweirio a chynnal a chadw cartrefi ac eiddo. Ac wrth gwrs, ymatebodd y Gweinidog yn llawn ddoe ar y llifogydd a dyraniad y cyllid rydym yn ei ryddhau.
- I think what is very important is that we recognise that the flood allocation also includes funding from the European Union. That, of course, is very important in terms of the improvements to the A55 and recognising the issues there in terms of flooding and funding needs.
- Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni gydnabod bod y dyraniad llifogydd hefyd yn cynnwys arian gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae hwnnw, wrth gwrs, yn bwysig iawn o ran y gwelliannau i'r A55 a chydabod y problemau yno o ran llifogydd ac anghenion cyllid.
- 13:50 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wel, diolch am yr ateb, heblaw nad oedd o'n ateb i'r cwestiwn a ofynnais i. Rydych chi wedi cadarnhau bod y £3.5 miliwn sydd wedi'i glustnodi ar gyfer awdurdodau lleol yn mynd i ddod allan o arian sydd wedi'i glustnodi eisoes i'r adran amgylchedd. A allwch chi ddweud wrthyf a ydy'r arian ar gyfer cynllun Tal-y-bont a'r A55 gerllaw yn dod o'r £3.5 miliwn yna, neu a ydy o'n ychwanegol at y swm yna?
- Thank you for that response, although it wasn't an answer to the question that I asked. You've confirmed that the £3.5 million that has been set aside for local authorities is going to come from funding already allocated to the environment department. Can you tell me whether the funding for the scheme at Talybont and the nearby A55 is coming from that £3.5 million, or is it additional to that sum of money?
- 13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the Minister for Economy, Science and Transport has written to all Assembly Members advising them of the work that's ongoing between officials and Gwynedd Council on that scheme. It is a scheme to alleviate the effects of floodwater on Talybont and the adjacent A55. Gwynedd Council have been provided with the funding to progress on a detailed design of that scheme. And, of course, in being able to again respond to your questions, the Welsh Government has provided nearly £47 million to carry out improvements to the A55, £42 million to fund ongoing improvements to the tunnels, and previously £4.6 million for work on the Britannia bridge, safe havens and also emergency cross-overs. So, I think, just back to the EU funding contribution, which I know you would welcome, together with Welsh Government and EU funds, improvements to the A55 will be in the region of circa £50 million.
- Wel, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad yn eu hysbysu am y gwaith sydd ar y gweill rhwng swyddogion a Chyngor Gwynedd ar y cynllun hwnnw. Mae'n gynllun i liniaru effeithiau llifddwr yn Nhalybont ac ar yr A55 gerllaw. Mae cyllid wedi'i roi i Gyngor Gwynedd i fwrw ymlaen â dyluniad manwl o'r cynllun hwnnw. Ac wrth gwrs, o ran gallu ymateb eto i'ch cwestiynau, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bron i £47 miliwn ar gyfer gwneud gwelliannau i'r A55, gyda £42 miliwn i ariannu gwelliannau parhaus i'r twneli, a £4.6 miliwn cyn hynny ar gyfer gwaith ar bont Britannia, arosfannau diogel a chroesfannau argyfwng. Felly, i ddychwelyd at gyfraniad cyllid yr UE, y gwn y byddech yn ei groesawu, ynghyd ag arian Llywodraeth Cymru a'r UE, rwy'n meddwl y bydd y gwelliannau i'r A55 rywle oddeutu £50 miliwn.
- 13:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Now the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Yn awr, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

- 13:52 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, can you confirm that Her Majesty's Revenue and Customs remains your preferred deliverer of the new Welsh tax powers that will be coming to us in 2018?
- Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, a allwch gadarnhau y bydddech yn dal i ffafrio Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer darparu'r pwerau treth newydd a fydd yn dod i ni yng Nghymru yn 2018?
- 13:52 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think it's still early days in terms of the final decision, which, of course, will be a final decision made by the Welsh revenue authority. Of course, you know that we have said that HMRC is, for us, at this stage in time, a preferred provider, but a great deal has to be done and a final decision will be made by the next Government.
- Credaf ei bod yn dal yn ddyddiau cynnar o ran y penderfyniad terfynol, a fydd, wrth gwrs, yn benderfyniad terfynol a wneir gan awdurdod cyllid Cymru. Wrth gwrs, fe wyddoch ein bod wedi dweud ein bod yn ffafrio CThEM fel darparwr ar hyn o bryd, ond mae llawer iawn i'w wneud a bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Llywodraeth nesaf.
- 13:53 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that, Minister. I hope the next Government is able to take into account the service standards that HMRC are currently delivering. A recent survey by the Institute of Chartered Accountants in England and Wales of all their members found that HMRC's service standards remain below an acceptable level. Do you accept that there is a concern that the level of service that HMRC provides for those using its services is below par and that this may impact upon the successful roll-out of the new tax powers when they come?
- Diolch, Weinidog. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth nesaf yn gallu ystyried safon y gwasanaethau y mae CThEM yn eu darparu ar hyn o bryd. Canfu arolwg diweddar gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr o'u holl aelodau fod safon gwasanaeth CThEM yn parhau i fod islaw'r lefel dderbyniol. A ydych yn cydnabod y pryder fod CThEM yn darparu lefel anfodddhaol o wasanaeth i'r rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau ac y gall hyn amharu ar y broses o gyflwyno pwerau treth newydd yn llwyddiannus pan fyddant yn dod?
- 13:53 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I do think the issues around service standards are very important. In terms of service standards—and I said the final decision would have to be made by the next Government—it will very much depend on HMRC's ability to meet those required customer service standards, and of course, the associated costs as well. I think it's very important that we look at the series of options that we've got to ensure that Welsh devolved tax payers do receive the appropriate level of service on both land transaction tax and landfill disposals tax.
- Credaf fod y materion sy'n codi ynglŷn â safon y gwasanaeth yn bwysig iawn. O ran safon y gwasanaeth—a dywedais y byddai'n rhaid i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Llywodraeth nesaf—bydd yn dibynnu'n fawr ar allu CThEM i fodloni'r safonau gofynnol o ran gwasanaeth cwsmeriaid, ac wrth gwrs, y costau cysylltiedig hefyd. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni edrych ar yr holl opsiynau sydd gennym er mwyn sicrhau bod trethdalwyr datganoledig Cymru yn cael y lefel briodol o wasanaeth mewn perthynas â threth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi.
- 13:54 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I wrote to HMRC following their proposal to reorganise all the offices in Wales, asking them a series of questions about how that service will now be delivered once it's all centralised in Cardiff. I was particularly concerned in terms of the answer I had that, as yet, they hadn't determined how they were to deliver their services through the medium of Welsh once that service is reorganised. That indicates to me that HMRC do not have a mindset whereby they consider a bilingual service, which is going to be crucial to the delivery of the new tax-collecting powers that we will have.
- Diolch am eich ateb, Weinidog. Ysgrifennais at CThEM yn dilyn eu cynnig i ad-drefnu eu holl swyddfeydd yng Nghymru, yn holi nifer o gwestiynau ynglŷn â sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar ôl ei ganoli yng Nghaerdydd. Roeddwn yn arbennig o bryderus ynghylch yr ateb a gefais nad ydynt wedi penderfynu sut y byddant yn darparu eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl i'r gwasanaeth gael ei ad-drefnu. Mae hynny'n awgrymu i mi nad yw CThEM wedi bwrw iddi i ystyried gwasanaeth dwyieithog, a fydd yn rhan hanfodol o gyflawni ein pwerau casglu treth newydd.
- Can I ask you, or the next Government, to make it a priority, when you determine who will be collecting these taxes, that bilingual services are absolutely crucial to that and that we would expect whoever collects those taxes to be able to deal with customers through the medium of English or Welsh?
- A gaf fi ofyn i chi, neu'r Llywodraeth nesaf, i'w gwneud yn flaenoriaeth, pan fyddwch yn penderfynu pwy fydd yn casglu'r trethi hyn, i sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog yn rhan gwbl allweddol o hyn ac y dylem ddisgwyl i bwy bynnag sy'n casglu'r trethi hynny allu delio â chwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg?

13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm very glad to have the opportunity to confirm, again, that the First Minister wrote in November to the Financial Secretary to the Treasury to express his concerns about the impact of the HMRC closures, not just the impact it would have on rural communities in Wales in terms of jobs, but also on the Welsh language. HMRC obviously have existing Welsh language capacity. They have confirmed that they will work with us and the Welsh revenue authority to establish the requirements and costs for a Welsh-language service in relation to land transaction tax. They will, of course, have to consider the standards of the Welsh Language Commissioner in due course.

Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i gadarnhau, unwaith eto, fod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu ym mis Tachwedd at Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys i fynegi ei bryderon ynglŷn ag effaith cau swyddfeydd CThEM, ac nid effaith hynny ar gymunedau gwledig Cymru o ran swyddi yn unig, ond hefyd ar yr iaith Gymraeg. Mae'n amlwg fod capasiti iaith Gymraeg gan CThEM eisoes. Maent wedi cadarnhau y byddant yn gweithio gyda ni ac awdurdod cyllid Cymru i bennu gofynion a chostau gwasanaeth Gymraeg mewn perthynas â threth trafodiadau tir. Wrth gwrs, bydd yn rhaid iddynt ystyried safonau Comisiynydd y Gymraeg maes o law.

Portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus

The Public Services Portfolio

13:56 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0641(FIN)

3. Will the Minister make a statement on the allocation of funding to the public services portfolio? OAQ(4)0641(FIN)

13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The allocation to the public services portfolio was included in the draft budget, 'Fairer, Better Wales—Investing for the Future', which I published on 8 December.

Mae'r dyraniad i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus wedi ei gynnwys yn y gyllideb ddrafft, 'Cymru Decach, Cymru Well—Buddsoddi at y Dyfodol', a gyhoeddais ar 8 Rhagfyr.

13:56 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm grateful to the Minister for that answer. The Welsh Local Government Association has made it clear that the proposed council mergers by your party could cost up to £268 million. In light of the WLGA's figures, can you tell us what specific cost analysis and assessment you've made of the proposals for local government reorganisation in your role as finance Minister? Can you also tell us where exactly you are going to find this money, should these unwanted proposals go ahead?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud yn glir y gallai'r broses a gynigiwyd gan eich plaid o uno'r cynghorau gostio hyd at £268 miliwn. Yng ngoleuni ffigurau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a allwch ddweud wrthym pa ddadansoddiadau ac asesiadau penodol o gost a wnaethoch o'r cynigion ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol yn eich rôl fel Gweinidog cyllid? A allwch ddweud wrthym hefyd ble yn union y bwriadwch ddod o hyd i'r arian hwn, pe bai'r cynigion diangen hyn yn mynd yn eu blaenau?

13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, of course, this is fully explained and accounted for in the regulatory impact assessment.

Wel, wrth gwrs, mae hyn wedi'i gofnodi a'i egluro'n llawn yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

Prosiectau Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

European Structural Fund Projects

13:57 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog nodi manylion prosiectau cronfeydd strwythurol Ewropeaidd a gymeradwywyd yn ddiweddar yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0649(FIN)

4. Will the Minister provide details of recent European structural fund project approvals in South Wales West? OAQ(4)0649(FIN)

13:57 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Recent EU investments benefiting South Wales West include Swansea University's Materials and Manufacturing Academy and leading business growth projects, the marine sector WaveSub project, and a number of pan-Wales skills, employment and business support projects.

Mae buddsoddiadau diweddar gan yr UE sydd o fudd i Orllewin De Cymru yn cynnwys Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Prifysgol Abertawe a phrosiectau twf busnes blaenllaw, prosiect WaveSub y sector morol, a nifer o brosiectau sgiliau, cyflogaeth a chymorth i fusnesau ledled Cymru.

13:57

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. There are many ESF projects in the South Wales West region that have benefited our areas and the economy of our areas. As you pointed out, last week, you visited Swansea University's new bay campus to actually launch the Materials and Manufacturing Academy, an innovative project to nurture and develop future captains of our industry. Such projects will provide potential investors and entrepreneurs with the confidence that Wales has the ability and skills to strengthen the engineering and advanced materials sectors, which can create jobs and grow our economy. Do you agree that such projects demonstrate the importance of being in the EU and how partnerships between industry, Government and higher education can actually build upon the EU funds?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Ceir llawer o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn rhanbarth Gorllewin De Cymru sydd wedi bod o fudd i'n hardaloedd ac economi ein hardaloedd. Fel y dywedoch, yr wythnos diwethaf, fe fuoch ar ymweliad â champws bae newydd Prifysgol Abertawe i lansio'r Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu, prosiect arloesol i feithrin a datblygu arweinwyr ein diwydiant yn y dyfodol. Bydd prosiectau o'r fath yn rhoi hyder i ddarpar fuddsoddwyr ac entrepreneuriaid fod y gallu a'r sgiliau yng Nghymru i gryfhau'r sectorau peirianeg ac uwch ddeunyddiau, sy'n gallu creu swyddi a thyfu ein heconomi. A ydych yn cytuno bod prosiectau o'r fath yn dangos pwysigrwydd bod yn rhan o'r UE a'r modd y gall partneriaethau rhwng diwydiant, y Llywodraeth ac addysg uwch adeiladu ar gyllid yr UE?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do agree, David Rees, and, of course, the Swansea innovation campus, supported by EU and Welsh Government funds, would not be there—. It's a world-class campus. It's helping to generate around £3 billion of economic impact in the region—that's what's anticipated in the next 10 years. Quite clearly, it would not be there if we were not part of the European Union. But I think what's important about the visit I made, when I announced that £8.6 million, is the discussions I had with businesses, including Tata Steel and Weartech International, for example, based in Port Talbot, which are now enabling the research projects to take place as a result of the funding. This is a successor to the very successful EU-funded project, STRIP—Steel Training Research and Innovation Partnership.

Rwy'n cytuno, David Rees, ac wrth gwrs, ni fyddai campws arloesi Abertawe, a gefnogir gan arian yr UE a Llywodraeth Cymru, yn bodoli—. Mae'n gampws o safon fyd-eang. Mae'n helpu i greu tua £3 biliwn o effaith economaidd yn y rhanbarth—dyna a ragwelir yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Yn amlwg, ni fyddai yno oni bai ein bod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Ond credaf mai'r hyn a oedd yn bwysig am fy ymweliad, pan gyhoeddais yr £8.6 miliwn hwnnw, yw'r trafodaethau a gefais gyda busnesau, gan gynnwys Tata Steel a Weartech International, er enghraifft, o Bort Talbot, sydd bellach yn galluogi i'r prosiectau ymchwil ddiwydd o ganlyniad i'r cyllid. Mae hwn yn olynydd i'r prosiect llwyddiannus iawn a ariannwyd gan yr UE, STRIP—Partneriaeth Ymchwil ac Arloesi Hyfforddiant Dur.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government website states that European structural funds are available for north and west Wales, the Valleys and east Wales. On the back of concerns raised by a forward-thinking firm in my region about the level of detail on the website, my office contacted WEFO, who were unable to say what ESF funding streams applied in my region at all, even though a considerable part of my region is clearly made up of valleys. The public sector may be familiar with WEFO, but if that's the response to an AM's office, Minister, how would a curious and ambitious private business in my region engage effectively with WEFO to find out whether they were eligible for inclusion in any ESF funding programme or priority?

Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn nodi bod cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gael ar gyfer gogledd a gorllewin Cymru, y Cymoedd a dwyrain Cymru. Yn sgil y pryderon a fynegwyd gan gwmni blaengar yn fy rhanbarth ynglŷn â lefel manylder y wefan, cysylltodd fy swyddfa â WEFO, ac ni allent ddweud pa ffrydiau ariannu Cronfa Gymdeithasol Ewrop a oedd yn gymwys yn fy rhanbarth, er bod rhan sylweddol o fy rhanbarth yn cynnwys y cymoedd wrth gwrs. Efallai fod y sector cyhoeddus yn gyfarwydd â WEFO, ond os mai dyna'r ymateb i swyddfa AC, Weinidog, sut y gallai busnes preifat chwilfrydig ac uchelgeisiol yn fy rhanbarth ymgysylltu'n effeithiol â WEFO i gael gwybod a ydynt yn gymwys i gael eu cynnwys yn unrhyw un o raglenni ariannu neu flaenoriaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:59

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Businesses are fully engaged with WEFO, and I've already given some examples of businesses that I met last week. I do urge you, Suzy Davies, to go and see the impact of this new announcement I made on European funding. But I only have to, for example, mention Swansea-based Marine Power Systems, benefiting from £2 million of EU funds to develop a new wave technology, WaveSub, that's harnessing energy from ocean waves. The EU-funded BEACON project also benefits the Swansea-based Innoture Medical Technology Ltd, companies such as not only Tata but BASF Coatings Ltd and General Electric, and, further into Llanelli, AnalysisPro Ltd. The private sector wants to proclaim and engage with us in terms of opportunities, and also showing what EU funds have meant for them.

Mae busnesau'n ymgysylltu'n llawn â WEFO, ac rwyf eisoes wedi rhoi rhai enghreifftiau o fusnesau y cyfarfûm â hwy yr wythnos diwethaf. Rwy'n eich annog, Suzy Davies, i fynd i weld effaith fy nghyhoeddiad newydd ar gyllid Ewropeaidd. Nid oes ond yn rhaid i mi grybwyll, er enghraifft, Marine Power Systems yn Abertawe, sy'n elwa o £2 filiwn o gyllid gan yr UE i ddatblygu technoleg tonnau newydd, WaveSub, sy'n manteisio ar ynni o donnau'r môr. Mae'r prosiect BEACON a ariennir gan yr UE hefyd o fudd i Innoture Medical Technology Ltd yn Abertawe, cwmnïau fel Tata a BASF Coatings Ltd a General Electric, ac ymhellach i mewn i Lanelli, AnalysisPro Ltd. Mae'r sector preifat yn awyddus i gyhoeddi cyfleoedd ac i ymgysylltu â ni yn eu cylch, ac i ddangos hefyd yr hyn y mae arian yr UE wedi'i olygu iddynt hwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, New Sandfields Aberavon and Afan-Community Regeneration were awarded £231,000 last summer, aimed at increasing tourism on Aberavon seafront, something which, when I knock doors in the area, is something that they wanted to see developed, and rightly so. Can you say how many projects have been delivered in that time, and how that has translated, or is going to translate, into benefits for the community and the businesses along the seafront there?

Weinidog, dyfarnwyd £231,000 i'r Cynllun Newydd i Adfywio Cymuned Sandfields Aberafan ac Afan yr haf diwethaf, gyda'r nod o gynyddu twristiaeth ar lan y môr yn Aberafan, rhywbeth yr oedd pobl am ei weld yn cael ei ddatblygu pan fûm yn curo ar ddrysau'r ardal, a hynny'n ddigon teg. A allwch chi ddweud sawl prosiect sydd wedi'i gyflawni yn y cyfnod hwnnw, a sut y mae hynny wedi trosi, neu'n mynd i drosi'n fanteision i'r gymuned a'r busnesau ar hyd glan y môr yno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm grateful for that question because it gives me the opportunity to state that we've already announced EU investments worth over £440 million, driving a total investment of £965 million across Wales. But, of course, that drills down to the very local projects, which will make a difference in terms of Aberavon seafront. But the 25 per cent of our funds have already been approved in this new programme, and 57 projects. That does range from the kind of projects I've mentioned benefiting business and university to those projects that actually reach people, for example, people in South West Workways, which you will be very well aware of, which helps long-term unemployed and economically inactive people back into work.

Wel, rwy'n ddiolchgar am eich cwestiwn gan ei fod yn rhoi cyfle i mi ddatgan ein bod eisoes wedi cyhoeddi gwerth dros £440 miliwn o fuddsoddiadau gan yr UE, i greu cyfanswm o £965 miliwn o fuddsoddiad ledled Cymru. Ond wrth gwrs, mae hwnnw'n treiddio i lawr i'r prosiectau lleol iawn a fydd yn gwneud gwahaniaeth o ran glan y môr yn Aberafan. Ond mae 25 y cant o'n cyllid eisoes wedi'i gymeradwyo yn y rhaglen newydd hon, a 57 o brosiectau. Mae hynny'n amrywio o'r math o brosiectau rwyf wedi'u crybwyll sydd o fudd i fusnesau a phrifysgolion i brosiectau sy'n cyrraedd pobl mewn gwirionedd, fel pobl Gweithffyrdd y De-orllewin, y byddwch yn ymwybodol iawn ohonynt, sy'n helpu pobl sy'n ddi-waith yn hirdymor a phobl economaidd anweithgar i gael gwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

Financial Reserves

14:01

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa waith monitro y mae adran y Gweinidog yn ei wneud ar y cronfeydd ariannol wrth gefn sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yn ystod blwyddyn ariannol?
OAQ(4)0642(FIN)

5. What monitoring does the Minister's department undertake on the financial reserves available to public bodies during a financial year? OAQ(4)0642(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government has a strong record of financial management and control. These controls include regular monitoring by my officials of expenditure against budgets scrutinised and approved by this Assembly.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cadarn o reoli cyllid a rheolaeth ariannol. Mae'r rheolaethau hyn yn cynnwys gwaith rheolaidd gan fy swyddogion ar fonitro gwariant yn erbyn cyllidebau a greffir ac a gymeradwyir gan y Cynulliad hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, what allowance would the Government allow local authorities to use those reserves to help them stop higher-than-inflation council tax increases in particular? The Vale of Glamorgan Council, for example, in your constituency and in my electoral region, has a very generous allocation of reserves, and ratepayers, year on year for the last couple of years, have had excessive rate rises. Would the Welsh Government, under the guidance it gives, allow for those reserves in part to be used to mitigate some of the increase that ratepayers might face this year?</p>	<p>Weinidog, pa ystyriaeth y byddai'r Llywodraeth yn ei roi i adael awdurdodau lleol i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hynny i'w helpu, yn benodol, i atal codi'r dreth gyngor yn uwch na chwyddiant? Mae gan Gyngor Bro Morgannwg, er enghraifft, yn eich etholaeth chi ac yn fy rhanbarth etholiadol i, ddogn hael iawn o arian wrth gefn, ac mae'r trethi wedi codi'n ormodol i drethdalwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf. A fyddai Llywodraeth Cymru, o dan y canllawiau y mae'n eu darparu, yn caniatáu defnyddio ychydig o'r cronfeydd wrth gefn hynny'n rhannol er mwyn lliniaru peth o'r cynnydd y gallai trethdalwyr ei wynebu eleni?</p>
14:02	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think, in terms of local government, we recognise this is local government and taxpayers' money. Authorities have the responsibility to make effective use of funding to deliver services that they're responsible for, but also chief finance officers have a statutory duty to report as part of annual budget calculations that the authorities maintain the adequate reserves in terms of liabilities. It is clearly the responsibility of the local authority to consider these issues and how they not only spend their funding but also set their council tax, in line with, of course, the Minister for Public Services's guidance on these matters.</p>	<p>O ran llywodraeth leol, credaf ein bod yn cydnabod mai arian llywodraeth leol a'r trethdalwyr yw hwn. Mae gan yr awdurdodau gyfrifoldeb i wneud defnydd effeithiol o gyllid i ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, ond mae gan y prif swyddogion cyllid hefyd ddyletswydd statudol i adrodd, fel rhan o gyfrifiadau cyllideb blyneddol, fod yr awdurdodau'n sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol o ran rhwymedigaethau. Yn amlwg, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw ystyried y materion hyn, a sut y maent nid yn unig yn gwario eu cyllid ond hefyd yn gosod eu treth gyngor, yn unol â chanllawiau'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y materion hyn, wrth gwrs.</p>
	Yr A55	The A55
14:03	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>6. Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddyrannu i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth i wella'r A55? OAQ(4)0653(FIN)[W]</p>	<p>6. What additional funding will the Minister allocate to the economy, science and transport portfolio to improve the A55? OAQ(4)0653(FIN)[W]</p>
14:03	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Ers i mi gyhoeddi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, rydw i wedi dyrannu £42 miliwn ar gyfer atgyfnerthu a gwella diogelwch ar yr A55.</p>	<p>Since I published the Wales infrastructure investment plan, I have allocated £42 million for route resilience and safety improvements to the A55.</p>
14:04	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch. Rwy'n falch bod cyllid yn mynd i fod ar gael ar gyfer gwneud gwaith i atal llifogydd ar yr A55 ar ôl i'r ffordd gael ei gorfodi i gau eto yn ardal Tal-y-bont dros gyfnod y Nadolig, er mae'n ymddangos, o ateb cynharach, nad ydy hwn yn arian ychwanegol. Mi oedd hi'n gwbl amhriodol, os caf ddweud, i'r Prif Weinidog geisio taflu'r bai ar eraill am beidio â bod wedi gwneud y gwaith hwnnw yn gynt. Mi feiodd o'r cyn-Weinidog trafniadaeth, Ieuan Wyn Jones, gan honni ei fod o wedi canslo'r gwaith pan oedd y prosiect yr oedd Ieuan Wyn Jones yn cyfeirio ato fo mewn penderfyniad rhai blyneddol yn ôl yn ymwneud â rhan wahanol o'r A55. Nid ydy pobl yn dwp. Rwan, ydy'r Gweinidog cyllid yn cytuno bod angen ymddiheuro i Ieuan Wyn Jones yn hynny o beth a bod yn rhaid i'r Llywodraeth brofi ei hymrwymiad i'r A55 a phobl y gogledd drwy sicrhau bod prosesau yn digwydd yn llawer cyflymach i ryddhau arian ac arian ychwanegol i ddelio â materion brys fel llifogydd?</p>	<p>Thank you. I am pleased that funding is to be available for flood prevention work on the A55 after the road had to be closed again in the Talybont area over the Christmas period, although it appears, from an earlier response, that this is not additional funding. It was entirely inappropriate, if I may say so, for the First Minister to try to put the blame on others for not having done that work earlier. He blamed the former Minister for transport, Ieuan Wyn Jones, claiming that he had cancelled the work when the project that Ieuan Wyn Jones was referring to in a decision taken some years ago related to a different part of the A55. People are not stupid. Now, does the finance Minister agree that Ieuan Wyn Jones deserves an apology in that regard and that the Government has to prove its commitment to the A55 and the people of north Wales by ensuring that processes take place far more swiftly to release funding and additional funding to deal with urgent issues such as flooding?</p>

14:05

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I certainly want to be clear about our commitment to funding the A55, not just currently and in the future, but in the past. I have allocated £42 million over three years to accelerate an essential upgrade to the A55 Conwy tunnels improvements to ensure that that asset remains fit for purpose. Of course, in terms of the dreadful disruption for road users and people affected, as far as the A55 and flooding is concerned, we are working very closely, as the Minister said yesterday, with local authorities and partners, to find long-term solutions for some of the areas most prone to flooding. But I've already given information to Alun Ffred Jones in terms of the commitment we've made, including European funding, to address these issues, and I hope that is helpful in terms of the response in terms of our commitment to dealing with these issues.

Wel, rwy'n sicr am fod yn glir ynghylch ein hymrwymiad i ariannu'r A55, nid yn unig ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ond yn y gorffennol hefyd. Rwyf wedi dyrannu £42 miliwn dros dair blynedd i gyflymu'r broses hanfodol o uwchraddio'r gwelliannau i dwneli Conwy ar yr A55 er mwyn sicrhau bod yr ased hwnnw'n parhau i fod yn addas at y diben. Wrth gwrs, o ran tarfu ar ddefnyddwyr y ffordd a'r bobl sy'n cael eu heffeithio, o ran yr A55 a llifogydd, rydym yn gweithio'n agos iawn, fel y dywedodd y Gweinidog ddoe, gydag awdurdodau lleol a phartneriaid, i ddod o hyd i atebion hirdymor ar gyfer rhai o'r ardaloedd mwyaf agored i lifogydd. Ond rwyf eisoes wedi rhoi gwybodaeth i Alun Ffred Jones ynglŷn â'r ymrwymiad a wnaethom, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd, i fynd i'r afael â'r materion hyn, a gobeithiaf fod hwnnw'n ymateb defnyddiol o ran ein hymrwymiad i ymdrin â'r materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

North Wales residents are well aware of chronic gridlock issues on the A55. Following rejection of disastrous proposals for the Deeside corridor after the findings of a public inquiry in 2007, to which I gave evidence, the Welsh Government held public exhibitions last autumn on two proposed plans for easing congestion on the A494, A5 and A548 Deeside corridor now, but stated that the selection of the preferred route is expected before the end of 2016. What assurances can you therefore provide that the process is on course and will be funded—and the Welsh Government used the figure of £200 million—and when do you envisage diggers in the ground, actually working on this vital upgrade?

Mae trigolion Gogledd Cymru yn ymwybodol iawn o'r tagfeydd traffig parhaus ar yr A55. Wedi i'r cynigion trychinebus ar gyfer coridor Glannau Dyfrdwy gael eu gwrthod ar ôl canfyddiadau ymchwiliad cyhoeddus yn 2007, y rhoddais dystiolaeth iddo, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arddangosfeydd cyhoeddus yr hydref diwethaf o ddau gynllun arfaethedig i leddfu tagfeydd ar yr A494, yr A5 a choridor yr A548 yng Nglannau Dyfrdwy, ond dywedodd ei bod yn disgwyl i'r llwybr a ffafir gael ei ddewis cyn diwedd 2016. Pa sicrwydd y gallwch ei roi felly fod y broses ar y trywydd iawn ac y bydd yn cael ei hariannu—a defnyddiodd Llywodraeth Cymru y ffigur o £200 miliwn—a phryd ydych chi'n rhagweld y bydd y cloddwyr wrthi'n gweithio ar y gwaith uwchraddio hanfodol hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the Minister for Economy, Science and Transport has advised and updated Assembly Members on the work that's been undertaken, and also in terms of the timelines. And, of course, the Minister for Natural Resources yesterday was also able to respond to these issues. But I think it's important that, in my recent budget, which I announced on 8 September, I included £3 million for progressing flood protection work in St Asaph and £3 million for the coastal risk management programme. That's going to use innovative finance to fund £150 million of capital projects for coastal adaptation resilience to climate change.

Wel, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cynghori a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad am y gwaith a wnaed, a hefyd ynglŷn â'r amserlenni. Ac wrth gwrs, gallodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ymateb i'r materion hyn ddoe. Ond credaf ei bod yn bwysig, yn fy nghyllideb ddiweddar, a gyhoeddais ar 8 Medi, fy mod wedi cynnwys £3 miliwn ar gyfer datblygu'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn Llanelwy a £3 miliwn ar gyfer y rhaglen rheoli risg arfordirol. Bydd hynny'n defnyddio cyllid arloesol i ariannu £150 miliwn o brosiectau cyfalaf ar gyfer gwaith addasu arfordirol i allu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydych chi'n dweud eich bod yn cydweithio ag awdurdodau lleol ynglŷn â threfniadau ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd wedi cael eu heffeithio gan lifogydd ar hyd yr A55, ond wrth gwrs mae'r Prif Weinidog wedi cyfaddef nad yw'r A55 erbyn hyn wedi cael ei hadeiladu i safonau cyfoes. Felly, o gofio eich bod chi'n dweud eich bod chi'n mynd i wneud yn siŵr bod dyraniad teg rhwng y de a'r gogledd, ac ardaloedd eraill, o ran gwariant ar yr M4 os yw hynny'n mynd ymlaen, a ydych chi, fel Llywodraeth, wedi comisiynu gwaith i wneud yn sicr bod yr holl gynlluniau ar gyfer yr A55 yn cyfarfod â'r safonau newydd yma yr oedd y Prif Weinidog yn sôn amdanynt ddoe?

You state that you are collaborating with local authorities with regard to the arrangement for those areas impacted by floods along the A55, but of course the First Minister has admitted that the A55 by now hasn't been built to contemporary standards. Therefore, bearing in mind that you say you are going to ensure that there will be a fair allocation between north and south, and other areas as regards expenditure on the M4 if that goes forward, have you as a Government commissioned work to ensure that all the schemes for the A55 meet these new standards that the First Minister alluded to yesterday.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Well, that's absolutely clear: it is the responsibility of the Minister for Economy, Science and Transport to ensure that that is the case. I think it is very important as well that we recognise that, actually, with Welsh Government and EU funds, improvements to the A55 will be in the region of circa £50 million, as I've already said, and that has to be delivered to the highest standards.	Wel, mae hynny'n hollol glir: cyfrifoldeb Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw sicrhau bod hynny'n digwydd. Credaf ei bod yn bwysig iawn hefyd ein bod yn cydnabod y bydd gwelliannau gwerth oddeutu £50 miliwn i'r A55, gydag arian Llywodraeth Cymru a'r UE, fel rwyf wedi'i ddweud yn barod, ac mae'n rhaid i'r gwaith o gyflawni hynny gyrraedd y safonau uchaf.	Senedd.tv Fideo Video
Trafodaethau am Gyllid yr UE		EU Funding Discussions	
14:08	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography <i>7. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid yr UE yng Nghymru? OAQ(4)0652(FIN)</i>	<i>7. What discussions has the Minister had with the UK Government in relation to EU funding in Wales? OAQ(4)0652(FIN)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:08	Jane Hutt Bywgraffiad Biography I am in regular contact with UK Government Ministers, including through the Joint Ministerial Council Europe. Last month, I met with David Lidington MP, the UK Minister for Europe, to discuss EU reform, the forthcoming EU referendum, the future of cohesion policy and plans for the UK presidency in 2017.	Rwyf mewn cysylltiad rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU, gan gynnwys drwy Gydyngor Gweinidogion Ewrop. Y mis diwethaf, cyfarfûm â David Lidington AS, Gweinidog y DU dros Ewrop, i drafod diwygio'r UE, refferendwm yr UE sydd ar y gorwel, dyfodol polisi cydlyniant a chynlluniau ar gyfer llywyddiaeth y DU yn 2017.	Senedd.tv Fideo Video
14:09	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Weinidog, wrth gwrs, rŷm ni'n wynebu refferendwm ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Petai'r Deyrnas Unedig, fel yr aelod-wladwriaeth, yn penderfynu tynnu allan o Ewrop, fe fyddai hynny yn benderfyniad trychinebus o ran Cymru, ac fe fyddai'n golygu ein bod ni'n gwbl ddibynol ar y Trysorlys i wneud yn iawn am yr holl arian o Ewrop y byddem ni'n ei gollu, o ran y polisi amaeth cyffredinol a'r polisi ariannu rhanbarthol. Ond, hyd yn oed petawn yn ail-negodi ein perthynas ni ag Ewrop, mae David Cameron wedi sôn am ddwyn yr arian hynny yn ôl i'r Trysorlys, ac mae hyd yn oed arweinyddiaeth y Blaid Lafur yn sôn am hynny. Pa sicrwydd a allech chi roi inni, beth bynnag fydd yn digwydd o ran y refferendwm, na fydd Cymru ar ei cholled yn ariannol o ran yr arian y mae'n ei dderbyn o'r Undeb Ewropeaidd?	Minister, of course we are facing a referendum on our membership of the European Union. If the United Kingdom, as the member state, decides to withdraw from Europe, that would be a disastrous decision for Wales, and it would mean that we would be totally dependent on the Treasury to compensate us for all the European funding that we would lose as regards the common agricultural policy and the regional development policy. But, even if there was a renegotiation of our relationship with Europe, David Cameron has talked about taking that funding back into the Treasury, and even the leadership of the Labour Party is talking about that. What guarantee can you give us that, whatever happens with the referendum, Wales will not lose out financially as regards the funding that it receives from the European Union?	Senedd.tv Fideo Video
14:10	Jane Hutt Bywgraffiad Biography These are very important points that I'm able to raise as a Minister as a member of the joint ministerial council alongside colleagues from Scotland and Northern Ireland as well, particularly raising our concerns in terms of the prospects for Europe, and the prospects in terms of the opportunities and the threats that we have at the current time with the forthcoming referendum. I think it is very important that, at each opportunity—and the last meeting was in December—I emphasised the importance of structural investment funds continuing to be available, and also recognising the impact of those structural funds on our communities, regions, businesses and nation.	Mae'r rhain yn bwyntiau pwysig iawn y gallaf eu trafod fel Gweinidog ac fel aelod o gydgyngor y gweinidogion ochr yn ochr â chydweithwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd, yn enwedig ein pryderon ynglŷn â'r rhagolygon ar gyfer Ewrop, a'r rhagolygon o ran y cyfleoedd a'r bygythiadau ar hyn o bryd gyda'r refferendwm ar y ffordd. Credaf ei bod yn bwysig iawn fy mod, ar bob cyfle posibl—ac roedd y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr—wedi pwysleisio pa mor bwysig yw hi i gronfeydd buddsoddi strwythurol barhau i fod ar gael, a chydabod effaith y cronfeydd strwythurol hynny ar ein cymunedau, ein rhanbarthau, ein busnesau a'n cenedl.	Senedd.tv Fideo Video

So, there are huge potential implications of the threat of exit from the European Union in terms of the referendum, and it is our duty now to ensure that Welsh interests and concerns must be given full consideration. Of course, I think, as the First Minister said yesterday, that's what we're focusing on at the moment—that the Treasury is very well and clearly aware of our concerns and the fact that we have to defend and protect those resources and those investments.

Felly, mae goblygiadau aruthrol i'r bygythiad o adael yr Undeb Ewropeaidd o ran y refferendwm, ac mae'n ddyletswydd arnom yn awr i sicrhau bod lles a phryderon Cymru yn cael eu hystyried yn llawn. Wrth gwrs, fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe, rwy'n credu mai dyna rydym yn canolbwyntio arno ar hyn o bryd—sicrhau bod y Trysorlys yn hollol ymwybodol o'n pryderon a'r ffaith fod yn rhaid i ni amdiffyn a diogelu'r adnoddau a'r buddsoddiadau hynny.

14:11 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does the Minister believe that the allocation of money by the Chancellor towards a compound semiconductor research and development centre in the Cardiff city region under Cardiff University will attract European funding, and could possibly lead to the establishment of the UK's first semiconductor cluster?

A yw'r Gweinidog yn credu y bydd dyraniad y Canghellor o arian tuag at ganolfan ymchwil a datblygu lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ninas-ranbarth Caerdydd o dan Brifysgol Caerdydd yn denu arian Ewropeaidd, ac y gallai arwain at sefydlu'r clwstr cyntaf yn y DU o ganolfannau lled-ddargludyddion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think this was very welcome. Also, I visited Cardiff University last year to see the development of the brain research imaging centre, which, of course, Julie Morgan will be very well aware of, and of course that was supported by Welsh Government and EU funds. But we're also very engaged—officials in Welsh European Funding Office are very engaged—with Cardiff University about their institute for compound semiconductors, and that would support this emerging cluster. We're also looking at ways in which we can see how the EU-funded SMART innovation could help support businesses in the cluster.

Credaf fod hyn i'w groesawu'n fawr. Hefyd, bydd Julie Morgan yn ymwybodol iawn o'r ganolfan delweddu er ymchwil yr ymennydd, yr ymwelais â hi ym Mhrifysgol Caerdydd y llynedd i weld ei datblygiad, canolfan a gefnogwyd, wrth gwrs, gan gyllid Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Ond rydym yn ymwneud llawer—mae swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn ymwneud llawer—â Phrifysgol Caerdydd ynghylch eu sefydliad ar gyfer lled-ddargludyddion cyfansawdd, a byddai hynny'n cefnogi'r clwstr hwn sy'n dod i'r amlwg. Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd y gallwn weld sut y gallai'r rhaglen SMART Innovation, a ariennir gan yr UE, roi cymorth i fusnesau yn y clwstr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm sure you'll welcome the announcement in November from the United Kingdom Government that they will publish a report at least 10 weeks before any referendum detailing the obligations and rights under European law arising from the United Kingdom membership of the European Union, and this would help to dispel certain myths and misunderstandings.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn croesawu'r cyhoeddiad ym mis Tachwedd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y byddant yn cyhoeddi adroddiad o leiaf 10 wythnos cyn unrhyw refferendwm yn manylu ar y rhwymedigaethau a'r hawliau o dan gyfraith Ewrop sy'n deillio o aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, a byddai hyn yn helpu i chwalu rhai mythau a chamddealltwriaethau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course we would. Not only is it welcome, it would have to be an obligation. But I think we have to ensure that we get the message over: what the impact of this could be as we move forward towards the referendum, because we've got to influence people before the referendum and make sure that they are fully aware of the impacts in terms of the referendum. It is vital that we do look at timescales and we also look at the significant operational implications in terms of potential UK exit and in terms of our European structural and investment funds.

Wel, wrth gwrs y byddem. Nid yn unig y byddem yn croesawu hynny, byddai'n rhaid iddo fod rhwymedigaeth. Ond credaf fod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cyfleu'r neges: beth fydd effaith bosibl hyn wrth i ni agosáu at y refferendwm, gan fod yn rhaid i ni ddylanwadu ar bobl cyn y refferendwm a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o effeithiau'r refferendwm. Mae'n hanfodol ein bod yn edrych ar yr amserlenni, a'n bod hefyd yn edrych ar y goblygiadau gweithredol sylweddol o ran y posibilrwydd o'r DU yn ymadael ac o ran ein cronfeydd strwythurol a chronfeydd buddsoddi Ewropeaidd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Public Services Portfolio

Portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus

14:13 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. What priorities did the Minister consider when allocating funding to the public services portfolio? OAQ(4)0637(FIN)

9. Pa flaenoriaethau y rhoddodd y Gweinidog ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0637(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
The allocation for the public services portfolio was included in the draft budget 'Fairer, Better Wales: Investing for the Future', which I published on 8 December.
Cafodd y dyraniad ar gyfer y portffolio gwasanaethau cyhoeddus ei gynnwys yn y gyllideb ddrafft 'Cymru Decach, Cymru Well: Buddsoddi at y Dyfodol', a gyhoeddais ar 8 Rhagfyr.
- 14:14 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
Independent analysis carried out for the Welsh Government shows that, when delivering health services to a population that is older than average, that should be taken into consideration when making allocations to that health authority—a point that has been acted upon by the health Minister. Would you agree with me that if that is true for health services, it's also true for social services? What analysis are you carrying out for ensuring that allocations to the social services budget, most of which comes through the local government budget, reflect the need to deliver services for populations that are above average age, such as those in Powys?
Wrth ddarparu gwasanaethau iechyd i boblogaeth sy'n hŷn na'r cyfartaledd, dangosai dadansoddiad annibynnol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru y dylid ystyried hynny wrth wneud dyraniadau i'r awdurdod iechyd hwnnw — pwynt y mae'r Gweinidog iechyd wedi gweithredu arno. Os yw'n wir ar gyfer gwasanaethau iechyd, a fydddech hefyd yn cytuno ei fod yn wir ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol? Pa ddadansoddiad a wneir gennych i sicrhau bod dyraniadau i gyllideb y gwasanaethau cymdeithasol, y daw'r rhan fwyaf ohono drwy'r gyllideb ar gyfer llywodraeth leol, yn adlewyrchu'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer poblogaethau sy'n hŷn na'r cyfartaledd, fel y rhai ym Mhowys?
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
This is important. Of course, we've already discussed this afternoon the role, in the development of the formula for funding in terms of local government, for social services—between Welsh Government and local government. Clearly, I think those particular issues in terms of health funding have been recognised over time, particularly in terms of rural health needs.
Mae hyn yn bwysig. Wrth gwrs, y prynhawn yma, rydym eisoes wedi trafod rôl gwasanaethau cymdeithasol wrth ddatblygu'r fformiwla ar gyfer ariannu llywodraeth leol—rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Yn amlwg, credaf fod y materion penodol hynny o ran cyllid iechyd wedi'u cydnabod dros amser, yn enwedig o ran anghenion iechyd gwledig.

Portffolio Cyfoeth Naturiol

The Natural Resources Portfolio

- 14:15 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllidebol i'r portffolio cyfoeth naturiol fwyddyn nesaf? OAQ(4)0646(FIN)
10. Will the Minister make a statement on next year's budget allocation to the natural resources portfolio? OAQ(4)0646(FIN)
- 14:15 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Taking revenue and capital together, the natural resources MEG in 2016-17 will be £367 million. We have cushioned the impact of revenue reductions with a capital increase of £26 million.
Gan gymryd refeniw a chyfalaf gyda'i gilydd, bydd y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer cyfoeth naturiol yn 2016-17 yn £367 miliwn. Rydym wedi eu lleddfu effaith gostyngiadau refeniw â chynnydd o £26 miliwn mewn cyfalaf.
- 14:15 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
In Wales, we have an extremely rich environment for harnessing wind, solar and hydro energy, which could help local authorities save money and indeed generate money for their local communities at a time when the Welsh Government budget is having to make difficult decisions for local government. On that basis, might you be able to consider some sort of targeted funding for local authorities, so that they see the opportunities for developing community energy and energy generated by local authorities as a business opportunity rather than a burden that they choose not to engage with?
Yng Nghymru, mae gennym amgylchedd hynod o gyfoethog ar gyfer manteisio ar ynni gwynt, ynni'r haul ac ynni dŵr, a gallai hynny helpu awdurdodau lleol i arbed arian ac yn wir i gynhyrchu arian ar gyfer eu cymunedau lleol mewn cyfnod pan fo cyllideb Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ar gyfer llywodraeth leol. Ar sail hynny, a fydddech yn gallu ystyried rhyw fath o arian wedi'i dargedu ar gyfer awdurdodau lleol, fel eu bod yn gweld y cyfleoedd ar gyfer datblygu ynni cymunedol ac ynni a gynhyrchir gan awdurdodau lleol fel cyfleoedd busnes yn hytrach na baich nad ydynt yn dymuno ei ysgwyddo?

14:16 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have, as a Government, as Jenny Rathbone is aware, been very supportive of local energy generation. The Minister for Natural Resources responded to this in his statement yesterday and in questions of this kind. We've provided technical support and targeted project development funding to local authorities over the past 10 years to develop local energy schemes.

Rydym ni, fel Llywodraeth, ac fel y mae Jenny Rathbone yn ymwybodol, wedi bod yn gefnogol iawn i gynhyrchiant ynni lleol. Ymatebodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i hyn yn ei ddatganiad ddoe ac mewn cwestiynau fel hwn. Rydym wedi darparu cymorth technegol a chyllid wedi'i dargedu ar gyfer datblygu prosiectau i awdurdodau lleol dros y 10 mlynedd ddiwethaf i ddatblygu cynlluniau ynni lleol.

14:16 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fel y corff sy'n gyfrifol am reoli risg llifogydd, mae'n hanfodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Ond, mae'n ymddangos y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu gostyngiad o ryw 10 y cant yn ei gyllideb referniw y flwyddyn nesaf. A allwch chi ddweud wrthym ni a ydych yn credu bod hynny'n dderbyniol a pha impact ydych chi'n credu y bydd hynny'n ei gael ar allu'r corff i gyflawni ei ddyletswyddau?

As the body responsible for managing floods, it's crucial that Natural Resources Wales get the resources that they need to carry out their functions effectively. But it does appear that NRW will face a cut of some 10 per cent in their revenue budget for next year. Can you tell us whether you believe that that is acceptable and what impact do you think that that will have on NRW's ability to carry out its functions?

14:16 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In the draft budget for next year, the MEG allocation for natural resources is £360 million, as I've said. This comprises £278 million revenue and £89 million capital. Taking that together, it will in fact be £9 million higher than the 2015-16 baseline of £357 million. We have cushioned, as I've said, the impact of revenue reductions with that capital increase of £26 million, which is very important to ensure that NRW is resilient and able to deliver on its objectives.

Yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae'r dyraniad Prif Grŵp Gwariant ar gyfer cyfoeth naturiol yn £360 miliwn, fel y dywedais. Mae hyn yn cynnwys £278 miliwn o referniw a chyfalaf o £89 miliwn. Gyda'i gilydd, bydd yn £9 miliwn yn uwch mewn gwirionedd na'r llinell sylfaen o £357 miliwn yn 2015-16. Fel y dywedais, rydym wedi lleddfu effaith gostyngiadau referniw gyda'r cynnydd o £26 miliwn yn y cyfalaf, sy'n bwysig iawn er mwyn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gadarn ac yn gallu cyflawni ei amcanion.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair.

Sandy Mewies took the Chair.

14:17 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

2. Questions to the Minister for Public Services

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

14:17 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 2 is questions to the Minister for Public Services, Leighton Andrews. Question 1 from Angela Burns.

Eitem 2 yw cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews. Cwestiwn 1 gan Angela Burns.

Cyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus (Gorllewin Cymru)

Public Service Delivery (West Wales)

14:17 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0658(PS)

1. Will the Minister make a statement on public service delivery in west Wales? OAQ(4)0658(PS)

- 14:17 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services
 We set out our strategic reform agenda in 'Devolution, Democracy and Delivery: Improving public services for people in Wales'.
 Nodwyd ein hagenda ddiwygio strategol yn 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru'.
- 14:17 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you, Minister. A number of my constituents have spoken to me about difficulties with waste collection and recycling. People, for example, use orange bags for recycling and black bags for general waste. Yet, it is extremely difficult to get hold of these orange bags, meaning that people cannot recycle as much as they'd like. Another example is that people wish to recycle by going to recycling plants, but they are often on a part-time basis, which means they have to travel further and use more of their fuel. In fact, it's very difficult for those without cars who have to rely on public transport. Minister, I wonder what you could do to help solve this tension between the desire to promote constituents to be more sustainable and providing the means for them to practice this on a reliable basis.
 Diolch yn fawr, Weinidog. Mae nifer o fy etholwyr wedi siarad â mi ynglŷn ag anawsterau gyda chasglu gwastraff ac ailgylchu. Mae pobl, er enghraifft, yn defnyddio bagiau oren ar gyfer ailgylchu a bagiau du ar gyfer gwastraff cyffredinol. Eto i gyd, mae'n anodd iawn cael gafael ar y bagiau oren hyn, sy'n golygu na all pobl ailgylchu cymaint ag y byddent yn ei hoffi. Enghraifft arall yw bod pobl yn dymuno ailgylchu drwy fynd i safleoedd ailgylchu ond ar sail ran-amser yn unig y maent ar agor yn aml, sy'n golygu bod rhaid iddynt deithio ymhellach a defnyddio mwy o'u tanwydd. Yn wir, mae'n anodd iawn i bobl sydd heb geir ac sy'n gorfod dibynnu ar gludiant cyhoeddus. Weinidog, tybed beth y gallech ei wneud i helpu i ddatrys y tensiwn hwn rhwng yr awydd i annog etholwyr i fod yn fwy cynaliadwy a darparu'r modd iddynt arfer hyn ar sail ddibynadwy.
- 14:18 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The responsibility for waste and recycling, of course, lies with my colleague the Minister for Natural Resources. I'm very pleased that Wales has been highly successful in meeting recycling targets. We are first in the UK for recycling and indeed fourth in Europe. But, really, these are matters for the local authority in the area represented by the Member, and she should take these matters up directly with the relevant local authority.
 Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol sy'n gyfrifol am wastraff ac ailgylchu. Rwy'n falch iawn fod Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cyrraedd targedau ailgylchu. Ni sydd ar y blaen yn y DU o ran ailgylchu ac yn wir, ni sy'n bedwerydd yn Ewrop. Ond mewn gwirionedd, materion yw'r rhain ar gyfer yr awdurdod lleol yn yr ardal y mae'r Aelod yn ei chynrychioli, a dylai dynnu sylw'r awdurdod lleol perthnasol atynt yn uniongyrchol.
- 14:19 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Weinidog, cynghorau sir sy'n darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus yn y gorllewin. Mae yna 17 sir yng Nghymru yn wynebu toriad o tua 2 y cant neu lai yn y setliad llywodraeth leol. Mae yna dair sir, a'r rheini'n wledig, yn wynebu toriad o 3 y cant a mwy. Mae Ceredigion yn un o'r rheini. Beth yw'r ffactor yn y fformiwla benodol a ydych chi'n ei gredu sydd wedi arwain at wahaniaeth mor ddramatig yn y toriadau yma rhwng y tair sir a'r gweddill, ac a ydych yn barod i edrych ar y cais sydd wedi cael ei wneud gan y WLGA i gyflwyno grant sefydlogi gwledig a fydd yn lleihau'r toriad i'r siroedd hynny sydd yn wynebu toriad o 3 y cant a mwy?
 Minister, it is county councils that provide most public services in west Wales. There are 17 counties in Wales facing a cut of some 2 per cent or less in the local government settlement. There are three counties, all rural, facing a cut of 3 per cent or more and Ceredigion is one of those. What is the factor within the formula that you believe has led to such a dramatic difference in these cuts between the three counties that I mentioned and the others, and are you willing to look at the proposal made by the WLGA to introduce a rural stability grant that will militate against the effects of those cuts for those counties that are facing cuts of 3 per cent or more?
- 14:20 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The formula, of course, is agreed between Welsh Government and local government. Representatives of local government sit on the distribution sub-group. We review the formula on an annual basis. It is scrutinised by independent people on the basis of terms of reference agreed between local government and central Government. The factors within the formula that have a bearing on it are principally the issue of population numbers, sparsity and deprivation, of course, and those are the factors that bear most heavily on the formula.
 Caiff y fformiwla ei chytuno rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, wrth gwrs. Mae cynrychiolwyr llywodraeth leol yn aelodau o'r is-grŵp dosbarthu. Rydym yn adolygu'r fformiwla ar sail flynyddol. Bydd pobl annibynnol yn craffu arni ar sail y cylch gorchwyl y cytunwyd arno rhwng llywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog. Y ffactorau yn y fformiwla sy'n effeithio arni'n bennaf yw niferoedd, teneurwydd ac amddifadedd poblogaeth, wrth gwrs, a'r rheini yw'r ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar y fformiwla.

I've not met a single local authority leader in Wales who believes the formula advantages their own authority. The reality is that some of the rural authorities, such as Powys, are funded per head on a much stronger basis than some of the urban authorities. So, I think, you know, the formula is complicated; we understand that. I think most in local government were expecting cuts of over 4 per cent, so the settlement that we came forward with, which is on average 1.4 per cent, has been generally well received by local government. We are currently out to consultation on the settlement, and we will look at the representations that come in during that consultation.

Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2016-17

Nid wyf wedi cyfarfod ag unrhyw arweinydd awdurdod lleol yng Nghymru sy'n credu bod y fformiwla yn rhoi mantais i'w hawdurdod eu hunain. Y realiti yw bod rhai o'r awdurdodau gwledig, fel Powys, yn cael eu hariannu fesul y pen ar sail lawer cryfach na rhai o'r awdurdodau trefol. Felly, rwy'n meddwl, wyddoch chi, fod y fformiwla yn gymhleth; rydym yn deall hynny. Rwy'n credu bod y mwyafrif o bobl mewn llywodraeth leol wedi disgwyl toriadau o dros 4 y cant, felly mae'r setliad a gyflwynwyd gennym, sy'n 1.4 y cant ar gyfartaledd, wedi cael croeso at ei gilydd gan lywodraeth leol. Rydym yn ymgynghori ynglŷn â'r setliad ar hyn o bryd a byddwn yn edrych ar y sylwadau a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw.

The Provisional Local Government Settlement for 2016-17

14:21 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2016-17?
OAQ(4)0657(PS)

2. Will the Minister make a statement on the provisional local government settlement for 2016-17?
OAQ(4)0657(PS)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:21 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I announced the provisional local government settlement for 2016-17 on 9 December. The settlement is now out for consultation and I will consider all responses before making my final determination in March.

Cyhoeddais y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2016-17 ar 9 Rhagfyr. Cynhelir ymgynghoriad ar hyn o bryd ynglŷn â'r setliad a byddaf yn ystyried yr holl ymatebion cyn gwneud fy mhenderfyniad terfynol ym mis Mawrth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:21 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister, and I appreciate that the 1.4 per cent cut in the settlement for local government is a lot less than they were anticipating, and there are now going to be revisions to their proposals based upon the reduced cuts they now face. And Elin Jones has actually stolen my question in one sense, because I was going to ask the question: could you clarify that the settlement is based upon an agreed formula that seeks to address deprivation and inequality in our communities? And can you state what discussions took place with the WLGA on the formula prior to its use?

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog, ac rwy'n gwerthfawrogi bod y toriad o 1.4 y cant i'r setliad ar gyfer llywodraeth leol yn llawer is nag roeddent yn ei ragweld, ac yn awr bydd diwygiadau i'w cynigion yn seiliedig ar y toriadau llai y maent yn awr yn eu hwynebu. Ac mae Elin Jones mewn gwirionedd wedi dwyn fy nghwestiwn ar un ystyr oherwydd roeddwn am ofyn y cwestiwn: a allech egluro bod y setliad wedi'i seilio ar fformiwla y cytunwyd arni, sy'n ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldeb yn ein cymunedau? Ac a allwch nodi pa drafodaethau a gafwyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y fformiwla cyn ei defnyddio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:22 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I'm grateful to my colleague the Member for Aberavon. The funding formula certainly distributes the available funding on the basis of relative need, and it makes use of a wide range of indicators of the demographic, social, economic and physical characteristics of authorities, including measures of deprivation and sparsity. Local government is fully involved in this process. We review the formula on annual basis, in consultation with local government through the distribution sub-group, whose members include representatives of local authorities, the WLGA and independent experts.

Gallaf. Rwy'n ddiolchgar i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan. Mae'r fformiwla ariannu yn sicr yn dosbarthu'r arian sydd ar gael ar sail angen cymharol, ac mae'n gwneud defnydd o ystod eang o ddangosyddion o nodweddion demograffig, cymdeithasol, economaidd a ffisegol awdurdodau, gan gynnwys mesurau o amddifadedd a theneurwydd poblogaeth. Mae llywodraeth leol yn ymwneud yn llawn â'r broses hon. Rydym yn adolygu'r fformiwla ar sail flynyddol, mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol drwy'r is-grŵp dosbarthu, y mae ei aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arbenigwyr annibynnol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Acting Presiding Officer, I declare an interest as a member of Powys County Council. Minister, I have been contacted by the leader of Powys County Council who has raised a very serious concern about the proposed 4.1 per cent cut in the allocation of funding to the local authority. Now, concern has been expressed, of course, that there is no floor to provide a safety net to those councils that are adversely affected by the formula that, as we know, disproportionately affects rural councils. Will you provide a floor is my question, and, secondly, will you meet with me and a delegation from Powys County Council to discuss these concerns?

Lywydd dros dro, rwy'n datgan buddiant fel aelod o Gyngor Sir Powys. Weinidog, cysylltodd arweinydd Cyngor Sir Powys â mi, gan fynegi pryder difrifol iawn ynglŷn â'r toriad arfaethedig o 4.1 y cant yn y dyraniad cyllid i'r awdurdod lleol. Nawr, lleisiwyd pryder, wrth gwrs, nad oes arian gwaelodol i ddarparu rhwyd ddiogelwch i'r cynghorau sy'n cael eu heffeithio er gwaeth gan y fformiwla, sydd, fel y gwyddom, yn effeithio'n anghymesur ar gynghorau gwledig. A wnewch chi ddarparu cyllid gwaelodol yw fy nghwestiwn ac yn ail, a wnewch chi gyfarfod â dirprwyeth o Gyngor Sir Powys gyda mi i drafod y pryderon hyn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The leader of Powys County Council is perfectly able to make his representations clear through the consultation process that we are currently engaged in. I will repeat again that I made it clear at the time of the local government settlement that I did not intend to introduce a funding floor this year. The formula is agreed in consultation with local government. I'm not planning to review that. It seems to me that we've reached agreement with local government on the nature of the formula for this year.

Mae arweinydd Cyngor Sir Powys yn gwbl alluog i wneud ei sylwadau'n glir drwy'r broses ymgynghori rydym yn rhan ohoni ar hyn o bryd. Ailadroddaf eto fy mod wedi dweud yn glir ar adeg y setliad llywodraeth leol nad oeddwn yn bwriadu cyflwyno ariannu gwaelodol eleni. Cytunir ar y fformiwla mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol. Nid wyf yn bwriadu adolygu hynny. Mae'n ymddangos i mi ein bod wedi dod i gytundeb gyda llywodraeth leol ar natur y fformiwla ar gyfer eleni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:24 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you have stated quite clearly that you do not see merit in introducing a floor, but the fact is that, over the years, a floor has had to be introduced in various local government settlements to protect a variety of local councils over the years, and now we have the proposals by the Welsh Local Government Association for a rural stabilisation grant. Does that not indicate to you that there are issues around the nature of the funding formula? What discussions have you had with the Welsh Local Government Association about their proposals for a rural stabilisation grant? What discussions have you had with the finance Minister to have additional resources for your portfolio, so that you could respond positively to the Welsh Local Government Association's proposals?

Weinidog, rydych wedi datgan yn eithaf clir nad ydych yn gweld gwerth mewn cyflwyno cyllid gwaelodol ond y ffaith yw, dros y blynyddoedd, bu'n rhaid cyflwyno cyllid gwaelodol mewn amryw o setliadau llywodraeth leol er mwyn gwarchod amrywiaeth o gynghorau lleol dros y blynyddoedd, ac yn awr mae gennym argymhellion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch grant sefydlogi gwledig. Onid yw hynny'n dangos i chi fod yna broblemau ynghylch natur y fformiwla ariannu? Pa drafodaethau a gawsoch gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch eu hargymhellion ar gyfer grant sefydlogi gwledig? Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog Cyllid i gael adnoddau ychwanegol ar gyfer eich portffolio, er mwyn i chi allu ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:25 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I've had no conversations with the Welsh Local Government Association about their proposal. We are out to consultation on the provisional settlement at the present time. The reason there is no funding floor this year is because the funding settlement is better than many had feared. The overall cut is around 1.4 per cent across Wales. We've had funding floors in the past. We had a very severe reduction in local government spending last year. It was probably right to have a funding floor in place in that year. Can I remind the Member for Brecon and Radnorshire that Powys County Council is funded per head on a much stronger basis than most Valleys and urban authorities?

Wel, nid wyf wedi cael unrhyw sgrysiâu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'u hargymhelliaid. Rydym yn ymgynghori ynghylch y setliad dros dro ar hyn o bryd. Y rheswm nad oes cyllid gwaelodol eleni yw bod y setliad ariannol yn well nag yr oedd llawer wedi'i ofni. Y toriad cyffredinol yw tua 1.4 y cant ledled Cymru. Rydym wedi cael cyllid gwaelodol yn y gorffennol. Cawsom ostyngiad difrifol iawn yng ngwariant llywodraeth leol y llynedd. Mae'n debyg mai cael cyllid gwaelodol ar waith y flwyddyn honno oedd y peth iawn i'w wneud. A gaf fi atgoffa'r Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed fod Cyngor Sir Powys yn cael ei ariannu fesul y pen ar sail lawer cryfach na'r rhan fwyaf o awdurdodau'r Cymoedd ac awdurdodau trefol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

- 14:25 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I now call the party spokespeople to question the Minister, and first this week is the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas. I wonder, after asking their question, if people could be quiet and listen to the answers.
- Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ac yn gyntaf yr wythnos yma, mae llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas. Ar ôl gofyn eu cwestiwn, a wnaiff pobl fod yn dawel a gwrandao ar yr atebion.
- 14:25 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, acting Deputy Presiding Officer. Minister, when your Government reached a two-year budget deal with the Liberal Democrat group last year, did you expect it to include the local government settlement?
- Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro. Weinidog, pan gafwyd cytundeb cyllideb dwy flynedd rhwng eich Llywodraeth a grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol y llynedd, a oeddech yn disgwyl iddo gynnwys y setliad llywodraeth leol?
- 14:26 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I wasn't involved in the detailed discussions with the Liberal Democrats, but what I will say to you is that we have a draft budget, we're currently out to consultation on the provisional settlement, and I will make my decisions in respect of the final settlement on the basis of the representations that are made.
- Wel, nid oeddwn yn rhan o'r trafodaethau manwl gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond yr hyn rwy'n dweud wrthyhych yw bod gennym gyllideb ddrafft, rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch y setliad dros dro, a byddaf yn gwneud fy mhenderfyniadau ynglŷn â'r setliad terfynol ar sail y sylwadau a wneir.
- 14:26 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, Minister, I think that, when dealing with other parties, particularly the Liberal Democrats, you need to screw everything down. I think you should know that having been a member of the party. If you haven't got agreement from the three opposition parties here, or one of the parties, about the local government settlement, I'm interested to know how you expect this draft settlement to be passed by the Assembly. It has serious implications for the rural authorities, as we've already heard, and for Pembrokeshire, Ceredigion and Powys in particular. It is important to note that the WLGA has commissioned Tony Travers already to re-look at the funding formula, but, in the meantime, precipitous cuts in funding are not conducive to a good budget and are not conducive to good service delivery. I'm sure you agree with that.
- Wel, Weinidog, wrth ymddrin â phleidiau eraill, yn enwedig y Democratiaid Rhyddfrydol, credaf fod angen i chi gadarnhau popeth. Credaf y dylech wybod hynny ar ôl bod yn aelod o'r blaid. Os nad ydych wedi sicrhau cytundeb y tair gwrthblaid sydd yma, neu un o'r pleidiau, ynglŷn â'r setliad llywodraeth leol, hoffwn wybod sut rydych yn disgwyl i'r Cynulliad basio'r setliad drafft. Mae iddo oblygiadau difrifol i awdurdodau gwledig, fel rydym wedi'i glywed eisoes, ac i Sir Benfro, Ceredigion a Phowys, yn arbennig. Mae'n bwysig nodi bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi comisiynu Tony Travers eisoes i ailedrych ar y fformiwla ariannu ond yn y cyfamser, nid yw toriadau ariannol llym yn arwain at gyllideb dda ac nid ydynt yn arwain at ddarparu gwasanaethau da. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â hynny.
- You'll also be aware that, under the One Wales Government, when local government settlements were a little more generous, there was still a funding floor applied when they were inequitable. Now, you were Deputy Minister in that One Wales Government, you supported the funding floor at that stage when there were extremes of funding for some of the rural authorities. Why did you not introduce a floor this year, and did you not see it was necessary in order to gain support for your settlement?
- Fe fyddwch yn ymwybodol hefyd, o dan Lywodraeth Cymru'n Un, pan oedd setliadau llywodraeth leol ychydig yn fwy hael, câi cyllid gwaelodol ei osod bryd hynny hefyd pan oedd setliadau'n anghyfartal. Nawr, roeddech yn Ddirprwy Weinidog yn Llywodraeth Cymru'n Un, roeddech yn cefnogi'r cyllid gwaelodol yn y cyfnod hwnnw pan oedd cyllid eithafol ar gyfer rhai o'r awdurdodau gwledig. Pam na chyflwynoch chi ariannu gwaelodol eleni ac oni welsoch fod ei angen er mwyn ennill cefnogaeth i'ch setliad?

14:27

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, let's be clear: funding floors should not be a permanent feature of the local government settlement. They should be there on a transient basis, and there should not be an expectation there will be a funding floor every year. In respect of the work done by Tony Travers for the WLGA, he is chairing an independent commission into the future of local government funding that goes beyond the formula, of course, and looks at the overall structure of funding. I've met him once already; I look forward to meeting him again. I have also established a finance futures group on behalf of the Welsh Government to look at the future of local government funding, and that is a much broader question than simply the formula, because it obviously includes issues such as non-domestic rates and other means of funding that are open to local authorities.

We are well aware of the policy of his party. His party wants to change the formula to move more resources to rural areas. They said that in their manifesto. The consequence of that, of course, will be that Valley and urban authorities lose out.

Wel, gadewch i ni fod yn glir: ni ddylai ariannu gwaelodol fod yn nodwedd barhaol o'r setliad llywodraeth leol. Dylai fod yno ar sail dros dro ac ni ddylai fod disgwyl y bydd ariannu gwaelodol yn digwydd bob blwyddyn. O ran y gwaith a wneir gan Tony Travers dros Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'n cadeirio comisiwn annibynnol ar ddyfodol cyllid llywodraeth leol, sy'n mynd y tu hwnt i'r fformiwla, wrth gwrs, ac yn edrych ar strwythur cyffredinol y drefn gyllido. Rwyf wedi ei gyfarfod unwaith yn barod; edrychaf ymlaen at ei gyfarfod eto. Rwyf hefyd wedi sefydlu grŵp dyfodol cyllid ar ran Llywodraeth Cymru i edrych ar ddyfodol cyllid llywodraeth leol, ac mae'n gwestiwn llawer ehangach na'r fformiwla'n unig, gan ei fod yn amlwg yn cynnwys materion fel ardrethi annomestig a dulliau eraill o gyllido sydd ar gael i awdurdodau lleol.

Rydym yn ymwybodol iawn o bolisi ei blaid. Mae ei blaid eisiau newid y fformiwla i symud mwy o adnoddau i ardaloedd gwledig. Maent wedi dweud hynny yn eu manifest. Canlyniad hynny fydd bod awdurdodau'r Cymoedd ac awdurdodau trefol yn colli allan wrth gwrs.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it's the Valley and urban authorities and the WLGA that are joining with the rural authorities to ask for rural stabilisation grants for this year. You're absolutely right, Minister: the fact that we apply floors year in, year out does show that there's something wrong with the funding formula, and that does need to be addressed, but there is a decision made and made urgently now. Local authorities have about three weeks before they start the statutory budget-making process. They cannot delay in that process waiting to see whether your Government will be able to smooth this deal through or not. Both the urban and rural authorities, together with the WLGA, have said, for this year—not addressing the whole formula issues, but for this year—that a rural stabilisation grant will smooth out those inequities in the process. Do you intend to accept that recommendation as part of the consultation process? And, if you do not, how do you expect to get this Assembly to agree your settlement?

Wel, awdurdodau'r Cymoedd a'r awdurdodau trefol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n ymuno gyda'r awdurdodau gwledig i ofyn am grantiau sefydlogi gwledig ar gyfer eleni. Rydych yn hollol gywir, Weinidog: mae'r ffaith ein bod yn cymhwysu cyllid gwaelodol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn dangos bod rhywbeth o'i le ar y fformiwla ariannu, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hynny, ond mae penderfyniad yn cael ei wneud ac yn cael ei wneud ar frys yn awr. Mae gan awdurdodau lleol oddeutu tair wythnos cyn iddynt ddechrau ar y broses statudol o lunio cyllideb. Ni allant oedi yn y broses honno ac aros i weld a fydd eich Llywodraeth yn gallu llyfnhau'r ffordd ar gyfer sicrhau'r cytundeb hwn ai peidio. Mae'r awdurdodau trefol a gwledig, ynghyd â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, wedi dweud, ar gyfer y flwyddyn hon—heb fynd i'r afael â'r fformiwla yn ei chyfanrwydd, ond ar gyfer y flwyddyn hon—y bydd grant sefydlogi gwledig yn llyfnhau'r anghydraddoldebau yn y broses. A ydych yn bwriadu derbyn yr argymhelliad hwnnw fel rhan o'r broses ymgynghori? Ac os nad ydych yn ei dderbyn, sut rydych yn disgwyl cael y Cynulliad hwn i gytuno ar eich setliad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I don't intend to determine my views on a consultation that has not yet finished. I will look at the representations that come in in the course of the consultation on the settlement.

Wel, nid wyf yn bwriadu pennu fy safbwyntiau yn ôl ymgynghoriad nad yw wedi gorffen eto. Byddaf yn edrych ar y sylwadau a ddaw i law yn sgil yr ymgynghoriad ar y setliad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Llefarydd Ceidwadwyr Cymru, Janet Finch-Saunders.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Minister, Professor Colin Copus, director of the local governance research unit at De Montfort University, wrote recently that the larger local government becomes, the more the words 'local' and 'government' become redundant, as localism, community engagement and trust are lost, and larger bodies are often simply used as centralised public service delivery services. How do you respond to such criticism?

Diolch. Weinidog, yn ddiweddar ysgrifennodd yr Athro Colin Copus, cyfarwyddwr yr uned ymchwil ar gyfer llywodraethu lleol ym Mhrifysgol De Montfort gan ddweud po fwyaf y mae llywodraeth leol yn mynd, y mwyaf y mae'r geiriau 'lleol' a 'llywodraeth' yn mynd yn ddiystyr, wrth i leoliaeth, ymgysylltu â'r gymuned ac ymddiriedaeth y gymuned gael eu colli ac yn aml, defnyddir cyrff mwy o faint fel gwasanaethau wedi'u canoli ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yn unig. Sut rydych yn ymateb i feirniadaeth o'r fath?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have published our plans for local government reorganisation. We are currently out to consultation on the draft Bill, which I published in November. That includes, of course, a detailed regulatory impact assessment. It includes also a consultation on the map that we have published.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol. Rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch y Bil drafft, a gyhoeddais ym mis Tachwedd. Mae hynny'n cynnwys, wrth gwrs, asesiad effaith rheoleiddiol manwl. Mae hefyd yn cynnwys ymgynghoriad ar y map rydym wedi'i gyhoeddi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. The auditor general here in Wales has also voiced his fears that your merger plans have, quote,

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae'r archwilydd cyffredinol yma yng Nghymru hefyd wedi lleisio'i ofnau fod eich cynlluniau uno wedi, ac rwy'n dyfynnu,

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'affected...the ability of some councils to think beyond four or five-year horizons',

'affected...the ability of some councils to think beyond four or five-year horizons',

while senior local authority staff have referred to the uncertainty of reorganisation as a huge distraction and a large cost, and singularly unhelpful in making sustainable services difficult to plan. Furthermore, the reduction by almost £0.5 million to the supporting collaboration and reform action in the draft budget does, by your own admission, have potential negative effects on the ability of our local service boards. Minister, how are you working with local authorities to address concerns that service provision may now suffer as a result of such a focus by yourself on your proposed merger model?

ac mae uwch staff awdurdodau lleol wedi cyfeirio at ansicrwydd ad-drefnu fel ymyrraeth enfawr, gostus a hynod o ddi-fudd sy'n gwneud gwasanaethau cynaliadwy yn anodd eu cynllunio. Ar ben hynny, gallai'r gostyngiad o bron i £0.5 miliwn i'r camau gweithredu ar gefnogi cydweithio a diwygio yn y gyllideb ddrafft, yn ôl eich cyfaddefiad eich hun, effeithio'n negyddol ar allu ein byrddau gwasanaethau lleol. Weinidog, sut rydych yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phryderon y gallai'r modd y darperir gwasanaethau ddioddef o ganlyniad i ffocws o'r fath gennych chi ar eich model uno arfaethedig?

14:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These are not my merger proposals—these are the Welsh Government's proposals. Let's be clear about that. The issue, I think, that we have to expect is that local government is always working in an atmosphere of uncertainty. And the key uncertainties facing local government at the present time are the uncertainties introduced by your Government's austerity policies. They've set a climate within which they have to work that is very difficult. We have worked very closely with local government on the financial instability that is there at present. We held a joint seminar with the Welsh Local Government Association in November, which was well attended, and we looked at many different opportunities that were there for local government. We've published the KPMG study of the costs of administration in local government, which has found that local government, if operating to the standards of best practice across the whole of the UK, could be saving £151 million per year in terms of their administration costs. So, we work very closely with local government on the immediate and pressing priorities that they have.

Nid fy nghynigion uno i yw'r rhain—cynigion uno Llywodraeth Cymru ydynt. Gadewch i ni fod yn glir ynglŷn â hynny. Rwy'n meddwl mai'r mater sy'n rhaid i ni ei ddisgwyl yw bod llywodraeth leol bob amser yn gweithio mewn awyrgylch o ansicrwydd. A'r ansicrwydd allweddol sy'n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd yw'r ansicrwydd a gyflwynwyd gan bolisïau caledi eich Llywodraeth. Maent wedi creu hinsawdd sy'n anodd iawn gweithio ynddi. Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda llywodraeth leol ar yr ansefydlogrwydd ariannol sydd yno ar hyn o bryd. Cynhaliwyd seminar ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Tachwedd, lle roedd nifer yn bresennol, ac fe edrychom ar nifer o gyfleoedd gwahanol a oedd yno ar gyfer llywodraeth leol. Rydym wedi cyhoeddi astudiaeth KPMG o gostau gweinyddu llywodraeth leol, a welodd y gallai llywodraeth leol, os yw'n gweithredu yn ôl safonau arfer gorau ledled y DU gyfan, arbed £151 miliwn y flwyddyn ar eu costau gweinyddol. Felly, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda llywodraeth leol ar y blaenoriaethau uniongyrchol a phwysig sydd ganddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:32 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. Now, as part of their 2016-17 settlement figures, local authorities in England have been given the opportunity to take up a four-year settlement to 2020, allowing funding stability and certainty to enable them to develop long-term, sustainable services and produce and support strategic collaboration with local partners. What consideration have you given to the calls of one of your leaders here in Wales—the leader of Wrexham council—only this week for the option of multi-year settlements here in Wales, and will you support that initiative?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Nawr, fel rhan o ffigurau eu setliad ar gyfer 2016-17, mae awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cael cyfle i dderbyn setliad pedair blynedd hyd at 2020, gan ganiatáu sefydlogrwydd a sicrwydd cyllido i'w galluogi i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy, hirdymor a chynhyrchu a chefnogi cydweithio strategol â phartneriaid lleol. Pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i alwadau un o'ch arweinwyr yma yng Nghymru—arweinydd cyngor Wrecsam—yr wythnos yma am yr opsiwn o gael setliadau aml-flwyddyn yma yng Nghymru, ac a fyddwch yn cefnogi'r fenter honno?
- 14:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would very much welcome the opportunity to give local government greater certainty, with better overview of its future funding. The problem I have—and the problem the Welsh Government has—is that we do not have that certainty ourselves from the UK Government. So, we can look at planning ahead with local government; I hope that local government leaders will look very acutely at the way in which they plan to use their reserves over future years. But the potential for longer-term planning is not there while our settlements are not long term themselves.
- Byddwn yn croesawu'n fawr iawn y cyfle i roi mwy o sicrwydd i lywodraeth leol, gyda gwell trosolwg o'i chyllid yn y dyfodol. Y broblem sydd gennyf—a'r broblem sydd gan Lywodraeth Cymru—yw na chawn y sicrwydd hwnnw ein hunain gan Lywodraeth y DU. Felly, gallwn ystyried cynllunio ymlaen llaw gyda llywodraeth leol; rwy'n gobeithio y bydd arweinwyr llywodraeth leol yn edrych yn fanwl iawn ar y modd y maent yn bwriadu defnyddio'u cronfeydd wrth gefn yn ystod y blynyddoedd i ddod. Ond nid oes potensial ar gyfer cynllunio mwy hirdymor pan nad yw ein setliadau ni yn rhai hirdymor eu hunain.
- 14:34 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:34 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Chair. Minister, in terms of the local government settlement, I think we've established that, last year, there was a floor, and this year there isn't. Do you accept that, despite the very generous, and much more generous, local government settlement this year compared to last, the removal of the floor has, effectively, exacerbated and exaggerated the impact on rural authorities, because they no longer have that protection? So, as well as the formula working against them, the removal of the floor has also worked against them as well.
- Diolch, Gadeirydd. Weinidog, o ran y setliad llywodraeth leol, rwy'n credu ein bod wedi sefydlu bod yna gyllid gwaelodol y llynedd ac nad yw yno eleni. Er gwaethaf y setliad llywodraeth leol hael iawn, a llawer mwy hael eleni o'i gymharu â'r llynedd, a ydych yn derbyn bod cael gwared ar y cyllid gwaelodol wedi gwaethygu a chwyddo'r effaith ar awdurdodau gwledig i bob pwrpas, gan nad oes ganddynt y diogelwch hwnnw bellach? Felly, yn ogystal â'r fformiwla sy'n gweithio yn eu herbyn, mae dileu'r cyllid gwaelodol wedi gweithio yn eu herbyn hefyd.
- 14:34 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, as the Member knows, and as we discussed in committee this morning, if you have a floor in one year and you move to a year without the floor, then there is, effectively, through the formula, a catching-up exercise over two years in terms of the settlement that is then made, and that does produce a particular difficulty, I understand.
- Wel, fel y mae'r Aelod yn gwybod, ac fel y buom yn ei drafod yn y pwyllgor y bore yma, os oes gennych gyllid gwaelodol un flwyddyn a'ch bod yn symud i flwyddyn heb y cyllid gwaelodol, yna, i bob pwrpas, drwy'r fformiwla, ceir ymarfer dal i fyny dros ddwy flynedd o ran y setliad a wneir wedyn, ac mae hynny'n creu anhawster penodol, rwy'n deall.
- 14:34 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- So, on that basis, could you explain why you didn't consider, at the very least, a tapering mechanism to protect those rural authorities from that additional impact of removing the floor in addition to the formula?
- Felly, ar sail hynny, a allech egluro pam na wnaethoch ystyried, o leiaf, fecanwaith tapro er mwyn diogelu'r awdurdodau gwledig rhag yr effaith ychwanegol o gael gwared ar y cyllid gwaelodol yn ogystal â'r fformiwla?

14:35 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the view I took was very simply that you cannot go on having a floor in place, otherwise it becomes essentially a bolt-on to the settlement and that doesn't seem to me to make sense. We've got to make a decision: is the funding floor there as a temporary, transitional arrangement, or is it meant to be a permanent part of the settlement? I don't think it can be a permanent part of the settlement.

Wel, roeddwn i o'r farn yn syml iawn na allwch ddal ati i gael cyllid gwaelodol ar waith, neu fel arall mae'n dod yn ychwanegiad at y setliad ac nid yw hynny'n gwneud synnwyr i mi. Mae'n rhaid i ni wneud penderfyniad: a yw'r cyllid gwaelodol yno fel trefniant pontio dros dro, neu a yw i fod yn rhan barhaol o'r setliad? Nid wyf yn credu y gall fod yn rhan barhaol o'r setliad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:35 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I accept, Minister, that there are issues with the formula and I accept also that—you know, you're right, you can't keep a floor in place permanently, but the issue really is a structural one around the nature of local government finance, not just about the formula itself, and that is what needs to be fixed in the long term. But, while we're trying to fix that and while we're trying to get to a position whereby local authorities maybe raise more of their money themselves as opposed to relying on central government, do you not accept that it would be right that there would be some form of stabilisation grant put in place to ensure that, at least where there are changes in finance for local government, there is a levelling out across authorities about the nature of that change, rather than some authorities having very small reductions and other authorities having very large reductions, and that it is right that Government looks at that and tries to find mechanisms to ensure that is in place until those structural problems can be put right?

Rwy'n derbyn, Weinidog, fod yna problemau gyda'r fformiwla ac rwy'n derbyn hefyd—wyddoch chi, rydych yn gywir, ni allwch gadw cyllid gwaelodol yn ei le'n barhaol, ond mae'r mater mewn gwirionedd yn un strwythurol ynghylch natur cyllid llywodraeth leol, nid ynglŷn â'r fformiwla ei hun yn unig, a dyna beth sydd angen ei unioni yn y tymor hir. Ond wrth i ni geisio'i unioni a chyrraedd sefyllfa lle y bydd awdurdodau lleol o bosibl yn codi mwy o'u harian eu hunain yn hytrach na dibynnu ar lywodraeth ganolog, onid ydych yn derbyn y byddai'n iawn cael rhyw fath o grant sefydlogi ar waith i sicrhau, o leiaf lle y ceir newidiadau yn y cyllid i lywodraeth leol, fod yna gysoni'n digwydd ar draws yr awdurdodau o ran natur y newid hwnnw, yn hytrach na rhai awdurdodau'n cael gostyngiadau bach iawn ac awdurdodau eraill yn cael gostyngiadau mawr iawn, a'i bod yn iawn i'r llywodraeth edrych ar hynny a cheisio dod o hyd i fecanweithiau i sicrhau bod hynny yn ei le hyd nes y gellir cywiro'r problemau strwythurol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the abstract, I think the Member has a point. But I think there are some perverse incentives within the system. We have seen situations in the past, for example, where the existence of a floor has probably ensured that some local authorities have produced lower council tax increases than others simply because they knew they could rely on the floor to bring their financing up, and that itself is a penalty against those local authorities who do not have access to the funding floor. And that's the trouble when you keep a floor in place for many years: you sometimes get a rather complacent attitude on the part of certain local council leaderships, where they avoid the necessary challenges they have in their authorities either to contain their spending or to look at what they're expecting their local populations to contribute through the council tax. I am not prepared to allow that situation to continue.

Yn ddamcaniaethol, rwy'n meddwl bod gan yr Aelod bwynt. Ond rwy'n credu y ceir rhai cymhellion gwrthnysig o fewn y system. Rydym wedi gweld sefyllfaoedd yn y gorffennol, er enghraifft, lle y mae'n debygol fod bodolaeth cyllid gwaelodol wedi sicrhau bod rhai awdurdodau lleol wedi cynhyrchu llai o godiad yn y dreth gyngor nag awdurdodau eraill, a hynny'n unig oherwydd eu bod yn gwybod y gallent ddibynnu ar y cyllid gwaelodol i gynyddu eu cyllid, ac mae hynny yn ddo'i hun yn gosb yn erbyn awdurdodau lleol nad oes ganddynt gyllid gwaelodol. A dyna'r drafferth pan fyddwch yn cadw cyllid gwaelodol yn ei le am flynyddoedd lawer: rydych weithiau'n gweld agwedd braidd yn hunanfodlon ar ran rhai arweinwyr cynghorau lleol, lle y maent yn osgoi'r heriau angenrheidiol sydd ganddynt yn eu hawdurdodau naill ai i ffrwyno eu gwariant neu i edrych ar yr hyn y maent yn disgwyl i'w poblogaethau lleol ei gyfrannu drwy'r dreth gyngor. Nid wyf yn barod i ganiatáu i'r sefyllfa honno barhau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Local Government Reorganisation

14:37 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Pa ymrwymadau cyhoeddus y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i egluro cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)0651(PS)

3. What public engagements has the Minister undertaken to explain the Welsh Government's proposals for local government reorganisation? OAQ(4)0651(PS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We ran an extensive public awareness campaign last year on our proposals for local government reform, and are now consulting publicly on the draft Local Government (Wales) Bill, which includes our proposals for local authority mergers, and I've held several public engagements with the Welsh Local Government Association.

Cynaliasom ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus helaeth y llynedd ar ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol, ac rydym bellach yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, sy'n cynnwys ein cynigion ar gyfer uno awdurdodau lleol, ac rwyf wedi cynnal sawl digwyddiad cyhoeddus gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that answer. Very often you get invited by Members from this Chamber to come out and meet residents and constituents in their regions or constituencies. When I go around the Vale of Glamorgan, for example, I find many, many people opposed to the reorganisation of local government. In particular, many Labour councillors and the leader of the Labour group and leader of the council there, Neil Moore, are opposed to it. I've yet to find out what the constituency Member's view is on this. Would you come along with me, Minister, and engage in a public meeting to take these views on board first hand in the Vale of Glamorgan so that you can appreciate the sentiment behind why people want to retain the Vale of Glamorgan as a separate entity, because they're very proud of their local area?

Diolch am yr ateb, Weinidog. Yn aml iawn, fe'ch gwahoddir gan Aelodau o'r Siambr i ddod allan i gyfarfod â thrigolion ac etholwyr yn eu rhanbarthau neu eu hetholaethau. Pan fyddaf yn mynd o gwmpas Bro Morgannwg, er enghraifft, dof ar draws llawer iawn o bobl sy'n gwrthwynebu ad-drefnu llywodraeth leol. Yn benodol, mae llawer o gynghorwyr Llafur ac arweinydd y grŵp Llafur ac arweinydd y cyngor yno, Neil Moore, yn ei wrthwynebu. Rwyf eto i ddarganfod beth yw barn yr Aelod etholaeth ar hyn. A ddowch chi gyda mi, Weinidog, a chymryd rhan mewn cyfarfod cyhoeddus i glywed y safbwyntiau hyn dros eich hun ym Mro Morgannwg, er mwyn i chi sylweddoli'r teimlad sy'n sail i pam y mae pobl yn awyddus i gadw Bro Morgannwg fel endid ar wahân, am eu bod yn falch iawn o'u hardal leol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say I've had many discussions with councillor Neil Moore, the leader of the Vale of Glamorgan council? I'm very pleased that we have a Labour administration in the Vale of Glamorgan and I know that if I was doing any public meetings on this subject in places like Barry I would be pointing out that the Conservatives want to take money away from places like Barry and move it to other parts of Wales.

A gaf fi ddweud fy mod wedi cael nifer o drafodaethau gyda'r cynghorydd Neil Moore, arweinydd Cyngor Bro Morgannwg? Rwy'n falch iawn fod gennym weinyddiaeth Lafur ym Mro Morgannwg a gwn pe bawn yn cymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus ar y pwnc mewn llyfdd fel y Barri, byddwn yn nodi bod y Ceidwadwyr eisiau cymryd arian oddi wrth leoedd fel y Barri a'i symud i rannau eraill o Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gynghorau Cymru beidio â gwneud ymrwymadau newydd, hir dymor o ran gwariant ac ati rŵan a allai amharu ar y broses o ad-drefnu llywodraeth leol yn ôl cynlluniau Llafur? Wrth gwrs, y Llywodraeth a'r Cynulliad nesaf fydd yn penderfynu pa fath o ad-drefnu a ddylai ddigwydd, os o gwbl. Onid ydy gorchymyn o'r fath rŵan, sy'n clymu dwylo cynghorau fel Ynys Môn, yn brawf o'r perig bod agenda ad-drefnu'r Llywodraeth yma a'r amserlen yn amharu ar allu cynghorau i wneud eu prif ddyletswydd, sef i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl rŵan ac yn y dyfodol i'w dinasyddion?

Will the Minister confirm that the Welsh Government has asked Welsh councils not to make new long-term commitments in terms of expenditure and so on that could have an impact on the reorganisation of local government according to Labour's plans? Of course, it's the next Government and the next Assembly that will decide what sort of reorganisation should take place, if any. But isn't such a request now, which actually ties the hands of authorities such as Anglesey, proof of the danger that this Government's reform agenda and time table is impairing authorities' ability to carry out their main function, namely to provide the best possible services now and in the future for their citizens?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I don't accept that, and let me explain to the Member why. The deadlines, the timetables, that we've published for our local government reform programme make it clear that we would not see the new authorities earlier than 2019, so people can plan with that basis of security. What we have done, of course, through the legislation put through this Assembly, is agree that we do not want to see local authorities embarking on long-term expenditure that would be nugatory or that would be inappropriate. And, of course, there are many local authorities already that are collaborating with others in order to provide a better service to their residents, and, indeed, to secure better value for money for their residents. And I would certainly encourage the leader of Anglesey to talk with the leader of Gwynedd and other authorities to see what can be done to provide better services for the people of Anglesey, and better value for money for the people of Anglesey.</p>	<p>Wel, nid wyf yn derbyn hynny, a gadewch i mi egluro pam wrth yr Aelod. Mae'r terfynau amser, yr amserlenni, rydym wedi'u cyhoeddi ar gyfer ein rhaglen ddiwygio llywodraeth leol yn ei gwneud yn glir na fyddem yn gweld yr awdurdodau newydd cyn 2019, er mwyn i bobl allu cynllunio ar sail y sicrwydd hwnnw. Yr hyn rydym wedi'i wneud, wrth gwrs, drwy'r ddeddfwriaeth a aeth drwy'r Cynulliad hwn, yw cytuno nad ydym am weld awdurdodau lleol yn ymgymryd â gwariant hirdymor a fyddai'n ddiwerth neu'n amhriodol. Ac wrth gwrs, mae llawer o awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio gydag eraill er mwyn darparu gwasanaeth gwell i'w trigolion ac yn wir, i sicrhau gwell gwerth am arian i'w trigolion. A byddwn yn sicr yn annog arweinydd Ynys Môn i siarad ag arweinydd Gwynedd ac awdurdodau eraill i weld beth y gellir ei wneud i ddarparu gwasanaethau gwell i bobl Ynys Môn, a gwell gwerth am arian i bobl Ynys Môn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Ad-drefnu Cyngorau yng Nghymru</p>		<p>Reorganise Welsh councils</p>	
14:40	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ad-drefnu cyngorau yng Nghymru?</i> OAQ(4)0648(PS)[R]</p>	<p><i>4. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's plans to reorganise Welsh councils?</i> OAQ(4)0648(PS)[R]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:40	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Our plans to reform Welsh councils are set out in the draft Local Government (Wales) Bill and accompanying documents, which were published for consultation in November.</p>	<p>Mae ein cynlluniau i ddiwygio cyngorau Cymru wedi eu nodi yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft a dogfennau cysylltiedig, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn eu cylch ym mis Tachwedd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:41	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. Can I also refer you to the Welsh auditor general's comments about reorganisation, where he says that reorganisation is a distraction from service provision and has affected the ability of some councils to think beyond four- or five-year horizons? And he says that they need to think more long term. Can I ask you, Minister, given the confused message that the Welsh Government is sending out in terms of both improvement, and in terms of reorganisation, how are you addressing that particular confusion on the part of local councils in regard to your agenda?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. A gaf fi hefyd eich cyfeirio at sylwadau archwilydd cyffredinol Cymru ynghylch ad-drefnu, lle y mae'n dweud bod ad-drefnu yn tynnu sylw oddi ar ddarparu gwasanaethau ac wedi effeithio ar allu rhai cyngorau i feddwl y tu hwnt i orwelion pedair neu bum mlynedd? Ac mae'n dweud bod angen iddynt feddwl yn fwy hirdymor. A gaf fi ofyn i chi, Weinidog, o ystyried neges ddryslyd Llywodraeth Cymru ynghylch gwella, ac ad-drefnu, sut rydych yn mynd i'r afael â'r dryswch penodol hwn ar ran cyngorau lleol mewn perthynas â'ch agenda?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:41	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>I don't think there's any confusion about our local government programme, or about the need for service improvement. I think the auditor general is right to say that local authorities should not see local government reorganisation as a distraction from their duties to ensure service improvement at the present time.</p>	<p>Nid wyf yn credu bod unrhyw ddryswch ynglŷn â'n rhaglen lywodraeth leol, neu ynghylch yr angen i wella gwasanaethau. Rwy'n credu bod yr archwilydd cyffredinol yn iawn i ddweud na ddylai awdurdodau lleol weld ad-drefnu llywodraeth leol fel rhywbeth sy'n tynnu sylw oddi ar eu dyletswyddau ar hyn o bryd i sicrhau bod gwasanaethau'n gwella.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:41	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Chair, can I also declare I'm a councillor—[Inaudible.]</p>	<p>Gadeirydd, a gaf fi hefyd ddatgan fy mod yn gynghorydd—[Anghlywadwy.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:41	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p>Paul Davies.</p>	Paul Davies.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:41	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Minister, last year, you established a workshop to consider the costs and benefits that could arise from local government reorganisation, and it was noted that an equalisation of council tax rates and school funding formulas must be recognised. Should these unwanted proposals go ahead, can you reassure my constituents that an equalisation formula should be introduced to minimise the impact of increased council tax payments on Pembrokeshire residents, given that at the moment, of course, Pembrokeshire residents enjoy the lowest council tax rates in Wales?</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Weinidog, y llynedd, sefydlwyd gweithdy gennych i ystyried y costau a'r manteision a allai ddeillio o ad-drefnu llywodraeth leol, a nodwyd bod yn rhaid cydnabod cydraddoli cyfraddau treth gyngor a fformiwlâu cyllido ysgol. Pe bai'r cynigion diangen hyn yn mynd yn eu blaenau, a allwch roi sicrwydd i fy etholwyr y dylid cyflwyno fformiwla gydraddoli i leihau effaith cynnydd yn nhaliadau'r dreth gyngor ar drigolion Sir Benfro, o ystyried bod trigolion Sir Benfro ar hyn o bryd, wrth gwrs, yn mwynhau'r cyfraddau treth gyngor isaf yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:42	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Can I say to the Member that we are consulting on the draft Local Government (Wales) Bill at the present time? We've published, alongside that, a very detailed regulatory impact assessment, which includes our overall costings. In all that documentation, he will find we've had a lot to say about a variety of things, including the issue of council tax harmonisation. I encourage him to read that and to make his representations through the consultation process.</p>	<p>A gaf fi ddweud wrth yr Aelod ein bod yn ymgynghori ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft ar hyn o bryd? Ochr yn ochr â hwnnw, rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith rheoleiddiol manwl iawn, sy'n cynnwys ein costau cyffredinol. Yn yr holl ddogfennau hynny, bydd yn gweld bod gennym lawer i'w ddweud am amrywiaeth o bethau, gan gynnwys mater cysoni'r dreth gyngor. Rwy'n ei annog i'w ddarllen ac i wneud ei sylwadau drwy'r broses ymgynghori.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Deddf Troseddau Difrifol 2015		The Serious Crime Act 2015	
14:43	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, sy'n ymwneud â thrais domestig, ar ddarpariaethau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015? OAQ(4)0652(PS)</i></p>	<p><i>5. Will the Minister make a statement on the effect of section 76 of the Serious Crime Act 2015, which relates to domestic violence, on the provisions of the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015? OAQ(4)0652(PS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:43	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>The Act complements the work we are already doing in Wales to improve the public service response to domestic abuse and other forms of gender-based violence and sexual violence. It brings a coherent approach to the devolved and non-devolved aspects of criminal justice.</p>	<p>Mae'r Ddeddf yn ategu'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud yng Nghymru ar wella ymateb y gwasanaethau cyhoeddus i gam-drin domestig a mathau eraill o drais ar sail rhyw a thrais rhywiol. Mae'n sicrhau ymagwedd gydlynol tuag at agweddau datganoledig a heb eu datganoli o gyfiawnder troseddol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:43	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that, Minister. What measures will you introduce to ensure that there is co-ordination by public bodies of their public response and awareness-raising of safeguarding provisions that are now law in Wales under the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015, and the provisions included in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 that will be implemented on 1 April this year?</p>	<p>Diolch am hynny, Weinidog. Pa fesurau y byddwch yn eu cyflwyno i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydgysylltu eu hymateb cyhoeddus a'u gwaith yn codi ymwybyddiaeth o ddarpariaethau diogelu sydd bellach yn gyfraith yng Nghymru o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a roddir mewn grym ar 1 Ebrill eleni?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:44 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it's obviously very important that there is close co-ordination between the implementation teams in the Department for Health and Social Services, and with my officials in the violence against women policy team, to look at the areas that could include overlap. One of those might be, for example, training, and the provision of information to support that training. We're working with the Care Council for Wales, in fact, to ensure that the training programmes linked to the implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the Violence against Women Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 reflect one another. This also includes development of the social care workforce development partnership advice to encourage cross-referencing and alignment across local implementation of training.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

le, mae'n amlwg yn bwysig iawn fod yna gydgyssylltiad agos rhwng y timau gweithredu yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chyda fy swyddogion yn y tîm polisi trais yn erbyn menywod, i edrych ar y meysydd a allai gynnwys gorgyffwrdd. Un o'r rheini o bosibl fyddai hyfforddiant, er enghraifft, a darparu gwybodaeth i gefnogi'r hyfforddiant hwnnw. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru i sicrhau bod y rhaglenni hyfforddi sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn adlewyrchu ei gilydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys datblygu cyngor y bartneriaeth datblygu gweithlu gofal cymdeithasol er mwyn annog croesgyfeirio ac alinio ar draws y gwaith o weithredu hyfforddiant yn lleol.

14:45 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Serious Crime Act 2015 makes coercive or controlling domestic abuse a crime punishable by up to five years in prison, even if it stops short of physical violence. What plan does the Minister have to review the provision of Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 with regard to coercive and controlling behaviour?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae Deddf Troseddau Difrifol 2015 yn gwneud cam-drin domestig cyfyngol neu orthrechol yn drosedd y gellir ei chosbi â hyd at bum mlynedd o garchar, hyd yn oed os nad yw'n mynd mor bell â thrais corfforol. Pa gynllun sydd gan y Gweinidog i adolygu darpariaeth y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 mewn perthynas ag ymddygiad cyfyngol a gorthrechol?

14:45 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We welcome the UK Government's inclusion within the Serious Crime Act 2015 of a new coercive control offence related to domestic abuse. We supported the proposal and, indeed, we were consulted by the Home Office during its development to ensure that we were content that it reflected the interests of Wales. Obviously, we were looking at that at the very time that we were passing our own Act through this Assembly and are pleased that we have been able to move those two areas along together.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth y DU wedi cynnwys trosedd rheolaeth orthrechol newydd yn ymwneud â cham-drin domestig yn Neddf Troseddau Difrifol 2015. Roeddem yn cefnogi'r cynnig ac yn wir, ymgynghorodd y Swyddfa Gartref â ni yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Ddeddf i sicrhau ein bod yn fodlon ei fod yn adlewyrchu buddiannau Cymru. Yn amlwg, roeddem yn edrych ar hynny ar yr union adeg roeddem yn pasio ein Deddf ein hunain drwy'r Cynulliad hwn ac rydym yn falch ein bod wedi gallu symud y ddau faes yn eu blaenau gyda'i gilydd.

Llifogydd (Cymorth i Awdurdodau Lleol)

Flooding (Support for Local Authorities)

14:46 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol i ddelio ag effaith y llifogydd diweddar? OAQ(4)0662(PS)[W]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

6. Will the Minister make a statement on the support available to local authorities in dealing with the impact of recent flooding? OAQ(4)0662(PS)[W]

14:46 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddelio ag argyfyngau fel llifogydd a dylent gynllunio yn unol â hynny. Fel ymateb i'r llifogydd diweddar, mae Gweinidogion Cymru yn rhyddhau rhagor o gyllid i awdurdodau lleol ar gyfer delio â'r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn deillio o'r digwyddiadau hyn sydd angen ei wneud ar unwaith.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Local authorities have a statutory duty to deal with emergencies such as flooding incidents and should plan accordingly. In response to the recent flooding, Welsh Ministers are making additional funding available to local authorities to deal with immediate repairs and maintenance resulting from these incidents.

14:46 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr. Fe glywsom ni mai o gyllideb bresennol y Gweinidog Cyfoeth Naturiol y mae'r £3.5 miliwn yma sydd wedi'i gyhoeddi yn dod. A allwch chi gadarnhau felly, ac rydych wedi dechrau cyfeirio ato, ar gyfer beth yn union y mae'r arian a phryd y mae'r trafod yn dechrau gyda'r awdurdodau lleol ynglŷn â'r amodau ynglŷn â gwneud cais i'r Llywodraeth am yr arian yma, gan y cynghorau sydd wedi cael eu heffeithio wrth gwrs?

Thank you very much. We've heard that it's from the current budget of the Minister for Natural Resources that this £3.5 million will come. Can you confirm therefore, and you did make reference to this, how exactly that funding will be used and when discussions will commence with local authorities on the conditions in relation to making bids to the Government for this funding, from councils that have been affected?

14:47 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Just to be clear, the Minister for Natural Resources announced £1 million of funding for emergency repairs and small-scale maintenance schemes, and the consequential funding from the Treasury provided a further £2.3 million. The First Minister asked that this be allocated to the natural resources department to provide further flood-risk funding to local authorities for immediate repairs and maintenance. Officials will be writing to all local authorities across the country, asking them to submit their applications for this funding and emergency works will be prioritised.

I fod yn glir, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol gyllid gwerth £1 miliwn ar gyfer gwaith atgyweirio brys a chynlluniau cynnal a chadw ar raddfa fach, ac roedd y cyllid canlyniadol o'r Trysorlys yn darparu £2.3 miliwn arall. Gofynnodd y Prif Weinidog i hwn gael ei ddyrannu i'r adran cyfoeth naturiol ar gyfer darparu cyllid perygl llifogydd pellach i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ar unwaith. Bydd swyddogion yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol ledled y wlad i ofyn iddynt gyflwyno eu ceisiadau am y cyllid hwn a bydd gwaith brys yn cael ei flaenoriaethu.

14:47 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae yna gynllun ar gael yn yr Alban lle mae unigolion a theuluoedd yn gallu cynnig am grant o £1,500, a hefyd fusnesau sydd wedi cael eu heffeithio am grant o £3,000. A ydy eich Llywodraeth chi wedi ystyried unrhyw gynllun o'r fath yma? Mae yna hefyd achosion yn yr Alban lle mai nid dim ond yr awdurdodau yna sydd wedi dioddef o ran problemau llifogydd yn unig sydd yn gallu cynnig am y grantiau, ond hefyd teuluoedd unigol o fewn awdurdodau eraill. A ydych wedi ystyried cynllun o'r math yma?

Minister, there is a scheme in Scotland where individuals or families can bid for a grant of £1,500, and affected businesses can make a bid for £3,000. Has your Government considered any similar scheme here? There are cases in Scotland where it's not just the authorities that have suffered flooding problems that are eligible to bid for grants, but individual families living in other local authority areas. Have you considered such a scheme here?

14:48 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The responsibility for flooding, of course, is with my colleague, the Minister for Natural Resources, and I suggest that the Member takes that issue up with him.

Fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, sy'n gyfrifol am waith llifogydd, wrth gwrs, ac awgrymaf fod yr Aelod yn trafod y mater gydag ef.

Cronfeydd Wrth Gefn

14:48 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae cronfeydd ariannol wrth gefn awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio? OAQ(4)0660(PS)

14:48 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n bwysig bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol i gefnogi'r diwygiadau y mae eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u gwella. Byddwn yn gweithredu i atal unrhyw achosion o gael gwared ar gronfeydd wrth gefn mewn ffordd anghyfrifol.

Financial Reserves

7. Will the Minister make a statement on the use of local authorities' financial reserves? OAQ(4)0660(PS)

It is important that reserves are used strategically to support the necessary reforms required to ensure vital services are maintained and improved. We will act to prevent any irresponsible disposal of reserves.

14:49	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yn sicr, Weinidog, mi fyddem ni i gyd yn cytuno bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn yn gyfrifol, ond a fydddech chi'n cytuno bod cadw symiau enfawr o arian mewn cronfeydd wrth gefn ar adeg pan fo llywodraeth leol o dan bwysau ariannol mawr, yn wynebu'r angen i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, a hefyd, yn eich geiriau chi, yn gorfod paratoi ar gyfer dyddiau glawog ac, eto yn eich geiriau chi, y mae wedi bod yn glawio nawr ers flwyddyn neu ddwy—? Felly, rwy'n siŵr y bydddech yn cymeradwyo cyngor sir Gaerfyrddin am eu defnydd nhw o gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â'r union broblemau yr ydych chi wedi eu nodi.</p>	<p>Certainly, Minister, we would all agree that reserves do need to be used responsibly, but would you agree that keeping huge sums in reserve at a time when local government is under great financial pressure and facing the need to invest in capital projects and, in your own words, to prepare for rainy days, and, again in your words, it has been raining now for a year or two—? So, I'm sure that you would applaud Carmarthenshire council for their use of reserves in tackling the very problems that you yourself have raised.</p>
14:49	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Let me start by saying that I certainly think that councils need to use reserves prudently. I certainly think that reserves have a role in the transformation of services at the present time and, clearly, the current policies of austerity of the UK Government that we're facing will require councils to look at the use of their reserves. However, having said all that, of course, it is essential that we do not see a situation where local authorities simply want to dispose of all of their reserves in advance of a local government reorganisation. So, I would suggest that council leaders who are intending to use their reserves are very careful with the language that they use.</p>	<p>Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud fy mod yn sicr yn credu bod angen i gynghorau ddefnyddio arian wrth gefn yn ddarbodus. Rwy'n sicr yn credu bod gan gronfeydd wrth gefn rôl i'w chwarae yn trawsnewid gwasanaethau ar hyn o bryd ac yn amlwg, bydd polisiau caledi presennol Llywodraeth y DU sy'n ein hwynebu yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau edrych ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, wrth gwrs, mae'n hanfodol nad ydym yn cael sefyllfa lle y mae awdurdodau lleol am gael gwared ar eu cronfeydd wrth gefn i gyd cyn ad-drefnu llywodraeth leol. Felly, byddwn yn awgrymu bod arweinwyr cynghorau sy'n bwriadu defnyddio'u cronfeydd wrth gefn yn ofalus iawn gyda'r iaith a ddefnyddiant.</p>
14:50	Angela Burns Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Following on from that, Minister, I wondered, did you consider the level of reserves held by local authorities when determining the local government settlement?</p>	<p>Yn dilyn hynny, Weinidog, roeddwn i'n meddwl tybed a wnaethoch chi ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan awdurdodau lleol wrth benderfynu ar y setliad llywodraeth leol?</p>
14:50	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, the formula is obviously what determines the local government settlement. I have given considerable guidance, however, on the use of reserves. Indeed, I've written to all councillors explaining to them how best to scrutinise the reserves that are held by their local authority. We've also published the amount of reserves that are held by local authorities on the Welsh Government's website.</p>	<p>Wel, mae'n amlwg mai'r fformiwla yw'r hyn sy'n pennu'r setliad llywodraeth leol. Fodd bynnag, rwyf wedi rhoi cryn dipyn o arweiniad ar y defnydd o'r cronfeydd wrth gefn. Yn wir, rwyf wedi ysgrifennu at bob cynghorydd yn egluro'r ffordd orau o graffu ar y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan eu hawdurdod lleol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi faint o gronfeydd wrth gefn a gedwir gan awdurdodau lleol ar wefan Llywodraeth Cymru.</p>
	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	The Local Democracy and Boundary Commission for Wales
14:51	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru? OAQ(4)0655(PS)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on the work of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales? OAQ(4)0655(PS)</i></p>
14:51	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The Local Democracy and Boundary Commission for Wales's role is to review local government areas and the electoral arrangements of principal areas in Wales.</p>	<p>Rôl Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yw adolygu ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol prif ardaloedd Cymru.</p>

14:51 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Minister, following the £130,000 that your Government spent on the largely ignored Williams commission, and, added to that, the cost to the taxpayer of over £434,000 last year for the Local Democracy and Boundary Commission for Wales, accusations of your Government wasting public money have been rife. Now, we're talking over £0.5 million just on this alone. You've now stated that the nine completed electoral reviews, which you do not now intend to take forward, would only have been in effect anyway for three years. Given your long-proposed intention to centralise local government here in Wales, can you explain why you allowed this work to go ahead in the first place and also explain to this Chamber how you've allowed such a blatant waste of our hard-earned taxpayers' money?

Diolch. Weinidog, yn dilyn y £130,000 a wariodd eich Llywodraeth ar gomisiwn Williams, gwaith a anwybyddwyd i raddau helaeth, ac yn ychwanegol at hynny, y gost i'r trethdalwyr o dros £434,000 y llynedd ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, dywyd cyhuddiadau mynych fod eich Llywodraeth yn gwastraffu arian cyhoeddus. Nawr, rydym yn sôn am dros £0.5 miliwn ar hyn yn unig. Rydych wedi datgan yn awr na fyddai'r naw adolygiad etholiadol a gwblhawyd, nad ydych bellach yn bwriadu bwrw ymlaen â hwy, wedi bod yn weithredol am fwy na thair blynedd beth bynnag. O ystyried eich bwriad hir arfaethedig i ganoli llywodraeth leol yma yng Nghymru, a allwch esbonio pam eich bod wedi caniatáu i'r gwaith hwn fynd rhagddo yn y le cyntaf, a hefyd egluro i'r Siambur sut rydych wedi caniatáu'r fath wastraff amlwg o arian y mae ein trethdalwyr wedi gweithio'n galed amdano?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:52 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are over 60 recommendations in the Williams commission review and they've all been acted on, I think, with the exception of two if I remember rightly. So, I consider that money to have been well spent. It has informed Government work not just in respect of local government reorganisation, but in respect of public service leadership and development across the piece. In respect of the specific reviews carried out by the local government boundary commission, let me say, we obviously need a local democracy and boundary commission for Wales, but it's not the only work in which they've been involved. I considered that it was unwise to proceed with the proposals that have come forward, given our intention of fundamental local government reorganisation.

Ceir dros 60 o argymhellion yn adolygiad comisiwn Williams a gweithredwyd ar bob un ohonynt, rwy'n meddwl, ac eithrio dau, os cofiaf yn iawn. Felly, rwyf o'r farn fod hwnnw'n arian a wariwyd yn dda. Mae wedi llywio gwaith y Llywodraeth, nid yn unig o ran ad-drefnu llywodraeth leol, ond mewn perthynas ag arwain a datblygu gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. O ran yn adolygiadau penodol a wnaed gan y comisiwn ffiniau llywodraeth leol, gadewch i mi ddweud ei bod hi'n amlwg fod angen comisiwn ffiniau a democratiaeth leol ar Gymru, ond nid dyma'r unig waith y maent wedi bod yn rhan ohono. Roeddwn yn ystyried mai annoeth fyddai bwrw ymlaen â'r cynigion a ddaeth i law o gofio ein bwriad i ad-drefnu llywodraeth leol yn sylfaenol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Local Government Reorganisation

14:53 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I first of all declare an interest, as I'm a member of Caerphilly County Borough Council?

A gaf fi yn gyntaf oll ddatgan buddiant, gan fy mod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili?

9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu effaith ad-drefnu llywodraeth leol ar gynghorau tref a chymuned?
OAQ(4)0659(PS)

9. Will the Minister outline the impact of local government reorganisation on town and community councils? OAQ(4)0659(PS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:53 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposals taken forward in the draft Local Government (Wales) Bill, published on 24 November, will strengthen the community and town council sector so that it has greater capacity and capability to take on responsibility for local facilities and services.

Bydd y cynigion sy'n cael eu datblygu yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd, yn cryfhau'r sector cynghorau tref a chymuned fel bod ganddo fwy o gapasiti a gallu i ysgwyddo cyfrifoldeb am gyfleusterau a gwasanaethau lleol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:53 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Inaudible.]—words and we thank you for them, but we know from a recent independent review of community councils in Wales that a large percentage of councillors are co-opted or elected unopposed, rather than directly elected. In my opinion, there's a danger that they're not socially or economically a representative of the local population. What do you think can be done to make community councils more democratically accountable, and is paying them the answer?

[Anghlywadwy.]—a diolchwn i chi amdanynt, ond gwyddom o adolygiad annibynnol diweddar o gynghorau cymuned yng Nghymru fod canran uchel o gynghorwyr yn cael eu cyfethol neu eu hethol yn ddiwrthwynebiad, yn hytrach na'u hethol yn uniongyrchol. Yn fy marn i, mae perygl nad ydynt yn cynrychioli'r boblogaeth leol yn gymdeithasol neu'n economaidd. Yn eich barn chi, beth y gellir ei wneud i wneud cynghorau cymuned yn fwy atebol yn ddemocrataidd, ac ai eu talu yw'r ateb?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:54

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I share the views of the Member about the issues of co-option and, indeed, the difficulties of achieving diversity within the membership of town and community councils. We set out in the White Paper we published last February quite extensive thoughts on the future of town and community councils. It seems to me that we have a slightly patchy network of town and community councils across Wales. I would like to see them working more closely with principal local authorities and have better exchanges between them in terms of developing future support for their communities. We will be having a review of town and community councils, their boundaries and other factors by 2020, and I would be happy to hear from the Member on his views on their development.

Wel, rwy'n rhannu barn yr Aelod am y materion sy'n ymwneud â chyfethol ac yn wir, yr anawsterau gyda sicrhau amrywiaeth ymhlith aelodaeth cyngorau tref a chymuned. Yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gennym fis Chwefror diwethaf, rydym yn nodi ystyriaethau go helaeth ynghylch dyfodol cyngorau tref a chymuned. Mae'n ymddangos i mi fod gennym rwydwaith braidd yn anghyson o gynghorau tref a chymuned ledled Cymru. Hoffwn eu gweld yn gweithio'n agosach gyda phrif awdurdodau lleol a mwy o drafod rhyngddynt o ran datblygu cymorth i'w cymunedau yn y dyfodol. Byddwn yn cynnal adolygiad o gynghorau tref a chymuned, eu ffiniau a ffactorau eraill erbyn 2020, a byddwn yn falch o glywed barn yr Aelod ar eu datblygiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will be well aware that many of our town and community councils are so different, aren't they, in terms of size and composition, even in terms of the responsibilities that they take on? Although you are looking forward to 2020, in the interim, are you minded to make any particular direction, particularly in terms of the precept?

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol iawn fod llawer o'n cynghorau tref a chymuned mor wahanol, onid ydynt, o ran maint a chyfansoddiad, hyd yn oed o ran y cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyddo? Er eich bod yn edrych ymlaen at 2020, yn y cyfamser, a ydych yn bwriadu gwneud unrhyw gyfarwyddyd penodol, yn enwedig o ran y praesept?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I don't think it's for me to give a direction on the precept of town and community councils. The Member is absolutely right, of course, to say they vary in size, the largest town and community council being Barry at a size of around 45,000 and then we have some, I think, that are only in double figures in terms of their population size. I think it is difficult to generalise about them. Clearly, the fact that they can levy a precept is an advantage. It can help with the delivery of certain services, and some town and community councils are taking on a greater variety of services.

Na, nid wyf yn credu mai fy lle i yw rhoi cyfarwyddyd ar braesept y cynghorau tref a chymuned. Mae'r Aelod yn hollol iawn, wrth gwrs, i ddweud eu bod yn amrywio o ran maint—y cyngor tref a chymuned mwyaf yw'r Barri, sydd â phoblogaeth o tua 45,000 ac mae gennym rai wedyn, rwy'n meddwl, sydd â phoblogaeth o lai na chant. Rwy'n credu ei bod yn anodd cyffredinol yn eu cylch. Yn amlwg, mae'r ffaith eu bod yn gallu codi praesept yn fantais. Gall helpu i ddarparu rhai gwasanaethau, ac mae rhai cynghorau tref a chymuned yn darparu amrywiaeth fwy o wasanaethau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwarchod Cyllid Llywodraeth Leol

The Protection of Local Government Funding

14:56

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Llywodraeth Cymru i warchod cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0654(PS)

10. Will the Minister make a statement on the protection of funding for local government in Wales by the Welsh Government over the course of this Assembly term? OAQ(4)0654(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. We have protected the funding for local government in Wales over the course of this Assembly term. This means that local government in Wales has not been subject to the level of cuts experienced by councils in England.

Gwnaf. Rydym wedi diogelu'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae hyn yn golygu nad yw llywodraeth leol yng Nghymru wedi dioddef lefel y toriadau a brofwyd gan gynghorau yn Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer. Minister, as a consequence of the UK Government decision, since 2010-11, spending on local services in England has decreased by around 10 per cent in cash terms, while in Wales it's increased by 2.5 per cent. What does this tell the people of Wales about the value the Welsh Labour Government place on public services, in a direct contrast to the Conservatives?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb. Weinidog, o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU, ers 2010-11, mae gwariant ar wasanaethau lleol yn Lloegr wedi gostwng tua 10 y cant yn nhermau arian parod, ac yng Nghymru mae wedi cynyddu 2.5 y cant. Beth y mae hyn yn ei ddweud wrth bobl Cymru ynglŷn â gwerth gwasanaethau cyhoeddus i Lywodraeth Lafur Cymru, mewn cyferbyniad uniongyrchol â'r Ceidwadwyr?</p>
14:56	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, my colleague the Member for Islwyn is absolutely right. It is true to say that spending on local government in England has decreased by around 10 per cent in cash terms. In Wales, it has increased by 2.5 per cent. We believe in local government in Wales. We continue to invest in local government in Wales during the life of this Assembly; that contrasts markedly with the situation in England. Of course, at the same time, council tax levels in Wales remain, on average, £158 lower than they are in England.</p>	<p>Wel, mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Islwyn, yn hollol gywir. Mae'n wir dweud bod gwariant ar lywodraeth leol yn Lloegr wedi gostwng tua 10 y cant yn nhermau arian parod. Yng Nghymru, mae wedi cynyddu 2.5 y cant. Rydym yn credu mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod oes y Cynulliad hwn; mae hynny'n cyferbynnu'n amlwg â'r sefyllfa yn Lloegr. Wrth gwrs, ar yr un pryd, mae lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru yn parhau i fod, ar gyfartaledd, £158 yn is nag yn Lloegr.</p>
14:57	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, do you think that a council that is considering a 5 per cent council tax rise at the same time as revealing that it is having to return £1 million to Welsh Government that it was given for tackling poverty, because it was unable to spend it, deserves one of the lowest cuts to its RSG this year?</p>	<p>Weinidog, a ydych yn meddwl bod cyngor sy'n ystyried cynnydd o 5 y cant yn y dreth gyngor ar yr un pryd â datgelu ei fod yn gorfod rhoi £1 filiwn, a roddwyd iddo i drechu tlodi, yn ôl i Lywodraeth Cymru am nad oedd yn gallu ei wario, yn haeddu un o'r toriadau isaf i'w grant cynnal refeniw eleni?</p>
14:57	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The funding formula delivers the settlement for local authorities. The issue that the Member identifies is an issue that she can take up locally with that authority.</p>	<p>Mae'r fformiwla ariannu yn darparu'r setliad ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r mater y mae'r Aelod yn ei nodi yn un y gall ei drafod yn lleol gyda'r awdurdod hwnnw.</p>
	Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft	Draft Local Government (Wales) Bill
14:57	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft? OAQ(4)0661(PS)</p>	<p>11. Will the Minister make a statement on the draft Local Government (Wales) Bill? OAQ(4)0661(PS)</p>
	<p><i>Daeth y Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) i'r Gadair.</i></p>	<p><i>The Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) took the Chair.</i></p>
14:57	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We're currently consulting on the draft Local Government (Wales) Bill, which sets out our proposals for the reform of local government.</p>	<p>Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ynglŷn â'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, sy'n nodi ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol.</p>

14:58	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. The appointment of a public services staff commission under the draft Bill is a particularly important mechanism in the context of Westminster austerity budgets and the UK Government's divisive Trade Union Bill. I'm very pleased that the Minister recognises these challenges. Would you agree with me that developing our public service workforce in partnership and in consultation with representative organisations should always be central to Government legislative agendas?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Mae penodi comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus o dan y Bil drafft yn fecanwaith arbennig o bwysig yng nghyd-destun cyllidebau caledi San Steffan a Bil Undebau Llafur ymrannol Llywodraeth y DU. Rwy'n falch iawn fod y Gweinidog yn cydnabod yr heriau hyn. A fydddech yn cytuno y dylai datblygu ein gweithlu gwasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth ac mewn ymgynghoriad â sefydliadau cynrychiadol fod yn ganolog i agenda ddeddfwriaethol y Llywodraeth bob amser?</p>
14:58	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, indeed. Obviously, we have established the public service staff commission initially on a non-statutory basis. This was a proposal that came from the trade unions. Obviously, we have a social partnership model of working here in Wales, through the workforce partnership council. I'm pleased that we've been able to discuss the future remit of the public service staff commission with that workforce partnership council, which will be the primary reference body for the public service staff commission. We work with the trade unions in Wales; we don't seek to diminish their powers as the London Government does.</p>	<p>Byddwn, yn wir. Yn amlwg, rydym wedi sefydlu comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus yn y lle cyntaf ar sail anstatudol. Roedd yn gynnig a ddaeth gan yr undebau llafur. Yn amlwg, mae gennym fodel partneriaeth gymdeithasol o weithio yma yng Nghymru, drwy gyngor partneriaeth y gweithlu. Rwy'n falch ein bod wedi gallu trafod cylch gorchwyl comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol gyda chyngor partneriaeth y gweithlu, a fydd yn brif gorff cyfeirio ar gyfer comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn gweithio gyda'r undebau llafur yng Nghymru; nid ydym yn ceisio lleihau eu pwerau fel y mae'r Llywodraeth yn Llundain yn ei wneud.</p>
14:59	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, you've thankfully kicked your local government reorganisation plans into the long grass beyond the election. In fact, earlier, you distanced yourself from the draft local government Bill and said, 'It's not my Bill, it's the Welsh Government's Bill.' Isn't it a fact, Minister, we have no guarantee that this reorganisation will have the support to go through after the election? This was a flawed process from the start. You know it, everyone knows it. It's no way to undertake a local government reorganisation, and you should back away fully from it now.</p>	<p>Weinidog, diolch i'r drefn, rydych wedi rhoi eich cynlluniau ad-drefnu llywodraeth leol o'r neilltu nes ar ôl yr etholiad. Yn wir, yn gynharach, fe ymbellhach oddi wrth y Bil llywodraeth leol drafft a dweud, 'Nid fy Mil i ydyw, ond Bil Llywodraeth Cymru.' Onid yw'n ffaith, Weinidog, nad oes gennym unrhyw sicrwydd y bydd yna gefnogaeth i fwrw ymlaen â'r ad-drefnu ar ôl yr etholiad? Roedd hon yn broses ddiffygiol o'r cychwyn. Rydych chi'n gwybod hynny, mae pawb yn gwybod hynny. Nid dyma'r ffordd i ad-drefnu llywodraeth leol, a dylech gamu'n ôl yn llwyr oddi wrtho yn awr.</p>
14:59	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>If that's the Member's contribution to the consultation on the Local Government (Wales) Bill, it won't take me very long to read it. [Laughter.]</p>	<p>Os mai dyna gyfraniad yr Aelod i'r ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru), ni fydd yn cymryd yn hir i mi ei ddarllen. [Chwerthin.]</p>
14:59	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch, Weinidog.</p>
14:59	3. Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgor	Y Senedd.tv Fideo Video
	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	3. Motion to Elect Members to a Committee
	<p>We now move to item 3, which is a motion to elect Members to committees. I call on a member of the Business Committee to move formally.</p>	<p>Symudwn yn awr at eitem 3, sef cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig yn ffurfiol.</p>
	<p>Cynnig NDM5921 Rosemary Butler</p>	<p>Motion NDM5921 Rosemary Butler</p>
	<p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3:</p>	<p>To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.3:</p>

(i) yn ethol John Griffiths (Llafur) yn aelod o, ac yn Gadeirydd, i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad;

(i) elects John Griffiths (Labour) as a member, and Chair, of the Standards of Conduct Committee;

(ii) yn ethol Jeff Cuthbert (Llafur) fel eilydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer John Griffiths (Llafur).

(ii) elects Jeff Cuthbert (Labour) as an alternate member of the Standards of Conduct Committee for John Griffiths (Labour).

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:00 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

15:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Formally. The proposal is to agree the motion. Does anyone object? No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Yn ffurfiol. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nac oes. Derbyniwyd y cynnig, felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

15:00 **4. Bil Cymru Drafft**

4. Draft Wales Bill

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now come to item 4, which is a debate on the draft Wales Bill. The first motion is on the report by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and I call on the Chair of that committee, David Melding, to move the motion.

Down yn awr at eitem 4, sef dadl ar y Bil Cymru drafft. Mae'r cynnig cyntaf yn ymwneud â'r adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, David Melding, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5911 David Melding

Motion NDM5911 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru drafft.

To propose that the National Assembly for Wales welcomes the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on the draft Wales Bill.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:00 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I move the motion. I'm very pleased indeed to start the series of debates that we will hold this afternoon on the draft Wales Bill.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig. Rwy'n falch iawn o ddechrau ar y gyfres o ddadleuon y byddwn yn eu cynnal y prynhawn yma ar y Bil Cymru drafft.

The Secretary of State has stated that the draft Bill aims to provide a lasting settlement that will be a—now I quote—

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi datgan mai nod y Bil drafft yw ceisio darparu setliad parhaol—nawr, rwy'n dyfynnu—a fydd yn

'stronger, clearer and fairer devolution settlement for Wales that will stand the test of time'.

'setliad datganoli cryfach, cliriach a thecach i Gymru a fydd yn sefyll prawf amser'.

This aim is ambitious and appropriate and is more expansive in its constitutional objectives than either the Government of Wales Act 1998 or GOWA 2006. Constitutional coherence requires that the powers of a government and the legislature to which it is accountable must be commensurate with its responsibilities. Otherwise, the essential energy of government is lost.

Mae'r nod hwn yn uchelgeisiol ac yn briodol ac mae ei amcanion cyfansoddiadol yn ehangach na Deddf Llywodraeth Cymru 1998 neu Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae cydlynid cyfansoddiadol yn ei gwneud yn ofynnol i bwerau llywodraeth a'r ddeddfwriaeth y mae'n atebol iddi fod yn gymesur â'i gyfrifoldebau. Fel arall, mae egni hanfodol llywodraeth yn cael ei gollu.

The Supreme Court grappled with this question in the Agricultural Sector (Wales) Bill, which the UK Government had referred to the Court, believing the Bill to fall outside the powers conferred on the Assembly. To achieve a reasonable match between devolved powers and responsibilities, the Supreme Court interpreted the range of powers invested in the Assembly broadly. So, the granting of a principal power—for example, each of the 20, soon to be 21, devolved fields—carries also the inferred grant of all adequate and appropriate means to execute them. In other words, Parliament, when passing GOWA 2006, intended the executive and legislative powers devolved to be exercised in a full and reasonable way.

Many welcomed the Supreme Court's decision as a solution to the basic problem of Welsh governance, which had marked it out when compared to the Scottish settlement and that in Northern Ireland. Powers and responsibilities were, at last, reasonably matched. There was also a general consensus that a move to a reserved-powers model in Wales would be welcome because it could formalise, in statute, this position.

Indeed, the spirit of consensus is found in parts of the Bill and it is seen, for instance, in the internal organisation of the Assembly, which will now be a matter for us; the recognition of permanence, a very important constitutional principle; the additional powers we are to acquire; and also the power over elections.

Surely, after 18 years and three Acts dealing with Welsh governance, the people of Wales deserve a constitutional settlement stated clearly in statute. In presenting the UK Government's proposals as a draft Bill, the Secretary of State has invited widespread discussion, albeit—I think it has to be said—within a tight timescale. He also stated to the Constitutional and Legislative Affairs Committee that the intention behind this approach was to identify improvements that could be made to the Bill. I quote him again:

'I do expect the final piece of legislation that gets Royal Assent to be significantly different from the draft.'

This then has the potential to be a productive process and one that could leave a clear made-in-Wales stamp on the Bill.

If I now can move on to some of the substantial parts of the Bill. In his evidence to the committee, the Secretary of State outlined the approach taken to the list of reservations in the draft Bill. I quote him again:

'The request that we put out to our colleagues in Whitehall was, 'What is your interpretation of the current devolution boundary in your departmental areas given the existing legislation?''

Aeth y Goruchaf Lys i'r afael â'r cwestiwn hwn yn y Bil Sector Amaethyddol (Cymru), a gyfeirwyd at y Llys gan Lywodraeth y DU, a gredai fod y Bil y tu hwnt i'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad. Er mwyn sicrhau cydweddiad rhesymol rhwng y pwerau a'r cyfrifoldebau datganoledig, cafwyd dehongliad eang gan y Goruchaf Lys o'r ystod o bwerau a roddwyd i'r Cynulliad. Felly, mae rhoi prif bŵer—er enghraifft, pob un o'r 20 maes datganoledig, a fydd yn 21 cyn bo hir—hefyd yn cynnwys yr ystyr o roi dull digonol a phriodol o'i weithredu. Mewn geiriau eraill, roedd y Senedd, wrth basio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn bwriadu i'r pwerau gweithrediaeth a deddfwriaethol datganoledig gael eu harfer yn llawn ac yn rhesymol.

Croesawyd penderfyniad y Goruchaf Lys gan lawer fel ateb i broblem sylfaenol trefn lywodraethu Cymru, a oedd yn ei gosod ar wahân o'i chymharu â setliad yr Alban, a setliad Gogledd Iwerddon. Roedd pwerau a chyfrifoldebau, o'r diwedd, yn cyfateb yn weddol. Roedd yna hefyd gonsensws cyffredinol y byddai symud at fodel cadw pwerau'n ôl yng Nghymru yn cael ei groesawu am y gallai ffurfioli'r sefyllfa hon mewn statud.

Yn wir, mae ysbryd consensws i'w weld mewn rhannau o'r Bil a gellir ei weld, er enghraifft, yn nhrefniadaeth fewnol y Cynulliad, a fydd bellach yn fater i ni; cydnabod parhauster, egwyddor gyfansoddiadol bwysig iawn; y pwerau ychwanegol rydym i'w caffael; yn ogystal â'r pŵer dros etholiadau.

'Does bosibl, ar ôl 18 mlynedd a thair Deddf yn ymwneud â llywodraethu Cymru, nad yw pobl Cymru yn haeddu setliad cyfansoddiadol wedi'i ddatgan yn glir mewn statud. Wrth gyflwyno cynigion Llywodraeth y DU fel Bil drafft, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwahodd trafodaeth eang, er bod hynny—rwy'n credu bod yn rhaid ei ddweud—o fewn amserlen dynn. Hefyd, dywedodd wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mai'r bwriad sy'n sail i'r dull hwn oedd nodi gwelliannau y gellid eu gwneud i'r Bil. Fe'i dyfynnaf eto:

'I do expect the final piece of legislation that gets Royal Assent to be significantly different from the draft.'

Felly mae gan y broses hon botensial i fod yn un gynhyrchiol ac yn un a allai roi stamp 'a wnaed yng Nghymru' amlwg ar y Bil.

Os caf symud ymlaen yn awr at rai o rannau pwysig y Bil. Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, amlinellodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dull o fynd ati i lunio'r rhestr o gymalau cadw yn y Bil drafft. Fe'i dyfynnaf eto:

'The request that we put out to our colleagues in Whitehall was, 'What is your interpretation of the current devolution boundary in your departmental areas given the existing legislation?''

This approach appears, perhaps inadvertently, to have led us back to the status quo ante where powers and responsibilities are not properly matched. But perhaps this outcome is not that surprising, because Whitehall departments were asked to provide their own interpretation of the law and not to apply the ruling of the Supreme Court. Of course, Parliament—not, strictly speaking, the UK Government, but Parliament—has the right to respond to a Supreme Court ruling and set out a different direction in statute. Undoubtedly, it is their prerogative. Yet, to do this without securing a broad consensus is surely risky, and it invites the allegation that considered judicial reasoning designed to strengthen Welsh governance is being replaced by the preferences of a particular Government. Constitutions are not a matter for routine law, but rather require the long-term vision of statecraft. This is why consensus is such a key element in crafting constitutional law: only by lifting the matter above partisan politics can a settlement be secured.

I think that one of the design flaws in the draft Bill is the objective to make everything explicit relating to reservations, rather than allowing room for flexibility. Given the complex legal and administrative position of Wales and England, compared to Scotland or Northern Ireland, this approach regarding reservations is understandable, though ultimately debilitating. It is the very nature of the deep union between England and Wales that requires flexibility for Welsh governance to operate efficiently. The Supreme Court found this flexibility in the so-called silent areas that sometimes have to be called upon to allow the meaningful exercise of devolved functions. In its ruling on the Agricultural Sector (Wales) Bill, the Supreme Court stated:

‘This is not however a case in which the court has to turn to a dictionary in order to find out the meaning of an unfamiliar word. The problem is to decide what Parliament meant by the subject of “Agriculture”...’

It went on:

‘In this context, it is clear to us that agriculture cannot be intended to refer solely to the cultivation of the soil or the rearing of livestock, but should be understood in a broader sense as designating the industry or economic activity of agriculture in all its aspects, including the business and other constituent elements of that industry, as it is to that broader subject matter that legislative activity is directed.’

Ymddengys bod y dull hwn, yn anfwriadol o bosibl, wedi ein harwain yn ôl at y status quo blaenorol lle nad yw pwerau a chyfrifoldebau yn cyfateb yn briodol. Ond efallai nad yw'r canlyniad hwn yn gymaint o syndod â hynny, gan fod gofyn i adrannau Whitehall ddarparu eu dehongliad eu hunain o'r gyfraith a pheidio â chymhwyso dyfarniad y Goruchaf Lys. Wrth gwrs, mae gan y Senedd—nid Llywodraeth y DU a bod yn fanwl gywir, ond y Senedd—hawl i ymateb i ddyfarniad gan y Goruchaf Lys a gosod cyfeiriad gwahanol mewn statud. Yn ddi-os, mae ganddynt yr hawl honno. Eto i gyd, mae gwneud hyn heb sicrhau consensws eang yn sicr yn beryglus, ac mae'n gwahodd y cyhuddiad fod yr hyn sydd orau gan Lywodraeth benodol yn disodli rhesymeg farnwrol ystyrlon a luniwyd i gryfhau'r drefn lywodraethu yng Nghymru. Nid yw cyfansoddiadau yn fater ar gyfer cyfraith gyffredin, ond yn hytrach maent angen gweledigaeth hirdymor o wladweinyddiaeth. Dyma pam y mae consensws yn elfen mor allweddol wrth lunio cyfraith gyfansoddiadol: yr unig ffordd o sicrhau setliad yw drwy ddyrchafu'r mater uwchlaw gwleidyddiaeth plaid.

Rwy'n credu mai un o'r diffygion yn y broses o lunio'r Bil drafft yw'r nod o wneud popeth yn ddiawys mewn perthynas â chymalau cadw, yn hytrach na chaniatáu lle i hyblygrwydd. O ystyried sefyllfa gyfreithiol a gweinyddol gymhleth Cymru a Lloegr, o'i chymharu â'r Alban neu Ogledd Iwerddon, mae'r dull hwn mewn perthynas â chymalau cadw yn ddealladwy, er yn wanychol yn y pen draw. Mae union natur yr undeb dwfn rhwng Cymru a Lloegr yn galw am hyblygrwydd er mwyn galluogi trefn lywodraethu yng Nghymru i weithredu'n effeithlon. Canfu'r Goruchaf Lys yr hyblygrwydd hwn yn y meysydd tawel, fel y'u gelwir, sy'n rhaid eu cynnwys weithiau i sicrhau bod swyddogaethau datganoledig yn cael eu harfer yn ystyrlon. Yn ei ddyfarniad ar Fil Sector Amaethyddol (Cymru), dywedodd y Goruchaf Lys:

‘This is not however a case in which the court has to turn to a dictionary in order to find out the meaning of an unfamiliar word. The problem is to decide what Parliament meant by the subject of “Agriculture”...’

Aeth ymlaen:

‘In this context, it is clear to us that agriculture cannot be intended to refer solely to the cultivation of the soil or the rearing of livestock, but should be understood in a broader sense as designating the industry or economic activity of agriculture in all its aspects, including the business and other constituent elements of that industry, as it is to that broader subject matter that legislative activity is directed.’

Many matters are silent because to make them explicit and reserved in legislation would have the practical effect of, at least on occasion, making principal powers inoperative or compromised. The Secretary of State himself seemed to recognise this when he pointed out to the committee the absurdity of reserving all silent matters when referring to hovercraft policy. In many federal states, this challenge is met by listing some powers as concurrent or shared to the extent that they can be used if limited to application in devolved areas, or where there is no wider public interest that demands action by central Government. Perhaps the point to be understood here is that no constitutional rules can deliver a perfect binary divide, and some system of exchange is always going to be required at the margin. The Secretary of State's approach—to be fair—recognises this, which is why a system of consents would continue to operate. However, the current system of consents would be greatly expanded to meet the new constitutional position proposed by the UK Government, at least in draft. A better approach would be to base a reserved-powers model on the principle of subsidiarity. This would reserve those powers that are necessary to allow the UK Government to operate. Interestingly, when we ask the public what they want the UK Government to do and what they want us to do in this legislature, they give very clear and coherent answers. If a wider criteria is applied than that required for the UK Government to exercise the functions of central Government—a proper requirement, after all—we drift into the culture of a conferred-powers approach, albeit one dressed up as a reserved-powers settlement.

The awkwardness of basing devolved governance on a principle other than subsidiarity is demonstrated in the sheer quantity of reservations proposed in the draft Bill. They are numerous. Quite literally, they cannot be counted, although most who have attempted enumeration put the figure somewhere above 250. This is ominous. That some of the reservations contain certain exceptions—so, sending piecemeal some powers back to Wales—surely invites us to reach for Occam's razor and simplify matters with a clear statement of subsidiarity. As things stand, the reservations run to 41 pages of the draft Bill, almost twice as many as in the Scotland Act. The meticulous drafting that has carved out so many reservations is undoubtedly a technical achievement, whatever we think of its practical consequences for the devolution settlement. But they do cause problems.

Mae llawer o faterion yn dawel gan mai effaith ymarferol eu gwneud yn ddiamwys ac wedi'u cadw yn ôl yn y ddeddfwriaeth fyddai peryglu prif bwerau neu eu gwneud yn anweithredol, ar adegau o leiaf. Roedd hi'n ymddangos fel pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun yn cydnabod hyn pan dynnodd sylw'r pwyllgor at ba mor hurt fuasai cadw pob mater tawel yn ôl wrth gyfeirio at bolisi hofrenfadau. Mewn llawer o wladwriaethau ffederal, wyneb yr her hon drwy restru rhai bwerau fel bwerau cydredol neu bwerau a rennir i'r graddau y gellir eu defnyddio os ydynt wedi'u cyfyngu i'w cymhwyso mewn meysydd datganoledig, neu pan nad oes unrhyw fudd cyhoeddus ehangach sy'n galw ar y Llywodraeth ganolog i weithredu. Efallai mai'r pwynt sydd i'w ddeall yma yw na all unrhyw reolau cyfansoddiadol ddarparu rhaniad deuaidd perffaith, ac y bydd gofyn bob amser am ryw fath o system gyfnewid ar yr ymylon. Mae dull yr Ysgrifennydd Gwladol—a bod yn deg—yn cydnabod hyn, a dyna pam y byddai system o gydsyniadau yn parhau i weithredu. Fodd bynnag, byddai'r system gyfredol o gydsyniadau yn cael ei ehangu'n sylweddol i gyfateb i'r sefyllfa gyfansoddiadol newydd a gynigir gan Lywodraeth y DU, ar ffurf ddrafft o leiaf. Byddai seilio model cadw bwerau'n ôl ar egwyddor sybsidiaredd yn ddull gwell. Byddai hyn yn cadw'r bwerau sy'n angenrheidiol i ganiatáu i Lywodraeth y DU weithredu. Yn ddi-ddorol, pan fyddwn yn gofyn i'r cyhoedd beth y maent am i Lywodraeth y DU ei wneud a'r hyn y maent am i ni ei wneud yn y ddeddfwriaeth hon, maent yn rhoi atebion clir a chydlynol iawn. Os oes meini prawf ehangach yn cael eu cymhwyso na'r hyn sy'n ofynnol i Lywodraeth y DU allu arfer swyddogaethau Llywodraeth ganolog—gofyniad priodol, wedi'r cyfan—rydym yn llithro i ddiwylliant dull rhoi bwerau, er ei fod ar ffurf setliad cadw bwerau'n ôl.

Dangosir lletchwithdod seilio trefn lywodraethu ddatganoledig ar egwyddor ar wahân i sybsidiaredd yn y swm enfawr o gymalau cadw a gynigir yn y Bil drafft. Maent yn niferus. Yn llythrennol, ni ellir eu cyfrif, er bod y rhan fwyaf o'r bobl sydd wedi ceisio'u cyfrif wedi cynnig ffigur uwch na 250. Mae hyn yn peri pryder. Mae'r ffaith fod rhai o'r cymalau cadw'n cynnwys rhai eithriadau—gan yrru rhai bwerau fesul tamaid yn ôl i Gymru, felly—yn ein gwahodd i estyn am rasel Occam a symleiddio pethau â datganiad clir o sybsidiaredd. Fel y mae, rhoddir 41 o dudalennau'r Bil drafft i'r cymalau cadw, bron ddwywaith cymaint ag yn Neddf yr Alban. Mae'r drafftio manwl sydd wedi llunio cymaint o gymalau cadw yn gamp dechnegol yn ddi-os, beth bynnag yw ein barn ar ei ganlyniadau ymarferol i'r setliad datganoli. Ond maent yn achosi problemau.

The landscape of Welsh governance narrows compared to the one provided by the Supreme Court's judgment. The UK Government believes that this is to be welcomed because the border between central Government's powers and devolved powers is clarified. And the UK Government points out that, where the competence of the Welsh Government needs to extend beyond this border so that devolved powers can be fully exercised, a system of ministerial consents will continue to operate as it does presently. But of course, the need for consent would increase, and this is surely a clear indication that the Assembly's powers are set to reduce. By the Secretary of State's calculation, four Assembly Acts would have required UK ministerial consent—that was 19 per cent of our output at the time the Secretary of State made that statement. It should be noted that the figure produced by the First Minister is much higher, at 76 per cent.

Unfortunately, the draft Bill does not follow practice in Scotland and Northern Ireland, where executive powers transferred to ministers match the devolved fields. The Welsh position will continue to be highly irregular from a constitutional standpoint, with executive powers over devolved fields being shared between UK Ministers and Welsh Ministers.

The draft Bill proposes a different way to deal with incidental or consequential changes to UK or England-and-Wales law to enforce Assembly legislation. Here, unlike over ministerial consents, the Scottish procedure is proposed, and on the face of it, this seems reasonable. Regrettably, things are not so straightforward, because the so-called necessity test is designed to preserve the single England-and-Wales jurisdiction and so ensure that modification to England-and-Wales law does not become too extensive, leading to what the Secretary of State has called 'significant divergence'.

In Scotland, the necessity test—very rarely used, incidentally—is designed to prevent encroachment between two separate jurisdictions. Presently, the need to modify England-and-Wales law is regulated by a test of appropriateness, which seems suitable in a single jurisdiction operating in a much deeper legal and administrative union. The danger of shifting to a necessity test in our circumstances is that we would face the prospect of operating a narrower constitutional settlement, itself in narrow terms. Welsh governance would be slapped with a double whammy. How would the Assembly and Welsh Government operate when it could face legal challenge because its modifications to England-and-Wales law must be considered the least necessary to operate its devolved powers? Legal challenge or its threat could enervate government and remove the current scope the Assembly has in considering a range of legislative options based on their appropriateness.

Mae tirwedd llywodraethu yng Nghymru yn culhau o'i gymharu â'r un a ddarperir gan ddyfarniad y Goruchaf Lys. Mae Llywodraeth y DU yn credu bod hyn i'w groesawu am fod y ffin rhwng pwerau Llywodraeth ganolog a phwerau datganoledig yn cael ei gwneud yn eglur. A lle y mae angen i gymhwysedd Llywodraeth Cymru ymestyn y tu hwnt i'r ffin hon er mwyn gallu arfer pwerau datganoledig yn llawn, mae Llywodraeth y DU yn nodi y bydd system o gydsyniadau gweinidogol yn parhau i weithredu fel y mae'n gwneud ar hyn o bryd. Ond wrth gwrs, byddai'r angen am gydsyniad yn cynyddu, ac mae hyn yn sicr yn arwydd dir fod pwerau'r Cynulliad yn mynd i leihau. Yn ôl cyfrif yr Ysgrifennydd Gwladol, buasai pedair o Ddeddfau'r Cynulliad wedi bod angen cydsyniad gweinidogion y DU—roedd hynny'n 19 y cant o'n hallbwn ar yr adeg y gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol y datganiad hwnnw. Dylid nodi bod y ffigur a gynhyrchiwyd gan y Prif Weinidog yn llawer uwch, sef 76 y cant.

Yn anffodus, nid yw'r Bil drafft yn dilyn arfer yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle y mae pwerau gweithrediaeth a drosglwyddwyd i weinidogion yn cyfateb i'r meysydd datganoledig. Bydd sefyllfa Cymru yn parhau i fod yn afreolaidd iawn o safbwynt cyfansoddiadol, gyda phwerau gweithrediaeth dros feysydd datganoledig yn cael eu rhannu rhwng Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru.

Mae'r Bil drafft yn cynnig ffordd wahanol o ymdrin â newidiadau sy'n gysylltiedig â, neu o ganlyniad i gyfraith y DU neu gyfraith Cymru a Lloegr er mwyn rhoi deddfwriaeth y Cynulliad mewn grym. Yma, yn wahanol i fater cydsyniadau gweinidogol, cynigir trefn yr Alban, ac ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos yn rhesymol. Yn anffodus, nid yw pethau mor syml â hynny, gan fod yr hyn a elwir yn brawf angenrheidiwyd wedi'i gynllunio i warchod awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr ac felly'n sicrhau na fydd addasiadau rhy eang i gyfraith Cymru a Lloegr, gan arwain at yr hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i alw'n wahaniaeth sylweddol.

Yn yr Alban, mae'r prawf angenrheidiwyd—nad yw'n cael ei ddefnyddio ond yn anaml iawn, gyda llaw—wedi'i gynllunio i atal gorgyffwrdd rhwng dwy awdurdodaeth ar wahân. Ar hyn o bryd, mae'r angen i addasu cyfraith Cymru a Lloegr yn cael ei reoleiddio gan brawf priodoldeb, sy'n ymddangos yn addas mewn awdurdodaeth sengl sy'n gweithredu mewn undeb cyfreithiol a gweinyddol llawer dyfnach. Perygl newid i brawf angenrheidiwyd yn ein hamgylchiadau ni yw y byddem yn wynebu'r posibilrwydd o weithredu setliad cyfansoddiadol culach, mewn termau cul ei hun. Byddai'n ergyd ddwbl i drefn lywodraethu Cymru. Sut y byddai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gweithredu pan allent wynebu her gyfreithiol oherwydd bod rhaid ystyried eu haddasiadau i gyfraith Cymru a Lloegr fel y lleiaf angenrheidiol ar gyfer gweithredu eu pwerau datganoledig? Gallai her gyfreithiol neu ei fgythiad wanychu'r llywodraeth a chael gwared ar allu presennol y Cynulliad i ystyried ystod o opsiynau deddfwriaethol yn seiliedig ar eu priodoldeb.

The Welsh ship of governance would sail on turbulent and subjective seas. Judicial review could become, if not the norm, then far from the exception. Welsh legislation would be drafted in an atmosphere of profound uncertainty, which itself would curtail its scope and ambition. Taken to extremes, the very exercise of the legislative function could be compromised.

Presiding Officer, I'm not exactly in the vanguard when it comes to new technology, but even I Google, and I did Google 'necessity test' just to see what it came up with. It referred me to a case that came before the US Supreme Court—actually one of the most famous in its history, *McCulloch v. Maryland*—and it dealt with the principle of a necessity test. I will now quote a little bit from that judgment:

'Where the law is not prohibited'—

they here mean in the constitution—

'and is really calculated to affect any of the objects entrusted to government, to undertake here to inquire into the degree of necessity, would be to pass the line which circumscribes the judicial department, and to tread on legislative ground.'

It was the chief justice, John Marshall, who delivered this judgment in 1819—197 years ago he looked at this issue of a necessity test. Incidentally, he invented the concept of judicial review.

These judgments of necessity are properly left to the legislature. Detailed judicial oversight of a legislature's discretion should be rejected. Judicial review should be based on concepts such as reasonableness or appropriateness, not necessity. To date, of all the devolved administrations, Wales has been by far the Supreme Court's best customer. This sorry patronage would continue if Welsh governance was based on such subjective sand.

The draft Bill, whilst containing welcome elements, is not yet in a fit state to command consensus. We believe that it should not proceed until it is significantly amended. One approach would be to pause proceedings and use the evidence gathered in scrutinising the draft Bill to prepare a consolidating Bill, in close collaboration with the key players—ourselves, the Assembly; the Welsh Government; legal practitioners; civic society; and, of course, the UK Parliament.

Byddai llong llywodraethu Cymru yn hwylio ar foroedd cythryblus a goddrychol. Gallai adolygiad barnwrol ddatblygu i fod, os nad yn norm, yna ymhell o fod yn eithriad. Byddai deddfwriaeth Cymru yn cael ei drafftio mewn awyrgylch o ansicrwydd dwys, a fyddai ynddo'i hun yn lleihau ei chyrrhaeddiad a'i huchelgais. Ar ei waethaf, gallai arfer y swyddogaeth ddeddfwriaethol ynddo'i hun gael ei roi mewn perygl.

Lywydd, nid wyf ar y blaen yn hollol pan ddaw i dechnoleg newydd, ond rwyf fi hyd yn oed yn defnyddio Google, a theipiais 'necessity test' i Google er mwyn gweld beth a gynigiai. Fe'm cyfeiriodd at achos a ddaeth gerbron Goruchaf Lys yr Unol Daleithiau—un o'r rhai mwyaf enwog yn ei hanes mewn gwirionedd, *McCulloch v. Maryland*—a thrafodai egwyddor prawf angenrheidiol. Fe ddyfynnaf ychydig o'r dyfarniad:

'Where the law is not prohibited'—

yn y cyfansoddiad yw'r hyn y maent yn ei olygu—

'and is really calculated to affect any of the objects entrusted to government, to undertake here to inquire into the degree of necessity, would be to pass the line which circumscribes the judicial department, and to tread on legislative ground.'

Y prif ustus, John Marshall, a gyflwynodd y farn hon yn 1819—197 o flynyddoedd yn ôl, fe edrychodd ar fater prawf angenrheidiol. Gyda llaw, dyma'r gŵr a ddyfeisiodd y cysyniad o adolygiad barnwrol.

Caiff y dyfarniadau hyn ynghylch angenrheidiol eu gadael i'r ddeddfwrfa, a hynny'n briodol. Dylid gwrthod trosolwg barnwrol manwl o ddisgresiwn deddfwrfa. Dylai adolygiad barnwrol fod yn seiliedig ar gysyniadau megis rhesymoldeb neu briodoldeb, nid angenrheidiol. Hyd yn hyn, o'r holl weinyddiaethau datganoledig, Cymru yw cwsmer gorau'r Goruchaf Lys o bell ffordd. Byddai'r nawddogaeth druenus hon yn parhau pe bai llywodraethu yng Nghymru yn seiliedig ar dywod goddrychol o'r fath.

Er ei fod yn cynnwys elfennau i'w croesawu, nid yw'r Bil drafft mewn cyflwr addas eto i ennyn consensws. Credwn na ddylai fynd yn ei flaen nes ei fod wedi'i ddiwygio'n sylweddol. Un ffordd o fynd ati fyddai oedi gweithgaredd a defnyddio'r dystiolaeth a gesglir o graffu ar y Bil drafft i baratoi Bil cydgrynhoi, mewn cydweithrediad agos â'r prif chwaraewyr—ni ein hunain, y Cynulliad; Llywodraeth Cymru; ymarferwyr cyfreithiol; cymdeithas ddinesig; ac wrth gwrs, Senedd y DU.

Should the UK Government proceed with the current timetable, the draft Bill needs to be amended so that the Bill introduced to Parliament contains the following: the removal of the necessity test or its replacement by a test based on appropriateness; a system for requiring Minister of the Crown consents that reflects the model of the Scotland Act 1998; a significant reduction in the number and extent of specific reservations and restrictions consistent with a mature, effective and accountable legislature that is to acquire income tax powers through the same Bill; a distinct jurisdiction in which Welsh Acts extend only to Wales—a distinct jurisdiction, note, in which Welsh Acts extend only to Wales, not a separate jurisdiction; a system in which Welsh Acts modify England-and-Wales law as appropriate for reasonable enforcement; and, finally, a clear commitment that a bilingual consolidation be carried out during the current Parliament.

I look forward to the comments that Members will now make.

Os yw Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r amserlen bresennol, mae angen diwygio'r Bil drafft fel bod y Bil a gyflwynir i'r Senedd yn cynnwys y canlynol: cael gwared ar y prawf angenrheidiol neu osod prawf yn seiliedig ar briodoldeb yn ei le; system sy'n gofyn am gydsyniadau Gweinidogion y Goron sy'n adlewyrchu model Deddf yr Alban 1998; gostyngiad sylweddol yn nifer a graddau'r cymalau cadw a'r cyfyngiadau penodol a fo'n weddus i ddeddfwrfa aeddfed, effeithiol ac atebol sydd i gael pwerau treth incwm drwy'r un Bil; awdurdodaeth benodol lle y byddai Deddfau Cymreig ond yn berthnasol i Gymru—awdurdodaeth benodol, noder, lle y byddai Deddfau Cymreig ond yn berthnasol i Gymru, nid awdurdodaeth ar wahân; system lle y byddai Deddfau Cymreig yn addasu cyfraith Cymru a Lloegr fel y bo'n briodol ar gyfer gorfodi rhesymol; ac yn olaf, ymrwymiad clir i gydgyrnhoi yn ddwyieithog yn ystod y Senedd gyfredol.

Edrychaf ymlaen at y sylwadau y bydd yr Aelodau yn awr yn eu gwneud.

15:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the First Minister, Carwyn Jones.

Galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, Llywydd. Can I thank David Melding for his contribution? I think it's not going too far to say that his views and his knowledge on constitutional issues do command the respect of all in this Chamber. The way in which he put the motion before us this afternoon is an indication of his view, as he expressed explicitly in what he said, that this is a matter that should be beyond party politics and the focus should be rather on providing a lasting constitutional settlement for the people of Wales, and, indeed, the people of Britain.

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ddiolch i David Melding am ei gyfraniad? Credaf nad yw'n ormod dweud bod ei farn a'i wybodaeth am faterion cyfansoddiadol yn ennyn parch pawb yn y Siambr hon. Mae'r ffordd y gosododd y cynnig ger ein bron y prynhawn yma yn arwydd o'i safbwynt, fel y'i mynegodd yn amlwg yn yr hyn a ddywedodd, fod hwn yn fater a ddylai fod y tu hwnt i wleidyddiaeth plaid ac y dylid canolbwyntio yn hytrach ar ddarparu setliad cyfansoddiadol parhaol ar gyfer pobl Cymru, a phobl Prydain, yn wir.

The Bill in its current form is, to my mind, flawed in the sense that, first of all, it seeks to hold together a single jurisdiction of England and Wales and to prevent divergence in the law. That cuts across the 2011 referendum result where there was no suggestion that somehow there would be some kind of limit on the amount of law that the National Assembly could actually produce.

Yn fy marn i, mae'r Bil yn ei ffurf bresennol yn ddiffygiol yn yr ystyr ei fod, yn gyntaf oll, yn ceisio cynnal awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr ac atal gwahaniaeth yn y gyfraith. Mae hynny'n mynd yn groes i ganlyniad refferendwm 2011 lle na chafwyd unrhyw awgrym y byddai rhyw fath o derfyn, rywsut, ar faint o gyfraith y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ei chynhyrchu mewn gwirionedd.

It also needs to be revisited for the multiple reasons that the Member has listed, mainly issues of reservations, the necessity test and, of course, the other issues that restrict the ability of the Assembly to operate, particularly, of course, with regard to Minister of the Crown consents.

Mae angen ailedrych arno hefyd am y rhesymau lluosog a restrwyd gan yr Aelod, materion yn ymwneud yn bennaf â chymalau cadw, y prawf angenrheidiol ac wrth gwrs, y materion eraill sy'n cyfyngu ar allu'r Cynulliad i weithredu, yn enwedig, wrth gwrs, mewn perthynas â chydsyniadau Gweinidogion y Goron.

Can I say that the Welsh Government welcomes this report? We do invite the Assembly, of course, to resolve, according to the motion on the order paper. We do agree with the committee's concerns with the current draft of the Wales Bill. The report itself is an excellent piece of work, produced, as has already been stated, to a very tight timescale indeed.

A gaf fi ddweud bod Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad hwn? Rydym yn gwahodd y Cynulliad, wrth gwrs, i ddod i benderfyniad, yn ôl y cynnig ar y papur trefn. Rydym yn cytuno â phryderon y pwyllgor ynghylch drafft presennol Bil Cymru. Mae'r adroddiad ei hun yn ddarn rhagorol o waith, a gynhyrwyd, fel y dywedwyd eisoes, o fewn amserlen dynn iawn yn wir.

In an earlier report last summer, the committee called for a Bill that enshrined the principles of subsidiarity, clarity, simplicity and workability. They are the right principles, and we agree with the committee that the Bill does not meet those principles. Nor does the Bill actually meet the Secretary of State's own aspirations, which were for a stronger, clearer and fairer devolution settlement for Wales that will stand the test of time. The difficulty with the process has been that, from the very beginning, other departments in Whitehall were asked to offer their view of where the devolution boundary, rather than what the view of the Wales Office should be according to where that devolution boundary should lie. It shouldn't come as a surprise, then, that many Whitehall departments have interpreted the devolution boundary in such a way that is more favourable to them than is the current case after the Agricultural Sector (Wales) Bill judgment. But the committee's findings and the weight of evidence underpinning those findings must be taken seriously.

There are elements of the Bill, of course, that we welcome. We support the provisions that will enable the Assembly to become, in effect, a self-governing institution. It's right that the Assembly should be able to decide on its own electoral system and procedures. I look forward to the day when this institution is called a Parliament, a Welsh Parliament, and that is something that I very much welcome as part of the Bill.

But we know that in other important respects, the draft Bill is not fit for purpose. It weakens Welsh devolution. It makes it hugely difficult for any Government of any party to understand what the boundaries of devolution are. It makes it difficult for any party to go into an election campaign safe in the knowledge that what it proposes in terms of legislation is actually possible to carry out. And that, of course, leaves a fundamental gap in our democracy when political parties are not able to do that.

We know it expands considerably the need to seek UK Ministers' consent for Welsh Bills. It would increase complexity and the risk of legal challenge, and, most crucially, it would move us away from the will of the people of Wales as expressed democratically in the 2011 referendum.

Llywydd, I will, of course, address the subsequent motions; I understand that I'm able to address them individually. Of course, I'll go into more detail with regard to some of the points that I have made, but could I, at this stage, very much support the motion that is before us now, which is to welcome the report, and to thank the committee itself and its Chair for providing us with such a thorough report that will form the basis of our debates this afternoon.

Mewn adroddiad cynharach yr haf diwethaf, galwodd y pwyllgor am Fil sy'n ymgorffori egwyddorion sybsidiaredd, eglurder, symlrwydd ac ymarferoldeb. Dyna'r egwyddorion cywir, ac rydym yn cytuno â'r pwyllgor nad yw'r Bil yn bodloni'r egwyddorion hynny. Nid yw'r Bil ychwaith yn bodloni dyheadau'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun mewn gwirionedd, ynglŷn â sicrhau setliad datganoli cryfach, cliriach a thecach i Gymru a fydd yn sefyll prawf amser. Yr anhawster gyda'r broses oedd bod gofyn o'r cychwyn cyntaf i adrannau eraill yn Whitehall gynig eu barn ynghylch lle y mae ffin datganoli, yn hytrach na beth fyddai barn Swyddfa Cymru o ran lle y dylai ffin datganoli fod. Ni ddylai fod yn syndod, felly, fod llawer o adrannau Whitehall wedi dehongli ffin datganoli mewn modd sy'n fwy ffafriol iddynt hwy na'r hyn sy'n wir ar hyn o bryd ar ôl dyfarniad Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Ond mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol i ganfyddiadau'r pwyllgor a phwysau'r dystiolaeth sy'n sail i'r canfyddiadau hynny.

Rydym yn croesawu elfennau o'r Bil, wrth gwrs. Rydym yn cefnogi'r darpariaethau a fydd yn galluogi'r Cynulliad i ddod yn sefydliad hunanlywodraethol i bob pwrpas. Mae'n iawn y dylai'r Cynulliad allu penderfynu ar ei system etholiadol a'i weithdrefnau ei hunan. Rwy'n edrych ymlaen at y diwrnod pan elwir y sefydliad hwn yn Senedd, Senedd Cymru, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n ei groesawu'n fawr yn rhan o'r Bil.

Ond mewn agweddau pwysig eraill, gwyddom nad yw'r Bil drafft yn addas at y diben. Mae'n gwanhau datganoli yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn hynod o anodd i unrhyw Lywodraeth o unrhyw blaid ddeall beth yw ffiniau datganoli. Mae'n ei gwneud yn anodd i unrhyw blaid gychwyn ar ymgyrch etholiadol gan wybod i sicrwydd fod modd gweithredu'r hyn y mae'n ei argymhell o ran deddfwriaeth mewn gwirionedd. Ac mae hynny, wrth gwrs, yn gadael bwlch sylfaenol yn ein democratiaeth pan nad yw pleidiau gwleidyddol yn gallu gwneud hynny.

Gwyddom ei fod yn ymestyn yn sylweddol yr angen i geisio cydsyniad Gweinidogion y DU ar gyfer Biliau Cymru. Byddai'n cynyddu cymhlethdod a risg o her gyfreithiol, ac yn fwyaf allweddol, byddai'n ein symud oddi wrth ewyllys pobl Cymru fel y'i mynegwyd yn ddemocrataidd yn referendwm 2011.

Lywydd, byddaf yn rhoi sylw i'r cynigion dilynol wrth gwrs; rwy'n deall y gallaf roi sylw iddynt yn unigol. Wrth gwrs, byddaf yn rhoi sylw manylach i rai o'r pwyntiau a wneuthum, ond a gaf fi, ar y cam hwn, roi cefnogaeth gref i'r cynnig sydd ger ein bron yn awr, sef croesawu'r adroddiad, a diolch i'r pwyllgor ei hun a'i Gadeirydd am roi i ni adroddiad mor drylwyr a fydd yn sail i'n dadleuon y prynhawn yma.

15:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:22 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I welcome the opportunity to contribute in this critical and timely debate, which focuses on a piece of legislation that potentially could mark a historic moment for Wales.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu yn y ddatllyth bwysig ac amserol hon, sy'n canolbwyntio ar ddeddfwriaeth a allai nodi moment hanesyddol i Gymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The Constitutional and Legislative Affairs Committee's scrutiny of the Bill is a key component of the pre-legislative scrutiny, and I look forward to the Secretary of State for Wales's response to it. Welsh Conservative Members will support all six motions today.

In its current form, the legislation is not perfect, hence its draft form. CLAC are clear about that, the Conservative group have been clear about that and, indeed, the Secretary of State has been clear about that. However, whilst it is right to debate CLAC's concerns in detail, we must also not lose sight of what the draft Wales Bill is, and primarily what it is seeking to achieve—a reserved-powers model for Wales. This is something that political parties across this Chamber have called for for many years. We know that Lord Richard of Ammanford called for this as early as 2004, and parties across this Chamber have advocated such a system for many years. It is now being delivered thanks to the Conservative Government in Westminster.

New powers for Welsh Ministers: the Bill will also give major new powers to the Welsh Government and Welsh Government Ministers, whether that be in relation to building regulations, marine licensing, conservation in the Welsh offshore region, or linked to the appointments on Ofcom's board's composition. These are powers that have been wanted to come to Wales for many years, and, again, the UK Government is delivering.

New powers for the National Assembly for Wales: vital new powers could also be on the way to the Assembly in terms of running its own affairs, including the powers over all elements of Assembly elections, and, indeed, the decision about the name of this institution. This is something that I have advocated for many years—the calling of the Assembly now to become the Welsh Parliament. And that decision will come to this Assembly once the Bill completes its passage.

The permanence of this place. Of course, it is also hugely significant that the draft Wales Bill is working to make the National Assembly for Wales and Welsh Ministers a permanent part of the UK constitutional arrangements. That is a statement I'm sure every single Member in this Chamber will warmly welcome.

Mae gwaith craffu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil yn rhan allweddol o waith craffu cyn deddfu, ac edrychaf ymlaen at weld ymateb Ysgrifennydd Gwladol Cymru iddo. Bydd Aelodau'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi pob un o'r chwe chynnig heddiw.

Yn ei ffurf bresennol, nid yw'r ddeddfwriaeth yn berffaith, a dyna pam y mae ar ffurf drafft. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn glir ynglŷn â hynny, mae grŵp y Ceidwadwyr wedi bod yn glir yn ei gylch ac yn wir, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi bod yn glir ynghylch hynny. Fodd bynnag, er ei bod yn iawn i drafod y materion sy'n destun pryder i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn fanwl, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar yr hyn yw'r Bil Cymru drafft, ac yn bennaf yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni—model cadw pwerau'n ôl ar gyfer Cymru. Mae hyn yn rhywbeth y mae pleidiau gwleidyddol ar draws y Siambr hon wedi galw amdano ers blynyddoedd lawer. Gwyddom fod yr Arglwydd Richard o Rydaman wedi galw am hyn mor gynnar â 2004, ac mae pleidiau ar draws y Siambr hon wedi argymhell system o'r fath ers nifer o flynyddoedd. Mae bellach yn cael ei gyflwyno, diolch i'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan.

Pwerau newydd i Weinidogion Cymru: bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau newydd o bwys i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, boed hynny mewn perthynas â rheoliadau adeiladu, rhoi trwyddedau morol, cadwraeth rhanbarth môr mawr Cymru, neu'n gysylltiedig â'r penodiadau i fwrdd Ofcom. Mae'r rhain yn bwerau y dymunwyd eu gweld yn dod i Gymru ers blynyddoedd lawer, ac unwaith eto, mae Llywodraeth y DU yn cyflawni.

Pwerau newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: gallai pwerau newydd hanfodol fod ar y ffordd i'r Cynulliad o ran y gallu i gynnal ei fusnes ei hun, gan gynnwys pwerau dros bob elfen o etholiadau'r Cynulliad, ac yn wir, y penderfyniad ynghylch enw'r sefydliad hwn. Mae hyn yn rhywbeth y bŵm yn ei argymhell ers blynyddoedd—y galw ar y Cynulliad yn awr i fod yn Senedd Cymru. A bydd y penderfyniad hwnnw'n dod i'r Cynulliad hwn pan fydd y Bil wedi cwblhau ei daith.

Parhauster y lle hwn. Wrth gwrs, mae hefyd yn hynod o bwysig fod y Bil Cymru drafft yn gweithio i sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru yn rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU. Dyna ddatganiad rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn y Siambr hon yn ei groesawu'n gynnes.

So, whilst the changes that are going to be made via this Bill have much to be celebrated, there is a wider package to look at, and all this forms part of the wider package of what the UK Government is delivering for Wales. And we shouldn't let this debate pass by without acknowledging the significance of that wider package, from the historic funding floor for Wales to the removal of the need for a referendum before introducing a Welsh rate of income tax. These are historic times for this place, for devolution and for Wales: a funding floor within the Holtham range, a truly financially accountable Welsh National Assembly and Welsh Ministers, something again I would hope we would all support. Speakers from the Conservative group will cover some of the other aspects of the CLAC recommendations and report in turn, but, as we discuss areas of contention, we must all remember that the Secretary of State has already made clear and said that the Bill that receives Royal Assent is likely to look markedly different from the one we are debating today.

We want to see the list of reservations come down from some 267, which is too many. We know that colleagues in Westminster agree with this. We are eager to see the replacement system sought in relation to the necessity testing and the Minister of the Crown consents. Again, we know that colleagues in Government in Westminster agree to finding solutions on this issue.

We continue to support the single jurisdiction for England and Wales. The scope and extent of Welsh law does not justify its own legal entity in the short to medium term. Equally, however, with the body of Welsh law growing and the exploration of a more balanced or distinct approach that attains its singularity of legal union that legislates for differences pertinent to Wales, it is the future in developing one that could come into its own being. And Welsh Government Ministers today speak out firmly in favour of consolidation. We shouldn't also forget the plethora of Welsh Government legislation that would benefit from consolidation to improve accessibility and clarity. We know that this is something CLAC has spoken about elsewhere in its making laws inquiry. So, whilst future consolidation is a critical area of consideration, I would encourage that we do not take the risk of setting things into reverse momentum on the aspiration for the devolved settlement, discarding many of the hugely positive historic provisions that are within the Bill. Indeed, in evidence to the Welsh Affairs Select Committee, the Secretary of State has indicated that it is his belief that this will be the only piece of legislation in this Parliament to address constitutional arrangements around the devolution settlement.

To conclude, we know the draft Wales Bill is not perfect. Draft legislation rarely is. Members across this Chamber should embrace the willingness and eagerness of the Westminster Government to seek a consensus and deliver improvements. However, we must not lose sight of what this Bill is aiming to achieve: a historic, clear, lasting settlement, ensuring the permanence of this place, long-requested new powers, and a reserved-powers model. On this side of the Chamber, we look forward to working with the UK Government closely and constructively to deliver that for Wales.

Felly, er bod llawer i'w ddathlu ynghylch y newidiadau a wneir drwy'r Bil hwn, mae yna becyn ehangach i edrych arno, ac mae'r cyfan yn rhan o'r pecyn ehangach y mae Llywodraeth y DU yn ei gyflawni dros Gymru. Ac ni ddylem adael i'r ddadl hon basio heb gydnabod arwyddocâd y pecyn ehangach hwnnw, o'r cyllid gwaelodol hanesyddol i Gymru i gael gwared ar yr angen am refferendwm cyn cyflwyno cyfradd Gymreig o dreth incwm. Mae hwn yn gyfnod hanesyddol i'r lle hwn, i ddatganoli ac i Gymru: arian gwaelodol o fewn ystod Holtham, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru sy'n wirioneddol atebol yn ariannol, sydd eto'n rhywbeth rwy'n gobethio y byddem oll yn ei gefnogi. Bydd siaradwyr o grŵp y Ceidwadwyr yn ymdrin â rhai o'r agweddau eraill ar argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac yn adrodd arnynt yn eu tro, ond wrth i ni drafod meysydd dadleuol, mae'n rhaid i ni i gyd gofio bod yr Ysgrifennydd Gwladol eisoes wedi dweud yn glir fod y Bil a fydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn debygol o edrych yn wahanol iawn i'r un rydym yn ei drafod heddiw.

Rydym am weld y rhestr o gymalau cadw yn gostwng o 267, sy'n ormod. Gwyddom fod cydweithwyr yn San Steffan yn cytuno â hyn. Rydym yn awyddus i weld system newydd yn cael ei datblygu mewn perthynas â'r profion angenrheidrwydd a chydsyniadau Gweinidogion y Goron. Unwaith eto, gwyddom fod cydweithwyr yn y Llywodraeth yn San Steffan yn cytuno i ddod o hyd i atebion ar y mater hwn.

Rydym yn parhau i gefnogi awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr. Nid yw cwmpas a graddau cyfraith Cymru yn cyfiawnhau ei hendid cyfreithiol ei hun yn y tymor byr i'r tymor canolig. Yn yr un modd, fodd bynnag, gyda chorff cyfraith Cymru yn tyfu ac archwilio ymagwedd fwy cytbwys neu benodol sy'n cyflawni undod cyfreithiol neilltuol ac yn deddfu ar gyfer gwahaniaethau sy'n berthnasol i Gymru, dyma'r dyfodol o ran datblygu un a allai ddod i fodolaeth. Ac mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru heddiw yn siarad yn gadarn o blaid cydgrynhoi. Hefyd, ni ddylem anghofio'r holl ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a fyddai'n elwa o gydgrynhoi er mwyn gwella hygyrchedd ac eglurder. Gwyddom fod hyn yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi siarad amdano mewn man arall yn ei ymchwiliad deddfu. Felly, er bod cydgrynhoi yn y dyfodol yn faes hollbwysig i'w ystyried, byddwn yn argymhell na ddylem greu risg o wrthdroi momentwm y dyhead i weld setliad datganoledig, gan gael gwared ar lawer o'r darpariaethau hanesyddol hynod o gadarnhaol sydd i'w cael yn y Bil. Yn wir, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi ei fod yn credu mai dyma'r unig ddeddfwriaeth yn y Senedd hon i roi sylw i drefniadau cyfansoddiadol yn ymwneud â'r setliad datganoli.

I gloi, gwyddom nad yw'r Bil Cymru drafft yn berffaith. Anaml iawn y bydd deddfwriaeth ddrafft yn berffaith. Dylai Aelodau ar draws y Siambr hon groesawu parodrwydd a brwdfrydedd y Llywodraeth yn San Steffan i geisio consensws a sicrhau gwelliannau. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â cholli golwg ar yr hyn y mae'r Bil hwn yn anelu at ei gyflawni: setliad clir, hanesyddol, sy'n mynd i barhau gan sicrhau parhauster y lle hwn, pwerau newydd y bu galw amdanynt ers amser maith, a model cadw pwerau'n ôl. Ar yr ochr hon i'r Siambr, edrychwn ymlaen at weithio'n agos ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU i gyflawni hynny ar gyfer Cymru.

15:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call on the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf yn awr ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

15:28 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. I'm pleased to be able to contribute to this debate on the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on the draft Wales Bill. I'd like to thank David Melding for his work as committee Chair and for his opening remarks to this debate. I'd also like to thank other committee members.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rwy'n falch o allu cyfrannu at y ddatl hon ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Cymru drafft. Hoffwn ddiolch i David Melding am ei waith fel Cadeirydd y pwyllgor ac am ei sylwadau agoriadol i'r ddatl hon. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau eraill y pwyllgor.

It's clear that we have an authoritative and considered report before us this afternoon, and I'm confident that we can express a majority view of this National Assembly. We've previously debated this issue as a Chamber in response to a Plaid Cymru motion, and I'm pleased that today's report comes to similar conclusions to that debate that we held back in October. But I would acknowledge that an Assembly committee report such as this has even greater authority and clarity in terms of the evidence from witnesses than a party political debate.

Mae'n amlwg fod gennym adroddiad awdurdodol ac ystyriol ger ein bron y prynhawn yma, ac rwy'n hyderus y gallwn fynegi barn fwyafrifol y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Rydym wedi trafod y mater hwn o'r blaen fel Siambr mewn ymateb i gynneg gan Blaid Cymru, ac rwy'n falch fod adroddiad heddiw yn dod i gasgliadau tebyg i'r ddatl honno a gynhaliwyd gennym yn ôl ym mis Hydref. Ond byddwn yn cydnabod bod gan adroddiad fel hwn gan bwyllgor Cynulliad fwy o awdurdod ac eglurder o ran y dystiolaeth gan dystion na datl rhwng pleidiau gwleidyddol.

Llywydd, on 7 October, the majority in this Assembly supported the point made by Plaid Cymru that the creation of a Welsh legal jurisdiction would be the most effective and desirable legal framework to accompany the implementation of a reserved-powers model. The Assembly also chose to reject any form of a reserved-powers model that would unwittingly remove or constrain powers already exercised in this place. Further, the Assembly reiterated that it wanted to proceed with reserved powers, provided the legal basis could be correct.

Llywydd, ar 7 Hydref, roedd y mwyafrif yn y Cynulliad hwn yn cefnogi'r pwynt a wnaed gan Blaid Cymru mai creu awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig fyddai'r fframwaith cyfreithiol mwyaf effeithiol a dymunol i gyd-fynd â gweithrediad model cadw pwerau'n ôl. Hefyd, dewisodd y Cynulliad wrthod unrhyw fath o fodel cadw pwerau'n ôl a fyddai'n ddiarwybod yn cael gwared neu'n cyfyngu ar bwerau a arferir eisoes yn y lle hwn. Ymhellach, cadarnhaodd y Cynulliad ei fod am fwrw ymlaen â'r model cadw pwerau'n ôl, cyn belled â bod y sail gyfreithiol yn gywir.

Since the draft Wales Bill was first published, the Wales Office has shifted its tone. They've moved from talking about a furious reaction, and being surprised by that, to claiming that the criticism was coming from, 'nationalist lawyers and academics', to finally stating that they are now in listening mode. There is an acknowledgement from the Secretary of State that he could look again at the scope of reservations, and I know that he will be studying today's debate and the evidence in the report on those wider issues. We can only hope that the report, and the evidence that it contains, is treated with respect, and the scrutiny work of this Assembly is treated with respect.

Ers cyhoeddi'r Bil Cymru drafft gyntaf, mae Swyddfa Cymru wedi newid ei thôn. Mae wedi symud o siarad am adwaith ffyrnig, a chael ei synnu gan hynny, i honni bod y feirniadaeth yn dod gan, 'gyfreithwyr ac academyddion cenedlaetholgar', i ddatgan yn derfynol eu bod yn awr yn barod i wrando. Ceir cydnabyddiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol y gallai edrych eto ar gwmpas y cymalau cadw, a gwn y bydd yn astudio'r drafodaeth heddiw a'r dystiolaeth yn yr adroddiad ar y materion ehangach hynny. Ni allwn ond gobeithio bod yr adroddiad, a'r dystiolaeth ynddo, yn cael ei drin â pharch, a bod gwaith craffu'r Cynulliad hwn yn cael ei drin â pharch.

It's already clear, at this stage, that the Secretary of State will not deliver a Bill that fulfils the recommendations of the Silk commission. We are, instead, going to proceed on the basis of the veto that was used against Silk during the St David's Day process. In the view of Plaid Cymru, this is a political failure. It has made the Bill flawed in terms of reaching consensus and attracting wide support, which was one of the Wales Office's main objectives when they first published this draft Bill.

Ar y cam hwn, mae hi eisoes yn glir na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflwyno Bil sy'n cyflawni argymhellion comisiwn Silk. Yn lle hynny, rydym yn mynd i symud ymlaen ar sail y feto a ddefnyddiwyd yn erbyn Silk yn ystod y broses Dydd Gŵyl Dewi. Ym marn Plaid Cymru, methiant gwleidyddol yw hyn. Mae wedi gwneud y Bil yn ddiffygiol o ran cyrraedd consensws a denu cefnogaeth eang, sef un o brif amcanion Swyddfa Cymru pan aethant ati gyntaf i gyhoeddi'r Bil drafft hwn.

There is also a legislative failure, in that it seems, for many of the witnesses, that this Bill simply won't be legally effective. It won't bring clarity, it won't bring certainty and it will still be open to legal challenge—far more than the equivalent settlements for Scotland or for Northern Ireland. The reason we're in this position is clear once you've read the report. The UK Government has conceded on reserved powers without realising that, to implement reserved powers, you need a jurisdiction, and you need to reform the regime for Crown consents. There's a contradiction here that renders the Bill unworkable in its draft form, and that's why we have suggested that we should reject the Bill through the LCM process unless significant changes are made. A better outcome would be to see the Bill radically improved and passed with the consent of this place, even if it falls short of what Plaid Cymru wants from the current process.

We in this Chamber need to speak with a majority voice on the future direction of our democracy with regard to this Bill. People in Wales are not fully engaged with constitutional issues, but I know from my own community that they expect the institutions of Wales to function correctly and coherently. People out there are not interested in the minute detail, but they want, and they expect, this Assembly to be an effective legislature with the freedom to make Welsh law. After all, that is what they voted for back in 2011. There is genuine interest out there in the laws that this Assembly has made so far, and what it might do in the future, and it's our responsibility to improve the ability of this parliament of ours to work for Wales.

So, I welcome today's report, and I look forward to further discussions with colleagues from all sides in this Chamber, so that we can hopefully get to the point where we are speaking with national unity as the scrutiny process carries on.

Ceir methiant deddfwriaethol hefyd, yn yr ystyr ei bod yn ymddangos i lawer o'r tystion na fydd y Bil hwn yn weithredol yn gyfreithiol. Ni fydd yn sicrhau eglurder, ni fydd yn creu sicrwydd a bydd yn dal yn agored i her gyfreithiol—llawer mwy na'r setliadau cyfatebol ar gyfer yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'r rheswm pam ein bod yn y sefyllfa hon yn glir wedi i chi ddarllen yr adroddiad. Mae Llywodraeth y DU wedi ildio ar gadw pwerau heb sylweddoli bod arnoch angen awdurdodaeth i weithredu model cadw pwerau'n ôl, a bod angen i chi ddiwygio'r drefn ar gyfer cydsyniadau'r Goron. Mae yna wrth-ddweud yma sy'n golygu nad oes modd gweithredu'r Bil ar ei ffurf ddrafft, a dyna pam rydym wedi awgrymu y dylem wrthod y Bil drwy broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol oni wneir newidiadau sylweddol. Canlyniad gwell fyddai i'r Bil gael ei wella'n sylweddol a'i basio gyda chydysyniad y lle hwn hyd yn oed os yw'n llai na'r hyn y mae Plaid Cymru ei eisiau o'r broses bresennol.

Mae angen i ni yn y Siambr hon siarad gyda llais y mwyafrif ar gyfeiriad ein democratiaeth yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil hwn. Nid yw pobl Cymru yn ymhel yn llawn â materion cyfansoddiadol, ond yn fy nghymuned fy hun, gwn eu bod yn disgwyl i sefydliadau Cymru weithredu'n gywir ac yn ystyrlon. Nid oes gan bobl ddiddordeb yn y manylion lleiaf, ond maent eisiau, ac maent yn disgwyl, i'r Cynulliad hwn fod yn ddeddfwriaeth effeithiol gyda'r rhyddid i ddeddfu ar gyfer Cymru. Wedi'r cyfan, dyna'r hyn y pleidleisiodd pobl Cymru drosto yn ôl yn 2011. Mae yna ddiddordeb gwirioneddol yn y deddfau y mae'r Cynulliad hwn wedi'u gwneud hyd yn hyn, a beth y gallai ei wneud yn y dyfodol, a'n cyfrifoldeb ni yw gwella gallu'r senedd hon sydd gennym i weithio dros Gymru.

Felly, croesawaf adroddiad heddiw ac edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach gyda chyd-Aelodau ar bob ochr i'r Siambr hon, gyda'r gobaith y gallwn gyrraedd y pwynt lle rydym yn siarad gydag undod cenedlaethol wrth i'r broses graffu fynd rhagddi.

15:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call on the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Galwaf yn awr ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:34 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Presiding Officer. Could I begin by stating on behalf of my group how much we welcome the report by the Constitutional and Legislative Affairs Committee? I would like to thank the Chair, David Melding, members of that committee, and the clerking team, for being able to produce such a comprehensive and thorough piece of scrutiny in what is, indeed, a very short time frame. The quality of the analysis and discussion is first class, is excellent, and gives us, I believe, the strongest possible evidence to take to the Secretary of State, to deliver reforms and changes to the drafting as it currently stands.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddatgan ar ran fy ngrŵp gymaint rydym yn croesawu'r adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol? Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, David Melding, aelodau'r pwyllgor hwnnw, a'r tîm clericio, am allu cynhyrchu gwaith craffu mor gynhwysfawr a thrylwyr o fewn amser byr iawn yn wir. Mae ansawdd y dadansoddi a'r drafodaeth o'r safon uchaf, yn rhagorol, ac yn fy marn i, mae'n rhoi i ni'r dystiolaeth gryfaf bosibl i'w chyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, i gyflawni diwygiadau a newidiadau i'r drafft fel y mae ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Presiding Officer, in many ways, we are extremely privileged that this has fallen to our generation, the opportunity to fulfil the ambition of my party's forefathers who'd dreamed of a parliament for Wales. As we move forward from the imperfect legislation of 1998 that created this institution, through to the fundamentally flawed legislation of 2006, which has partly got us into the mess that we currently find ourselves in, we do have yet another opportunity to move forward once again and to create that parliament for the people of Wales, to create a lasting settlement: a settlement that gives clarity, importantly, yes, as the First Minister said, to political parties and Governments that find themselves in this room, but, equally importantly, clarity to the people of Wales so that they can hold the people of this room to account for their actions or inactions; and, a settlement that no longer sees us second guessing in committee as to whether what we are proposing to do, or would like to do, will end up before the Supreme Court. The stated aim of the Secretary of State is one that I share—indeed, I think all of us here in this Chamber share—that clarity, that long-lasting and that ability to deliver for the people of Wales. But, my concern is, and my party's concern is, that the Bill as currently drafted will not deliver on the Secretary of State's own stated aims—ones that I agree with.

As described so eloquently by the Deputy Presiding Officer earlier in the debate problems are numerous and they are highly complex. Of course, as the leader of the Conservatives said, there are steps forward in this draft legislation that are to be welcomed and are not inconsiderable: the establishment of the permanence of this institution, the ability to control its own affairs and its elections, and, indeed, there are sections of public policy that we have long argued across this Chamber that should be the business of this institution that will, finally, be delivered.

I believe now, and my party believes, that we need this time and the open-mindedness, it seems, of the Secretary of State to address the current flaws and weaknesses in the draft Bill. These have been clearly explained in the report that is before the Chamber this afternoon: issues around ministerial consents, the necessity tests and the list of reservations that goes on and on and on, seemingly with little coherent rationale as to why some things will be devolved and why some things will be held in Parliament. For my party, it's not just about simply reducing the number. The number itself is not important. What is important is the raft of powers that comes to this place being appropriate and coherent, and I do not see any coherence behind the list as currently drafted. Not only is it not coherent, it does not live up to the recommendations of both Silk reports: reports that received the unanimous backing of this institution.

Lywydd, mewn sawl ffordd, rydym yn hynod o freintiedig fod hyn wedi dod i ran ein cenhedlaeth ni, y cyfle i gyflawni uchelgais cyndadau fy mhlaidd a oedd wedi breuddwydio am senedd i Gymru. Wrth i ni symud ymlaen o ddeddfwriaeth amherffaith 1998 a grëodd y sefydliad hwn, i ddeddfwriaeth 2006 a oedd yn sylfaenol ddiffygiol, ac sy'n rhannol gyfrifol am ein harwain i'r llanast a wynebwn ar hyn o bryd, mae gennym gyfle arall eto i symud ymlaen eto ac i greu'r senedd honno ar gyfer pobl Cymru, a chreu setliad parhaol: setliad sy'n cynnig eglurder, sy'n bwysig, ydy, fel y dywedodd y Prif Weinidog, i bleidiau gweidyddol a Llywodraethau yn yr ystafell hon, ond yr un mor bwysig, i gynnig eglurder i bobl Cymru fel y gallant ddwyn y bobl yn yr ystafell hon i gyfrif am eu gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu; a setliad nad yw mwyach yn golygu ein bod yn ceisio rhagweld mewn pwyllgorau pa un a fydd yr hyn rydym yn argymhell y dylid ei wneud, neu'r hyn y byddem yn dymuno ei wneud, yn groffen ei daith gerbron y Goruchaf Lys. Mae nod datganedig yr Ysgrifennydd Gwladol yn un rwy'n ei rannu—yn wir, rwy'n credu bod pob un ohonom yma yn y Siambr hon yn ei rannu—yr eglurder hwnnw, y parhad a'r gallu i gyflawni dros bobl Cymru. Ond fy mhryder i, a phryder fy mhlaidd yw na fydd y Bil fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn cyflawni nodau datganedig yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun—rhai rwy'n cytuno â hwy.

Fel y disgrifiwyd mor huawdl gan y Dirprwy Lywydd yn gynharach yn y ddadl ceir problemau niferus ac maent yn gymhleth iawn. Wrth gwrs, fel y dywedodd arweinydd y Ceidwadwyr, mae yna gamau ymlaen yn y ddeddfwriaeth ddrafft sydd i'w croesawu ac nid ydynt yn ansylweddol: sefydlu parhauster y sefydliad hwn, y gallu i reoli ei faterion ei hun a'i etholiadau, ac yn wir, o ran y rhannau o bolisi cyhoeddus y buom yn dadlau ers tro ar draws y Siambr hon dros eu gwneud yn fusnes i'r sefydliad hwn, bydd hynny, o'r diwedd, yn cael ei wireddu.

Credaf yn awr, ac mae fy mhlaidd yn credu, fod arnom angen yr amser hwn a meddwl agored, mae'n ymddangos, yr Ysgrifennydd Gwladol i fynd i'r afael â'r diffygion a'r gwendidau presennol yn y Bil drafft. Mae'r rhain wedi cael eu hesbonio'n glir yn yr adroddiad sydd gerbron y Siambr y prynhawn yma: materion yn ymwneud â chydysniadau gweinidogol, y profion angenrheidiol a'r rhestr o gymalau cadw sy'n mynd ymlaen ac ymlaen ac ymlaen, heb fawr o sail resymegol gydlynol, yn ôl pob golwg, ynglŷn â pham y caiff rhai pethau eu datganoli a pham y cedwir rhai pethau yn y Senedd. I fy mhlaidd, nid yw'n fater syml o leihau'r nifer. Nid yw'r nifer ei hun yn bwysig. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y llu o bwerau sy'n dod i'r lle hwn yn briodol ac yn gydlynol, ac nid wyf yn gweld unrhyw gydlynad yn sail i'r rhestr fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd. Nid yw'n gydlynol, nac ychwaith yn cyflawni argymhellion dau adroddiad Silk: adroddiadau a gafodd gefnogaeth unfrydol y sefydliad hwn.

Some would see this as a conspiracy, a deliberate attempt to denude this institution of powers or to stop Wales having control over its own destiny. I don't see it as a conspiracy, but I do believe it arises out of a desire to emulate the drafting of Scottish legislation and trying to squeeze that into a system without really, truly recognising that without the separate body of Welsh law what that actually means in reality for us. We cannot simply take drafting for Scotland and place it into a Welsh context when we do not have the same issue around the legal jurisdiction. As the debate goes on, Presiding Officer, I and other colleagues will look at the individual problems that have been highlighted by the report. I hope that we can use this opportunity to explain coherently and clearly our concerns, but also the opportunities that this period of having draft legislation before us gives us to make the appropriate changes and to deliver a piece of legislation that will deliver for Wales. Thank you.

Byddai rhai yn gweld hyn fel cynllwyn, ymgais fwrriadol i wadu pwerau i'r sefydliad hwn neu i atal Cymru rhag cael rheolaeth dros ei thynged ei hun. Nid wyf yn ei weld fel cynllwyn, ond rwy'n credu ei fod yn deillio o awydd i efelychu'r broses o ddrafftio deddfwriaeth yr Alban a cheisio gwasgu hynny i mewn i system heb gydnabod yn iawn yr hyn y mae hynny'n ei olygu i ni mewn gwirionedd heb gorff cyfraith ar wahân ar gyfer Cymru. Nid yw'n fater syml o gymryd y drafft ar gyfer yr Alban a'i osod mewn cyd-destun Cymreig pan nad yw'r materion sy'n codi o ran yr awdurdodaeth gyfreithiol yr un fath. Wrth i'r ddadl fynd rhagddi, Lywydd, byddaf i a chyd-Aelodau eraill yn edrych ar y problemau unigol a amlygwyd yn yr adroddiad. Rwy'n gobeithio y gallwn ddefnyddio'r cyfle hwn i esbonio'n gydlynol ac yn glir beth yw ein pryderon, ond hefyd y cyfleoedd y mae'r cyfnod hwn o gael deddfwriaeth ddrafft ger ein bron yn eu rhoi i ni i wneud y newidiadau priodol ac i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn cyflawni dros Gymru. Diolch.

15:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding, to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding, i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:40 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Can I thank the First Minister and the other party leaders for the tone of their contributions, which were constructive, properly critical, but always seeking a way forward and a consensus? I think all of you made, in one way or another, the point that we need to act as an Assembly and have a proper role, and to lead us really, in terms of Welsh governance, to a better place.

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Prif Weinidog ac arweinwyr y pleidiau eraill am safon eu cyfraniadau, a oedd yn adeiladol, yn briodol feirniadol, ond bob amser yn chwilio am ffordd ymlaen ac am gonsensus? Rwy'n meddwl bod pob un ohonoch, mewn un ffordd neu'r llall, wedi gwneud y pwynt fod angen i ni weithredu fel Cynulliad a chael rôl briodol, a'n harwain mewn gwirionedd, o ran llywodraethu Cymru, i le gwell.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The First Minister said that we need a settlement, and I think this has to be emphasised. This is the fourth attempt at getting to a settlement. Most people don't change their cars as frequently as we've had fundamental constitutional Acts—the fourth in 18 years coming along, or whatever it is. So, we need to get it right, and principles like clarity and subsidiarity clearly need to be applied. That's how we get rational coherent law. Can I thank the First Minister and the other leaders for what they said about the committee's report? I think it does carry weight. That weight is because it's unanimous, and all Members made such a vital contribution, and brought such insight to the report. Without that, it would not have been possible to have issued a report that would have what I hope will be the influence it needs to have to shape the draft Wales Bill.

Dyweddod y Prif Weinidog fod arnom angen setliad, ac rwy'n credu bod yn rhaid pwysleisio hyn. Dyma'r pedwerydd ymgais i gael setliad. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn newid eu ceir mor aml ag y cawsom Ddeddfau cyfansoddiadol sylfaenol—y bedwaredd i ddod o fewn 18 mlynedd, neu beth bynnag ydyw. Felly, mae angen i ni ei gael yn iawn, ac mae'n amlwg fod angen cymhwysio egwyddorion megis eglurder a sybsidiaredd. Dyna sut y cawn gyfraith gydlynol a rhesymegol. A gaf fi ddiolch i'r Prif Weinidog a'r arweinwyr eraill am yr hyn a ddywedwyd ganddynt am adroddiad y pwyllgor? Rwy'n credu ei fod yn bwysig. Mae'n bwysig am ei fod yn unfrydol, a chafwyd cyfraniad allweddol gan bob un o'r Aelodau, a ddarparodd gymaint o fewnwelediad i'r adroddiad. Heb hynny, ni fyddai wedi bod yn bosibl cyhoeddi adroddiad gyda'r dylanwad, rwy'n gobeithio, y bydd ei angen arno ar gyfer llunio'r Bil Cymru drafft.

We were magnificently supported by our secretariat, with their wide-ranging expertise and ability to channel our energies in the most productive way. I think they're quite representative of the Commission staff, and it's appropriate that we acknowledge their commitment. Without them, we certainly couldn't do the job we do.

Cawsom gefnogaeth wych gan ein hysgrifenyddiaeth, gyda'u harbenigedd a'u gallu eang i sianelu ein hegni yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol. Rwy'n credu eu bod yn eithaf cynrychiadol o staff y Comisiwn, ac mae'n briodol ein bod yn cydnabod eu hymrwymiad. Hebddynt, yn bendant ni fyddem yn gallu gwneud y gwaith a wnawn.

The First Minister also said that some parts are to be welcomed. It is, to use that Victorian image, the curate's egg. It is good in parts, but, of course, it needs to be good in a coherent fashion as a statute, so that it can stand the test of time. Andrew R.T. Davies emphasised that it is a draft Bill and, therefore, we shouldn't be surprised that it needs improvement, and we need to add and subtract from it, and I think that is a fair point. The test here is not what the draft looks like; it is what we end up with in terms of the Bill that's introduced to Parliament and eventually enacted. He did say that the reserved-powers model is desirable. I think that does represent the consensus that's been around for quite a long time now, and for him, and I have to say personally for me as well, that is encapsulated by the word 'parliament', which I would welcome. I note some people liked the more—. I was going to say, 'liked the French approach of calling it an "Assembly"', but I suppose we did borrow the word 'parliament' from the French in the first place, but it was such a long time ago that we've now appropriated it ourselves.

Leanne Wood, I must thank you for mentioning the quality of evidence that we received from a wide range of witnesses, and I think that has given the report great authority. We really have been able to build on the remarkable insight of some expert witnesses, who have devoted careers to public law and proper governance and improving parliamentary scrutiny and improving law-making. You did say that consensus is important; you made those points a little more sharply perhaps than the others, but that's on the record, and it's important that that's heard. Underlying all this, I think, is your view that the Assembly's view has to be respected, and really we do need to play our full part in this law-making process, and in shaping a coherent constitutional law for Welsh governance.

Kirsty Williams, I thought, started very poetically, saying how our generation is actually privileged to be dealing with these fundamental questions, and that is true. How many people—there are still 20-odd of us, I think, who are here from 1999—serve in an entirely new institution? It is a privilege, but it's about time we got it all right, I think, and now's the time. And I think that was the force of what you were saying. You said that there is a need for a rational approach and a principled approach, by which I think you've got to base these sort of wide-ranging statutes that need to command support and need to work for decades on firm principles, and subsidiarity is by far the best principle on which to base this constitutional law in our committee's view.

You also made the point that we need a made-in-Wales solution and not simply to look at what's done in other jurisdictions such as Scotland, Northern Ireland or indeed in Westminster. There are some things that we could follow and usefully use, but we have to shape it in a way that is coherent for our pattern of government here in Wales. So, I thank all the leaders for their interesting, thoughtful and generous remarks and I look forward to the following debates that will now occur this afternoon. Thank you, Presiding Officer.

Dyweddod y Prif Weinidog hefyd fod rhai rhannau i'w croesawu. Os caf ddefnyddio'r ddelwedd Fictoriaidd, mae'n wŷ curad. Mae'n dda mewn rhannau, ond wrth gwrs, mae angen iddo fod yn gyson dda fel statud, er mwyn iddo allu sefyll prawf amser. Pwysleisiodd Andrew R.T. Davies mai Bil drafft ydyw ac felly, ni ddylem synnu bod angen ei wella, ac mae angen i ni ychwanegu ato a thynnu oddi wrtho, a chredaf fod hwnnw'n bwynt teg. Nid sut beth yw'r drafft yw'r prawf yma; beth fydd gennym ar y diwedd o ran y Bil a gyflwynir i'r Senedd ac a roddir mewn grym yn y pen draw, dyna'r prawf. Dywedodd fod y model cadw pwerau'n ôl yn ddymunol. Credaf fod hynny'n cynrychioli'r consensws a gafwyd ers cryn amser bellach, ac iddo ef, ac mae'n rhaid i mi ddweud, i mi'n bersonol hefyd, caiff hynny ei gyfleu gan y gair 'parliament', a byddwn yn croesawu hynny. Nodaf fod rhai pobl yn hoffi—. Roeddwn yn mynd i ddweud, 'yn hoffi'r dull Ffrengig o'i alw'n "Assembly"', ond mae'n debyg mai benthg y gair 'parliament' o'r Ffrangeg a wnaethom yn y lle cyntaf, ond mae cymaint o amser ers hynny fel ein bod bellach wedi'i berchnogi ein hunain.

Leanne Wood, rhaid i mi ddiolch i chi am grybwyll ansawdd y dystiolaeth a gawsom gan amrywiaeth eang o dystion, a chredaf fod hynny wedi rhoi cryn awdurdod i'r adroddiad. Rydym yn wir wedi gallu adeiladu ar fewnwelediad hynod rhai tystion arbenigol, sydd wedi neilltuo gyrfaoedd ar gyfer cyfraith gyhoeddus, llywodraethu priodol, gwella craffu seneddol a gwella deddfu. Fe ddywedoch fod consensws yn bwysig; fe wnaethoch y pwyntiau hynny ychydig yn fwy llym o bosibl na'r lleill, ond mae hynny wedi'i gofnodi, ac mae'n bwysig fod hynny wedi'i glywed. Yn sail i hyn i gyd, rwy'n meddwl, mae eich barn fod yn rhaid parchu barn y Cynulliad, ac yn wir mae'n rhaid i ni chwarae ein rhan lawn yn y broses ddeddfu hon, a llunio cyfraith gyfansoddiadol gydlynol ar gyfer llywodraethu Cymru.

Rwy'n credu bod Kirsty Williams wedi dechrau'n farddonol iawn drwy ddweud bod ein cenhedlaeth ni'n freintiedig mewn gwirionedd i fod yn delio â'r cwestiynau sylfaenol hyn, ac mae hynny'n wir. Faint o bobl—mae yna'n dal i fod oddeutu 20 ohonom yma ers 1999, rwy'n meddwl—sy'n gwasanaethu mewn sefydliad hollol newydd? Mae'n fraint, ond mae'n hen bryd i ni gael y cyfan yn iawn, rwy'n meddwl, a nawr yw'r amser. Ac rwy'n meddwl mai dyna oedd hanfod yr hyn roeddech yn ei ddweud. Fe ddywedoch fod angen dull rhesymegol a dull egwyddorol, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i chi seilio'r math yma o statud eang, y mae angen iddi ennyn cefnogaeth a gweithio am ddegawdau, ar egwyddorion cadarn, a sybsidiaredd yw'r egwyddor orau o bell ffordd i seilio'r ddeddf gyfansoddiadol hon arni ym marn ein pwyllgor.

Fe wnaethoch y pwynt hefyd fod arnom angen ateb a wnaed yng Nghymru ac nid edrych yn unig ar yr hyn a wneir mewn awdurdodaethau eraill fel yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'n wir yn San Steffan. Mae rhai pethau y gallem eu dilyn a'u defnyddio'n effeithiol, ond mae'n rhaid i ni ei lunio mewn modd sy'n ystyrlon o ran ein patrwm llywodraethu yma yng Nghymru. Felly, diolch i'r holl arweinwyr am eu sylwadau diddorol, ystyriol a hael ac edrychaf ymlaen at y dadleuon canlynol a fydd yn digwydd y prynhawn yma. Diolch i chi, Lywydd.

15:45

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to welcome the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on the draft Wales Bill. Does any Member object? No objections. Therefore the motion is agreed unanimously in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw croesawu adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Cymru drafft. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unfrydol yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

15:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, today's debate on the draft Wales Bill is unprecedented. It is our way of presenting our collective view on the future powers and position of this Assembly to the people of Wales, the UK Parliament, and UK Government. By speaking today with one voice, the Assembly's shown how important this issue is for the future of devolution. The next Wales Bill must leave the Assembly with a fuller, clearer and more workable set of powers to make decisions for the people of Wales. The recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and my own contributions as Presiding Officer on behalf of the Assembly, provide solutions to the UK Government that would improve the Bill significantly, and I hope that the UK Government will respond positively to them.

Nawr, mae'r ddadl heddiw ar y Bil Cymru drafft yn ddi-gynsail. Dyma ein ffordd ni o gyflwyno ein barn gyfunol ar bwerau a safbwynt y Cynulliad hwn yn y dyfodol i bobl Cymru, Senedd y DU, a Llywodraeth y DU. Trwy siarad heddiw gydag un llais, mae'r Cynulliad wedi dangos pa mor bwysig yw'r mater hwn i ddyfodol datganoli. Mae'n rhaid i'r Bil Cymru nesaf adael y Cynulliad gyda set fwy llawn, mwy eglur a mwy ymarferol o bwerau i wneud penderfyniadau ar ran pobl Cymru. Mae argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'm cyfraniadau fy hun fel Llywydd ar ran y Cynulliad, yn darparu atebion i Lywodraeth y DU a fyddai'n gwella'r Bil yn sylweddol, a gobeithiaf y bydd Llywodraeth y DU yn ymateb yn gadarnhaol iddynt.

We now move to the other motions on the agenda, and the next motion relates to consolidation of Welsh constitutional law during the current Parliament and I call on the Chair of the committee, David Melding, to move the motion. David Melding.

Symudwn yn awr at y cynigion eraill ar yr agenda, ac mae'r cynnig nesaf yn ymwneud â chydgrynhoi cyfraith gyfansoddiadol Cymru yn ystod y Senedd bresennol a galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, David Melding, i gynnig y cynnig. David Melding.

Cynnig NDM5912 David Melding

Motion NDM5912 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, os bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r amserlen bresennol ar gyfer Bil Cymru drafft, y dylai ymrwmo i gydgrynhoi cyfraith gyfansoddiadol Cymru yn ddwyieithog yn ystod y Senedd bresennol.

To propose that the National Assembly for Wales notes the Constitutional and Legislative Affairs Committee's view that if the UK Government proceeds with the current timetable for the draft Wales Bill, it should commit to carrying out a bilingual consolidation of Welsh constitutional law during the current Parliament.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:47

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Presiding Officer, I move the motion. I'm sure the Assembly will be relieved to hear that, in the specific debates that now follow, I shall just make a brief introduction and then I will respond to the comments that Members make.

Lywydd, Cynigiaf y cynnig. Rwy'n siŵr y bydd y Cynulliad yn falch o glywed na fyddaf ond yn rhoi cyflwyniad byr yn y dadleuon penodol sy'n dilyn yn awr, ac yna byddaf yn ymateb i'r sylwadau y bydd yr Aelodau yn eu gwneud.

We believe that fundamental constitutional law is best developed as consolidated legislation, particularly as it aids accessibility for the citizen. We suggested in our report that the UK Government pause proceedings to prepare a consolidating Bill. However, if the UK Government continues with the current timetable for the draft Wales Bill, we believe it should commit to carrying out a bilingual consolidation of Welsh constitutional law during the current Parliament. We consider that this work could be achieved most effectively by working with Welsh Government and with the Law Commission. I look forward to the remarks that Members will now make.

Credwn mai'r ffordd orau o ddatblygu cyfraith gyfansoddiadol sylfaenol yw fel deddfwriaeth wedi'i chydgrynhai, yn enwedig am fod hynny yn ei gwneud yn fwy hygyrch i'r dinesydd. Awgrymwyd gennym yn ein hadroddiad y dylai Llywodraeth y DU oedi gweithgaredd er mwyn paratoi Bil cydgrynhai. Fodd bynnag, os yw Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r amserlen bresennol ar gyfer Bil Cymru drafft, credwn y dylai ymrwymo i gydgyrnhai cyfraith gyfansoddiadol Cymru yn ddwyieithog yn ystod y Senedd bresennol. Rydym o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r gwaith hwn fyddai drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith. Edrychaf ymlaen at y sylwadau y bydd yr Aelodau yn eu gwneud yn awr.

15:48

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Since becoming an Assembly Member, I've disagreed with the policy of this Welsh Government more than once, but the one thing that I've striven to do, mainly as the result of my membership of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, is to try and see that our legislation, regardless of its policy content, is of the highest quality. The reputation of this Assembly as a primary legislature matters, not just for Wales, but also for other legislatures and Governments of the UK, which need to respect and understand the seriousness of our functions.

Obviously, I'm certainly no expert, and make no claims as to my ability to help achieve this aim, but it's my firm belief that, if we are to help the people of Wales to understand the status of Welsh law in our constitution, then its quality is something that we need to be able to demonstrate and, to demonstrate it, then our law must be accessible.

I have stood before Welsh Ministers in the past and accused them of missing opportunities to make the best law that they can because they have failed to take opportunities to improve and consolidate law when they could have. The Historic Environment (Wales) Bill before us at the moment is a perfect example of that. While it's true to say that a consolidating statute can go out of date virtually on the day it is made, a consolidating statute that restates and sometimes updates the legal position on a given matter is, for a considerable time, the best one-stop-shop for access to the law. So, I cannot let pass the argument that, on this occasion, it is the UK Government that has missed the opportunity to make the best and most accessible law it could have, because it has failed to consolidate law when it might. I simply remind Welsh Ministers, lest you are tempted, of course, to really wade in on this point, that we can still see the plank in your own eye on this.

That, of course, does not diminish the arguments for consolidation and the Secretary of State himself observes that the two main statutes developing devolution in Wales, quote, 'have been proved not fit for purpose'. And I agree with him—not necessarily because the policy intent of those Acts was controversial, but because the quality of those statutes was not as high as it could've been.

Ers dod yn Aelod o'r Cynulliad, rwyf wedi anghytuno â pholisï'r Llywodraeth hon fwy nag unwaith, ond yr un peth yr ymdrechais i'w wneud, yn bennaf o ganlyniad i fy aelodaeth o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yw ceisio sicrhau bod ein deddfwriaeth o'r ansawdd gorau, waeth beth yw ei chynnwys o ran polisi. Mae enw da'r Cynulliad hwn fel deddfwrf a sylfaenol, nid yn unig yn bwysig i Gymru, ond hefyd i ddeddfwrfeydd a llywodraethau eraill y DU a ddylai barchu a deall dirifroldeb ein swyddogaethau.

Yn amlwg, nid wyf yn arbenigwr yn bendant, ac nid wyf yn ymhomni y gallaf helpu i gyrraedd y nod hwn, ond rwy'n credu'n gryf, os ydym am helpu pobl Cymru i ddeall statws cyfraith Cymru yn ein cyfansoddiad, yna mae ei hansawdd yn rhywbeth sy'n rhaid i ni allu ei ddangos ac i'w ddangos, mae'n rhaid i'n cyfraith fod yn hygyrch.

Rwyf wedi sefyll gerbron Gweinidogion Cymru yn y gorffennol ac wedi eu cyhuddo o golli cyfle i wneud y gyfraith orau y gallant ei gwneud am eu bod wedi methu â manteisio ar y cyfleoedd i wella a chydgrynhai'r gyfraith pan allent fod wedi gwneud hynny. Mae Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ger ein bron ar hyn o bryd yn enghraifft berffaith o hynny. Er ei bod yn wir dweud y gall oes statud sy'n cydgrynhai ddarfod bron ar y diwrnod y caiff ei gwneud, am gryn dipyn o amser, statud cydgrynhai sy'n ailddatgan ac weithiau'n diweddarau'r safbwynt cyfreithiol ar fater dan sylw yw'r siop un stop orau ar gyfer sicrhau mynediad at y gyfraith. Felly, ni allaf adael i'r ddadl basio, ar yr achlysur hwn, fod Llywodraeth y DU wedi colli'r cyfle i wneud y gyfraith orau a mwyaf hygyrch y gallai ei chael, am ei bod wedi methu â chydgrynhai cyfraith pan allai fod wedi gwneud hynny. Rwy'n atgoffa Gweinidogion Cymru, rhag ofn eich bod yn cael eich temtio, wrth gwrs, i wneud yn fawr o'r pwynt hwn, y gallwn ddal i weld y trawst yn eich llygad chi ar hyn.

Wrth gwrs, nid yw hynny'n lleihau'r dadleuon dros gydgyrnhai ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun yn nodi bod y ddwy brif statud sy'n datblygu datganoli yng Nghymru wedi profi'n anaddas at y diben. Ac rwy'n cytuno ag ef—nid o reidrwydd oherwydd bod bwriad polisi'r Deddfau hynny'n ddadleuol, ond am nad oedd ansawdd y statudau hynny mor dda ag y gallai fod wedi bod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The introduction of reservations dressed up as exceptions into a statute creating conferred powers and then leaving a crater of silence between them has proven, I think, a howler of the first order, and it has been left to the Supreme Court to state what the law actually is. While I know that some, perhaps, will think I'm heretical in saying this, I find it difficult that a Supreme Court statement of the law should be the last word on a settlement regarding devolution.

This is why, despite my firm preference for consolidation, I cannot subscribe to the idea of scrapping this draft Bill and starting again. We need a Bill sooner rather than later, because we need a restatement of the law by a legislature. While the draft list of reservations, the draft description of certain concepts like private law and criminal law, the justification for the draft necessity tests, and the scope of the draft consent provisions, threaten to take a restatement of the law too far the other way, we and the Secretary of State have an immediate and present opportunity to resolve those issues now to improve the draft enough to develop a publishable Bill that makes the current stage of devolution clear and certain, and which, incidentally, means that we do not lose the chance for the soonest devolution of the new powers that were listed by Andrew R.T. Davies in the previous debate.

Now, the draft, as it stands, does not create that clarity and certainty at the moment, but it still could. The Secretary of State has been quite open that he expects the Bill that he introduces to look quite different—unsurprising when what this legislation is supposed to achieve is so ambitious and, by its nature, complicated. One of the joys of draft Bills, I think, is that you get more than one go at getting it right. You get a good long run at consultation, as we've seen here, which is why I'm rather bemused at the Welsh Government's rejection of a recommendation in another recent CLAC report, in which we suggested that more routine publication of draft Bills might be a good idea. Many of the arguments made today to CLAC and to the Welsh Affairs Select Committee must be heard by the Secretary of State and acted upon in order to make the eventual Bill reflect the current stage of devolution clearly and certainly.

Mae cyflwyno cymalau cadw mewn statud ar ffurf eithriadau gan greu model rhoi pwerau ac yna gadael gwagle mawr rhyngddynt wedi profi'n gamgymeriad o'r radd flaenaf rwy'n credu, a gadawyd i'r Goruchaf Lys ddatgan beth yw'r gyfraith mewn gwirionedd. Er y gwn y bydd rhai, o bosibl, yn meddwl fy mod i'n heretic yn dweud hyn, rwy'n ei chael yn anodd derbyn mai datganiad cyfraith gan y Goruchaf Lys yw'r gair olaf ar setliad datganoli.

Dyma pam, er fy mod yn bendant yn ffafrio cydgrynhoi, na allaf gefnogi'r syniad o gael gwared ar y Bil drafft hwn a dechrau eto. Mae arnom angen Bil yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach, am fod arnom angen ailddatgan y gyfraith drwy ddeddfwriaeth. Er bod y rhestr ddrafft o gymalau cadw, y disgrifiad drafft o gysyniadau penodol fel cyfraith breifat a chyfraith trosedd, y cyfiawnhad dros y profion angenrheidiol drafft, a chwmpas y darpariaethau cydsyniadau drafft, yn bygwth mynd ag ailddatgan y gyfraith yn rhy bell y ffordd arall, mae gennym ni a'r Ysgrifennydd Gwladol gyfle uniongyrchol a phresennol i ddatrys y materion hynny yn awr er mwyn gwella'r drafft ddigon i ddatblygu Bil y gellir ei gyhoeddi sy'n gwneud y cam presennol o ddatganoli'n glir ac yn bendant, ac sydd, gyda llaw, yn golygu nad ydym yn colli cyfle i ddatganoli'r pwerau newydd a restrwyd gan Andrew R.T. Davies yn y ddatl flaenorol mor fuan â phosibl.

Nawr, nid yw'r drafft fel y mae yn creu'r eglurder a'r sicrwydd hwnnw ar hyn o bryd, ond fe allai wneud hynny o hyd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud yn eithaf agored ei fod yn disgwyl i'r Bil y mae'n ei gyflwyno edrych yn go wahanol—ac nid yw hynny'n syndod ag ystyried bod yr hyn y mae'r deddfwriaeth hon i fod i'w gyflawni mor uchelgeisiol ac yn ôl ei natur, yn gymhleth. Rwy'n credu mai un o bleserau Biliau drafft yw eich bod yn cael mwy nag un cynnig ar ei gael yn iawn. Fe gewch gyfle da i ymgynghori, fel y gwelwn yma, a dyna pam rwy'n ddryslyd braidd pam y mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod argymhelliad mewn adroddiad diweddar arall gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, lle yr awgrymwyd gennym efallai y byddai cyhoeddi Biliau drafft yn fwy rheolaidd yn syniad da. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wrando ar nifer o'r dadleuon a wnaed heddiw i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a gweithredu arnynt er mwyn sicrhau bod y Bil yn y pen draw yn adlewyrchu'r cam cyfredol o ddatganoli yn glir ac yn bendant.

But if there's hope for this Bill, what of consolidation? One of the advantages of leaving consolidation until later in the parliamentary cycle is that time will tell. We have to recognise that the move from a conferred to a reserved model is no simple aim, even though it's desired by all parties. Time will tell what the new Wales Act gets right and gets wrong and what might need some revision before consolidation. Later consolidation offers a chance to consult and draft provisions about bilingual UK legislation too, and that is something that the motion proposes. So, I invite Members to consider whether having that time to test the effect of legislation, rather than surmise what those effects might be prior to consolidation, may ultimately produce better consolidated law, better quality law. In which case, I hope the Secretary of State, who has not written off the idea of future consolidation, is happy enough to consider it to bid for time for that consolidation before the end of this Parliament.

Ond os oes gobaith i'r Bil hwn, beth am gydgrynhoi? Un o fanteision gadael cydgrynhoi tan yn ddiweddarach yn y cylch seneddol yw mai amser a ddengys. Mae'n rhaid i ni gydnabod nad yw'r symud o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau'n ôl yn nod syml o gwbl, er mai dyna y mae pob un o'r pleidiau yn ei ddymuno. Amser a ddengys beth fydd y Ddeddf Cymru newydd yn ei gael yn gywir a beth fydd yn ei gael yn anghywir a beth allai fod angen rhywfaint o adolygu arno cyn cydgrynhoi. Mae cydgrynhoi'n ddiweddarach yn cynnig cyfle i ymgynghori a drafftio darpariaethau ynghylch deddfwriaeth DU drafft yn ddwyieithog hefyd, a dyna rywbeth y mae'r cynnig yn ei argymhell. Felly, rwy'n gwahodd yr Aelodau i ystyried a allai cael yr amser hwnnw i brofi effaith ddeddfwriaeth, yn hytrach na dyfalu beth allai'r effeithiau hynny fod cyn cydgrynhoi, gynhyrchu deddf wedi'i chydgrynhoi'n well yn y pen draw, at gyfraith o ansawdd gwell. Os felly, rwy'n gobeithio bod yr Ysgrifennydd Gwladol, nad yw wedi diystyrru'r syniad o gydgrynhoi yn y dyfodol, yn ddigon hapus i'w ystyried er mwyn cael amser ar gyfer y cydgrynhoi cyn diwedd y Senedd hon.

15:53

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I of course support the motion and I recognise the considerable work, and, I think, very impressive work, that has been done in the Bill, but I do have very, very considerable reservations about whether this Bill will be made fit for purpose. I certainly hope it is, but certainly no legislation is better than legislation at this stage, which, we're told, is going to be the last legislation, if it is not effective and if it does not deliver what we actually want it to deliver. Bad legislation would be worse than no legislation, which is why my main comments are really relating to the timetable.

We were promised, I think, during the early debates on this—using, I think, David Melding's analogy of how many times the car has actually been changed by legislation—a legislative Rolls Royce and we ended up with a legislative Reliant Robin or Robin Reliant. The legislation, perhaps to take another analogy from Morecambe and Wise, maybe has all the right bits in it, but not necessarily in the right order, and the question is whether it is really salvageable in the format that it is actually in.

The problem goes back, I think, to the way in which the draft Bill has actually been brought about and the lack of any real detailed and substantive engagement with Welsh Government and Welsh officials in the actual construction of a Bill that was based on a common set of ideas and principles as to what the legislation was about and what its aim was to achieve. If you want to get an understanding of the, I think, confusion and the contradictions that now appear within the Bill, you need only look at the Secretary of State for Wales's evidence recently to the Welsh Affairs Committee in Westminster. Now, on the issue of a timetable, of course, that was raised in the Welsh Affairs Committee and, of course, what Stephen Crabb said then was:

Wrth gwrs, rwy'n cefnogi'r cynnig ac rwy'n cydnabod y gwaith sylweddol, a thrawiadol iawn yn fy marn i, a wnaed yn y Bil, ond mae gen i amheuon sylweddol iawn a ellir gwneud y Bil hwn yn addas at y diben. Rwy'n sicr yn gobeithio hynny, ond yn bendant mae peidio â chael unrhyw ddeddfwriaeth o gwbl yn well na deddfu ar hyn o bryd, deddfwriaeth a fydd, yn ôl yr hyn a ddywedir wrthym, yn ddeddfwriaeth olaf, os nad yw'n effeithiol ac os na fydd yn cyflawni'r hyn rydym eisiau iddi ei chyflawni mewn gwirionedd. Byddai deddfwriaeth wael yn waeth na pheidio â chael deddfwriaeth, a dyna pam y mae fy mhrif sylwadau mewn gwirionedd yn ymwneud â'r amserlen.

Cawsom addewid ar hyn, rwy'n meddwl, yn ystod y trafodaethau cynnar—gan ddefnyddio cyfatebiaeth David Melding, rwy'n meddwl, o sawl gwaith y newidiwyd y car yn ôl y ddeddfwriaeth—gyda Rolls Royce deddfwriaethol yn troi'n Reliant Robin deddfwriaethol neu Robin Reliant deddfwriaethol yn y pen draw. Efallai bod y ddeddfwriaeth, gan gymryd cyfatebiaeth arall o eiddo Morecambe and Wise, yn cynnwys yr holl ddarnau iawn, ond nid o reidrwydd yn y drefn iawn, a'r cwestiwn yw a oes modd ei achub yn ei diwyg presennol mewn gwirionedd.

Rwy'n credu bod y broblem yn mynd yn ôl at y ffordd y lluniwyd y Bil drafft a diffyg unrhyw ymgysylltiad manwl o sylwedd go iawn â Llywodraeth Cymru a swyddogion Cymreig wrth fynd ati i ddatblygu Bil a oedd yn seiliedig ar gyfres gyffredin o syniadau ac egwyddorion o ran yr hyn yw'r ddeddfwriaeth a beth yr anelai i'w gyflawni. Os ydych am gael dealltwriaeth o'r dryswch, rwy'n meddwl, a'r gwrth-ddweud sydd bellach yn ymddangos yn y Bil, nid oes ond angen i chi edrych ar dystiolaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ddiweddar i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan. Nawr, ar fater amserlen, wrth gwrs, cafodd hynny sylw yn y Pwyllgor Materion Cymreig ac wrth gwrs, yr hyn a ddywedodd Stephen Crabb bryd hynny oedd:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'I don't think we are late. If we go back to the timetable that we had in mind, this process has been going on for a year or more already. We started this whole process in November last year, following the Scottish referendum and the work that the Smith Commission was doing',

et cetera. So, basically, he's saying that we've had plenty of time to do it, we've had plenty of time for discussion, and let's just press on. That, to me, is exactly the wrong thing to do. What is far more important is the engagement and the—[Interruption.] Yes, I will.

15:56

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Member for giving way. In actual fact, what the Secretary of State has said is that the draft Bill that we see before us now will not be the way that the Bill looks upon gaining Royal Assent, so I think you need to recognise that in your comments.

15:56

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

Well, I was actually quoting from the transcript of his evidence, which actually went on to say:

'We had the St David's Day process, the inter-party discussions leading up to March before the election, so there has already been a considerable amount of time.'

What I'm challenging is that, in actual fact, that was not the case, because, if you look at the correspondence between the Secretary of State for Wales and the Welsh Government, what you actually find is that everyone was almost kept blind as to what the content of the draft Bill was going to be until almost September or October. Certainly for those of us in this Chamber, the first sight we had of it, really, was in a couple of months. Now, I'd say that is not an acceptable way of proceeding, but it seems to me that it has contributed to a conflict of ideas and understanding of what this is actually about.

'I don't think we are late. If we go back to the timetable that we had in mind, this process has been going on for a year or more already. We started this whole process in November last year, following the Scottish referendum and the work that the Smith Commission was doing',

ac ati. Felly, yn y bôn, mae'n dweud ein bod wedi cael digon o amser i'w wneud, rydym wedi cael digon o amser i drafod, a gadewch i ni fwrw iddi. I mi, dyna'n union na ddylid ei wneud. Yr hyn sy'n llawer pwysicach yw'r ymgysylltiad a'r—[Torri ar draws.] lawn, fe wnaif.

Diolch i'r Aelod am ildio. Mewn gwirionedd, yr hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i ddweud yw na fydd y Bil drafft a welwn ger ein bron yn awr yn edrych yr un fath ag y bydd y Bil yn edrych ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, felly rwy'n meddwl bod angen i chi gydnabod hynny yn eich sylwadau.

Wel, dyfynnu o'r trawsgrifiad o'i dystiolaeth roeddwn i mewn gwirionedd, ac aeth ymlaen i ddweud:

'We had the St David's Day process, the inter-party discussions leading up to March before the election, so there has already been a considerable amount of time.'

Yr hyn rwy'n ei herio, mewn gwirionedd, yw nad oedd hynny'n wir, oherwydd, os edrychwch ar yr ohebiaeth rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth Cymru, yr hyn a welwch mewn gwirionedd yw bod bron bawb wedi'u cadw yn y tywyllwch bron o ran yr hyn fyddai cynnwys y Bil drafft bron tan fis Medi neu fis Hydref. I ni yn y Siambr hon yn sicr, yr olwg gyntaf a gawsom arno, mewn gwirionedd, oedd mewn cwpl o fisoedd. Nawr, fe ddywedwn nad yw honno'n ffordd dderbyniol o symud ymlaen, ond mae'n ymddangos i mi ei fod wedi cyfrannu at wrthdaro rhwng syniadau a dealltwriaeth o beth y mae hyn yn ymwneud ag ef mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, whereas I support the whole concept of potential consolidation, I very much take the point that this is the last-chance saloon for a piece of substantive legislation in this Westminster Parliament, which is why it is all the more important that we actually get it right. The position that I would take and the reservations that I would make are these: when we actually see the Bill itself—not the draft Bill, but the actual Bill that is presented, if it is not very, very substantively, if it is not fundamentally, changed to take on board the various representations that have been made, some of which we will be dealing with during the course of the additional motions that are coming on to, then it seems to me that we do have to actually call into question whether the Bill is actually fit for purpose. We won't know until we actually reach that stage. But when we have the debate on some of the other items of the Bill, particularly the jurisdiction and the necessity test and so on, again, the evidence that was given by the Secretary of State for Wales shows, certainly in my opinion, either a lack of a grasp of what the key constitutional issues are— Unless that is actually rectified and translated into a more effectively drafted Bill that actually has proper partnership and engagement with this Assembly and with the Welsh Government, then I would rather we hesitate to actually proceed with something that is not going to be workable and is going to be more damaging in the future.

Felly, er fy mod yn cefnogi'r cysyniad posibl o gydgrynhoi, rwy'n derbyn y pwynt mai dyma'r cyfle olaf i gael deddfwriaeth sylweddol yn nhymor y Senedd hon yn San Steffan, sy'n ei gwneud yn bwysicach fyth i ni ei chael yn iawn. Dyma fy safbwynt i a'r amheuan yr hoffwn eu gwyntyllu: pan welwn y Bil ei hun mewn gwirionedd—nid y Bil drafft, ond y Bil go iawn a gyflwynir, os nad yw wedi cael ei newid yn sylweddol iawn, iawn, os nad yw wedi cael ei newid yn sylfaenol, ei newid i gynnwys y gwahanol sylwadau a wnaed, sylwadau y byddwn yn rhoi sylw iddynt yn ystod y cynigion ychwanegol y down atynt, yna mae'n ymddangos i mi fod yn rhaid i ni gwestiynu a yw'r Bil yn addas at y diben mewn gwirionedd. Ni fyddwn yn gwybod hyd nes y byddwn yn cyrraedd y cam hwnnw. Ond pan gawn y ddaedl ar rai o eitemau eraill y Bil, yn enwedig yr awdurdodaeth a'r prawf angenrheidrwydd ac yn y blaen, unwaith eto, mae'r dystiolaeth a roddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn fy marn i yn bendant, naill ai'n dangos diffyg dirnadaeth o'r hyn yw'r materion cyfansoddiadol allweddol—. Oni chaiff hynny ei unioni a'i droi'n Fil wedi'i ddrafftio'n fwy effeithiol gyda phartneriaeth ac ymgysylltiad priodol â'r Cynulliad hwn a chyda Llywodraeth Cymru, yna byddai'n well gennyf ein bod yn oedi rhag bwrw ymlaen gyda rhywbeth na fydd modd ei weithredu ac sy'n mynd i fod yn fwy niweidiol yn y dyfodol.

15:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dafydd Elis-Thomas.

Dafydd Elis-Thomas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:59 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd, am gael cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth yma fel aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ers mis Hydref y llynedd. Mae wedi bod yn fraint i gydweithio gydag aelodau eraill y pwyllgor, a dyna'r pwynt cyntaf rwyf am ei wneud a llongyfarch nid yn unig fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor ond, yn wir, holl bleidiau'r Cynulliad hwn ar y gallu i gydweithredu ar faterion cyfansoddiadol. Mae hynny'n dangos ein bod ni'n sefydliad aeddfed. Yn yr achos yma, rwyf eisiau talu teyrnged arbennig i'r Fonesig Lywydd ac i'w phrif gynghorwyr cyfreithiol am yr holl waith y maen nhw wedi ei wneud, nid yn unig yn ein helpu ni fel pwyllgor cyfansoddiadol, ond hefyd am fod yn barod, drwoch chi, Fonesig Lywydd, i ddatgan yn glir iawn egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol y dylent fod yn perthyn i bob deddfwrfa ac i bob corff seneddol.

Thank you very much, Dame Presiding Officer, for the opportunity to contribute to this debate as a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee since October of last year. It has been a privilege to collaborate with other members of that committee, and that's the first point that I want to make, and I want to congratulate not only my fellow members of the committee but also all of the parties in this Assembly on their ability to collaborate on constitutional issues. That demonstrates that we are a mature institution. In this case, I want to pay a particular tribute to the Dame Presiding Officer and her chief legal advisers for all of the work that they have done, not only in assisting us as a constitutional committee, but also their willingness through you, Dame Presiding Officer, to state very clearly the fundamental constitutional principles that should underpin all legislatures and all Parliamentary bodies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n rhaid imi ddweud—ac rwy'n ofni fy mod i wedi dweud hyn o'r blaen wrth drafod y materion yma—nad oedd y profiad o geisio holi'r Ysgrifennydd Gwladol ddim yn un mor adeiladol ag y dylai fo fod wedi bod. Rwy'n mynd i fod yn ofalus iawn i beidio â manteisio ar y sefyllfa yma i feirniadu'r Ysgrifennydd Gwladol yn y fan yma, gan fod gen i le arall, y tu hwnt i orsaf Paddington, lle medraf i wneud hynny hefyd. Nid wyf am wastraffu gormod o amser y Cynulliad yn trafod tystiolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, ond mae hi yn siarad drosti ei hun. Nid wyf yn ei feio fo yn bersonol, ond rwyf yn beio'r ffaith bod Swyddfa Cymru wedi methu â datblygu'r ddealltwriaeth gyfansoddiadol a oedd yn sicr yn bod yna yng nghyfnod y ddwy Lywodraeth flaenorol, yn fy mhrofiad i. Yn sicr, pan oeddwn yn gwneud y gwaith o lywyddu yn y lle yma, yr oedd y trafodaethau yr oeddwn i'n eu cael efo ysgrifenyddion gwladol ynglŷn â sut yr oedd cyfansoddiad Cymru'n gweithredu drwy Ddeddfau Llywodraeth Cymru olynol yn drafodaethau lle nad oeddwn yn cytuno bob amser, er roeddwn i'n wastad yn cytuno â Paul Murphy, oherwydd nid yw hi'n bosibl anghytuno â Paul Murphy. Roedd y trafodaethau yna, yn enwedig, efallai, gyda'r Arglwydd Hain bellach hefyd—Peter Hain—pan oedd o'n Ysgrifennydd Gwladol, ynglŷn â sut y gellid datblygu'r cyfansoddiad yn y cyfnod yma, yn drafodaethau adeiladol iawn.

Felly, mae yna fethiant, mae gen i ofn, wedi bod i ddeall beth yw cyfansoddiad a phwysigrwydd cyfansoddiad, ac nad rhyw un Ddeddf seneddol arall yn San Steffan yw Deddfau Cymru a Deddfau Llywodraeth Cymru. Dyma'r Deddfau sydd yn gosod gerbron gyfansoddiad y wlad a'n ffordd ni o weithio yn fan hyn. Felly, mae yna egwyddorion sylfaenol sydd ar goll, ac yn arbennig, wrth gwrs, yr egwyddorion yr ydych chi wedi'u gosod yn glir iawn, Fonesig Lywydd, yn eich meini prawf, sef setliad eglur, ymarferol a dim camu yn ôl o ran cymhwysedd y Cynulliad.

Gwendid mwyaf, i mi, Bil drafft Cymru ydy ei fod o mor gymhleth a chymysgld. Os ydym ni'n credu mewn democratiaeth, y dylai fod yna gyfle i bawb sy'n cymryd rhan a chyfranogi yn y broses ddemocrataidd i ddeall beth maen nhw'n ei wneud, bod yr hyn a ddywedodd yr annwyl Raymond Williams, sef 'educated and participating democracy', yn mynd gyda'i gilydd, a bod democratiaeth i fod yn addysgedig a chyfranogol, yna sut allwch chi gyfranogi yn rhywbeth nad ydych chi'n ei ddeall?

Mae hwn yn fater sylfaenol iawn. Beth bynnag a ddywed gwrthwynebwyr yr Undeb Ewropeaidd am yr Undeb Ewropeaidd, mae cytundebau a chyfansoddiadau'r Undeb Ewropeaidd, fel maen nhw wedi'u gosod allan mewn Deddfau sydd wedi pasio yn San Steffan, ac fel y maen nhw yn mhob prif senedd gwladwriaethau eraill, yn gymharol eglur o'u cymharu â Deddfau Llywodraeth Cymru, sef cyfansoddiad Cymru. Felly dyna pam fy mod i'n meddwl bod y cynnig arbennig rydym yn ei drafod yma heddiw, ynglŷn â cheisio cydgrynhoi'r gyfraith gyfansoddiadol, yn allweddol.

Fel y dywedir yn adroddiad blaenorol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth ar ddeddfu yng Nghymru, ac rwy'n dyfynnu,

I have to say—and I fear that I may have said this before in discussing these issues—that the experience of trying to question the Secretary of State was not as constructive as it should have been. I will be very careful not to take advantage of my position to criticise the Secretary of State in this place, because I have another place beyond Paddington station where I can also do so. I don't want to waste too much of the Assembly's time in discussing the evidence of the Secretary of State, but it does speak for itself. I do not blame him personally, but I do blame the fact that the Wales Office had failed to develop a constitutional understanding, which certainly existed during the period of the two predecessor Governments, in my experience. Certainly, when I was undertaking the role of Presiding Officer in this place, the discussions that I had with secretaries of state on how the constitution of Wales would operate through consecutive Government of Wales Acts were negotiations where I didn't always agree, although I always agreed with Paul Murphy, because it is impossible to disagree with Paul Murphy. Those negotiations, and particularly perhaps with Lord Hain, as he is now—Peter Hain—when he was Secretary of State, on how the constitution could be developed, were discussions that were very constructive.

So, unfortunately, there has been a failure to understand what a constitution is, how important a constitution is, and that the Wales Acts and the Government of Wales Acts are not just another Parliamentary Act. These are the Acts that put forward the constitution of the country and our modus operandi here. Therefore, there are fundamental principles, which are missing, particularly the principles that you have set out most clearly, Dame Presiding Officer, in your criteria, namely a clear settlement, which is practical with no roll-back of Assembly competence.

The major weakness for me in terms of the draft Wales Bill is that it is so complex and confused. If we do believe in democracy, that there should be an opportunity for everyone who participates or is involved in the democratic process to understand what they are doing, that the words of the dear Raymond Williams about an 'educated and participating democracy' go together, and that democracy should be educated and participatory, then how can you participate in something that you do not understand?

This is a very fundamental issue. Whatever the opponents of the European Union say about the European Union, the constitutions and treaties of the European Union, as set out in legislation passed in Westminster, and as they are in all other member-state parliaments, are relatively clear as compared to the Government of Wales Acts, namely the Welsh constitution. Therefore, that is why I think that this particular motion that we are discussing here today on attempting to consolidate constitutional law is crucially important.

As is stated in a previous report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on law-making in Wales, and I quote,

'Ym maes y gyfraith mae cydgrynhoi yn golygu mynd i'r afael â darn o gyfraith sydd wedi dadfeilio oherwydd yr haenau o ddiwygiadau ac addasiadau a wnaed iddo, a llunio un testun glân, yn unol â'r arfer cyfoes gorau'.

Os oes yna unrhyw enghraifft o gyfraith wedi dadfeilio, yna mae gen i ofn mai ein cyfansoddiad dadfeiliedig yng Nghymru, efallai, yw'r enghraifft orau. Fel y gwyddom, mae gan Gomisiwn y Gyfraith gyfrifoldeb penodol ynglŷn â chydgrynhoi, fel rhan o'i swyddogaeth statudol. Felly, nid oes dim esgus i'r gwaith hwnnw beidio â chael ei wneud. Nid oes dim esgus na fyddai modd cydweithio, a gofyn i Gomisiwn y Gyfraith, a'i gomisiynu, i gynorthwyo yn y gwaith o gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod i o'r farn bod yr ymatebion a gafwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol am y rheswm pam na chafwyd cydgrynhoad yn ddryslyd iawn o ran egwyddorion.

Felly, mae gen i un awgrym adeiladol efallai y dylem ei ystyried ar gyfer y Cynulliad nesaf, sef hyn: os bydd gyda ni Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y Cynulliad nesaf, fel mae'n sicr y bydd, buaswn yn meddwl—neu rywbeth tebyg iddo—ein bod ni yn trafod gyda Chomisiwn y Gyfraith i ba raddau y mae modd i ni, fel Cynulliad, fynd at y gwaith o geisio symleiddio, cydgrynhoi a dwyn eglurder i'n cyfansoddiad ein hunain. Mae hynny'n dod yn bwysicach fyth, wrth gwrs, oherwydd y bydd y pwerau'n dod i ni allu rheoli ein hunain ac i ddatblygu materion megis y system etholiadol ac, wrth gwrs, niferoedd Aelodau'r Cynulliad, ac yn y blaen. Fel y dywedwyd yn gynharach gan y Prif Weinidog a chan gadeirydd y pwyllgor, pan fyddwn yn dod i fod yn ymreolus ynglŷn â rheoli ein hunain ynglŷn â'n cyfansoddiad, fel sy'n briodol, fe ddylai cael cyfansoddiad clir fod yn un o'r argymhellion hynny.

Mae angen, felly—fel y dywedodd adroddiad blaenorol y pwyllgor ar ddeddfu yng Nghymru—defnyddio iaith glir wrth ddrafftio ac, wrth gwrs, i ddrafftio yn ddwyieithog. Dyma sy'n dod â'r balchder mwyaf i mi, oherwydd mae Senedd Cymru yn llawer mwy deallus a llawer clyfrach nag ydy San Steffan, am ein bod ni wedi datblygu'r dull hwn o weithio'n ddwyieithog. Yn hynny o beth, rydym yn ymdebygu mwy i seneddau taleithiol a ffederal mewn gwlad ddeallus iawn eto, fel Canada, ac, wrth gwrs, i nifer fawr o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd. Ond nid wyf yn credu bod San Steffan yn deall beth yw ystyr drafftio'n ddwyieithog. Yn yr ystyr hynny, nid ydynt, efallai, yn deall y modd y mae cywirdeb cyfreithiol ac ieithyddol uwch yn datblygu o orfod meddwl ar yr un pryd mewn dwy iaith. Mae argymhellion clir, wrth gwrs, a wnaed gan y pwyllgor, ynglŷn â chael cynllun tymor hir i gynyddu'r gyfran o Filiau a oedd yn cael eu drafftio ar y cyd, ac mae sawl argymhelliad pwysig wedi cael eu gwneud gan y Cwnsler Cyffredinol a chan gyfreithwyr ar gyfer Comisiwn y Cynulliad ynglŷn â sut y gallai hynny weithio. Felly, wrth inni ofyn am i gyfraith gyfansoddiadol Cymru gael ei chydgrynhoi, a hynny'n ddwyieithog ac yn effeithiol, o fewn Senedd bresennol San Steffan, rydym yn gwybod na fyddant yn gwneud hynny, oherwydd nad ydynt yn deall beth yw ystyr gweithio'n ddwyieithog. Felly, efallai mai'r her i ni yw gwneud hynny ein hunain.

'Consolidation of law means taking an area of law that has fallen into disrepair as a result of layers of amendments and modification, and producing a single clean text, in accordance with best contemporary practice'.

If there is any example of a law that has fallen into disrepair, then I fear that our broken-down constitution here in Wales, perhaps, is the best example. As we know, the Law Commission has a specific responsibility in terms of consolidation, as part of its statutory function. Therefore, there is no excuse for this work not to be undertaken. There is no excuse that we couldn't work with the Law Commission, and to commission them to assist in the work of consolidating this law. I have to say that I am of the opinion that the responses received from the Secretary of State as to why there was no consolidation were very confused in terms of their underpinning principles.

Therefore, I do have one constructive suggestion that we may wish to consider for the next Assembly, namely this: if we do have a Constitutional and Legislative Affairs Committee in the new Assembly, as I'm sure we will—certainly there will be something similar—then we should discuss with the Law Commission the extent to which we as an Assembly can get to grips with the work of trying to simplify, consolidate and bring clarity to our own constitution. That becomes even more important, of course, because the powers will come to us in order to manage our own affairs and to act on issues such as the electoral system and, of course, Assembly Member numbers and so on. As was stated earlier by the First Minister and the committee chair, when we do become autonomous in terms of our own constitution, as is appropriate, then having a clear constitution should be one of those main recommendations.

There is a need—as the committee report has stated previously, in terms of law-making in Wales—to use clear language in drafting, and also to draft bilingually. This is what gives me the greatest pride, because the Welsh Senedd is far more intelligent and far more clever than the Westminster Parliament, as we have developed this method of working bilingually. In that regard, we are more akin to the regional and federal parliaments in another very intelligent country, namely Canada, and to very many other nations within the European Union. But I don't think that Westminster understands the meaning of bilingual drafting. In that sense, they perhaps don't understand the way in which legal accuracy and linguistic accuracy develop as a result of having to think in two language simultaneously. There are clear recommendations made by the committee on having a long-term plan of increasing the number of Bills that are co-drafted and there are a number of important recommendations that have been made by the Counsel General and by lawyers for the Assembly Commission as to how that could work. Therefore, as we seek the consolidation of Welsh constitutional law, and for that to be done effectively and bilingually, within the current parliamentary term in Westminster, we know that they won't do that, because they simply don't understand the meaning of bilingual working. So, perhaps the challenge for us is to do that ourselves.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I begin by saying that we support wholeheartedly the motion before the Assembly today and the recommendation by the CLAC committee? What we do know is that good law is law that is easily understood by those people who are subject to that law. The danger of not proceeding with a consolidated piece of legislation is that it can be incredibly complex for people to understand the legislative basis on which this institution exists. You would be required to sit there with the original Act—the 2006 Act—and the new piece of legislation, if people were to have a proper understanding. So, our preference, certainly, as a party, is to use the opportunity to create a piece of consolidated legislation. The Welsh Government in this term, for instance, has seen the value of consolidated legislation in the social services Act, by trying to bring social care law under one umbrella, so that people, practitioners and those subject to the law are able to quite clearly see the legislative basis of the social care regime in Wales. Obviously, the committee report recognises that that might not be possible within the stated timeframes of the Secretary of State, so commitment to the consolidated process during the term of this Parliament is, I think, to be welcomed.

But I must say, Presiding Officer, the irony, to listen to Mick Antoniw's contribution this afternoon about why no law would be better than bad law—Mick, I appreciate that you were not here in previous Assemblies where many of us had fundamental disagreements with the original legislation that was drafted in 1998, and certainly had massive reservations about the legislation that was drafted in 2006. But those of us who believe in the devolution project, who believe in the desire to create a Welsh Parliament, actually worked with those pieces of legislation because they moved us along the path. I think we're in danger here—[Interruption.] Of course.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud ein bod yn cefnogi'n llwyr y cynnig sydd gerbron y Cynulliad heddiw a'r argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol? Yr hyn rydym yn ei wybod yw mai cyfraith dda yw cyfraith sy'n hawdd ei deall gan y bobl sy'n ddarostyngedig i'r gyfraith honno. Perygl peidio â bwrw ymlaen â deddfwriaeth wedi'i chydgrynhai yw y gall fod yn hynod o gymhleth i bobl ddeall y sail ddeddfwriaethol sydd i'r sefydliad hwn. Byddai angen i chi eistedd yno gyda'r Ddeddf wreiddiol—Deddf 2006—a'r ddeddfwriaeth newydd, os yw pobl yn mynd i gael dealltwriaeth briodol. Felly, ein dewis ni, yn sicr, fel plaid, yw defnyddio'r cyfle i greu deddfwriaeth wedi'i chydgrynhai. Mae Llywodraeth Cymru yn y tymor hwn, er enghraifft, wedi gweld gwerth deddfwriaeth wedi'i chydgrynhai yn y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol, drwy geisio dwyn cyfraith gofal cymdeithasol o dan un ymbarél, fel y gall pobl, ymarferwyr a'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r gyfraith weld yn glir beth yw sail ddeddfwriaethol y gyfundrefn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn amlwg, mae adroddiad y pwyllgor yn cydnabod efallai na fydd hynny'n bosibl o fewn yr amserlenni a nododd yr Ysgrifennydd Gwladol, felly mae ymrwymiad i'r broses gydgrynhai yn ystod cyfnod y Senedd hon i'w groesawu yn fy marn i.

Ond rhaid i mi ddweud, Lywydd, yr eironi o wrando ar gyfraniad Mick Antoniw y prynhawn yma ynglŷn â pham y byddai peidio â chael deddf yn well na deddf wael—Mick, rwy'n sylweddoli nad oeddech yma mewn Cynullidau blaenorol pan oedd llawer ohonom yn anghydwed yn sylfaenol â'r ddeddfwriaeth wreiddiol a ddrafftwyd yn 1998, ac yn sicr roedd gennym amheuan mawr ynghylch y ddeddfwriaeth a ddrafftwyd yn 2006. Ond aeth y rhai ohonom sy'n credu yn y prosiect datganoli, sy'n credu yn yr awydd i greu Senedd i Gymru, ati mewn gwirionedd i weithio gyda'r ddeddfwriaeth honno am ei bod yn ein symud ar hyd y llwybr. Rwy'n meddwl ein bod mewn perygl yma—[Torri ar draws.] Wrth gwrs.

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't disagree, and I very much followed all those debates and what was going on with that particular legislation. But there's a difference with legislation that doesn't go as far, perhaps, as you want, or that you don't think is as good as it could be, but is nevertheless moving you along, and the potential risk we have, if there is not radical change to this particular Bill, that what it will actually do is take us backwards. It will not only be more restrictive, but will create an even more adverse constitutional situation. Of course, I don't want to see that situation, but of course I just raise it because it makes the point that, unless we have fundamental change, we have to really question where we're going with the legislation in its current format.

Nid wyf yn anghytuno, ac fe ddilynnais yr holl ddadleuon hynny a'r hyn oedd yn digwydd gyda'r ddeddfwriaeth benodol honno. Ond mae yna wahaniaeth gyda deddfwriaeth nad yw'n mynd mor bell, efallai, ag y dymunwch, neu ddeddfwriaeth nad ydych yn meddwl ei bod cystal ag y gallai fod, ond sydd er hynny yn eich symud ymlaen, a'r risg posibl sydd gennym, os na cheir newid radical i'r Bil penodol hwn, mai'r hyn y a wnaiff mewn gwirionedd fydd mynd â ni tuag yn ôl. Bydd yn fwy caeth, a hefyd yn creu sefyllfa gyfansoddiadol hyd yn oed yn fwy anffafriol. Wrth gwrs, nid wyf am weld y sefyllfa honno, ond rwy'n ei chrybwyll er mwyn gwneud y pwynt, oni bai ein bod yn cael newid sylfaenol, mae'n rhaid i ni gwestiynu o ddifrif i ble rydym yn mynd gyda'r ddeddfwriaeth ar ei ffurf bresennol.

16:11

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Believe me, Mick, for those of us who had to stomach the possibility of a Secretary of State for Wales vetoing legislation, which was essentially what we had under the 2006 GOWA Act, that was a bitter pill to swallow. I think we're in danger here of being held to ransom by both parties: a Secretary of State who says, 'If you don't do it now, that's it—there are no further opportunities', but also, I must say, Mick, by a Labour Party that might say, 'It's either our way or it's the highway'. We have an opportunity here and we must use the opportunity here to work to take the devolution settlement forward. I for one will not vote for any piece of legislation—my party never would—that would hand powers away from this institution and back to Westminster. But we must use this opportunity, and not turn our face against it, at this time—but use this opportunity to take the settlement forward. Our preference would be for a consolidated Bill, but the committee does offer an alternative solution if that is not possible. I just think we need to be mindful on both sides not to be blackmailed and not to lose the opportunity.

Credwch fi, Mick, i'r rhai ohonom a orfodwyd i stumogi'r posibilrwydd o gael Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi feto ar ddeddfwriaeth, sef yr hyn a oedd gennym yn y bôn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, roedd yn bilsen chwerw i'w llyncu. Rwy'n meddwl ein bod mewn perygl yma o gael ein dal yn wystlon gan y ddwy ochr: Ysgrifennydd Gwladol sy'n dweud, 'Os na wnewch hyn yn awr, dyna ni—ni fydd cyfleoedd pellach', ond hefyd, mae'n rhaid i mi ddweud, Mick, gan Blaid Lafur a allai ddweud, 'Ein ffordd ni neu ddim o gwbl'. Mae gennym gyfle yma ac mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfle i weithio i fynd â'r setliad datganoli yn ei flaen. Ni fyddaf i, yn un, yn pleidleisio dros unrhyw ddeddfwriaeth—ni fyddaf i fy mhlaid byth yn gwneud hynny—a fyddaf i'n estyn pwerau yn ôl i San Steffan o'r sefydliad hwn. Ond rhaid i ni ddefnyddio'r cyfle hwn, a pheidio â throï ein cefnau arno ar hyn o bryd—a defnyddio'r cyfle hwn i fynd â'r setliad yn ei flaen. Byddaf i'n well gennym Fil wedi'i gydgrynhoi, ond mae'r pwyllgor yn cynnig ateb arall os nad yw hynny'n bosibl. Rwy'n meddwl bod angen i ni fod yn ofalus ar y ddwy ochr nad ydym yn ildio i flacmel ac i beidio â cholli cyfle.

16:13

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the First Minister, Carwyn Jones.

Galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

16:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, Llywydd. It's worth reflecting first of all on the history of this Bill. I offered the Secretary of State the opportunity to work with him on drafting a Bill before last summer and during the course of the summer. That offer was not taken up. When I saw part of the draft Bill—I didn't see all of it—I said to him at the time that this would not get support, and that it needed to be looked at once again. I said to him that, if it was going to be delayed, I'd support him in that. It was more important to get it right. He didn't take up that offer, and now we find ourselves where we are now.

Diolch i chi, Lywydd. Yn gyntaf oll, mae'n werth ystyried hanes y Bil hwn. Cynigiais gyfle i weithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddrafftio Bil cyn yr haf diwethaf, ac yn ystod yr haf. Ni fanteisiodd ar y cyfle hwnnw. Pan welais ran o'r Bil drafft—ni welais y Bil cyfan—dywedais wrtho ar y pryd na fyddaf i'n cael cefnogaeth, a bod angen edrych arno unwaith yn rhagor. Dywedais wrtho, os oedd yn mynd i gael ei ohirio, byddwn yn ei gefnogi ar hynny. Roedd hi'n bwysicach i gael pethau'n iawn. Ni fanteisiodd ar y cynnig hwnnw, ac yn awr rydym yn y sefyllfa rydym ynddi.

When I had discussions, when the Bill first appeared, with the leader of Plaid Cymru and the leader of the Liberal Democrats, I think they both thought I was exaggerating the problems in the Bill. But when they saw the Bill for themselves they could see that there were fundamental flaws in the Bill in terms of the devolution settlement.

Mewn trafodaethau a gefais gydag arweinydd Plaid Cymru ac arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol pan ymddangosodd y Bil gyntaf, rwy'n credu eu bod yn meddwl fy mod yn gorliwio'r problemau yn y Bil. Ond pan welasant y Bil drostynt eu hunain gallent weld bod yna ddiffygion sylfaenol yn y Bil o ran y setliad datganoli.

The irony is that the devolution settlement that we have at the moment is wider than what's actually in the Bill itself. I don't want to be in a situation where the choice is what we have or the Bill as it is, because what we have now is wider. I'd rather have a Bill that actually takes devolution forward, and the Bill doesn't do that at the moment.

Yr eironi yw bod y setliad datganoli sydd gennym ar hyn o bryd yn ehangach na'r hyn sydd yn y Bil ei hun mewn gwirionedd. Nid wyf am fod mewn sefyllfa lle y mae'n rhaid dewis rhwng yr hyn sydd gennym neu'r Bil fel y mae, am fod yr hyn sydd gennym yn awr yn ehangach. Byddaf i'n well gen i gael Bil sy'n symud datganoli yn ei flaen ac nid yw'r Bil yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

The problem with the Bill, which will be exceptionally difficult to overcome unless there is a fundamental change to it, is that, at its very heart, it seeks to preserve the single jurisdiction of England and Wales. No reason is given for that, but that's at its very heart. The practical consequence of that is this obsession that there must be minimal difference in the law between England and Wales. That's fundamentally against what the devolution referendum result was in 2011, and it cuts fundamentally against, I think, what the Secretary of State himself wants. It's very, very difficult for me to see at this moment in time how this current Bill can actually be made right, given the fact that it is so flawed at its heart. That is something that will need to be addressed. [Interruption.]

Y broblem gyda'r Bil, problem y bydd yn eithriadol o anodd ei goresgyn oni cheir newid sylfaenol iddo, yw ei fod, yn ei hanfod, yn ceisio cadw awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr. Ni roddir unrhyw reswm dros hynny, ond mae hynny'n greiddiol ynddo. Canlyniad ymarferol hyn yw'r obsesiwn y dylid cael cyn lleied â phosibl o wahaniaeth rhwng cyfraith Cymru a Lloegr. Mae hynny'n mynd yn sylfaenol groes i ganlyniad y refferendwm datganoli yn 2011, ac mae'n torri'n sylfaenol groes i'r hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun ei eisiau, rwy'n credu. Mae'n anodd iawn, iawn i mi weld ar hyn o bryd sut y gellir cywiro'r Bil cyfredol hwn mewn gwirionedd o ystyried ei fod mor sylfaenol ddiffygiol. Mae hynny'n rhywbeth y bydd angen rhoi sylw iddo. [Torri ar draws.]

16:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Simon Thomas.

Simon Thomas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:15 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just on this point, I think the First Minister's put his finger on a particular problem here—I think it's the lack of attention from the Wales Office to addressing this, but it is curious that we have a referendum that has agreed this process and this path for this Assembly to take. We haven't had a referendum on tax-varying powers, and I'm happy with that, but tax varying will set up a different tax jurisdiction in Wales, as compared to England, yet we're not prepared to have the same to apply to the legal jurisdiction.

Ar y pwynt hwn, rwy'n meddwl bod y Prif Weinidog wedi rhoi ei fys ar broblem benodol yma—rwy'n credu ei fod yn ymwneud â diffyg sylw gan Swyddfa Cymru i fynd i'r afael â hyn, ond mae'n rhyfedd fod gennym refferendwm sydd wedi cytuno ar y broses hon a'r llwybr hwn i'r Cynulliad ei gymryd. Nid ydym wedi cael refferendwm ar bwerau amrywio trethi, ac rwy'n hapus ynglŷn â hynny, ond bydd amrywio trethi yn sefydlu awdurdodaeth dreth wahanol yng Nghymru, o gymharu â Lloegr, ac eto nid ydym yn barod i'r un peth fod yn gymwys ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I agree. If I could, I'll deal with the issue of the jurisdiction a little later on. But I deal with it now because it's not simply a question of what the courts look like, it's the fundamental heart of what the Bill looks like. That's the difficulty that we face. I would urge the Secretary of State as well to take more ownership of the Bill. There have been occasions where he has sounded as if it is not his Bill. For example, he talked about street pedlars and traders and he said, 'I was surprised to see that in the Bill'. It's his Bill. He must give the impression that it is a Bill that's drafted by him and not for him. That is something that I'd urge him to do.

Rwy'n cytuno. Os caf, fe roddaf sylw i fater yr awdurdodaeth ychydig yn nes ymlaen. Ond rwy'n ymdrin ag ef yn awr gan nad yw'n gwestiwn syml o beth fydd natur y llysoedd, mae'n ymwneud yn sylfaenol â beth fydd natur sylfaenol y Bil. Dyna'r anhawster sy'n ein hwynebu. Byddwn yn annog yr Ysgrifennydd Gwladol yn ogystal i gymryd mwy o berchnogaeth ar y Bil. Cafwyd adegau pan swniai fel pe nad ei Fil ef ydoedd. Er enghraifft, soniodd am werthwyr a masnachwyr stryd a dywedodd, 'Roeddwn yn synnu gweld hynny yn y Bil'. Ei Fil ef ydyw. Rhaid iddo roi'r argraff ei fod yn Fil y mae ef wedi'i ddrafftio, ac nid yn Fil a ddrafftwyd ar ei gyfer. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn i'n ei annog i'w wneud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the motion itself, consolidating legislation, well, we agree with the committee that clarity and accessibility of the law to citizens is paramount. In no context is this more important than the fundamentals of how Wales is to be governed. It's important for the transparency and accessibility of our democratic institutions in Wales and for clarity on their role within the governance of the UK as a whole. Were this draft to become law, the fundamentals of Wales's devolution settlement would be spread across four different Acts. If we are not to see consolidating legislation this time around, it's got to come pretty soon in order to provide that clarity.

O ran y cynnig ei hun, cydgrynhoi deddfwriaeth, wel, rydym yn cytuno â'r pwyllgor fod eglurder a hygyrchedd y gyfraith i ddinasyddion yn hollbwysig. Mae'n bwysicach na dim yng nghyd-destun hanfodion y modd y caiff Cymru ei llywodraethu. Mae'n bwysig o ran tryloywder a hygyrchedd ein sefydliadau democrataidd yng Nghymru ac er mwyn sicrhau eglurder ar eu rôl yn nhrefn lywodraethu'r DU gyfan. Pe bai'r drafft hwn yn dod yn gyfraith, byddai hanfodion setliad datganoli Cymru yn cael eu gwasgaru ar draws pedair Deddf wahanol. Os na welwn ddeddfwriaeth wedi'i chydgrynhoi y tro hwn, mae'n rhaid iddo ddod yn eithaf buan er mwyn darparu'r eglurder hwnnw.

It's already difficult for politicians, civil servants and lawyers to understand the complete picture—it would make it more complex. It is already complex for lawyers in Wales to understand which law applies and where to get that law from. This would actually translate that problem on to a UK level as well. So, it must be tackled—if not this time around, it must be tackled in the future. Silk 2, of course, called for a wider consolidation of Welsh legislation and that must surely include the constitution. There needs to be a consolidated document that sets out the constitution of Wales in a logical, coherent and accessible way. It's challenging—I don't pretend that it's not. It's challenging, but perfectly achievable, though it will take time. I would not want to see consolidating legislation be given preference to the need to strengthen Wales's devolution settlement over the next year or two.

We know that detailed work has already been done by ourselves as a Welsh Government to improve the draft Bill. We've laid down some of the foundations for that consolidation. And of course it's right to say that any consolidation should have equal status in Welsh and English. But there's absolutely no doubt at all that there must be a body of law that sets out the Welsh constitution in one document. If that is not to happen this time around, it must happen soon. That's why we support the motion that is before us at this present time and the committee's views on that.

Mae hi eisoes yn anodd i wleidyddion, gweision sifil a chyfreithwyr ddeall y darlun cyflawn—byddai'n ei gwneud yn fwy cymhleth. Mae eisoes yn gymhleth i gyfreithwyr yng Nghymru ddeall pa gyfraith sy'n berthnasol a ble i ddod o hyd i'r gyfraith honno. Byddai hyn mewn gwirionedd yn trosglwyddo'r broblem ymlaen i lefel y DU hefyd. Felly, rhaid mynd i'r afael â hyn—os nad y tro hwn, rhaid mynd i'r afael â'r mater yn y dyfodol. Roedd Silk 2, wrth gwrs, yn galw am gydgrynhoi deddfwriaeth Cymru yn ehangach ac mae'n rhaid i hynny gynnwys y cyfansoddiad. Mae angen dogfen wedi'i chydgrynhoi sy'n nodi cyfansoddiad Cymru mewn ffordd resymegol, gydlynol a hygyrch. Mae'n her—nid wyf yn esgus nad ydyw. Mae'n her, ond yn un sy'n berffaith bosibl ei chyflawni, er y bydd yn cymryd amser. Ni fyddwn am weld cydgrynhoi deddfwriaeth yn cael ffafriaeth dros yr angen i gryfhau setliad datganoli Cymru dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Gwyddom fod gwaith manwl wedi'i wneud eisoes gennym ni fel Llywodraeth Cymru ar wella'r Bil drafft. Rydym wedi gosod rhai o'r sylfeini ar gyfer y cydgrynhoi. Ac wrth gwrs, mae'n gywir dweud y dylai unrhyw gydgrynhoi gael statws cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ond nid oes amheuaeth o gwbl fod yn rhaid cael corff o gyfraith sy'n gosod cyfansoddiad Cymru mewn un ddogfen. Os nad yw hynny i ddigwydd y tro hwn, mae'n rhaid iddo ddigwydd yn fuan. Dyna pam rydym yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron ar hyn o bryd a barn y pwyllgor ar hynny.

16:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the committee to reply to the debate—David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb i'r ddatl—David Melding.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:18 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, can I thank Members once again for their thoughtful remarks? They were quite wide-ranging, and that's to be expected; we can't necessarily compartmentalise all these arguments.

Lywydd, a gaf fi ddiolch i'r Aelodau unwaith eto am eu sylwadau ystyrlon? Roeddent yn eithaf eang, ac mae hynny i'w ddisgwyl; ni allwn o reidrwydd wahanu'r holl ddadleuon hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I thought Suzy Davies started absolutely in the right place—we need accessibility and people need to know where the law is and how they can access it. We need to apply this in our domestic law making and we've not always done that. That's certainly the view of the committee and you've reiterated it there. Consolidation does serve the public interest quite profoundly. There's a thicket in terms of the current statute book, which really makes it difficult, even for expert lawyers sometimes, to understand the law in its fullness in any particular area. You did then say that you don't want to start all over again and then just sort of dump the current draft, I suppose, and not take it forward as amended. And I think other Members have hinted at that as well—that we do need to move forward, and the First Minister said in the next year or so. But, you know, consolidation could be conducted over the course of the next three or four years, and you could put a scheme of work in to do that, and that's very much the tone at the heart of the approach we've taken in the report. You know, there are two ways we could go—we could sort of pause things and aim for a consolidation, or we could amend the current draft and then consolidate, but with a strict timetable attached to that.

Roeddwn i'n meddwl bod Suzy Davies wedi dechrau yn y man cywir—mae angen hygyrchedd ac mae angen i bobl wybod lle y mae'r gyfraith a sut y gallant ddod o hyd iddi. Mae angen i ni gymhwyso hyn yn ein prosesau gwneud cyfraith ddomestig ac nid ydym wedi gwneud hynny bob amser. Dyna'n sicr yw barn y pwyllgor ac rydych wedi'i hailadrodd yno. Mae cydgrynhoi yn o fudd sylfaenol i les y cyhoedd. Mae yna ddrysych ynghylch y llyfr statud ar hyn o bryd, sy'n ei gwneud yn anodd iawn, hyd yn oed i gyfreithwyr arbenigol weithiau ddeall y gyfraith yn ei llawnder mewn unrhyw faes penodol. Fe ddywedoch chi wedyn nad ydych eisiau dechrau o'r dechrau eto a chael gwared ar y drafft presennol, mae'n debyg, a pheidio â bwrw ymlaen ag ef fel y'i diwygiwyd. Ac rwy'n meddwl bod Aelodau eraill wedi awgrymu hynny hefyd—fod angen i ni symud ymlaen, a dywedodd y Prif Weinidog yn y flwyddyn neu ddwy nesaf. Ond wyddoch chi, gellid cydgrynhoi dros y tair neu bedair blynedd nesaf, a gallech roi cynllun gwaith i mewn ar gyfer gwneud hynny, a dyna'n bendant yw'r agwedd sydd wrth wraidd ein dull o fynd ati yn yr adroddiad. Wyddoch chi, mae yna ddwy ffordd y gallem fynd—gallem ryw fath o oedi pethau ac anelu at gydgrynhoi, neu gallem ddiwygio'r drafft presennol a chydgrynhoi wedyn, ond gydag amserlen gaeth ynghlwm wrth hynny.

Mick Antoniw asked the question: is the draft salvageable? And, indeed, this was a discussion we had in the committee. And we've come to the view that it could be amended. They're very significant amendments—these are not minor modifications. They are significant, so I'm sure they'll be taken in that spirit by all Members in their remarks. And it's right that we state that clearly and give weight to it, because the current draft doesn't command a consensus—quite clearly it doesn't.

I think I'd say that what you said about—in many ways, the difficulties we are currently in are because we've not had enough of a made-in-Wales approach, and the First Minister said this as well in that he was disappointed that there wasn't a fuller engagement between the Wales Office and the Welsh Government. And, really, if we need to get where we should go in terms of a draft that does command consensus and then can proceed through Parliament, then we have to get it right with a proper made-in-Wales approach. That is urgently needed.

Dafydd Elis-Thomas commended all the parties in broad terms on their record of working together constructively on Welsh governance in the Assembly, and I do think it's a remarkable thing. You know, I go back to 1999; I came in as part of a group that did all it could, really, to stop the Assembly ever being established, so, you know, when I make remarks now to some people in my own party about, perhaps, how this draft needs to be fundamentally improved, I have to examine my own record on constitutional matters. If we go back far enough, then I blush, really, at some of the things I said before 1999. But it is true that the decisions, the profound decisions the people of Wales made in 1997 and then in 2011 in the referenda have been respected by all parties. That's been the starting point, you know—know what you think now, and what the people said, and working with that decision, and that's why I think we have this excellent record.

Can I thank you for the remarks you made about the Presiding Officer's involvement in all this? It was perhaps remiss of me not to have done so, but, anyway, I'll leave that for others to judge. And I think the correspondence that the Presiding Officer has entered into with the Secretary of State is key to everything, really, that needs to be done to improve the draft to make it one that can command a consensus.

Gofynnodd Mick Antoniw y cwestiwn: a oes modd achub y drafft? Ac yn wir, roedd hon yn drafodaeth a gawsom yn y pwyllgor. Ac rydym wedi ffurfio'r farn y gellid ei ddiwygio. Maent yn ddiwygiadau sylweddol—nid mân addasiadau ydynt. Maent yn arwyddocaol, felly rwy'n siwr y bydd yr holl Aelodau yn ystyried hynny yn eu sylwadau. Ac mae'n iawn ein bod yn datgan hynny'n glir ac yn rhoi pwyslais arno, gan nad yw'r drafft presennol yn ennyn consensws—mae'n amlwg iawn nad ydyw'n gwneud hynny.

Rwy'n credu y byddwn yn dweud bod yr hyn a ddywedoch—mewn sawl ffordd, mae'r anawsterau a wynebwn ar hyn o bryd yn deillio o'r ffaith nad ydym wedi cael dull 'a wnaed yng Nghymru' digonol o weithredu, a dywedodd y Prif Weinidog hyn hefyd yn yr ystyr ei fod yn siomedig nad oedd ymgysylltiad llawnach rhwng Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru. Ac mewn gwirionedd, os oes angen i ni gyrraedd lle y dylem fynd o ran cael drafft sy'n ennyn consensws ac sy'n gallu symud ymlaen wedyn drwy'r Senedd, yna mae'n rhaid i ni ei gael yn iawn gyda dull o weithredu priodol wedi'i wneud yng Nghymru. Mae angen hynny ar frys.

Canmolodd Dafydd Elis-Thomas yr holl bleidiau yn gyffredinol am eu hanes o weithio gyda'i gilydd yn adeiladol ar drefniadau llywodraethu Cymru yn y Cynulliad, ac rwy'n credu ei fod yn beth hynod. Wyddoch chi, rwy'n mynd yn ôl i 1999; deuthum yma fel rhan o grŵp a wnaeth bob dim a allai, mewn gwirionedd, i atal y Cynulliad rhag cael ei sefydlu byth, mewn gwirionedd, felly, wyddoch chi, pan fyddaf yn gwneud sylwadau yn awr wrth rai pobl yn fy mhlaid fy hun ynglŷn â sut y mae angen gwella'r drafft hwn yn sylfaenol, mae'n rhaid i mi edrych ar fy hanes fy hun mewn perthynas â materion cyfansoddiadol. Os awn yn ddigon pell yn ôl, yna rwy'n coch, mewn gwirionedd, ynghylch rhai o'r pethau a ddywedais cyn 1999. Ond mae'n wir fod y penderfyniadau, y penderfyniadau dwys a wnaeth pobl Cymru yn 1997 ac yna yn 2011 yn y refferenda, wedi cael eu parchu gan bob plaid. Dyna oedd y man cychwyn, wyddoch chi—gwybod beth rydych yn ei feddwl yn awr, a beth y mae'r bobl wedi'i ddweud, a gweithio gyda'r penderfyniad hwnnw, a dyna pam rwy'n credu bod gennym yr hanes ardderchog hwn.

A gaf fi ddiolch i chi am y sylwadau a wnaethoch am gyfraniad y Llywydd yn hyn i gyd? Efallai fy mod wedi bod yn esgeulus am na wneuthum hynny, ond beth bynnag, gadawaf i eraill farnu. Ac rwy'n meddwl bod yr ohebiaeth y mae'r Llywydd wedi'i chael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn allweddol mewn gwirionedd i bopeth sydd angen ei wneud i wella'r drafft i'w wneud yn un a all ennyn consensws.

I suppose if we went to see the same play we would give different reviews of that performance, and I must say I thought the Secretary of State performed quite well when he gave evidence, and I was pleased about how candid he was. He did say that Whitehall had driven this process largely in terms of reservations, and I thought that it was a surprising thing to have said as directly as that. And we did draw the key evidence we needed, I think, for our report, and his involvement, anyway, from what he said. So, I thought that exchange was a productive one. What he said about bilingual working and looking to other states that really get this right, like Canada and the way they work bilingually—I mean, that is so important and something we should cherish and need to take further.

Kirsty Williams—good law can be understood. Who can disagree with that? And the very complexity of a legal instrument is itself a sign of its deficiency, to a large extent. I think that's absolutely right.

Then the First Minister, as I said earlier, talked about the difficulties pre legislation or pre the draft appearing, and I take that as a commitment to work very hard to put things right now, and that the resources of the Welsh Government will be brought into play to ensure we can get a draft that commands consensus. We can't accept one that is going to reduce our powers. I mean, that is not going to command support in this Assembly; it simply won't. And that message has to be clearly understood by all involved now.

I do agree with you that the issue of stopping divergences in law between England and Wales is a problem now because you can hardly have two legislatures and expect them not to pass their own laws on the matters that they're competent to deal with. Divergence is inevitable. Otherwise, what on earth are those legislatures doing? Not very much, I suppose. Really, we've got to grasp these points and not hide away from the consequences.

When you said, 'Consolidation, yes', 'not immediately'—I think is what you were saying—'but soon'. And, obviously, that was one of the options that the Constitutional and Legislative Affairs Committee put in its report, and I note that. Can I again thank all Members? I urge you to support this motion

Pe baem yn mynd i weld yr un ddrama mae'n debyg y byddem yn rhoi adolygiadau gwahanol o'r perfformiad hwnnw, a rhaid i mi ddweud fy mod yn meddwl bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi perfformio'n eithaf da pan roddodd dystiolaeth, ac roeddwn yn falch o'i weld yn bod mor onest. Dywedodd fod Whitehall wedi cyfeirio'r broses hon yn bennaf yn nhermau cymalau cadw, ac roeddwn yn meddwl ei fod yn beth rhyfeddol i'w ddweud mor uniongyrchol â hynny. Ac fe gawsom y dystiolaeth allweddol roeddem ei hangen ar gyfer ein hadroddiad, rwy'n meddwl, a'i ran yn y gwaith, beth bynnag, o'r hyn a ddywedodd. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn drafodaeth gynhyrchiol. Roedd yr hyn a ddywedodd am weithio'n ddwyieithog ac edrych ar wladwriaethau eraill sy'n cael hyn yn iawn, megis Canada a'r ffordd y maent yn gweithio'n ddwyieithog—hynny yw, mae hynny mor bwysig ac yn rhywbeth y dylem ei drysori a'i ddatblygu ymhellach.

Kirsty Williams—gellir deall cyfraith dda. Pwy all anghytuno â hynny? Ac mae cymhlethdod offeryn cyfreithiol ynddo'i hun yn arwydd o'i ddiffyg, i raddau helaeth. Rwy'n credu bod hynny'n hollol gywir.

Yna siaradodd y Prif Weinidog, fel y dywedais yn gynharach, am yr anawsterau cyn deddfu neu cyn i'r drafft ymddangos, ac rwy'n cymryd hynny fel ymrwymiad i weithio'n galed iawn i wneud pethau'n iawn yn awr, ac y bydd adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau y gallwn gael drafft sy'n ennyn consensws. Ni allwn dderbyn un sy'n mynd i leihau ein pwerau. Hynny yw, nid yw hynny'n mynd i ennyn cefnogaeth yn y Cynulliad hwn; nid yw'n mynd i wneud hynny. Ac mae'n rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â'r mater ddeall y neges honno'n glir yn awr.

Rwy'n cytuno â chi fod mater atal gwahaniaeth rhwng cyfraith Cymru a Lloegr yn broblem bellach oherwydd go brin y gallwch gael dwy ddeddfwrfa a disgwyl iddynt beidio â phasio eu deddfau eu hunain ar y materion y maent yn gymwys i ymdrin â hwy. Mae gwahaniaeth yn anochel. Fel arall, beth ar y ddaear y mae'r deddfwrfeydd hyn yn ei wneud? Ddim llawer, tybiaf. O ddifrif, mae'n rhaid i ni ddeall y materion hyn a pheidio â chuddio rhag y canlyniadau.

Pan ddywedoch, 'Cydgrynhai, ie', 'nid ar unwaith'—credaf mai dyna roeddech yn ei ddweud—'ond yn fuan'. Ac yn amlwg, dyna oedd un o'r opsiynau a roddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad, a nodaf hynny. A gaf fi eto ddiolch i'r holl Aelodau? Rwy'n eich annog i gefnogi'r cynnig hwn

16:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is carried unanimously in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Daeth Peter Black i'r Gadair.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unfrydol yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Peter Black took the Chair.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:26

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next motion relates to the necessity test, and I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding, to move the motion.

Cynnig NDM5913 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i gael gwared â'r prawf angenrheidiol neu osod prawf yn seiliedig ar briodoldeb yn ei le.

Cynigiwyd y cynnig.

Mae'r cynnig nesaf yn ymwneud â'r prawf angenrheidiol, a galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5913 David Melding

To propose that the National Assembly for Wales notes the Constitutional and Legislative Affairs Committee's view that the draft Wales Bill should be amended to remove the necessity test or replace it with a test based on appropriateness.

Motion moved.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:26

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I move the motion, Chair.

As I indicated earlier in today's debate, the necessity test is designed to preserve the single England-and-Wales jurisdiction and so ensure that modification to England-and-Wales law does not become too extensive, leading to significant divergence, as has already been referred to in the earlier motions. We believe that, in relation to legislation that applies otherwise than in relation to Wales, that modifies the law on reserved matters and that modifies private or criminal law, the Assembly should be allowed to legislate as it considers appropriate to achieve policy objectives in devolved areas. This isn't a free-for-all. We can't use this power to extend the limit of devolution as we wish, but we can use powers appropriately to make our devolved functions and powers effective, and that is simply what is behind this part of the debate we're having.

Such an approach would make it clear that it is the Assembly rather than the courts that is responsible for determining the legislative choices to deliver specific policy objectives. It would also ensure that the Assembly retains its accountability to the electorate. In other words, we will have the profound characteristics that are needed for a full legislative body. Thank you.

Unwaith eto, cynigiau y cynnig, Gadeirydd.

Fel y nodais yn gynharach yn y ddadl heddiw, lluniwyd y prawf angenrheidiol i warchod awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr—ac sicrhau felly nad yw addasiadau i gyfraith Cymru a Lloegr yn rhy eang, gan arwain at wahaniaeth sylweddol, fel y soniwyd eisoes yn y cynigion cynharach. Mewn perthynas â deddfwriaeth sy'n gymwys ac eithrio mewn perthynas â Chymru, sy'n addasu'r gyfraith ar faterion a gadwyd yn ôl ac sy'n addasu cyfraith breifat neu gyfraith trosedd, credwn y dylai'r Cynulliad gael yr hawl i ddeddfu fel yr ystyria'n briodol i gyflawni amcanion polisi mewn meysydd datganoledig. Nid yw'n golygu y gall pawb wneud fel y mynn. Ni allwn ddefnyddio'r pŵer hwn i ymestyn terfynau datganol fel y mynnwn, ond gallwn ddefnyddio'r pwerau'n briodol i wneud ein swyddogaethau a'n pwerau datganoledig yn effeithiol, a dyna'n syml sydd wrth wradd y rhan hon o'r ddadl.

Byddai dull o'r fath yn ei gwneud yn glir mai'r Cynulliad yn hytrach na'r llysoedd sy'n gyfrifol am bennu'r dewisiadau deddfwriaethol ar gyfer cyflawni amcanion polisi penodol. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cynulliad yn cadw ei atebolrwydd i'r etholwyr. Mewn geiriau eraill, bydd gennym y priodoleddau dwys sydd eu hangen ar gorff deddfu llawn. Diolch.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:28

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddiolch i David Melding am ddelio mor gelfydd â'r rhan yma o'r Mesur yn ei sylwadau agoriadol, a phrin fod angen ychwanegu llawer at hynny, gan ei fod mor fedrus y pryd hynny. Ond rwy'n credu ei bod yn briodol jest i dynnu sylw'r Cynulliad at ddau beth penodol sydd yn troi o gwmpas y prawf angenrheidiol sydd yn y Mesur drafft ar hyn o bryd.

I would like to thank David Melding for dealing with this part of the Bill in his opening statement, and I don't believe that we need to add much to that, given that he dealt with it so ably at that point. But I think it is appropriate just to draw the Assembly's attention to two specific matters related to the necessity test that is in the Bill as it stands.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Yn gyntaf oll, fel sydd newydd gael ei aiddweud gan David Melding, mae hwn yn rhan o'r Mesur er mwyn sicrhau bod Cymru a Lloegr yn aros yn un awdurdodaeth gyfreithiol. Nid oes rhaid dewis y llwybr hwnnw. Penderfyniad y Llywodraeth yn San Steffan yw dewis cadw un awdurdodaeth, ac rwy'n sylwi bod y Blaid Geidwadol, er eu bod nhw'n cytuno, rwy'n meddwl, â'r rhan fwyaf o'r cynigion sydd gerbron heddiw, am gadw un awdurdodaeth, ar hyn o bryd beth bynnag. O dderbyn hynny—er nad dyna sefyllfa Plaid Cymru—rwy'n meddwl ei bod yn gwbl allweddol bod unrhyw brofion sy'n digwydd y tu mewn i hynny yn ddarostyngedig i'r ewyllys wleidyddol, hynny yw i ewyllys seneddol a phleidlais gan yr etholwyr, achos mae'n hollol bwysig nad yw'r profion yma'n cael eu defnyddio mewn ffordd i rwystro barn Senedd Cymru i ddeddfu mewn maes sydd wedi'i ddatganoli neu faes sydd heb ei gadw yn ôl o dan y drefn newydd. Dyna'r perig, wrth gwrs, o gael y prawf angenrheidrwydd yn rhan o'r Mesur fel y mae, a bydd hwn yn agor y drws i Weinidogion y Goron yn San Steffan i benderfynu a yw'n briodol ai peidio i'r lle yma ddeddfu mewn maes y mae refferendwm wedi penderfynu, ac y mae deddfwriaeth San Steffan wedi penderfynu, ei fod wedi ei ddatganoli i'r Senedd.

Nid wyf i ofn gwahaniaethau cyfreithiol yn y gyfraith rhwng Cymru a Lloegr—rwy'n meddwl bod hynny'n dilyn ac yn sgil dewisiadau gwleidyddol yn y ddwy wlad. Rwyf i o'r farn—ac fe wnawn ni drafod hwn yn nes ymlaen, wrth gwrs—fod awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn ateb i'r cyfyng-gyngor yma. Ond, gan nad yw hynny'n cael ei gynnig ar hyn o bryd, mae'n gwbl allweddol bod y rhan yma o'r Mesur yn cael ei gwella yn y modd y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei awgrymu.

Roeddwn i'n sylwi'n arbennig fod tystiolaeth gan y Llywydd ei hun, gan y Prif Weinidog a gan yr Athro Thomas Glyn Watkin sydd, wrth gwrs, wedi bod yn gyfrifol am gymaint o ddeddfwriaeth yn y gorffennol gan Lywodraeth Cymru, o'r farn na fydd y profion hyn ond yn agor y drws i fwy o gyfreithlona ynglŷn â'r penderfyniadau gan y Cynulliad. Nid yw'n fater sy'n symleiddio'r broses, neu'n fater sy'n ei wneud yn fwy rhwydd i ni ddeddfu yma. Yn sicr, nid yw'n ei wneud e'n rhwyddach i'r person cyffredin amgyffred a deall beth yw eu dewisiadau gwleidyddol nhw wrth bleidleisio nac ym mha ffordd y bydd hynny'n arwain at ddewisiadau gwleidyddol yn y Cynulliad a fydd yn arwain at gyfraith wahanol yng Nghymru ac yn Lloegr.

Yr unig beth fyddwn i am ofyn i Gadeirydd y pwyllgor, os oes modd, wrth gloi'r ddadl yma, i edrych arno yw'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y pwyllgor fel dewis amgen i'r prawf angenrheidrwydd, sef disodli'r prawf yna gyda phrawf yn seiliedig ar briodoldeb. Er fy mod i'n deall y cysyniad yna, rwyf i hefyd yn ymwybodol bod nifer wedi codi, ers cyhoeddi adroddiad y pwyllgor, fod gan hwnnw hefyd yr un fath o anawsterau o gwmpas dehongliad ac o gwmpas y posibilrwydd y bydd yn arwain at fwy o achosion llys.

First of all, as has just been restated by David Melding, this is a part of the Bill to ensure that Wales and England remain as part of a single jurisdiction. That path doesn't have to be chosen. It's the decision of the Westminster Government to maintain that single jurisdiction, and I note that the Conservative Party, even though they agree, I think, with the majority of the motions before us today, want to maintain that single jurisdiction, at present anyway. Accepting that—although that isn't the position of Plaid Cymru—I think it is vitally important that any tests that take place within that regime are subject to political will, that is to parliamentary will and a vote by the electorate, because it is crucially important that these tests aren't used in a way to hinder the opinion of the Senedd in Wales to legislate in a devolved area or a non-reserved area under the new regime. That's the danger, of course, with having the necessity test as part of the Bill as it stands, and this will open the door to Ministers of the Crown in Westminster deciding whether it is appropriate or not for this place to legislate in an area that a referendum has decided, and Westminster legislation has decided, has been devolved to the Senedd.

I do not fear differences in law in England and Wales—I think that that follows as result of political decisions in both places. I'm of the opinion, and we'll discuss this later, that a separate legal jurisdiction is an answer to this dilemma. But, because that's not an option at present, it's vitally important that this part of the Bill is amended in the way that the Constitutional and Legislative Affairs Committee suggests.

I note particularly the evidence from the Presiding Officer herself, from the First Minister and from Professor Thomas Glyn Watkin, who has been responsible, of course, for so much legislation in the past by the Welsh Government, and that they were all of the opinion that these tests will only open the door to more legislation in relation to decisions by the Assembly. It doesn't simplify the process, and neither does it make it easier for us to legislate here. It certainly doesn't make it easier for the ordinary person to comprehend and understand what their political options are as they vote, or how that will then lead to political decisions in the Assembly that will lead to different laws in England and Wales.

The only thing that I would want to ask the Chair of the committee to consider, in closing this debate, is what is proposed by the committee as an alternative solution to the necessity test, which is that that should be replaced by a test based on appropriateness. Even though I understand the concept, I'm also aware that a number of people have said, since the publication of the committee report, that that in itself has the same kinds of difficulties in terms of interpretation and in terms of the possibility that it could lead to additional court cases.

Nid wyf i'n gwybod os yw'r pwyllgor wedi cael cyfle i ailystyried neu ystyried drachefn y materion hyn, ond yn sicr mae'n bwysig iawn ein bod ni fel Cynulliad heddiw yn uno y tu ôl i'r adroddiad, yn uno y tu ôl i'r awgrym am ddehongliad gwell gan y pwyllgor. Os nad ydym am gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, mae'n rhaid i'r Mesur weithio y tu mewn i un awdurdodaeth ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae hynny'n golygu disodli'r prawf angenrheidrwydd sydd yn y Mesur drafft ar hyn o bryd.

I don't know whether the committee has had an opportunity to reconsider these issues following publication, but it's very important that we as an Assembly today unite behind the report, and unite behind the suggestion of a better interpretation by the committee. If we don't have a separate legal jurisdiction, the Bill will have to work within a single jurisdiction for England and Wales. That means that the necessity test as it stands in the draft Bill should be replaced.

16:32

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to take part in this debate this afternoon, which specifically looks at the draft Wales Bill's necessity tests, and we on this side of the Chamber will, of course, be supporting this motion today.

My understanding is that these new tests have been proposed as part of a wider set of tests to determine legislative competence, and there has been plenty of discussion on this particular issue, not only throughout the Constitutional and Legislative Affairs Committee's inquiry, but in the wider public domain too. Of course, as we've heard from the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the committee is quite clear that the necessity test should either be removed or replaced by a test based on appropriateness. I'm pleased that the Secretary of State has also recently made his position quite clear and stated that he is willing to consider other alternatives. Therefore, I've no doubt that this matter will continue to be debated and considered throughout the draft Bill's legislative process.

The UK Government's rationale in looking to introduce these tests is that a no-greater-effect-than-necessary test would ensure that any modification by the Assembly to the general application of private and criminal law should have no greater effect than is necessary to give effect to the purpose of the provisions it seeks to enforce. Now, currently, under section 108(5) of the Government of Wales Act 2006, Assembly legislation is within competence if it provides for the enforcement of Assembly legislation or is otherwise appropriate for making such a provision effective. However, it's clear from the evidence received by the Constitutional and Legislative Affairs Committee's inquiry that introducing these tests would restrict the Assembly's competence. So, should the Bill remain in its current form, there are, undoubtedly, a number of areas that would compromise the Assembly's ability to legislate freely in devolved areas. These are, of course, how any changes to the law might affect England, the law on reserved matters and the general principles of private law and criminal law.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The underlying concern for many, including myself, is whether the necessity test would result in further legal challenges when legislation is introduced by the Assembly and, more widely, whether the test would reduce the Assembly's legislative competence much more generally. The entire purpose of the draft Wales Bill is to create a lasting devolution settlement for Wales, and that's why it's so important that the result of this Bill is not to hinder or limit the Assembly's role as a legislature.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma, sy'n edrych yn benodol ar brofion angenrheidrwydd y Bil Cymru drafft, a byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr, wrth gwrs, yn cefnogi'r cynnig hwn heddiw.

Fy nealltwriaeth i yw bod y profion newydd hyn wedi'u cynnig fel rhan o gyfres ehangach o brofion i bennu cymhwysedd deddfwriaethol, a chafwyd digon o drafod ar y mater penodol hwn, nid yn unig drwy gydol ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ond ymhlith y cyhoedd yn ehangach hefyd. Wrth gwrs, fel y clywsom gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, mae'r pwyllgor yn hollol glir y dylid naill ai gael gwared ar y prawf angenrheidrwydd neu osod prawf yn seiliedig ar briodoldeb yn ei le. Rwy'n falch fod yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi gwneud ei safbwynt yn glir iawn yn ddiweddar ac wedi datgan ei fod yn barod i ystyried dewisiadau eraill. Felly, nid oes gennyf amheuaeth y bydd y mater hwn yn parhau i gael ei drafod a'i ystyried drwy gydol proses deddfwriaethol y Bil drafft.

Rhesymeg Llywodraeth y DU wrth geisio cyflwyno'r profion hyn yw y byddai prawf 'dim mwy o effaith nag sy'n angenrheidiol' yn sicrhau na ddylai unrhyw addasiad gan y Cynulliad i gymhwysiad cyffredinol cyfraith breifat a chyfraith trosedd gael mwy o effaith nag sydd ei angen i gyflawni diben y darpariaethau y mae'n ceisio'u gorfodi. Nawr, ar hyn o bryd, o dan adran 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae deddfwriaeth y Cynulliad o fewn cymhwysedd os yw'n darparu ar gyfer gorfodi deddfwriaeth y Cynulliad, neu fel arall yn addas ar gyfer rhoi darpariaeth o'r fath mewn grym. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y byddai cyflwyno'r profion hyn yn cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad. Felly, os yw'r Bil yn parhau yn ei ffurf bresennol, mae yna nifer o feysydd, yn ddi-os, a fyddai'n peryglu gallu'r Cynulliad i ddeddfu'n rhydd mewn meysydd datganoledig. Y rhain, wrth gwrs, yw sut y gallai unrhyw newidiadau i'r gyfraith effeithio ar Loegr, y gyfraith ar faterion a gadwyd yn ôl ac egwyddorion cyffredinol cyfraith breifat a chyfraith droseddol.

Y pryder sylfaenol i lawer, gan fy nghynnwys i, yw pa un a fyddai'r prawf angenrheidrwydd yn arwain at heriau cyfreithiol pellach pan gyflwynir deddfwriaeth gan y Cynulliad, ac yn ehangach, a fyddai'r prawf yn lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn llawer mwy cyffredinol. Holl ddiben y Bil Cymru drafft yw creu setliad datganoli parhaol i Gymru, a dyna pam ei bod mor bwysig nad yw'r Bil hwn yn arwain at rwystro neu gyfyngu ar swyddogaeth y Cynulliad fel deddfwra.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate that the Secretary of State's intention is to protect the unified legal system of England and Wales. However, to do this and to also provide the Assembly with the flexibility to modify the general principles of private law and criminal law proportionally would create real difficulties in practice. For example, in practice, what happens if, in the future, the Assembly and the UK Government and Parliament arrive at different conclusions as to what is deemed 'necessary'? These are the types of questions that need to be considered throughout the passage of this Bill.

I appreciate that the necessity test has operated as part of the reserved-powers model in Scotland with no real problems, but, as the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee has already said this afternoon, it is very rarely used. My understanding is that the necessity test in Scotland doesn't refer to criminal or private law as, of course, they have a separate jurisdiction and they also have a smaller number of reservations. In evidence to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, Emyr Lewis highlighted this particular point, adding that, and I quote:

'If you have a large number of reserved matters, the chances of being hit by the test become much greater. So, therefore, the greater the number of reserved matters, the greater the risk that you will fall foul of this test'.

Of course, here in Wales, a larger number of reserved matters is proposed, and so there is a real likelihood that more and more legislative proposals will not meet the criteria of this test.

Protecting the unified legal system of England and Wales also raises the issue of parity of treatment between the Assembly and the UK Parliament. Surely, if these necessity tests for the Assembly are for matters that apply only in Wales, then it is wholly appropriate that the same criteria are met in England for England-only matters. As the Member for Mid and West Wales said, Professor Thomas Glyn Watkin's evidence to the committee's inquiry was clear in that he said, and I quote:

'The answer will undoubtedly be that the UK Parliament is a sovereign legislature and that its law-making cannot be so restricted. However, the answer is not a solution to the problem but an integral part of it. Does the UK Parliament even intend to impose a self-denying convention of similar import upon itself when legislating for England only?'

In other words: will Parliament apply necessity tests on itself when legislating for England-only matters? I highly doubt it.

Rwy'n sylweddoli mai bwriad yr Ysgrifennydd Gwladol yw diogelu system gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, byddai gwneud hyn yn ogystal â darparu hyblygrwydd i'r Cynulliad addasu egwyddorion cyffredinol cyfraith breifat a chyfraith trosedd yn gyfrannol yn creu anawsterau gwirioneddol yn ymarferol. Er enghraifft, yn ymarferol, beth sy'n digwydd os yw'r Cynulliad a Llywodraeth a Senedd y DU yn y dyfodol yn dod i wahanol gasgliadau ynghylch yr hyn y bernir ei fod yn 'angenrheidiol'? Dyma'r mathau o gwestiynau sydd angen eu hystyried drwy gydol hynt y Bil hwn.

Rwy'n sylweddoli bod y prawf angenrheidrwydd wedi gweithredu'n rhan o'r model cadw pwerau'n ôl yn yr Alban heb unrhyw broblemau go iawn, ond fel y mae Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol eisoes wedi dweud y prynhawn yma, anaml iawn y caiff ei ddefnyddio. Fy nealltwriaeth i yw nad yw'r prawf angenrheidrwydd yn yr Alban yn cyfeirio at gyfraith trosedd neu gyfraith breifat, wrth gwrs, gan fod ganddynt awdurdodaeth ar wahân ac mae ganddynt nifer lai o gymalau cadw hefyd. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, tynnodd Emyr Lewis sylw at y pwnt penodol hwn, gan ychwanegu, ac rwy'n dyfynnu:

'If you have a large number of reserved matters, the chances of being hit by the test become much greater. So, therefore, the greater the number of reserved matters, the greater the risk that you will fall foul of this test'.

Wrth gwrs, yma yng Nghymru, argymhellir cadw nifer fwy o faterion yn ôl, ac felly mae tebygolrwydd gwirioneddol na fydd mwyfwy o gynigion deddfwriaethol yn bodloni meini prawf y prawf hwn.

Mae amddiffyn system gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr hefyd yn codi mater triniaeth gydradd i'r Cynulliad a Senedd y DU. Yn sicr, os yw'r profion angenrheidrwydd hyn ar gyfer y Cynulliad mewn perthynas â materion sy'n berthnasol i Gymru yn unig, yna mae'n gwbl briodol fod yr un meini prawf yn cael eu bodloni yn Lloegr ar gyfer materion sy'n berthnasol i Loegr yn unig. Fel y dywedodd yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, roedd tystiolaeth yr Athro Thomas Glyn Watkin i ymchwiliad y pwyllgor yn glir o ran yr hyn a ddywedodd, a dyfynnaf:

'The answer will undoubtedly be that the UK Parliament is a sovereign legislature and that its law-making cannot be so restricted. However, the answer is not a solution to the problem but an integral part of it. Does the UK Parliament even intend to impose a self-denying convention of similar import upon itself when legislating for England only?'

Mewn geiriau eraill: a fydd y Senedd yn cymhwyso profion angenrheidrwydd arni ei hun wrth ddeddfu ar gyfer materion sy'n berthnasol i Loegr yn unig? Rwy'n amau hynny'n gryf.

So, where does that leave the Bill's necessity tests? Well, clearly, there is firm evidence and room for considerable amendments to this part of the Bill. The Secretary of State has made it clear that one of the underlying principles behind the Bill is not to do anything that prevents Welsh Government or the Welsh Assembly from legislating freely in devolved areas. I wholeheartedly support the Secretary of State's intention and I sincerely hope the UK Government take on board the conclusions made in the Constitutional and Legislative Affairs Committee report. Wales deserves a legislative structure for the future that provides clarity and substance and that does not lead to complexity and further legal dispute. Fortunately, this is not the end of the Bill's legislative passage, and the Bill has a long way to go before it will be enacted. In the meantime, I hope that UK Government and the Welsh Government continue to engage on these matters and that all steps are taken to ensure that this Bill is as strong and robust as it can be. This Bill must deliver for the people of Wales, and that means ensuring that the Assembly's legislative competence is not diminished. Acting Deputy Presiding Officer, we all know that the purpose of any legislature is to make laws and that governing parties are then accountable to the electorate for their policies. Let's make sure that this Wales Bill fully supports that principle. Thank you.

Felly, ble mae hynny'n gadael profion angenrheidrwydd y Bil? Wel, yn amlwg, ceir tystiolaeth gadarn a lle i ddiwygiadau sylweddol i'r rhan hon o'r Bil. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud yn glir mai un o'r egwyddorion sylfaenol wrth wraidd y Bil yw peidio â gwneud unrhyw beth sy'n atal Llywodraeth Cymru neu Gynulliad Cymru rhag deddfu'n rhydd mewn meysydd datganoledig. Rwy'n llwyr gefnogi bwriad yr Ysgrifennydd Gwladol ac rwy'n mawr obeithio y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried casgliadau adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae Cymru'n haeddu strwythur deddfwriaethol ar gyfer y dyfodol sy'n cynnig eglurder a sylwedd ac nad yw'n arwain at gymhlethdod ac anghydfod cyfreithiol pellach. Yn ffodus, nid dyma ddiwedd taith ddeddfwriaethol y Bil, ac mae ganddo ffordd bell i fynd cyn y caiff ei weithredu. Yn y cyfamser, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ar y materion hyn ac y rhoddir pob cam ar waith i sicrhau bod y Bil hwn mor gryf a chadarn ag y gall fod. Rhaid i'r Bil gyflawni dros bobl Cymru, ac mae hynny'n golygu sicrhau nad yw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei leihau. Ddirprwy Lywydd Dros Dro, rydym i gyd yn gwybod mai diben unrhyw ddeddfwrfa yw deddfu a bod pleidiau sy'n llywodraethu wedyn yn atebol i'r etholwyr am eu polisiau. Gadewch i ni wneud yn siŵr fod y Bil Cymru hwn yn llwyr gefnogi'r egwyddor honno. Diolch.

16:39

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have a number of concerns about the way in which the whole concept of the necessity test has actually emerged, and I'm not actually confident that the Secretary of State has changed his opinion on that. I certainly hope that there is a significant change, because this is a fundamental flaw in this particular Bill. It is effectively a red line, it seems to me, in this legislation as well. In the recent evidence to the Welsh Affairs Committee, again, what the Secretary of State for Wales was saying is that effectively anything that may impact in any way on the underlying principles of England and Wales laws is to be opposed. This is where the whole issue of the necessity test then begins to merge into the whole concept of the single jurisdiction argument that has been developed. I think it is the fundamental flaw in the actual thinking of the Wales Office; it may not be the Secretary of State for Wales. I don't want to criticise him individually, but it's just that by reading the transcript you get some idea of the actual thinking of the Secretary of State for Wales, but not necessarily the Wales Office itself. Certainly, when he gave his evidence further on, having at one stage said, basically, that it would take you to a position where there should not be any need for any ministerial consents, and that Welsh Government should be able to legislate openly and freely even if that meant going across into areas that are devolved, those were his grounds for saying that therefore you can't do it because it will intrude on the jurisdiction of England and Wales. That was the justification for that test.

Mae gennyf nifer o bryderon ynghylch y ffordd y mae'r holl gysyniad o'r prawf angenrheidrwydd wedi dod i'r amlwg, ac nid wyf yn hyderus fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi newid ei farn ar hynny mewn gwirionedd. Rwy'n sicr yn gobeithio y ceir newid sylweddol, gan fod hwn yn ddiffyg sylfaenol yn y Bil penodol hwn. Ymddengys i mi ei fod yn llinell goch i bob pwrpas yn y ddeddfwriaeth hon hefyd. Yn y dystiolaeth ddiweddar i'r Pwyllgor Materion Cymreig, unwaith eto, yr hyn roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei ddweud yw y dylid gwrthwynebu unrhyw beth a allai effeithio mewn unrhyw ffordd ar egwyddorion sylfaenol deddfau Cymru a Lloegr. Dyma ble y mae holl fater y prawf angenrheidrwydd wedyn yn dechrau cyfuno â'r holl gysyniad o'r ddadl sydd wedi datblygu ynghylch awdurdodaeth sengl. Rwy'n credu mai dyma'r diffyg sylfaenol yn ffordd o feddwl Swyddfa Cymru mewn gwirionedd; efallai nad yw'n wir am Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Nid wyf am ei feirniadu ef yn unigol, ond drwy ddarllen y trawsgrifiad yn unig y cewch syniad o feddwl Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn gwirionedd, ond nid o reidrwydd Swyddfa Cymru ei hun. Yn sicr, pan roddodd ei dystiolaeth yn nes ymlaen, ar ôl dweud ar un cam, yn y bôn, y byddai'n mynd â chi i sefyllfa lle na ddylai fod angen cydsyniadau gweinidogol, ac y dylai Llywodraeth Cymru allu deddfu'n agored ac yn rhydd hyd yn oed os oedd hynny'n golygu croesi i feysydd sydd wedi'u datganoli, dyna oedd ei sail dros ddweud felly na allwch ei wneud am y byddai'n amharu ar awdurdodaeth Cymru a Lloegr. Dyna oedd y cyfiawnhad dros y prawf hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There was also further confusion around this area when, of course, he was asked about his views on the Bill and he said, 'I've yet to meet anybody who can explain to me why a draft Bill that gives more powers to Welsh Government and the Welsh Assembly is somehow also, at the same time, reducing competency. The two things do not make sense.' But, for those of us who have actually been listening to the arguments and following the arguments, it actually makes perfect sense because we had the experience of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014, where the courts very clearly understood that there may be a prime objective with legislation in a devolved area, but to make it effective you have to go into other areas of law, and as long as those are secondary, that is perfectly compatible. That made perfect sense and gave the flexibility that actually is needed. Of course, the necessity test and the problems over jurisdiction that have been identified are ones that actually do pull back on the competency of this Assembly, and the Bill as drafted would actually take away powers and be more restrictive in us being able to translate policy, where necessary, into legislation.

With regard to the appropriateness test, I have to say that my view is that the necessity test just needs to be taken out. It doesn't need to be in legislation. You don't need any other form of conditionality in it if the legislation is properly drafted. There was one Conservative MP who, when debating this, said that it would be appropriate for the Assembly to choose whether a law was appropriate, but that Whitehall would step in if it wasn't. I think there are also problems with the appropriateness. I think there are also problems with the appropriateness test as well. It's one of my past experiences. When you wanted legislation not to be effective, you'd all stick in a phrase such as, 'as far as reasonably practicable'. That phrase has actually kept lawyers in employment for actual decades. It has kept the Court of Appeal and the Supreme Court working year after year, because what does it actually mean? What does 'appropriate' mean? What does 'necessary' mean? [Interruption.] Well, absolutely. Who actually decides it? [Interruption.] No, I was in the Court of Appeal myself on that very issue. But what does it actually mean, and who actually determines it?

What I was confident about with the evidence that the Secretary of State for Wales did give was that when he was actually pressed on this point he said, 'At the moment, I'm more interested in looking at if there is any suitable alternative to the necessity test, but if it is the conclusion of the committee—the Welsh Affairs Committee—that we should knock it out altogether, then let me hear it'. I would much rather we have a very clear position: that our preferred position, quite clearly, is that we should knock it out altogether. It isn't necessary. There's no necessity of a necessity test, and the legislation would be a lot clearer without it.

Roedd dryswch pellach hefyd ynglŷn â'r maes hwn, wrth gwrs, pan ofynnwyd iddo am ei farn ar y Bil a dywedodd ei fod eto i gyfarfod ag unrhyw un a allai egluro iddo pam y mae Bil drafft sy'n rhoi mwy o bwerau i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cymru hefyd rywsut, ar yr un pryd, yn lleihau cymhwysedd, ac nad oedd y ddau beth yn gwneud synnwy'r. Ond ar gyfer y rhai ohonom sydd wedi bod yn gwrandao ar y dadleuon ac yn dilyn y dadleuon, mae'n gwneud synnwy'r perffaith mewn gwirionedd oherwydd ein bod wedi cael profiad o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, lle roedd y llysoedd yn deall yn glir iawn y gall fod prif amcan gyda deddfwriaeth mewn maes sydd wedi'i ddatganoli, ond i'w wneud yn effeithiol rhaid i chi fynd i mewn i feysydd cyfraith eraill, a chyn belled â bod y rheini'n is-ddeddfwriaethol, mae hynny'n gwbl gydnaws. Roedd hynny'n gwneud synnwy'r perffaith a rhoddodd yr hyblygrwydd sydd ei angen mewn gwirionedd. Wrth gwrs, mae'r prawf angenrheidrwydd a'r problemau ynghylch awdurdodaeth a nodwyd yn rhai sy'n lleihau cymhwysedd y Cynulliad hwn mewn gwirionedd, a byddai'r Bil fel y'i drafftwyd yn tynnu pwerau yn ôl ac yn fwy cyfyngol o ran ein gallu i droi polisi'n deddfwriaeth, lle y bo angen.

O ran y prawf priodoldeb, rhaid i mi ddweud mai'r hyn sydd ei angen yn syml yw tynnu'r prawf angenrheidrwydd allan yn fy marn i. Nid oes angen iddo fod yn y deddfwriaeth. Nid oes angen unrhyw fath arall o amodoldeb yn y deddfwriaeth os yw wedi'i drafftio yn iawn. Dywedodd un Aelod Seneddol Ceidwadol, wrth drafod hyn, y byddai'n briodol i'r Cynulliad ddewis a oedd deddf yn briodol, ond y byddai Whitehall yn camu i mewn os nad oedd. Rwy'n meddwl bod yna broblemau gyda phriodoldeb hefyd. Rwy'n meddwl bod yna hefyd broblemau gyda'r prawf priodoldeb. Dyna a brofais yn y gorfennol. Pan oeddech eisau i deddfwriaeth beidio â bod yn effeithiol, byddech yn cynnwys ymadrodd fel, 'cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol'. Mae'r ymadrodd hwnnw wedi cadw cyfreithwyr mewn gwaith ers degawdau mewn gwirionedd. Mae wedi sicrhau bod y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys yn dal ati i weithio flwyddyn ar ôl blwyddyn, oherwydd beth y mae'n ei olygu mewn gwirionedd? Beth yw ystyr 'priodol'? Beth yw ystyr 'angenrheidiol'? [Torri ar draws.] Wel, yn hollol. Pwy mewn gwirionedd sy'n penderfynu? [Torri ar draws.] Na, roeddwn i yn y Llys Apêl fy hun ar yr union fater hwnnw. Ond beth y mae'n ei olygu mewn gwirionedd, a phwy mewn gwirionedd sy'n penderfynu hynny?

Yr hyn roeddwn yn hyderus yn ei gylch gyda'r dystiolaeth a roddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd pan gafodd ei wasgu ar y pwynt hwn fe ddywedodd ei fod ar hyn o bryd â mwy o ddiddordeb mewn edrych i weld a oes yna ddewis arall addas yn lle'r prawf angenrheidrwydd, ond os mai casgliad y pwyllgor—y Pwyllgor Materion Cymreig—yw y dylid ei adael allan yn gyfan gwbl, yna roedd am glywed hynny. Byddai'n llawer gwell gennyf weld safbwynt clir iawn: mai'r safbwynt gorau gennyf, yn amlwg, yw y dylem gael gwared arno'n gyfan gwbl. Nid oes ei angen. Nid oes angen prawf angenrheidrwydd, a byddai'r deddfwriaeth yn llawer cliriach hebdo.

I'd like to take this opportunity to say how privileged I feel to be taking part in this historic debate today. Also, I'd like to associate myself with the remarks of Kirsty Williams, my neighbour Lord Dafydd Elis-Thomas and others, in thanking David Melding for his chairing of the committee. My colleagues on the committee and the whole clerking team have worked so hard to bring forward the report that we have today.

Turning to the necessity tests themselves, they certainly raised some eyebrows here in Cardiff bay when the draft Bill was first published and have been pored over by aficionados of policy ever since. I'll be frank: no-one has actually raised the issue with me in a surgery or on the No. 39 bus. It isn't something that immediately sends blood rushing to the head. But what people do care about is that their Government and this National Assembly are delivering for them. They care about what is being done to support them and to improve their lives. That is why the necessity tests do concern me, as they seem to represent, as has been said around this Chamber already, a substantial roll-back in our capacity to deliver for our constituents. The necessity tests are a broad brush, creating—as we've heard—a limitation on Welsh legislation so as to avoid treading on the toes of Westminster. It appears that the Secretary of State was clear that the Bill has been shaped by the need to implement, and I quote,

'a reserved powers model within the single legal jurisdiction of England and Wales.'

But I fear that that goal has been missed, and that the best option, going forward, is to create some form of distinct legal jurisdiction for Wales, which I have no doubt we will discuss at length later and on future occasions. There has been an attempt to create a clear line between Westminster and Cardiff, similar to what is the case in Scotland. But the problem is, as Emyr Lewis told us, that the test is very complex and it's far broader than what actually happens in Scotland. Professor Thomas Glyn Watkin, in his evidence, claimed, and I quote again:

'The reason, in my view, that there have been fewer problems in Scotland is that the number of reservations is far smaller, so the space left in which you can legislate is much greater.'

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud pa mor freintiedig rwy'n teimlo i gymryd rhan yn y ddaidl hanesyddol hon heddiw. Hefyd, hoffwn ategu sylwadau Kirsty Williams, fy nghymydog yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas ac eraill, wrth ddiolch i David Melding am y modd y mae wedi cadeirio'r pwyllgor. Mae fy nghyd-Aelodau ar y pwyllgor a'r tîm clerco cyfan wedi gweithio mor galed i gyflwyno'r adroddiad sydd gennym heddiw.

Gan droi at y profion angenrheidrwydd eu hunain, yn sicr roeddent yn creu peth syndod yma ym mae Caerdydd pan gyhoeddwyd y Bil drafft gyntaf ac mae 'aficionados' polisi wedi bod yn pori drostynt byth ers hynny. Fe fyddaf yn onest: nid oes neb wedi dwyn y mater i fy sylw mewn cymhorthfa neu ar fws Rhif 39. Nid yw'n rhywbeth sy'n peri i'r gwaed ruthro i'r pen ar unwaith. Ond yr hyn sy'n bwysig i bobl yw bod eu Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn cyflawni ar eu cyfer. Mae'r hyn sy'n cael ei wneud i'w cefnogi ac i wella eu bywydau yn bwysig iddynt. Dyna pam y mae'r profion angenrheidrwydd hyn yn peri pryder i mi, gan ei bod yn ymddangos, fel y dywedwyd o amgylch y Siambr hon eisoes, fel pe baent yn cynrychioli cam mawr ôl o ran ein gallu i gyflawni dros ein hetholwyr. Mae'r profion angenrheidrwydd yn eang eu heffaith, ac yn cyfyngu—fel y clywsom—ar ddeddfwriaeth Gymreig er mwyn osgoi sathru ar draed San Steffan. Mae'n ymddangos bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn bendant fod y Bil wedi cael ei ffurfio gan yr angen i weithredu, a dyfynnaf,

'a reserved powers model within the single legal jurisdiction of England and Wales.'

Ond rwy'n ofni bod y nod hwnnw wedi'i gollu, ac mai'r dewis gorau, wrth symud ymlaen, yw creu rhyw fath o awdurdodaeth gyfreithiol benodol i Gymru, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwn yn trafod hynny'n fanwl yn nes ymlaen ac yn y dyfodol. Cafwyd ymgais i greu llinell glir rhwng San Steffan a Chaerdydd, yn debyg i'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban. Ond y broblem, fel y dywedodd Emyr Lewis wrthym, yw bod y prawf yn gymhleth iawn ac yn llawer ehangach na'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban mewn gwirionedd. Yn ei dystiolaeth, honnodd yr Athro Thomas Glyn Watkin, ac rwy'n dyfynnu eto:

'The reason, in my view, that there have been fewer problems in Scotland is that the number of reservations is far smaller, so the space left in which you can legislate is much greater.'

Paul Davies went on to develop that quote in his own contribution. More broadly, 'necessity' has a range of meanings, and there will be uncertainty until the first of many Supreme Court cases comes up on this issue. While the Secretary of State seeks clarity, I fear we will just end up back in the Supreme Court if this continues, making, as Mick Antoniw said, an effective job creation for the legal profession. We risk returning there for every law we pass, as people will simply argue that whatever sanctions we create are not necessary. As the Electoral Reform Society has also warned us in their evidence, in its strictest form, a policy could be seen as necessary only if there's no other alternative policy available using other levers. Whether that policy would be viewed as inferior by the Welsh Government would be an immaterial issue. This does not allow for great scope in policy-making, is open to constant challenge, and sets obstacles to good, joined-up policy making. I believe that this Assembly should be able to legislate in the areas as we consider appropriate to achieve policy objectives in the devolved areas, which largely appear to be our current settlement under section 108(5) of the Government of Wales Act 2006, and it is only right, which provides, among other things, that Assembly legislation is within competence if it provides for the enforcement of Assembly legislation or it is otherwise appropriate for making Assembly legislation effective.

Aeth Paul Davies ymlaen i ddatblygu'r dyfyniad yn ei gyfraniad ei hun. Yn fwy cyffredinol, mae i 'angenrheidrwydd' amrywiaeth o ystyrion, a bydd yna ansicrwydd hyd nes y cynhelir y cyntaf o nifer o achosion yn y Goruchaf Lys ar y mater hwn. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am eglurder, rwy'n ofni mai yn ôl yn y Goruchaf Lys y byddwn yn y pen draw os yw hyn yn parhau, gan ffurfio cynllun creu swyddi effeithiol ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol, fel y dywedodd Mick Antoniw. Rydym mewn perygl o ddychwelyd yno ar gyfer pob deddf a basiwn, gan y bydd pobl yn syml iawn yn dadlau nad yw unrhyw sancsiynau a grëwn yn angenrheidiol. Fel y mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol hefyd wedi ein rhybuddio yn eu tystiolaeth, yn ei ffurf fwyaf llym, gellid ystyried nad yw polisi'n angenrheidiol heblaw lle nad oes polisi arall ar gael drwy ddefnyddio dulliau eraill. Byddai pa un a fyddai'r polisi yn cael ei ystyried yn israddol gan Lywodraeth Cymru yn amherthnasol. Nid yw hyn yn caniatáu llawer o le wrth lunio polisi, mae'n agored i her gyson, ac yn gosod rhwystrau rhag llunio polisiâu da cydgyssylltiedig. Credaf y dylai'r Cynulliad hwn allu deddfu yn y meysydd yr ystyriwn eu bod yn briodol ar gyfer cyflawni amcanion polisi yn y meysydd datganoledig, sef, i raddau helaeth, ein setliad presennol o dan adran 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ymddangos, ac nid yw ond yn iawn ei fod yn darparu, ymhlith pethau eraill, y dylai deddfwriaeth y Cynulliad fod o fewn cymhwysedd os yw'n darparu ar gyfer gorfodi deddfwriaeth y Cynulliad neu ei fod fel arall yn briodol ar gyfer gweithredu deddfwriaeth y Cynulliad.

16:48 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y cwestiwn pwysig ynglŷn â'r mater hwn o sefyllfa 'angenrheidrwydd' yn y Bil yw: pwy sy'n gofyn y cwestiwn, pwy sy'n gosod y cwestiwn, a phwy sy'n dweud beth yw'r ateb? Mae hwn fel rhyw fath o arholiad sydd wedi cael ei sgwennu gan yr arholwr—nid oes yna ond un ateb i fod, a bod y cyfan yn nwylo'r arholwr. Felly, mae ateb hollol syml i hyn, sydd yn glir iawn yn ein hadroddiad ni fel pwyllgor, sef i gyd-fynd â'r pwerau a fydd yn dod i ni fel Cynulliad, lle'r ydym ni yn rheoli ein trefniadau ein hunain fel Cynulliad ymreolus, a lle mae gennym ni gyfrifoldeb ynglŷn â'n trefniadau ein hunain yn fewnol, cyfrifoldeb ynglŷn â'n henw—er nid yw hwnnw'n gymaint o broblem i mi; fel y bydd David Melding yn cofio, rwyf yn ochri gyda'r rhai yn y chwyldro Ffrengig a oedd yn aelodau o'r 'assemblée nationale', nid y rhai a oedd yn aelodau o'r 'parlement' gyda'r brenin, ond mater hanesyddol yw hwnnw.

The important question on this issue of the necessity test in the Bill is: who asks the question, who sets the question, and who answers that question? This is like some sort of examination that's been written by the examiner—there is only one answer, and it's all in the examiner's hands. Therefore, there is quite a simple solution to this, which is very clearly set out in our report as a committee, namely to run along with the powers that will come to us as Assembly, where we are responsible for our own organisation as an autonomous Assembly, and where we have responsibility for our own arrangements internally, responsibility for our own name—although that's not such a problem for me; as David Melding will recall, I side with those in the French revolution who were members of the 'assemblée nationale', not those who were members of the 'parlement' with the king, but that is a historic issue.

16:49 **Aelod Cynulliad / An Assembly Member**

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hear, hear.

Clywch, clywch.

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Rwy'n gweld bod gen i gefnogaeth o gyfeiriad cyn-fyfyriwr arall o brifysgol ardderchog yng nngogledd Cymru. Reit. Ond gadewch imi ddod yn ôl at y pwnc. Beth sydd yn bwysig yw bydd gyda ni'r rheolaeth dros ein henw, bydd gyda ni reolaeth dros y niferoedd, a rheolaeth dros ein trefniadau—rheolaeth dros ein cyfansoddiad ein hunain, mewn gwirionedd. Felly, fel rhan o hynny, y peth amlwg i'w wneud ydy dweud mai'r Cynulliad sydd i ddiffinio a dweud beth sydd yn angenrheidiol, ac nid neb arall. Mae hwn yn gwneud y peth yn hollol glir, ac, os oedd yna, fel sydd yn y fan hyn, bedwar prawf o angenrheidrwydd, yna boed i'r Cynulliad allu deddfu ynglŷn â'r materion hynny, addasu'r gyfraith ar faterion i'w cadw yn ôl, deddfwriaeth addasu cyfraith breifat, deddfwriaeth addasu cyfraith trosedd, a beth bynnag arall sydd angen ei wneud ym meysydd datganoledig. Hynny yw'r datrysiaid syml, neu, fel sydd wedi'i awgrymu yn barod gan fy nghyfaill a fy nghymrawd, fel petai, Mick Antoniw, adael y peth mas yn gyfan gwbl.

Thank you. I see that I do have some support from the direction of another former student of an excellent university in north Wales. But let's get back to the issue. What's important is that we will have responsibility for our own name, for the numbers of Assembly Members, for our internal arrangements—responsibility for our own constitution, if truth be told. Therefore, as part of that, the obvious thing to do is to say that it is the Assembly that should define what is necessary, and no-one else. That makes the situation entirely clear, and, if there are four tests, as there are here, in terms of necessity, then the Assembly should be able to legislate on those issues, adapt law on retained issues, modify private law and criminal law, and whatever else needs to be done in devolved areas. That is the simple solution, or, as has been suggested already by my colleague and friend, Mick Antoniw, we should actually omit it altogether.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the First Minister, Carwyn Jones.

Galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, acting Presiding Officer. Can I say at the outset that we agree with the committee when it says that the restrictions being imposed on the ability of the Assembly to modify criminal and private law run counter to the core functions of a legislature. I have to say, looking at where we are now, where almost literally there is nobody who supports the necessity test, we have to ask the question of why it was in the Bill to begin with. A lot of difficulty could have been avoided if there'd been early engagement and this wholly unnecessary necessity test had been removed from the Bill before it was even published.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. A gaf fi ddweud ar y dechrau ein bod yn cytuno â'r pwyllgor pan fo'n dweud bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gosod ar allu'r Cynulliad i addasu cyfraith trosedd a chyfraith breifat yn mynd yn groes i swyddogaethau craidd deddfwrfa. Rhaid i mi ddweud, wrth edrych ar ble rydym yn awr, lle nad oes neb, yn llythrennol bron, yn cefnogi'r prawf angenrheidrwydd, mae'n rhaid i ni ofyn y cwestiwn pam y'i cynhwyswyd yn y Bil yn y lle cyntaf. Gellid bod wedi osgoi llawer o anawsterau drwy ymgysylltu cynnar a thynnu'r prawf angenrheidrwydd cwbl ddiangen hwn o'r Bil cyn iddo gael ei gyhoeddi hyd yn oed.

At present, as we know, the Assembly can modify the law of contract, common law and other areas of private law and criminal law wherever those modifications relate to a devolved subject. That might include, for instance, simplifying how contracts work in, or creating a criminal offence where that's appropriate to make Assembly legislation effective. But the draft Bill curtails this ability significantly. It is a red line. There's no question about it. There's a red line—my colleague Mick Antoniw is right—because it limits the Assembly's powers in a wholly unacceptable way. It limits the Assembly's powers to modify the private law to provisions that are, and I quote, either 'necessary for a devolved purpose' or 'ancillary' to another provision within competence.

Ar hyn o bryd, fel y gwyddom, gall y Cynulliad addasu cyfraith contract, cyfraith gwlad a meysydd eraill o gyfraith breifat a chyfraith trosedd lle bynnag y bo'r addasiadau hynny yn ymwneud â mater wedi'i ddatganoli. Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, symleiddio'r modd y mae contractau'n gweithio, neu greu trosedd lle y bo hynny'n briodol ar gyfer gweithredu deddfwriaeth y Cynulliad. Ond mae'r Bil drafft yn cyfyngu ar y gallu hwn yn sylweddol. Mae'n llinell goch. Nid oes amheuaeth am hynny. Mae yna linell goch—mae fy nghyd-Aelod Mick Antoniw yn gywir—am ei fod yn cyfyngu ar bwerau'r Cynulliad mewn ffordd gwbl annerbyniol. Mae'n cyfyngu ar bwerau'r Cynulliad i addasu'r gyfraith breifat i ddarpariaethau sydd naill ai'n angenrheidiol i bwrpas datganoledig neu'n ategol i ddarpariaeth arall o fewn cymhwysedd.

'Necessary for a devolved purpose': it's for the courts to decide what that might look like, and so we already are in the territory of the courts deciding what elected representatives should decide. It's possible, for example, that a court might turn around and say, 'Well, I'm sorry, but you could achieve this in another way; you don't have to pass a law'. That's not for the Supreme Court to tell an elected legislature, but they might come to that conclusion. They might say, 'Well, actually, you don't need to pass this law because there is a law going through Westminster that's pretty similar, and you could just have Welsh clauses in that Westminster Bill, so you don't need your own Bill; it's not necessary'. These are the problems that a necessity test throws up.

But, on top of that restriction, there's another one: any provisions modifying the civil or criminal law must pass a further test of necessity in respect of the general application of the private or criminal law—is it necessary when considering the general application of the private or criminal law? I have no idea what that means. That is an invitation to my former profession to make a lot of money. It is not clear, and the last thing we want is more lack of clarity in this Bill. There is a difference—and I listened carefully to what Paul Davies said—between the general principles of the law and the general application of the law. The general principles are the foundation of the law; the application is how those laws work in practice. I wouldn't want to see a difference in the general principles of the law between England and Wales. I think common law principles should apply in both, as they do in Northern Ireland, as they do in the Australian jurisdictions, much of the USA, and the Crown dependencies. I understand that. But the general application—as soon as we start talking about that, we raise questions of whether, in fact, the Assembly should be able to change the law at all, except in very, very limited circumstances. That cuts across the 2011 referendum result. It also means, of course, that it makes it very difficult indeed for people in Wales to understand what the Assembly can do. William Powell is right: people aren't talking about the Bill. People don't talk about Wales's constitutional framework. But they soon will when they find the Assembly can't do things that they voted for, and that's the issue that we must deal with.

So, we have here a recipe for complexity and endless legal challenge. We know that 'necessity' can mean different things in different contexts. It makes it very difficult to predict how the test will be interpreted by the courts. It's like getting into a car and you don't know at which point the brakes might fail, but you know they will at some point—because you've no idea what view the Supreme Court might take. You don't know whether your Bill will be challenged, you don't know whether the Bill will be clear, and you have no idea whether you can deliver a legislative programme. That is not in anyone's interest, whether it's any Member of this Assembly or indeed anybody who lives in Wales.

Angenrheidiol i bwrpas datganoledig: y llysoedd sydd i benderfynu beth fyddai hynny, ac felly rydym eisoes yn sôn am lysoedd yn penderfynu beth ddylai cynrychiolwyr etholedig ei benderfynu. Mae'n bosibl, er enghraifft, y gallai llys ddweud, 'Wel, mae'n ddrwg gennyf, ond gallech gyflawni hyn mewn ffordd arall; nid oes raid i chi basio deddf'. Nid lle'r Goruchaf Lys yw dweud wrth ddeddfwrfa etholedig, ond efallai y gallant ddod i'r casgliad hwnnw. Efallai y byddant yn dweud, 'Wel, mewn gwirionedd, nid oes angen i chi basio'r deddf hon oherwydd mae deddf eithaf tebyg yn mynd drwy San Steffan, a gallech gael cymalau Cymreig yn y Bil hwnnw yn San Steffan, fel nad oes angen eich Bil eich hun arnoch; nid yw'n angenrheidiol'. Dyma'r problemau y mae prawf angenrheidrwydd yn eu creu.

Ond ar ben y cyfyngiad hwnnw, mae yna un arall: mae'n rhaid i unrhyw ddarpariaethau sy'n addasu'r gyfraith sifil neu'r gyfraith droseddol basio prawf angenrheidrwydd pellach mewn perthynas â chymhwysiad cyffredinol cyfraith breifat neu gyfraith trosedd—a yw'n angenrheidiol wrth ystyried cymhwysiad cyffredinol y gyfraith breifat neu gyfraith trosedd? Nid oes gennyf syniad beth y mae hynny'n ei olygu. Mae hynny'n wahoddiad i fy hen broffesiwn wneud llawer o arian. Nid yw'n glir, a'r peth diwethaf rydym ei eisiau yw rhagor o ddiffyg eglurder yn y Bil hwn. Mae yna wahaniaeth—a gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Paul Davies—rhwng egwyddorion cyffredinol y gyfraith a chymhwysiad cyffredinol y gyfraith. Yr egwyddorion cyffredinol yw sylfaen y gyfraith; y cymhwysiad yw sut y mae'r cyfreithiau hynny'n gweithio'n ymarferol. Ni fyddwn am weld gwahaniaeth yn egwyddorion cyffredinol y gyfraith rhwng Cymru a Lloegr. Rwy'n credu y dylai egwyddorion cyfraith gwlad fod yn berthnasol yn y ddau le, fel y maent yng Ngogledd Iwerddon, fel y maent yn awdurdodaethau Awstralia, llawer o'r Unol Daleithiau, a'r tiriogaethau dibynnol ar y Goron. Rwy'n deall hynny. Ond mae'r cymhwysiad cyffredinol—cyn gynted ag y byddwn yn dechrau siarad am hynny, rydym yn gofyn cwestiynau mewn gwirionedd ynglŷn ag a ddylai'r Cynulliad allu newid y gyfraith o gwbl, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, iawn. Mae hynny'n mynd yn groes i ganlyniad refferendwm 2011. Mae hefyd yn golygu, wrth gwrs, ei fod yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl Cymru ddeall beth all y Cynulliad ei wneud. Mae William Powell yn iawn: nid yw pobl yn sôn am y Bil. Nid yw pobl yn siarad am fframwaith cyfansoddiadol Cymru. Ond byddant yn gwneud hynny'n fuan pan sylweddolant na all y Cynulliad wneud y pethau y maent wedi pleidleisio drostynt, a dyna'r mater sy'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef.

Felly, mae gennym rysâit ar gyfer cymhlethdod a her gyfreithiol ddiddiwedd yma. Gwyddom y gall 'angenrheidrwydd' olygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'n ei gwneud yn anodd iawn rhagweld sut y bydd y llysoedd yn dehongli'r prawf. Mae fel mynd i mewn i gar heb i chi wybod ar ba bwynt y gallai'r breiciau fethu, ond eich bod yn gwybod y byddant yn methu ar ryw bwynt—am nad oes gennych unrhyw syniad beth y gallai barn y Goruchaf Lys fod. Nid ydych yn gwybod a fydd eich Bil yn cael ei herio, nid ydych yn gwybod a fydd y Bil yn glir, ac nid oes gennych syniad a allwch gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol. Nid yw hynny o fudd i neb, boed yn Aelod o'r Cynulliad hwn neu unrhyw un sy'n byw yng Nghymru yn wir.

It's also correct that decisions, if the Bill stays as it is, about how best to give effect to Welsh laws will actually shift from elected Members to judges. Is that really what we want? Because I don't think it is. I don't think that's what the judges want either, and that is something that we need to avoid.

There is a necessity test in the Scotland Act, that's true, but it's in wholly different circumstances, in the context of a country with a wholly different legal system, wholly different principles underpinning that system, and, of course, where there is far greater devolution.

Now, picking up on the point that Mick Antoniw raised, I do know that the motion calls either for the removal of the necessity test or its replacement with a test based on appropriateness. Well, my preference would be to remove the test altogether. The issue of whether a law is appropriate is a matter for the elected Members of this institution and not for the courts. It's for Members to decide whether a law is appropriate. True to say that, if there was an appropriateness test, it would be less rigorous than a necessity test, but the key point here is we're talking about making legislation on devolved matters effective, and how to achieve that must ultimately be a matter for this institution, this Assembly—soon, hopefully, to be a Parliament—to decide.

Every test that a Welsh Bill needs to pass is another hurdle and another opportunity for challenge in the courts. The purpose of this Bill, it is said, is to avoid the court challenges of the last five years, not to encourage more of them. If it stays as it is, there will be far more challenges and it's exceptionally important that we see this test disappear from the Bill.

Mae'n gywir hefyd, os yw'r Bil yn aros fel y mae, y bydd penderfyniadau ynghylch y ffordd orau i weithredu deddfau Cymru yn symud oddi wrth Aelodau etholedig at farnwyr. Ai dyna rydym ei eisiau mewn gwirionedd? Oherwydd nid wyf yn credu hynny. Nid wyf yn credu mai dyna y mae'r barnwyr ei eisiau ychwaith, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n rhaid i ni ei osgoi.

Mae yna brawf angenrheidrwydd yn Neddf yr Alban, mae hynny'n wir, ond mae'n bodoli mewn amgylchiadau hollol wahanol, yng nghyd-destun gwlad gyda system gyfreithiol gyfan gwbl wahanol, gydag egwyddorion cyfan gwbl wahanol yn sail i'r system honno, ac wrth gwrs, lle y ceir llawer mwy o ddatganol.

Yn awr, i fynd yn ôl at y pwynt a wnaeth Mick Antoniw, rwy'n gwybod bod y cynnig yn galw naill ai am gael gwared ar y prawf angenrheidrwydd neu osod prawf yn seiliedig ar briodoldeb yn ei le. Wel, byddai'n well gennyf gael gwared ar y prawf yn gyfan gwbl. Mater ar gyfer Aelodau etholedig y sefydliad hwn yw pa un a yw cyfraith yn briodol ac nid mater ar gyfer y llysoedd. Mater i'r Aelodau yw penderfynu a yw cyfraith yn briodol. Mae'n wir dweud, pe bai yna brawf priodoldeb, byddai'n llai grymus na phrawf angenrheidrwydd, ond y pwynt allweddol yma yw ein bod yn sôn am wneud deddfwriaeth ar faterion datganoledig yn effeithiol, a rhaid i sut y dylid cyflawni hynny fod yn fater i'r sefydliad hwn yn y pen draw, yn fater i'r Cynulliad hwn—a fydd yn Senedd go iawn yn fuan, gobeithio—ei benderfynu.

Mae pob prawf sydd angen i Fil Cymru ei basio yn rhwystr arall ac yn gyfle arall i heriau yn y llysoedd. Diben y Bil hwn, yn ôl y sôn, yw osgoi heriau llys y pum mlynedd diwethaf, nid annog mwy ohonynt. Os yw'n aros fel y mae, bydd llawer mwy o heriau ac mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn gweld y prawf hwn yn diflannu o'r Bil.

16:57 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymateb i'r ddatl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:57 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair. I think we've heard a range of powerful contributions on this; we're really getting to the heart of the matter. I'll just refer to one or two points that Members raised, rather than respond in greater detail.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n credu ein bod wedi clywed amrywiaeth o gyfraniadau grymus ar hyn; rydym yn mynd at wraidd y mater go iawn. Cyfeiraf at un neu ddau o bwyntiau a godwyd gan Aelodau, yn hytrach nag ymateb yn fwy manwl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Simon Thomas asked, 'Well, what's "appropriateness"?', and could that be used in a similar fashion if people were intending to restrict our powers. Appropriateness is a general concept and it doesn't have the barriers that a necessity test would bring. We would still have to act appropriately and that is reasonable because, if we were, in our modifications to England-and-Wales law, not really focusing on achieving the objectives of a devolved policy, but just using it as a way of extending our competence via the back door, then it wouldn't be right. So, we do need to behave appropriately, we do need to—. Our action needs to be directed against the range of devolved functions that we have, and have we acted appropriately, not 'was that the best option for us to take or the one that was necessary and had the least disturbance, or whatever, in other areas?' So, appropriateness is not a club to beat us with. It is a more general concept and one that is widely understood and used regularly, I think, when judicial review takes place, for instance.

Paul Davies said that the Secretary of State had stated that the draft Bill should allow for the full exercise of devolved powers, or the Bill that emerges out of the draft version should allow for the full exercise of devolved powers, and I also think that is the Secretary of State's intent. But it's also clear that, to meet that good intention now, some significant amendment will have to be made to the draft Bill.

Mick Antoniw said this was a fundamental flaw and I think that is a fair comment. I think we do arrive at a real problem about how a necessity test could operate in our constitutional circumstances, which are very different from the ones that prevail in Scotland, as the First Minister noted.

William Powell referred to the No. 39 bus and they don't talk about these issues, and they shouldn't. But they will talk if we can't make the reforms to public services and improve the general state of law to allow effective delivery of public services or promotion of enterprise and culture—whatever it is—the range of responsibilities that we have. You said necessity has a range of meanings. It is subjective and that is a real danger, which is why lawyers have not traditionally—judges have not traditionally liked it. I suspect that lawyers, who get paid for their opinions, like it a bit more.

Dafydd Elis-Thomas—. You know, I could hear John Marshall, I think, saying 'It is for an Assembly to determine what is necessary', because we are the ones who scrutinise, we are the ones that have been elected, we are the legislature, but that doesn't mean we can do anything we like; I mean, no legislature in a democratic system operates like that. There are limits and boundaries, but bringing a test of necessity on what a legislature wants to do—you don't really have a coherent legislature at the end of that type of reasoning.

Gofynnodd Simon Thomas, 'Wel, beth yw "priodoldeb"?, ac a ellid ei ddefnyddio mewn modd tebyg pe bai pobl yn bwriadu cyfyngu ar ein pwerau. Mae priodoldeb yn gysyniad cyffredinol ac nid yw'n cynnwys y rhwystrau y byddai prawf angenrheidrwydd yn eu creu. Byddai'n rhaid i ni weithredu'n briodol o hyd ac mae hynny'n rhesymol oherwydd, wrth addasu cyfraith Cymru a Lloegr, pe na baem yn canolbwyntio go iawn ar gyflawni amcanion polisi datganoledig, ond yn ei ddefnyddio'n unig fel ffordd o ymestyn ein cymhwysedd drwy'r drws cefn, yna ni fyddai'n iawn. Felly, mae angen i ni ymddwyn yn briodol, mae angen i ni—. Mae angen cyfeirio ein camau yn ôl yr ystod o swyddogaethau datganoledig sydd gennym, ac a ydym wedi gweithredu'n briodol, nid 'ai dyna oedd yr opsiwn gorau i ni ei ddewis neu'r un a oedd yn angenrheidiol neu'r un a oedd yn peri'r aflonyddwch lleiaf, neu beth bynnag, mewn meysydd eraill?' Felly, nid arf yn ein herbyn yw priodoldeb. Mae'n gysyniad mwy cyffredinol ac yn un sy'n cael ei ddeall yn eang ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, rwy'n meddwl, pan gynhelir adolygiad barnwrol, er enghraifft.

Dyweddodd Paul Davies fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi datgan y dylai'r Bil drafft ganiatáu ar gyfer arfer pwerau datganoledig yn llawn, neu y dylai'r Bil sy'n datblygu o'r fersiwn ddrafft ganiatáu ar gyfer arfer pwerau datganoledig yn llawn, ac rwyf hefyd yn meddwl mai dyna yw bwriad yr Ysgrifennydd Gwladol. Ond mae hefyd yn amlwg, er mwyn cyflawni'r bwriad da hwnnw yn awr, y bydd yn rhaid diwygio'r Bil drafft yn sylweddol.

Dyweddodd Mick Antoniw fod hwn yn ddiffyg sylfaenol a chredaf fod hwnnw'n sylw teg. Rwy'n credu ein bod yn dod at broblem go iawn ynglŷn â sut y gallai prawf angenrheidrwydd weithredu yn ein hamgylchiadau cyfansoddiadol, sy'n wahanol iawn i'r rhai sy'n bodoli yn yr Alban, fel y nododd y Prif Weinidog.

Cyfeiriodd William Powell at fws Rhif 39 a'r ffaith nad ydynt yn siarad am y materion hyn, ac ni ddylent. Ond byddant yn siarad os na allwn wneud y diwygiadau i wasanaethau cyhoeddus a gwella cyflwr cyffredinol y gyfraith i ganiatáu i ni ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol neu hyrwyddo menter a diwylliant—beth bynnag y bo—yr ystod o gyfrifoldebau sydd gennym. Fe ddywedoch fod amrywiaeth o ystyron i angenrheidrwydd. Mae'n oddrychol, ac mae hynny'n berygl gwirioneddol. Dyna pam nad yw cyfreithwyr yn draddodiadol—pam nad yw barnwyr wedi ei hoffi yn draddodiadol. Rwy'n amau bod cyfreithwyr, sy'n cael eu talu am eu barn, yn ei hoffi ychydig yn fwy.

Dafydd Elis-Thomas—. Wyddoch chi, gallwn glywed John Marshall, rwy'n meddwl, yn dweud 'Mater i Gynulliad yw pennu beth sy'n angenrheidiol', oherwydd mai ni yw'r rhai sy'n craffu, ni yw'r rhai a etholwyd, ni yw'r ddeddfwrfa, ond nid yw hynny'n golygu y gallwn wneud unrhyw beth a ddymunwn; hynny yw, nid oes unrhyw ddeddfwrfa mewn system ddemocrataidd yn gweithredu yn y modd hwnnw. Mae yna derfynau a ffiniau, ond mae cyflwyno prawf angenrheidrwydd ar yr hyn y mae deddfwrfa yn dymuno ei wneud—nid oes gennych ddeddfwrfa gydlynol ar ben draw y math hwnnw o resymeg mewn gwirionedd.

Then the First Minister made this point that the necessity test runs counter, really, to the essential function of a legislature. I completely agree. It is one of our red lines; how can it not be if we want to continue as a proper and full legislature? It would also be a recipe for complexity, and certainly would require an awful lot of judicial interpretation, which, obviously, would go against the whole reason, really, for approaching the draft Bill and trying to ensure that we have a full, proper and enduring settlement. I urge Members to support the motion.

Yna, gwnaeth y Prif Weinidog y pwynt fod y prawf angenrheidrwydd yn groes i swyddogaeth hanfodol deddfwrfa mewn gwirionedd. Cytunaf yn llwyr. Dyna un o'n llinellau coch; sut na all fod os ydym am barhau i fod yn ddeddfwrfa briodol a llawn? Byddai hefyd yn rysâit ar gyfer cymhlethdod, ac yn sicr byddai angen llawer iawn o ddehongli barnwrol, sydd, yn amlwg, yn mynd yn groes i'r holl reswm dros ystyried y Bil drafft mewn gwirionedd, a cheisio sicrhau bod gennym setliad llawn, cywir a pharhaol. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

17:02 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:02 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next motion relates Minister of the Crown consents and I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding, to move the motion.

Mae'r cynnig nesaf yn ymwneud â chydysniadau Gweinidogion y Goron a galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding, i gynnis y cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5914 David Melding

Motion NDM5914 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i gynnwys system i ofyn am gydsyniadau Gweinidog y Goron sy'n adlewyrchu'r model yn Neddf yr Alban 1998.

To propose that the National Assembly for Wales notes the Constitutional and Legislative Affairs Committee's view that the draft Wales Bill should be amended to include a system for requiring Minister of the Crown consents that reflects the model in the Scotland Act 1998.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

17:02 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion, Chair. The approach adopted in the draft Wales Bill in relation to the Minister of the Crown consents reduces the Assembly's legislative competence. This is because the draft Bill requires such consents to be provided in connection with functions that are not currently required under the existing devolution settlement.

Cynigiad y cynnig, Gadeirydd. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn y Bil Cymru drafft mewn perthynas â chydysniadau Gweinidogion y Goron yn lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae hyn oherwydd bod y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gydsyniadau o'r fath gael eu darparu mewn cysylltiad â swyddogaethau nad ydynt yn ofynnol ar hyn o bryd o dan y setliad datganoli presennol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The Secretary of State's comparison of the Assembly having to consent to UK Parliament legislation on devolved matters, with the requirement in the draft Bill for the UK Government Ministers to consent to certain Assembly legislation, is not a fair one. The convention of Parliament legislating on devolved matters is based on legislature-to-legislature consent. It is different from the Assembly as a legislature having to seek the consent of UK Government Ministers and executive to legislate in an area that is already devolved. If the UK Government Ministers refuse consent, it amounts to an executive overruling a legislature in an area that is already devolved, which is constitutionally unacceptable.

Nid yw cymhariaeth yr Ysgrifennydd Gwladol rhwng y Cynulliad yn gorfod cydsynio â deddfwriaeth Senedd y DU ar faterion datganoledig, a'r gofyniad yn y Bil drafft am gydsyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU i ddeddfwriaeth benodol gan y Cynulliad, yn un deg. Mae'r confensiwn o Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig yn seiliedig ar gydsyniad un ddeddfwrfa i ddeddfwrfa arall. Mae'n wahanol i'r Cynulliad fel deddfwrfa yn gorfod ceisio cydsyniad Gweinidogion Llywodraeth a gweithrediaeth y DU i ddeddfu mewn maes sydd eisoes wedi'i ddatganoli. Os yw Gweinidogion Llywodraeth y DU yn gwrthod cydsynio, mae'n gyfystyr â gweithrediaeth yn diystyru deddfwrfa mewn maes sydd eisoes wedi'i ddatganoli, ac mae hynny'n annerbyniol yn gyfansoddiadol.

We believe this anomaly is easily remedied by replicating the approach adopted in the Scotland Act of transferring to the Welsh Ministers almost all Minister of the Crown functions in relation to devolved subjects. This would contribute greatly to improving the clarity, simplicity and workability of the devolved settlement, as well as being in line with the principle of subsidiarity. It would ensure that the Welsh Government's legislative programme was not conditional on the consent of an executive in the form of UK Government Ministers. The approach we suggest would also fit with the Secretary of State's underlying principle behind the draft Bill of not preventing the Assembly from legislating freely in devolved areas. I look forward to hearing the views of Members.

Credwn fod modd datrys yr anghysondeb hwn yn hawdd drwy ailadrodd y dull a fabwysiadwyd yn Neddf yr Alban, sef trosglwyddo i Weinidogion Cymru bron bob un o swyddogaethau Gweinidogion y Goron mewn perthynas â phynciau datganoledig. Byddai hyn yn cyfrannu'n fawr at wella eglurder, symlrwydd ac ymarferoldeb y setliad datganoledig, yn ogystal â chydymffurfio ag egwyddor sybsidiaredd. Byddai'n sicrhau nad yw rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn amodol ar gydsyniad gweithrediaeth ar ffurf Gweinidogion Llywodraeth y DU. Byddai'r dull rydym yn ei awgrymu yn cyd-fynd hefyd ag egwyddor sylfaenol yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n sail i'r Bil drafft o beidio ag atal y Cynulliad rhag deddfu'n rhydd mewn meysydd datganoledig. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau.

17:04

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is, sometimes, an unfortunate perception, in my opinion, that discussions of constitutional issues are a distraction from the bread-and-butter politics that directly affects the lives of the citizens we serve. But decisions on—to continue the metaphor—the production of bread and the distribution of butter take place within a constitutional context, and that context defines the choices open to us. I trust the Welsh public enough to believe that they appreciate this connection, and understand why we, on occasion, spend our time debating the intricacies of legislation about legislation and decisions about the way decisions are made. The following, I feel, is a good example of the real-world effects that a constitutional decision can have. I read the excellent report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee with great interest and would speak to one passage in particular that relates to motion NDM5914. In paragraphs 100 to 108, the report quotes from Keith Bush QC on the limitations that the Bill as it currently stands would place on the powers of this Assembly. He notes that the provisions of the Bill extend protection beyond Ministers to include Government departments and other public authorities and removes the exception of the restriction that applies where provisions are incidental to, or consequential on, Acts of this Assembly. In other words, the current Bill would not just constrain our ability to legislate, but also limit the ability of the Welsh Government to take executive action.

As an example, having spent many interesting hours negotiating with David Jones, the former Secretary of State, on the inclusion of the police and safeguarding boards, I know how complex and time-consuming the current system can be. But, quite simply, a safeguarding board that doesn't include the police is no sort of safeguarding board at all, and I do not need to remind Members of the vital importance of these bodies in protecting the most vulnerable children and adults in Wales. And so we persevered. On the basis of this experience, I would share Keith Bush's grave concerns regarding any change that would make this process even more difficult.

Weithiau, ceir canfyddiad anffodus, yn fy marn i, fod trafodaethau ynghylch materion cyfansoddiadol yn tynnu sylw oddi ar wleidyddiaeth bara menyn sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau'r dinasyddion a wasanaethwn. Ond mae penderfyniadau ynghylch—i barhau â'r trosiad—cynhyrchu bara a dosbarthu menyn yn digwydd mewn cyd-destun cyfansoddiadol, ac mae'r cyd-destun hwnnw'n diffinio'r dewisiadau sydd ar gael i ni. Mae gennyf ddigon o ffydd yn y cyhoedd yng Nghymru i gredu eu bod yn derbyn y cyswllt hwn, ac yn deall pam rydym, ar adegau, yn treulio ein hamser yn trafod cymhlethdodau deddfwriaeth ynglŷn â deddfwriaeth a phenderfyniadau ynglŷn â'r ffordd y gwneir penderfyniadau. Rwy'n teimlo bod y canlynol yn enghraifft dda o'r effeithiau y gall penderfyniad cyfansoddiadol eu cael yn y byd go iawn. Darllenais adroddiad rhagorol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyda diddordeb mawr a hoffwn sôn am un darn yn arbennig sy'n berthnasol i gynnig NDM5914. Ym mharagraffau 100 i 108, mae'r adroddiad yn dyfynnu Keith Bush QC ar y cyfyngiadau y byddai'r Bil fel y mae yn eu gosod ar bwerau'r Cynulliad hwn. Mae'n nodi bod darpariaethau'r Bil yn ymestyn diogelwch y tu hwnt i Weinidogion i gynnwys adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill ac yn dileu'r gallu i eithrio'r cyfyngiad sy'n gymwys pan fo darpariaethau yn gysylltiedig â Deddfau'r Cynulliad hwn, neu'n ganlyniadol iddynt. Mewn geiriau eraill, nid cyfyngu ar ein gallu i deddfu yn unig fyddai'r Bil cyfredol, byddai hefyd yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i roi camau gweithredol ar waith.

Er enghraifft, ar ôl treulio oriau diddorol yn trafod gyda David Jones, y cyn Ysgrifennydd Gwladol, ar gynnwys yr heddlu ar fyrddau diogelu, gwn pa mor gymhleth a llafurus y gall y system bresennol fod. Ond yn syml iawn, nid yw bwrdd diogelu nad yw'n cynnwys yr heddlu yn fwrdd diogelu o gwbl, ac nid oes angen i mi atgoffa'r Aelodau ynglŷn â phwysigrwydd hanfodol y cyrff hyn yn diogelu'r plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Ac felly fe ddaliom ati. Ar sail y profiad hwn, byddwn yn rhannu pryderon dwys Keith Bush ynglŷn ag unrhyw newid a fyddai'n gwneud y broses hon hyd yn oed yn fwy anodd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Keith Bush offers an alternative: that is, to replicate the provisions of section 53 of the Scotland Act 1998. This would mean that, with a handful of exceptions, the Welsh Government would be able to exercise executive functions on exactly the same matters as those on which it can legislate. Mr Bush feels that this is a more logical approach and, on first reading, I concur. I would, however, like to hear in more detail what this would mean in practice. Would this, for instance, allow the Welsh Government to take executive action relating to all England-and-Wales bodies to the extent that some of their functions are subject to Welsh legislation? If this is the case, would there be a need to amend the provisions of the Social Services and Well-Being (Wales) Act 2014 and other legislation that imposes an ongoing duty to seek consent from, or inform, Ministers of the Crown of the intention to take action in regard to bodies such as safeguarding boards?

For all the many faults of its drafting, this Bill does present an opportunity to increase consistency, simplicity and democratic accountability. I would also like to remind this Assembly, as the leader of the Liberal Democrats has already done, that the Social Services and Well-being Act is an example of successful and sensible bilingual consolidation of legislation. There is every reason why this piece of legislation must do the same on a constitutional scale and provide an enduring Wales Act. For those reasons, I wholeheartedly support this and the other recommendations of the committee and very much hope that our parliamentarians will heed.

17:09

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r mater o gydsyniadau'r Goron yn mynd at wraidd y broses o wneud cyfraith, ac yn mynd â ni nôl at y Ddeddf gyntaf un gafodd ei phasio gan y Cynulliad yma ar ôl pasio referendwm 2011, sef y Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012. Roedd hi'n sefyllfa ryfedd a gwan iawn i fod ynnddi, ar ôl canlyniad referendwm llwyddiannus a hanesyddol, i'r sefydliad yma weld ei Ddeddf gyntaf yn cael ei herio yn y Goruchaf Lys. Mae'r ffordd y mae'n cael ei argymhell y dylai'r broses cydsyniadau'r Goron weithio ar gyfer meysydd sydd wedi'u cadw'n ôl yn gwneud heriau tebyg yn fwy tebygol yn y dyfodol, yn enwedig gan fod y rhestr yna o feysydd sy'n cael eu cadw'n ôl ar gyfer Cymru yn—beth ddwedwn ni—anarferol o hir o'i gymharu â'r Alban neu Ogledd Iwerddon.

Fel y gwnaeth Keith Bush QC ei nodi, yn y Bil drafft yma, beth sydd gennym ni ydy cynnig gwahanol ar gyfer ymddiriedolaethau'r Goron o'i gymharu â Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hynny, mewn gwirionedd, yn siarad am wneud y drefn yn fwy llym nag yr oedd hi cyn Deddf 2006. Mae'n ymestyn y cydsyniadau y tu hwnt i Weinidogion i gynnwys cyrff cyhoeddus. Mae'n dileu'r cyfyngiad ar swyddogaethau rhag-gychwynnol—neu, 'pre-commencement functions'—ac mae'n cael gwared ar yr eithriad sydd ar hyn o bryd, ac rwy'n dyfynnu:

'incidental to, or consequential on, any other provision contained in the Act of the Assembly.'

Mae Keith Bush yn cynnig dewis arall: hynny yw, aildroddi darpariaethau adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998. Byddai hyn yn golygu, y byddai Llywodraeth Cymru gyda llong llaw o eithriadau, yn gallu arfer swyddogaethau gweithredol ar yr un materion â'r rhai y gall ddeddfu yn eu cylch. Mae Mr Bush yn teimlo bod hwn yn ddull mwy rhesymegol o weithredu, ac ar yr olwg gyntaf, rwy'n cytuno. Fodd bynnag, hoffwn glywed yn fwy manwl beth fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol. A fyddai hyn, er enghraifft, yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gymryd camau gweithredol sy'n ymwneud â holl gyrrff Cymru a Lloegr i'r graddau y bydd rhai o'u swyddogaethau hwy yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Gymreig? Os yw hyn yn wir, a fyddai angen newid darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfau eraill sy'n gosod dyletswydd barhaus i geisio cydsyniad, neu i hysbysu Gweinidogion y Goron o'r bwriad i roi camau ar waith mewn perthynas â chyrrff megis byrddau diogelu?

Er yr holl ddiffygion yn y modd y'i drafftiwyd, mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle i gynyddu cysondeb, symlrwydd ac atebolrwydd democrataidd. Hoffwn atgoffa'r Cynulliad hwn hefyd, fel y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol eisoes wedi'i wneud, fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn enghraifft lwyddiannus a synhwyrdd o gydgrynhoi deddfwriaeth yn ddwyieithog. Mae pob rheswm pam y mae'n rhaid i'r deddfwriaeth hon wneud yr un peth ar raddfa gyfansoddiadol a darparu Deddf Cymru a fydd yn parhau. Am y rhesymau hynny, rwy'n llwyr gefnogi hyn ac argymhellion eraill y pwyllgor ac yn gobeithio'n fawr y bydd ein seneddwr yn gwrando.

The matter of Crown Minister consents goes to the heart of the process of legislating, and it takes us back to the first Act passed by this Assembly following the 2011 referendum, which was the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012. It was a very strange situation to be in, after a successful referendum result, for this institution to see its first Act being challenged in the Supreme Court. The way that it is recommended that this process of Crown consent should work in terms of the areas that are reserved makes similar challenges more likely in future, especially because that list of areas that are reserved for Wales is, shall we say, unusually long as compared to the situation in Scotland or Northern Ireland.

As Keith Bush QC stated, in this draft Bill, what we have is a different proposal for dealing with Minister of the Crown consents as compared to the Government of Wales Act 2006. In truth, it talks about making the regime stricter than it was before the 2006 Act. It extends the consents beyond Ministers, to include public bodies. It gets rid of the restriction on pre-commencement functions and it also gets rid of the exception that already exists, and I quote:

'incidental to, or consequential on, any other provision contained in the Act of the Assembly.'

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

laith dechnegol, wrth gwrs, ond y ddadl y byddai pobl Cymru yn uniaethu â hi ac yn ei deall ydy bod hyn, yn sylw iawn, yn gam yn ôl o ran pwerau'r Cynulliad, yn dibynnu ar sut a phryd y cânt eu defnyddio a sut y mae Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn ymateb. Mewn gwirionedd, mae Keith Bush QC wedyn yn defnyddio termau cryfach hyd yn oed, pan mae e'n dweud bod hyn yn rhoi i Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig y pŵer, yn ei eiriau o, i

'interfere in the affairs of the Welsh legislature'.

Y canlyniad, wrth gwrs, ydy y byddai rhaglen ddeddfwriaethol unrhyw Lywodraeth yma yng Nghymru yn ddibynnol ar ganiatâd Gweinidogion y Deyrnas Unedig. Nid yw hynny'n gwneud dim math o synnwyr, ac mae'n mynd yn groes i egwyddorion sylfaenol datganoli.

Mi fyddai Plaid Cymru, felly, yn sicr yn cymeradwyo barn y pwyllgor y dylid cyflwyno system o ofyn am gydsyniadau'r Goron, sy'n adlewyrchu Deddf yr Alban 1998. Mae'r gyfundrefn yn yr Alban yn gliriach ac mae hi'n gyfundrefn sy'n symlach. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, cofiwch chi, wedi ymrwmo i edrych eto ar gydsyniadau'r Goron os ydy'r pwyllgor yn teimlo'n gryf yn ei gylch. Felly, mae'r ddadl heddiw yn sicr yn anfon y neges glir honno y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gadw at ei air, ac y dylai hynny arwain at newid.

Mae yna bwynt arall i'w wneud i gloi, sef ein bod ni eto yn fan hyn yn dibynnu ar gymhariaeth efo'r Alban i drio chwilio am well a chliriach system ddatganoli yma yng Nghymru. Mae cydraddoldeb efo'r Alban o bosib yn golygu rhywbeth gwahanol rwan i'r hyn yr oedd o chwe mis yn ôl, ond mi ddylai'n bendant fod yn egwyddor sylfaenol na ddylai Cymru gael ei thrin yn llai ffafriol na Llywodraethau neu ddeddfwrfeydd datganoledig eraill. Nid y mater o gydsyniadau'r Goron, wrth gwrs, ydy'r unig faes lle y dylai fod gennym ni drefniadau tebyg i'r Alban. I wneud i'r Bil yma weithio, mae angen torri i lawr ar y nifer o feysydd sy'n cael eu cadw'n ôl, ac mae'n rhaid gweld deddfwrfa Gymreig yn cael ei sefydlu.

Rydym ni'n gwybod nad ydy Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig yn barod i gyflwyno hynny ar hyn o bryd. Mae hynny'n golygu, yn anorfod, y byddwn ni'n gorfod dod yn ôl at hyn yn y dyfodol a cheisio cryfhau trefniadau datganoli eto a cheisio dal i fyny efo'r Alban eto.

Mae Cymru, rwy'n meddwl, wedi siarad efo llais cryf ac unedig ar y cynigion hyd yma heddiw, ond mae'r sefyllfa, rwy'n meddwl, rydym ni'n gweld ein hunain ynddi yn ein hatgoffa ni, siawns, bod yn rhaid codi llais llawer mwy a gwneud hynny'n llawer cynharach yn y broses yn y dyfodol.

It's technical language, of course, but the argument that the people of Wales would identify with and understand is that this, very simply, is a step back in terms of the Assembly's powers, depending on how and when they will be used and how the UK Ministers respond. In fact, Keith Bush QC then uses even stronger terms, when he states that this will give UK Ministers the power, in his words, to

'interfere in the affairs of the Welsh legislature'.

The result, of course, is that the legislative programme of any Government here in Wales would be dependent on the consent of Ministers at the United Kingdom level. That makes no kind of sense, and it goes against the fundamental principles of devolution.

Plaid Cymru, therefore, would certainly commend the committee's view that a system of requesting Crown consents should be introduced, which reflects the Scotland Act 1998. The regime in Scotland is clearer and it is simpler. The Secretary of State, as you will recall, has committed to look again at Crown consents if the committee feels strongly in regard to this issue. So, this debate today certainly does send that very clear message that the Secretary of State should be true to his word and that that should lead to change.

There is another point to make to conclude, which is that we here today are dependent on the comparison with Scotland to try to seek a better and clearer devolution system here in Wales. Equality with Scotland perhaps means something different to what it meant six months ago, but it should be a fundamental principle that Wales should not be treated less favourably than other devolved Governments and legislatures. The matter of Crown consent, of course, is not the only area where we should have similar arrangements to Scotland. To make this Bill work, we need to cut down on the number of areas that are reserved, and we have to see a Welsh legislature being established.

We know that the Conservative Government at the United Kingdom level is not willing to introduce that at present. That means, inevitably, that we will have to come back to this in future to try and strengthen the devolution arrangements again to try and catch up again with Scotland.

Wales, I think, has spoken with a strong and united voice on the proposals so far today, but the situation, I think, that we are facing reminds us, perhaps, that we need to raise our voices more and do that much earlier on in the process in future.

17:14

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

William Graham.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. This draft Bill initiates the move to a reserved-powers model of devolution—a restructuring recommended by the Silk commission and a recommendation that gained cross-party support in the Assembly. There was further cross-party acknowledgement of the proposals set out in the St David's Day agreement and I welcome that there will be cross-party acknowledgement that this draft Bill implements the commitments made in that agreement.

The focal point of the consideration of the draft Bill proposal is the conferred-powers model of the Government of Wales Act 2006, to be replaced by a reserved-powers model. To some extent, it follows the pattern of the Scotland Act of 1998 and is a modified form of the Northern Ireland Act of 1998. It is clearly vital that all parties throughout Wales demonstrate that they clearly understand that we are in the consultation stage in the consideration of the structure and context of this draft Bill.

The Secretary of State for Wales has already acknowledged the criticism around the Minister of the Crown consents mechanism, stating that the United Kingdom Government would be happy to reassess the issue. But it should also be acknowledged that the Conservative United Kingdom Government policy in relation to all devolved institutions is that their power should be widened. In a clear example, the Secretary of State accepts that all views are valued on both sides of this question in forming opinions during the progression of this Bill.

I intend to quote, as two previous speakers, from Mr Keith Bush—it is worth while putting in context that he was a distinguished lawyer and a legislative counsel to the Welsh Government and then was the chief legal adviser to our own Assembly. He makes this comment:

'Different aspects of law and government do not take place in water-tight compartments. The line between what is intended to be devolved and what is not can never be defined with total certainty. There will always be some potential for disagreement.'

But, clearly, it is essential that we keep that disagreement to a minimum.

The Secretary of State also highlighted for the first time every single Government department across Whitehall has been engaged in thinking about devolution in a structured, coherent way and in consideration of what responsibilities are reserved. The Secretary of State has questioned those conclusions and says the list has been worked through but accepts that there is probably quite a lot of scope for looking at it again and simplifying it.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro. Mae'r Bil drafft hwn yn cychwyn y symudiad at fodel cadw pwerau'n ôl o ddatganoli—ailstrwythuro a argymhellwyd gan gomisiwn Silk ac argymhelliad a enillodd gefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad. Roedd cydnabyddiaeth drawsbleidiol bellach i'r cynigion a nodwyd yng nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi a chroesawaf y gydnabyddiaeth drawsbleidiol fod y Bil drafft hwn yn gweithredu'r ymrwymadau a wnaed yn y cytundeb hwnnw.

Ffocws canolog yr ystyriaeth o'r cynnig Bil drafft yw gosod model cadw pwerau'n ôl yn lle'r model rhoi pwerau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. I ryw raddau, mae'n dilyn patrwm Deddf yr Alban 1998 ac yn ffurf addasedig o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998. Mae'n amlwg yn hollbwysig i'r holl bleidiau ledled Cymru ddangos eu bod yn deall yn glir ein bod yn y cyfnod ymgynghori o ran ein hystyriaeth o strwythur a chyd-destun y Bil drafft hwn.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru eisoes wedi cydnabod y feirniadaeth ynghylch mecanwaith cydsyniadau Gweinidogion y Goron, gan ddweud y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn hapus i ailasesu'r mater. Ond dylid cydnabod hefyd mai polisi Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig mewn perthynas â'r holl sefydliadau datganoledig yw y dylid ehangu eu pwerau. Mewn enghraifft glir, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn bod pob barn yn cael ei gwerthfawrogi ar ddwy ochr y cwestiwn hwn wrth ffurfio barn yn ystod taith y Bil hwn.

Fel dau o'r siaradwyr blaenorol, rwy'n bwriadu dyfynnu Mr Keith Bush—mae'n werth gosod y cyd-destun ei fod yn gyfreithiwr enwog ac yn gynghorydd deddfwriaethol i Lywodraeth Cymru, ac yna'n brif gynghorydd cyfreithiol i'r Cynulliad ni. Mae'n dweud hyn:

'Different aspects of law and government do not take place in water-tight compartments. The line between what is intended to be devolved and what is not can never be defined with total certainty. There will always be some potential for disagreement.'

Ond yn amlwg, mae'n hanfodol sicrhau cyn lleied ag y bo modd o anghytundeb.

Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd am y tro cyntaf fod pob un o adrannau'r Llywodraeth ar draws Whitehall wedi bod yn ystyried datganoli mewn ffordd gydlynol a strwythuredig ac yn ystyried pa gyfrifoldebau sydd i'w cadw. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cwestiynu'r casgliadau hynny ac yn dweud bod gwaith wedi'i wneud ar y rhestr ond mae'n derbyn bod yna lawer iawn o le i edrych arno eto mae'n debyg, a'i symleiddio.

The move to a reserved-powers model provides the opportunity for achieving the aim of matching devolved legislative competence and devolved executive functions. In notes in the comments from the Constitutional and Legislative Affairs Committee, we believe that a made-in-Wales approach, with joint working across UK Government departments and with the major players in Wales would help to restore the consensus and ensure a Bill that both Westminster and Wales could be satisfied with and that the Welsh Government's programme for legislation—although I'm not sure it has demonstrated little vision towards enhancing the quality of life of people in Wales—is not conditional on the executive consent of UK Government Ministers.

It is also worth repeating, perhaps, Professor Richard Wyn Jones's view that some of the political heat will be taken out of the debate once the Assembly elections have taken place in May of this year. The Welsh Conservatives believe that we must grasp the opportunity to engage in taking forward proposals that will produce a robust new devolution settlement that works for all the people of Wales. We need to build upon the Secretary of State's commitment that the United Kingdom Government will seek the consent of the Assembly to legislate in devolved areas. Is it both right and fair that the Welsh Government should seek the consent of the United Kingdom Government to legislate for bodies it is responsible for? Furthermore, acting in a responsible manner, it is clearly appropriate to consult with UK Ministers, such as in the Ministry of Defence, because they are the largest landowner in Wales on issues affecting it, as we would consult with any other stakeholder, particularly in major manufacturing, on any proposed legislation to direct enhancements in their industries.

Now, it's very rare that I would dare to take issue with my distinguished and esteemed colleague David Melding, but it was just on his touching on the curate's egg. Members will recall this is, in fact, shall we say, a note by George du Maurier on true humility, published in a cartoon in 'Punch' in 1892? The bishop said to his curate, 'I believe, Mr Jones, you have a bad egg', and the reply was—and I quote it, hopefully, 'I assure you, my Lord, parts of it are excellent.' So, what we have, as our own Mr Jones has said—nobody would suggest that this Bill is a bad egg. I'm sure there are parts of it that are excellent.

Mae symud i fodel cadw pwerau'n ôl yn rhoi cyfle i gyflawni'r nod o weld cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig yn cyfateb i swyddogaethau gweithredol datganoledig. Mewn nodiadau yn y sylwadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, credwn y byddai dull a wnaed yng Nghymru, gyda chydweithio ar draws adrannau Llywodraeth y DU a chyda'r prif chwaraewyr yng Nghymru, yn helpu i adfer y consensws a sicrhau Bil y gallai San Steffan a Chymru fod yn fodlon ag ef, ac nad yw rhaglen ddeddfu Llywodraeth Cymru—er nad wyf yn siŵr ei bod wedi dangos llawer o weledigaeth o ran gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru—yn amodol ar gydsyniad gweithredol Gweinidogion Llywodraeth y DU.

Mae hefyd yn werth ailadrodd barn yr Athro Richard Wyn Jones, o bosibl, y bydd peth o'r gwres gwleidyddol yn cael ei dynnu o'r ddadl ar ôl cynnal etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai eleni. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod yn rhaid i ni achub ar y cyfle i ymgysylltu er mwyn bwrw ymlaen â chynigion a fydd yn cynhyrchu setliad datganoli newydd cadarn sy'n gweithio ar gyfer holl bobl Cymru. Mae angen i ni adeiladu ar ymrwymiad yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ceisio cydsyniad y Cynulliad i ddeddfu mewn meysydd wedi'u datganoli. A yw'n gywir ac yn deg y dylai Llywodraeth Cymru geisio cydsyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddeddfu ar gyfer y cyrff y mae'n gyfrifol amdanynt? Ar ben hynny, gan weithredu mewn ffordd gyfrifol, mae'n amlwg yn briodol ymgynghori â Gweinidogion y DU, megis yn y Weinyddiaeth Amddiffyn gan mai hwy yw'r tirseiddiannwr mwyaf yng Nghymru, ar faterion sy'n effeithio arnynt fel y byddem yn ymgynghori ag unrhyw randdeiliaid eraill, yn enwedig ym maes gweithgynhyrchu mawr, ar unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig i gyfarwyddo gwelliannau yn eu diwydiannau.

Nawr, anaml iawn y byddwn yn meiddio dadlau â fy nghyd-Aelod disglair ac uchel ei barch David Melding, ond mae'n ymwneud yn unig â'r hyn a ddywedodd am wŷr curad. Bydd yr Aelodau'n cofio mai nodyn, gawn ni ddweud, yw hwn mewn gwirionedd, gan George du Maurier ar wir ostyngieddrwydd, a gyhoeddwyd mewn cartŵn yn 'Punch' yn 1892. Dywedodd yr esgob wrth ei gurad, 'Credaf, Mr Jones, fod gennych wŷ clwc', a'r ateb oedd—ac rwy'n ei ddyfynnu, gobeithio, 'Rwy'n eich sicrhau, fy Arglwydd, fod rhannau ohono'n ardderchog.' Felly, yr hyn sydd gennym, fel y mae ein Mr Jones ni ein hunain wedi dweud—ni fyddai neb yn awgrymu bod y Bil hwn yn wŷ clwc. Rwy'n siŵr bod rhannau ohono'n rhagorol.

In its current form, the draft Wales Bill does not allow an Assembly Act to remove or modify any function of a reserved authority which it has defined as a Minister of the Crown, Government department or other non-Welsh public authority. This would be unique to Wales, which, unlike Northern Ireland and Scotland does not have the level of devolved legislation and competence to match its devolved executive functions. A solution could be to replicate the Minister of the Crown consents as reflected in the Scotland Act 1998 and the Northern Ireland Act of the same year. These confer executive powers on Scottish and Northern Irish Ministers throughout areas of devolved legislation. The CLA committee notes this would improve the workability of the devolution settlement and ensure the Welsh Government's ongoing programme of legislation was not conditional on that executive consent.

The Welsh Conservatives would support this position, because it fundamentally adds the required robustness to the legislation that it currently lacks. In accordance with that committee's findings, it fits with the Welsh Secretary's goals of the Bill ultimately allowing the Welsh Government to legislate without hindrance in all presently devolved areas. We will continue to work with the Wales Office in cementing a common definition of a reserved body and to assess the full scope of the Assembly's legislative powers.

The history of devolution over the last two decades does not allow us a blank canvas to draft this Bill. However, the picture is not complete and we must all ensure that we offer a constructive comment and deliver a Bill that makes a lasting settlement to ensure the future requirements of the people of Wales, and for students of history, let us not be like the remarks upon the Habsburgs—the situation is desperate but not serious.

17:20

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

If the issue of the necessity test is, as currently drafted, a fundamental flaw in this legislation. I think that, combined with the proposals around ministerial consents, should be very worrying to all of us here in this Chamber. I believe it's yet another example of where the actual drafting of the Bill, in its current form, does not fulfil the ambition of the Secretary of State himself. As has already been quoted by the Deputy Presiding Officer, the Secretary of State says his underlying principle in approaching this legislation is not to prevent the Assembly or the Welsh Government to legislate freely in devolved areas, yet the report states very clearly in paragraph 109 that, after the careful consideration of the evidence put forward to the committee, they were clear that

'the cumulative effect of the approach being adopted in relation to the Minister of the Crown consents is to reduce the Assembly's legislative competence.'

Nobody—nobody in this Chamber, surely, is content with that.

Yn ei ffurf bresennol, nid yw'r Bil Cymru drafft yn caniatáu i Ddeddf Cynulliad ddileu nac addasu unrhyw un o swyddogaethau awdurdod a gedwir yn ôl y mae wedi'i ddiffinio fel un o Weinidogion y Goron, adran o'r Llywodraeth neu awdurdod cyhoeddus arall nad yw'n awdurdod Cymreig. Byddai hyn yn unigryw i Gymru, nad oes ganddi lefel o ddeddfwriaeth ddatganoledig a chymhwysedd i gyd-fynd â'i swyddogaethau gweithredol datganoledig yn wahanol i Ogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'n bosibl mai un ateb fyddai efelychu cydsyniadau Gweinidogion y Goron fel y'u hadlewyrchir yn Neddf yr Alban 1998 a Deddf Gogledd Iwerddon yr un flwyddyn. Mae'r rhain yn rhoi pwerau gweithrediaeth i Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy'r meysydd deddfwriaeth datganoledig. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn nodi y byddai hyn yn gwella ymarferoldeb y setliad datganoli ac yn sicrhau nad yw rhaglen ddeddfu barhaus Llywodraeth Cymru yn amodol ar y cydsyniad gweithredol hwnnw.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r safbwynt hwn, am ei fod yn ychwanegu'n sylfaenol y cadernid sydd ei angen ar y ddeddfwriaeth, cadernid sy'n brin ynddi ar hyn o bryd. Yn unol â chanfyddiadau'r pwyllgor, mae'n cyd-fynd â nodau Ysgrifennydd Cymru i weld y Bil yn y pen draw yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddeddfu heb rwystr yn yr holl feysydd sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddfa Cymru ar gadarnhau diffiniad cyffredin o gorff a gedwir ac i asesu cwmpas llawn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

Nid yw hanes datganoli dros y ddau ddegawd diwethaf yn caniatáu i ni gael cynfas gwag ar gyfer drafftio'r Bil hwn. Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn gyflawn ac mae'n rhaid i ni i gyd sicrhau ein bod yn cynnig sylwadau adeiladol ac yn cyflwyno Bil sy'n setliad parhaol er mwyn ateb anghenion pobl Cymru yn y dyfodol, ac i fyfyrwyr hanes, gadewch i ni beidio â bod fel y sylwadau ar yr Habsburgiaid—mae'r sefyllfa'n enbyd, ond nid yw'n ddifrifol.

Os yw mater y prawf angenrheidrwydd, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn ddifffyg sylfaenol yn y ddeddfwriaeth, o'i gyfuno â'r cynigion ar y cydsyniadau gweinidogol, credaf y dylai beri pryder mawr i bob un ohonom yma yn y Siambr. Rwy'n credu ei fod yn enghraifft arall eto lle nad yw'r modd y drafftwyd y Bil, ar ei ffurf bresennol, yn cyflawni uchelgais yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun. Fel y dyfynnodd y Dirprwy Lywydd eisoes, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud mai ei egwyddor sylfaenol wrth ystyried y ddeddfwriaeth hon yw peidio ag atal y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru i ddeddfu'n rhydd mewn meysydd datganoledig, ac eto mae'r adroddiad yn datgan yn glir iawn ym mharagraff 109 fod y pwyllgor, ar ôl ystyried yn ofalus y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, yn glir mai

'effaith gronnu y dull sy'n cael ei fabwysiadu mewn perthynas â chydsyniadau Gweinidog y Goron yw lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.'

'Does bosibl fod neb—neb yn y Siambr hon, yn sicr—yn fodlon ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, I have heard in other places that this issue around gaining consent—and it is gaining consent, not simply consulting, like William Graham said that we would consult with the Ministry of Defence. It's not about consulting the Westminster Government. This is about receiving consent. I've heard it said in some other conversations I've had, 'Well, this is matter of fact', 'This happens on a daily basis', 'This is no big deal', 'These are easily achieved.' So, I think the former Deputy Minister for social services is quite right to remind us of the history of the social services Bill where, for very many months, we were scrutinising that legislation, looking at that legislation, and being constantly told that there was a lack of clarity from the Welsh Government because consents could not be achieved from the Secretary of State for Wales regarding very important fundamental aspects of that legislation. That went on for months and months and months. So, this idea that, somehow, these ministerial consents are not an issue, are not problematic or are easily obtained, is not simply borne out by the experience that we have had over the last four years. Sometimes, I've also heard it said, 'Well, we don't need to worry because we now have a Secretary of State who is far more amenable to the issue of Welsh powers', but we have to legislate for every eventuality. We have to legislate now for not just this Secretary of State, who may be amenable to those discussions, but we have to legislate for every Secretary of State, from whichever party, who may not take that attitude. We cannot rely on the goodwill of an individual. We have to legislate for our future and for this institution, and for the Welsh Government's future. I think that is vitally important.

Now, the CLA committee offers us a way forward, which seems reasonable, although I would like to see further detail of how, in effect, that would work. I hope, once again, that in the spirit of wanting to use this pre-legislative process to achieve clarity and longevity, the Secretary of State will look very seriously at the proposition from the CLA committee. Thank you.

Nawr, rwyf wedi clywed mewn mannau eraill fod y mater hwn ynghylch ennill cydsyniad—ac ennill cydsyniad y mae'n ei olygu, nid ymgynghori'n unig fel y dywedodd William Graham y byddem yn ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Nid yw'n ymwneud ag ymgynghori â Llywodraeth San Steffan. Mae'n ymwneud â derbyn cydsyniad. Fe'i clywais yn cael ei ddweud mewn sgyrsiau eraill a gefais, 'Wel, mater o ffaith yw hyn', 'Mae hyn yn digwydd yn ddyddiol', 'Nid yw'n beth mawr', 'Mae'n hawdd cael y rhain.' Felly, rwy'n meddwl bod y cyn Ddirprwy Weinidog gwasanaethau cymdeithasol yn hollol iawn i'n hatgoffa am hanes y Bil gwasanaethau cymdeithasol lle roeddem am fisoedd lawer yn craffu ar y ddeddfwriaeth honno, yn edrych ar y ddeddfwriaeth honno, a chael clywed yn gyson fod diffyg eglurder gan Lywodraeth Cymru am na ellid sicrhau cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas ag agweddau sylfaenol bwysig o'r ddeddfwriaeth honno. Aeth hynny ymlaen am fisoedd a misoedd a misoedd. Felly, nid yw'r syniad hwn nad yw cydsyniadau gweinidogol yn fater sy'n codi, rywsut, nad ydynt yn broblemus, neu fod modd eu cael yn hawdd, yn cyd-fynd â'r profiad a gawsom dros y pedair blynedd diwethaf. Weithiau, clywais rai'n dweud hefyd, 'Wel, nid oes angen i ni boeni am fod gennym Ysgrifennydd Gwladol bellach sy'n llawer mwy agored i fater pwerau Cymreig', ond mae'n rhaid deddfu ar gyfer pob posibilrwydd. Mae'n rhaid i ni ddeddfu yn awr nid yn unig ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol presennol, sydd, o bosibl, yn agored i'r trafodaethau hynny, ond mae'n rhaid deddfu ar gyfer pob Ysgrifennydd Gwladol, o ba bynnag blaid, a fydd ag agwedd wahanol o bosibl. Ni allwn ddibynnu ar ewyllys da unigolyn. Mae'n rhaid i ni ddeddfu ar gyfer ein dyfodol, ar gyfer y sefydliad hwn, ac ar gyfer dyfodol Llywodraeth Cymru. Credaf fod hynny'n hanfodol bwysig.

Nawr, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cynnig ffordd ymlaen i ni, sy'n ymddangos yn rhesymol, er y byddwn yn hoffi gweld rhagor o fanylion ynglŷn â sut y byddai hynny'n gweithio'n ymarferol. Rwy'n gobeithio, unwaith eto, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn yr ysbryd o fod eisiau defnyddio'r broses cyn deddfu i sicrhau eglurder a hirhoedledd, yn edrych yn ddifrifol iawn ar y cynnig gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Diolch.

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth inni fynd drwy'r broses yn y pwyllgor o graffu ar y Bill ac o dderbyn tystiolaeth, yr hyn oedd yn fy nharo i oedd bod yna egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol iawn yn dod i'r golwg, a bod y rheini'n amlwg i ni, fel aelodau'r pwyllgor, yn enwedig wrth inni ystyried y materion o wythnos i wythnos. Roeddent yn amlwg iawn i'n tystion deallus—rwy'n bownd o enwi'r Parchedig Athro Thomas Watkin oherwydd ei fod yn gyn-athro cyfraith yn un o ysgolion cyfraith disgleiriaf Cymru, sydd, wrth gwrs, yn y gogledd. Ond yr oedd o'n pwysleisio'r egwyddor gyfansoddiadol sylfaenol bod unrhyw symudiad gan Lywodraeth arall i gyfyngu ar bwerau'r ddeddfwrfra hon yn wrth-ddemocrataidd mewn modd sylfaenol iawn, a hynny oherwydd bod y ddemocratiaeth hon yn gyfan gwbl seiliedig ar, ac yn wir wedi cael ei chreu gan ewyllys pobl Cymru mewn dau—wel, os cyfrwch yr un a gollwyd ym 1979, mewn tri refferendwm. Yna, wrth i'r ewyllys honno gryfhau, fel y gwnaeth hi y tro diwethaf yn 2011, yr oedd hynny wedi dod â chyfundrefn ddeddfwriaethol fwy ymreolus i'r lle hwn—a dyma'r egwyddor sylfaenol—heb orfod gofyn caniatâd Gweinidogion San Steffan. Dyma ni fel petaem bron yn ymlusgo yn ôl i gyfnod anhapus iawn yn fy mywyd proffesiynol i. Bu bron hyd yn oed i'r Prif Weinidog, yr wyf yn ei barchu'n fawr, a minnau ddod i anghytuno yn eithaf chwyrn yn y cyfnod hwnnw, sef pan oeddwn i'n gorfod mynd i ofyn i Lywodraeth San Steffan am ganiatâd i ddeddfu. Bydd yn cofio'r achlysur, yn sicr. Roeddwn mewn sefyllfa annifyr iawn, lle nad oedd gen i bleidlais fan hyn, ac roeddwn yn ddigon hy i fod wedi awgrymu iddo fo, 'Océ, fe af i San Steffan, at fy nghyfeillion'—wrth gwrs, roedd y diweddar annwyl Richard Livsey ar y blaen, fel y mae'r Rhyddfrydwyr Democrataidd wedi bod ar hyd y blynyddoedd ar y cwestiynau yma—'i geisio rhwystro'r Llywodraeth rhag pasio'r Gorchymyn', oherwydd nad oeddem ni'n cytuno â rôl yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn ag amseriad y ddeddfwriaeth arbennig honno, ac amseriad yr hawl i'r grymoedd cyfreithiol cyfyngedig a oedd gyda ni i gael eu gweithredu. Wel, rwan, unwaith y cytunwyd y refferendwm yn 2011, roeddwn i'n meddwl bod y cyfnod yna wedi mynd, ac na fyddai yna gyfnod byth eto lle y byddai Gweinidogion San Steffan yn gallu dweud wrth y ddeddfwrfra yma beth i'w wneud. Felly, mae'r cynigion arbennig yma yn gyfan gwbl groes i egwyddor sybsidiaredd ac yn gyfan gwbl groes i egwyddorion mandad democrataidd dau refferendwm. Felly, mae'n rhaid inni eu gwrthsefyll nhw.

As we went through the process at committee of scrutinising the Bill and gathering evidence on it, what struck me was that there were fundamental constitutional principles that emerged, and that those were clear to us, as members of the committee, particularly as we considered the issues from one week to the next. They were very clear to our intelligent witnesses—I'm bound to mention the Rev Professor Thomas Watkin because he is a former professor of law at one of the eminent universities of Wales, which, of course, is in north Wales. But he was emphasising the fundamental constitutional principle that any move by another Government to limit the powers of this legislature is anti-democratic in a very fundamental way, and that was because this democracy is entirely based on, and indeed has been created by the desires and wishes of the people of Wales in two—well, three, if you count the one that was lost in 1979, referendums. Then, as that political will grew stronger, as it did in the previous referendum of 2011, that brought forward a more autonomous legislative regime to this place—and this is the fundamental principle—without having to request the consent of Ministers of the Crown in Westminster. Here we are, almost being dragged back to a very unhappy period of my professional life. Indeed, the First Minister, who I respect a great deal, and I almost came to quite a strong disagreement during that period, when we had to request consent from the Westminster Government to legislate. I am sure the First Minister will recall that situation. I was in a very unfortunate situation, where I didn't have a vote here, and I had been bold enough to suggest to him, 'Okay, I'll go to Westminster, to my colleagues there'—of course, the dearly departed Richard Livsey in the forefront, as the Liberal Democrats have been on these questions over the years—'to try to prevent the Government from passing the Order', because we didn't agree with the role of the Secretary of State on the timing of that particular piece of legislation, and on the timing of the limited judicial powers that we had to be implemented. Well, now, once the 2011 referendum was agreed, I thought that those days had long gone, and that there would never again be a time when Ministers in Westminster could tell this legislature what to do. Therefore, these particular proposals are entirely contrary to the principle of subsidiarity and are entirely contrary to the democratic mandate principles of two referendums. Therefore, we must oppose them.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mick Antoniw.

Mick Antoniw.

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The points that I wanted to make have already been made.

Mae'r pwyntiau roeddwn am eu gwneud wedi'u gwneud eisoes.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In that case, I call the First Minister, Carwyn Jones.

Os felly, galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

That puts pressure on me, then, acting Presiding Officer. [Laughter.] Can I begin simply by saying that, at the very beginning of these debates, David Melding made reference to the different methods of calculation that the Secretary of State and I had made in terms of which Bills could have been passed during the course of this Assembly, freely and without the need for consent. Our estimate is that some 76 per cent of Bills could not have been passed freely through this Assembly because they would have needed an element of consent. The Secretary of State takes a different view. His view is that, even where consent was needed, it was given anyway, or would have been given, therefore that is not a restriction on the Assembly's powers. I don't accept that. Where there is a need for consent at all, particularly in devolved areas, that is a restriction on the Assembly's powers. Again, this is an issue where there is, it seems, no support, particularly for the retention of Minister of the Crown powers in devolved areas. The question, again, I ask is: why was it in the Bill in the first place, if that was an issue?

We know that the draft Bill makes the current position worse by introducing new consent requirements. I had thought that Minister of the Crown consents would wither away over time. Now we see a Bill where they are going to be extended potentially in the future. That means that this Assembly will not be able to pass Bills freely in the way that it should, without having to wait for Minister of the Crown consent. It is not simply an issue of consent being denied, because that is a rarity. It's the issue of consent being delayed, which then, of course, delays legislation going through this Assembly. It is not a question of the Secretary of State being able to give consent quickly. The Secretary of State has to consult around Whitehall and argue with Whitehall departments as to whether consent should be given. So, even if we have somebody who is amenable—and we have somebody who is more amenable than his predecessors at the moment—that doesn't mean necessarily that that Secretary of State could give the consent anyway. So the reality is we are back where we started. It would be adding to a process that is cumbersome and bureaucratic, and it's irreconcilable with the Secretary of State's expressed desire for

'A settlement that fosters cooperation not conflict between either end of the M4'—

that is a southern-centric view, I have to confess—and for

'Welsh laws to be decided by the people of Wales and their elected representatives'.

That is not the case when Ministers of the Crown consents exist in areas that are devolved.

Mae hynny'n rhoi pwysau arnaf, felly, Lywydd dros dro. [Chwerthin.] A gaf fi ddechrau'n syml drwy ddweud, ar ddechrau'r dadleuon hyn, fod David Melding wedi cyfeirio at y gwahanol ddulliau o gyfrif roedd yr Ysgrifennydd Gwladol a minnau wedi'u defnyddio o ran pa Filiau y gellid bod wedi'u pasio yn ystod y Cynulliad hwn yn rhydd a heb fod angen cydsyniad. Ein hamcangyfrif yw na ellid bod wedi pasio 76 y cant o'r Biliau'n rhydd drwy'r Cynulliad hwn am y byddent wedi galw am elfen o gydsyniad. Mae barn yr Ysgrifennydd Gwladol yn wahanol. Yn ei farn ef, hyd yn oed pan oedd angen cydsyniad, ei fod wedi'i roi beth bynnag, neu y byddai wedi'i roi, felly nid yw hynny'n gyfyngiad ar bwerau'r Cynulliad. Nid wyf yn derbyn hynny. Lle y bo angen cydsyniad o gwbl, yn enwedig mewn meysydd datganoledig, mae'n gyfyngiad ar bwerau'r Cynulliad. Unwaith eto, mae hwn yn fater lle y mae'n ymddangos na cheir unrhyw gefnogaeth, yn enwedig i gadw pwerau Gweinidogion y Goron mewn meysydd datganoledig. Y cwestiwn rwy'n ei ofyn unwaith eto yw: pam ei gynnwys yn y Bil yn y lle cyntaf, os oedd hynny'n broblem?

Gwyddom fod y Bil drafft yn gwneud y sefyllfa bresennol yn waeth drwy gyflwyno gofynion cydsynio newydd. Roeddwn wedi meddwl y byddai cydsyniadau Gweinidogion y Goron wedi diflannu dros gyfnod o amser. Yn awr dyma Fil sy'n mynd i'w hymestyn yn y dyfodol o bosibl. Golyga hynny na fydd y Cynulliad hwn yn gallu pasio Biliau'n rhydd yn y ffordd y dylai allu gwneud, heb orfod aros am gydsyniad gan Weinidog y Goron. Nid yw'n fater syml o wrthod cydsyniad, gan mai anaml iawn y digwydd hynny. Mae'n fater o oedi cyn cael cydsyniad, sydd wedyn, wrth gwrs, yn creu oedi cyn i ddeddfwriaeth allu mynd drwy'r Cynulliad hwn. Nid yw'n fater o allu'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cydsyniad yn gyflym. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori o gwmpas Whitehall a dadlau gydag adrannau Whitehall ynglŷn ag a ddylid rhoi cydsyniad. Felly, hyd yn oed os oes gennym rywun sy'n barod i wrando—ac mae gennym rywun sy'n fwy parod i wrando na'i ragflaenwyr ar hyn o bryd—nid yw'n golygu o reidrwydd y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol hwnnw roi'r cydsyniad beth bynnag. Felly'r gwir yw ein bod yn ôl lle y dechreusom. Byddai'n ychwanegu at broses sy'n drafferthus a biwrocraidd, ac nid oes modd ei chysoni ag awydd datganoledig yr Ysgrifennydd Gwladol am

'setliad sy'n meithrin cydweithrediad nid gwrthdaro rhwng y naill ben i'r M4'—mae honno'n farn sy'n rhy dde Cymru-anolog, rhaid i mi gyfaddef— ac am

'i bobl Cymru a'u cynrychiolwyr etholedig i benderfynu ar gyfreithiau Cymru'.

Nid yw hynny'n wir pan fo cydsyniadau Gweinidogion y Goron yn bodoli mewn meysydd datganoledig.

The second question is the existence of Minister of the Crown consents in areas that are not devolved. There is a point to be made here. I accept that some Whitehall consents will be needed where Assembly legislation affects reserved matters. But the model for that should be the model—it has already been said—that has been adopted in Scotland and Northern Ireland. There is no reason whatsoever to treat Wales differently in that regard, and I certainly hope that that is where we will be: that Wales will be in a position of equality with Scotland and Northern Ireland and there will be no more question of the UK Government having a role in determining whether this Assembly can pass legislation of its own free will in areas that are wholly devolved.

Yr ail gwestiwn yw bodolaeth cydsyniadau Gweinidogion y Goron mewn meysydd heb eu datganoli. Mae pwynt i'w wneud yma. Rwy'n derbyn y bydd angen rhai cydsyniadau o Whitehall os yw deddfwriaeth y Cynulliad yn effeithio ar faterion a gadwyd yn ôl. Ond—ac mae hyn wedi'i ddweud eisoes—y model a fabwysiadwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ddylai'r model fod ar gyfer hynny. Nid oes unrhyw reswm o gwbl dros drin Cymru yn wahanol yn hynny o beth, ac rwyf fi'n sicr yn gobeithio mai dyna fydd: y bydd Cymru mewn sefyllfa gydradd â'r Alban a Gogledd Iwerddon ac na fydd cwestiwn pellach ynglŷn â rôl i Lywodraeth y DU o ran penderfynu a all y Cynulliad hwn basio deddfwriaeth o'i ewyllys rydd ei hun mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n llwyr.

17:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding, to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol o Deddfwriaethol, David Melding, i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:31 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Members once again for their helpful, insightful contributions, starting with Gwenda Thomas, who has practical knowledge of how these systems operate? I thought you gave us a very vivid example around safeguarding boards, and whether they should include the police. That's at the heart of all this because a comprehensive extension of the requirement for consent to UK public bodies would involve many repetitions, potentially, of that type of requirement and possibly frustration in terms of achieving a particular objective in a clearly devolved field. So, I do think that example was a very telling one.

A gaf fi ddiolch i'r Aelodau unwaith eto am eu cyfraniadau defnyddiol a chraff, gan ddechrau gyda Gwenda Thomas, sydd â gwybodaeth ymarferol o sut y mae'r systemau hyn yn gweithredu? Roeddwn i'n meddwl eich bod wedi rhoi enghraifft fyw iawn i ni'n ymwneud â byrddau diogelu, ac a ddylent gynnwys yr heddlu. Mae hynny'n greiddiol i hyn i gyd oherwydd byddai estyniad cynhwysfawr o'r gofyniad am gydsyniad i gynnwys cyrff cyhoeddus y DU yn golygu llawer o ailadrodd, o bosibl, o'r math hwnnw o ofyniad a rhwystredigaeth o bosibl o ran cyflawni amcan penodol mewn maes sydd wedi'i ddatganoli'n eglur. Felly, rwy'n credu bod yr enghraifft honno'n un drawiadol iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rhun ap Iorwerth did focus on the fact that the consent regime is extended in the draft Bill and becomes stricter, particularly, as I've already referred to, in its extension over UK public bodies. William Graham, in a charming contribution, if I may say, talked about the curate's egg. Well, I suppose what it comes down to is: was the curate being polite to the bishop or fully truthful in terms of his evaluation of that particular culinary foodstuff? But he did say that the Secretary of State was prepared to look at this again, and I'd certainly welcome that. He made, I thought, a really important observation, which no-one else has mentioned today, that the general view of the UK Government has been that devolved institutions should be strengthened and they should receive fuller powers where possible. This is true in Northern Ireland. It's certainly true in Scotland, with the Scotland Bill going through its final stages, I think, at the moment. Frankly, I think that's what we expected that the move to a reserved-powers model would involve here in Wales. But it doesn't seem to have happened, or been achieved in the draft. I do welcome what you said, that we need a made-in-Wales approach to restore the consensus. I think that is right.

Canolbwyntiodd Rhun ap Iorwerth ar y ffaith fod y gyfundrefn gydsyniadau'n cael ei hymestyn yn y Bil drafft ac yn dod yn fwy llym, yn enwedig, fel y cyfeiriais eisoes, yn y modd y caiff ei hymestyn i gynnwys cyrff cyhoeddus yn y DU. Soniodd William Graham, mewn cyfraniad hyfryd, os caf ddweud, am wŷ y curad. Wel, mae'n debyg mai'r cwestiwn yn y bôn yw hyn: a oedd y curad yn bod yn gwrtais wrth yr esgob neu'n gwbl eirwir o ran ei werthusiad o'r eitem fwyd arbennig honno? Ond fe ddywedodd fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn barod i edrych ar hyn eto, a byddwn yn sicr yn croesawu hynny. Gwnaeth sylw pwysig iawn yn fy marn i, sylw nad oes neb arall wedi sôn amdano heddiw, mai barn gyffredinol Llywodraeth y DU yw y dylid cryfhau sefydliadau datganoledig ac y dylent gael pwerau llawnach lle y bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn wir yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n sicr yn wir yn yr Alban, gyda Bil yr Alban ar ei gamau olaf, rwy'n credu, ar hyn o bryd. A dweud y gwir, rwy'n meddwl mai dyna beth roeddem yn disgwyl y byddai symud at fodel cadw pwerau'n ôl yn ei olygu yma yng Nghymru. Ond nid yw'n ymddangos ei fod wedi digwydd, neu wedi'i gyflawni yn y drafft. Rwy'n croesawu'r hyn a ddywedoch, fod arnom angen dull a wnaed yng Nghymru o weithredu i adfer y consensws. Credaf fod hynny'n iawn.

Kirsty Williams amplified this by saying that this part of the Bill does not achieve the stated ambitions of the Secretary of State, and he should return to those ambitions. They were right. The approach was, initially, we thought, expansive and generous, and really looking at how a full settlement could be achieved. You raised the issue of how active consent would be. Is it just a super form of consultation? Would it be a big deal? Well, you know, if it's not a solid requirement, why have it there? If it's perfunctory, what's its purpose? I think scrutiny is all about testing out these sorts of ideas.

Dafydd Elis-Thomas just stated the obvious constitutional principle: it's not for an executive that is not accountable to this legislature to limit the use of our powers in devolved fields. It's not appropriate, and that needs to be stated clearly. We do not want to go back to the LCO system of rather unhappy memory, although I suppose it was a bit of an advance in its day on what we had before. But perhaps that's damning it with rather faint praise.

The First Minister said that, in his view, 76 per cent of Bills would have needed consent. The Secretary of State says that's not really a fair figure because lots of the legislative output would have been consented to. But, you know, again, one comes to this question: if it's so perfunctory, why is it a requirement? It's at best a clumsy process. It's the sort of legislative equivalent of a taxi journey from Cardiff bay to Pontypridd via Pembroke. I mean, why go through the trauma of that inefficiency and put into question the ultimate legislative destination? So, we should use the Scotland model. I think that should be a clear message and you can do that by supporting this motion.

Tynnodd Kirsty Williams fwy o sylw at hyn drwy ddweud nad yw'r rhan hon o'r Bil yn cyflawni'r uchelgeisiau a nododd yr Ysgrifennydd Gwladol, a dylai edrych eto ar yr uchelgeisiau hynny. Roeddent yn gywir. Credem i ddechrau fod y dull yn eang ac yn hael, ac yn edrych go iawn ar sut y gellid cyflawni setliad llawn. Fe grybwyllloch y mater ynghylch pa mor weithredol y byddai cydsyniad. Ai dim ond ffurf uwchraddol ar ymgynghori ydyw? A fyddai'n bwysig? Wel, wyddoch chi, os nad yw'n ofyniad solet, pam ei gael yno? Os yw'n ddibwys, beth yw ei ddiiben? Rwy'n credu bod craffu'n ymwneud â phrofi'r mathau hyn o syniadau.

Nododd Dafydd Elis-Thomas yr egwyddor gyfansoddiadol amlwg: nid lle gweithrediaeth nad yw'n atebol i'r ddeddfwrfa hon yw cyfyngu ar y defnydd o'n pwerau mewn meysydd datganoledig. Nid yw'n briodol, ac mae angen datgan hynny'n glir. Nid ydym am ddychwelyd at system Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a'r atgofion anhapus amdano, er ei fod, mae'n debyg, yn gam bach ymlaen yn ei ddydd ar yr hyn a oedd gennym cyn hynny. Ond efallai mai ei ladd â phluen a wnawn drwy ddweud hynny.

Dywedodd y Prif Weinidog y byddai wedi bod angen cydsyniad ar 76 y cant o Filiau yn ei farn ef. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud nad yw hwnnw'n ffigur teg mewn gwirionedd gan y byddai cydsyniad wedi'i roi i lawer o'r allbwn deddfwriaethol. Ond wyddoch chi, unwaith eto, down at y cwestiwn hwn: os ydyw mor ddibwys, pam ei fod yn ofyniad? Mae'n broses drwsgl ar y gorau. Mae'n cyfateb yn deddfwriaethol i daith tacsï o fae Caerdydd i Bontypridd drwy Benfro. Hynny yw, pam mynd drwy drawma'r aneffeithlonrwydd hwnnw a chwestiynu'r gyrchfan deddfwriaethol yn y pen draw? Felly, dylem ddefnyddio model yr Alban. Rwy'n credu y dylai honno fod yn neges glir a gallwch wneud hynny drwy gefnogi'r cynnig hwn.

17:35

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Daeth y Llywydd i'r Gadair.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

The Presiding Officer took the Chair.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:36

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next motion relates to the reservations and restrictions and I call on the Chair of the committee, David Melding, to move the motion. David Melding.

Cynnig NDM5915 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i leihau'n sylweddol nifer y cymalau cadw a'r cyfyngiadau penodol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â deddfwrfa aeddfed, effeithiol ac atebol a fydd yn cael pwerau treth incwm.

Mae'r cynnig nesaf yn ymwneud â'r cymalau cadw a'r cyfyngiadau a galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, David Melding, i gynnig y cynnig. David Melding.

Motion NDM5915 David Melding

To propose that the National Assembly for Wales notes the Constitutional and Legislative Affairs Committee's view that the draft Wales Bill should be amended to reduce significantly the number and extent of specific reservations and restrictions consistent with a mature, effective and accountable legislature that is to acquire income tax powers.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:36

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I move the motion. The list of reservations is clearly too long. Even the Secretary of State has acknowledged that. We, like many witnesses and consultees, expressed concern over the overall effect of the extensive number of reservations, which is to reduce the competence of the Assembly to make laws, which is the function of this legislature.

In our view, the extent of the reservations should develop from, and not reduce in any way, the competence provided in the 21 subject areas contained in Part 5 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. This would be consistent with the outcome of the 2011 referendum. In addition, the reservations should be based on clearly identified principles, the most important of which is that of subsidiarity, as the Presiding Officer has so eloquently emphasised. In our view, the absence of a principled approach has contributed to the excessive number and complexity of the reservations. I look forward to Members' contributions.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiau y cynnig. Mae'r rhestr o gymalau cadw yn amlwg yn rhy hir. Mae hyd yn oed yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cydnabod hynny. Fel llawer o dystion ac ymgynghorion, rydym wedi mynegi pryder ynghylch effaith gyffredinol y nifer helaeth o gymalau cadw, sef lleihau cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu, sef swyddogaeth y ddeddfwrfa hon.

Yn ein barn ni, dylai graddau'r cymalau cadw ddatblygu o'r cymhwysedd a ddarperir yn y 21 maes pwnc a gynhwysir yn Rhan 5 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac nid eu lleihau mewn unrhyw ffordd. Byddai hyn yn gyson â chanlyniad refferendwm 2011. Yn ogystal, dylai'r cymalau cadw fod yn seiliedig ar egwyddorion a nodwyd yn glir, a'r pwysicaf o'r rhain yw sybsidiaredd, fel y pwysleisiodd y Llywydd mor huawdl. Yn ein barn ni, mae diffyg dull yn seiliedig ar egwyddorion wedi cyfrannu at nifer gormodol a chymhlethdod y cymalau cadw. Edrychaf ymlaen at gyfraniadau'r Aelodau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:37

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

David Melding has already alluded to the fact that there's so many exceptions it really does undermine the credibility of the Bill. It seems to me that it's a bit like a lawyers' job creation scheme because it creates so many possibilities.

I particularly wanted to refer to the exclusions around the all-important issue of energy policy, not just the specifics, but the whole policy around energy generation and transmission, which is absolutely key to Wales's future. Section 17 permits us to have planning consent for energy projects with a generating capacity of up to 350 MW, which is welcome, and this is in line with the Silk commission recommendation. But, it does mean that larger schemes of strategic importance would still be decided by the UK Government. The Silk commission based their recommendation on the Swansea tidal lagoon, which comes within the benchmark of the 350 MW, but it does mean that schemes like the Cardiff tidal lagoon, which is somewhere between 1,800 and 2,800 MW, would, under this proposal, in all likelihood be decided outside of Wales. The Royal Town Planning Institute wants the 350 MW threshold to be removed.

There's an exhibition in the Oriel that some of you may have seen at lunch time that demonstrates just how amazing the Swansea lagoon is, not just as a piece of engineering, but also as a piece of landscaping, and as an amenity for people to enjoy, which is very much down to the imaginative way in which the landscaping has been devised. Because the decision on the planning aspect of it was decided in Whitehall, it was disaggregated from the landscaping and environmental aspects of it, which was unfortunate and I wouldn't want that to happen in the case of the Cardiff one, because how it looks and how people can engage with it are really important to engage with public acceptance of such a large project. Therefore, it is crucial to be able to see those things as one.

Cyfeiriodd David Melding eisoes at y ffaith fod yna gymaint o eithriadau nes ei fod yn tansellio hygredd y Bil yn fawr. Mae'n ymddangos i mi ei fod ychydig fel cynllun creu swyddi i gyfreithwyr gan ei fod yn creu cymaint o bosibiliadau.

Roeddwn yn arbennig o awyddus i gyfeirio at yr eithriadau sy'n ymwneud â mater hollbwysig y polisi ynni, nid y manylion yn unig, ond yr holl bolisi sy'n ymwneud â chynhyrchu a throsglwyddo ynni, sy'n gwbl allweddol i ddyfodol Cymru. Mae Adran 17 yn caniatáu i ni gael caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau ynni sy'n gallu cynhyrchu hyd at 350 MW, sydd i'w groesawu, ac mae hyn yn unol ag argymhelliad comisiwn Silk. Ond mae'n golygu mai Llywodraeth y DU fyddai'n penderfynu ar gynlluniau o bwysigrwydd strategol mwy o faint o hyd. Seiliodd comisiwn Silk eu hargymhelliad ar y morlyn llanw yn Abertawe, sy'n dod o fewn meincnod y 350 MW, ond mae'n golygu y byddai penderfyniad ar gynlluniau fel morlyn llanw Caerdydd, sydd rywle rhwng 1,800 a 2,800 MW, yn digwydd y tu allan i Gymru yn ô pob tebyg o dan y cynnig hwn. Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn awyddus i'r trothwy o 350 MW gael ei ddileu.

Mae yna arddangosfa yn yr Oriel y bydd rhai ohonoch wedi'i gweld amser cinio sy'n dangos yn union pa mor rhyfeddol yw morlyn Abertawe, nid yn unig o safbwynt peirianneg, ond hefyd fel gwaith tirlunio, ac fel amwynder i bobl ei fwynhau, sy'n deillio i raddau helaeth o'r ffordd lawn dychymyg y lluniwyd y gwaith tirlunio. Oherwydd bod y penderfyniad ar yr agwedd gynllunio ohono wedi'i benderfynu yn Whitehall, cafodd ei wahanu oddi wrth yr agweddau ohono sy'n ymwneud â'r tirlun a'r amgylchedd. Roedd hynny'n anffodus ac ni fyddwn am i hynny ddigwydd yn achos un Caerdydd, am fod sut y mae'n edrych a sut y gall pobl ymwneud ag ef yn bwysig iawn er mwyn ennyn derbyniad y cyhoedd i brosiect mor fawr. Felly, mae'n hanfodol gallu gweld y pethau hynny'n rhan o'r un peth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, the RPTI argued on two grounds that if all energy decisions are devolved, it promotes a comprehensive strategy around renewables and, as well, it would bring Wales into line with Scotland and Northern Ireland. I can see no reason for Wales to have less say on energy than the other two nations.

However, planning decisions around energy are just one thing. Strategic decisions about the generation, transmission, distribution and supply of electricity, which are specifically excluded under the draft Wales Bill, are a considerable concern to me.

The other exclusion that seems to make a mockery of our ability to seize our own destiny—economically and socially—is that energy conservation is also excluded, other than the encouragement of energy efficiency, otherwise than by prohibition or regulation. So, we're not in a position, under this draft, to provide any financial incentives or penalties to get people to do the right thing, which means that it really does tie Wales's hands. So, I think that is something that really needs looking at.

It also prevents the Welsh Government from prioritising community energy schemes getting access to the grid. We know that this has killed several community energy schemes stone dead, as the grid has asked for a connection fee that has been several times the value of the product's construction costs. Ofcom, which came to see the environment committee today, said they cannot act on this without specific guidance from the Department of Energy and Climate Change. If that is not forthcoming, the reserved-powers model means that the UK Government policy would take precedent, whatever the will of the National Assembly, and I do not think that that is a matter that should be decided in London. It would be much more appropriately decided here in the National Assembly.

I have other concerns, particularly around food policy. The longer the UK Government fails to act on the regulation of non-food masquerading as food, which is poisoning our populations, the more I want the National Assembly to have the powers to act to protect our people, although I acknowledge that it would be more sensibly done across the UK.

But, to go back to the crucial issue for me of energy generation and transmission, the current system gives inordinate and dominant power to private monopolies, locks out new entrants, hampers our ability to deliver on cheaper, more reliable clean energy, deliver on our climate change obligations, as laid out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, stifles innovation and enterprise, and prevents us developing one of our most promising assets—i.e. our natural resources—in support of a healthier, wealthier Wales. So, I do hope that the UK Parliament will think again on this, and that the UK Government will see sense.

Felly, dadleuodd RPTI ar ddwy sail os yw pob penderfyniad ynni wedi'i ddatganoli, mae'n hyrwyddo strategaeth gynhwysfawr mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy ac yn ogystal, byddai'n gosod Cymru ochr yn ochr â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Ni allaf weld unrhyw reswm i Gymru gael llai o lais na'r ddwy genedl arall ar ynni.

Fodd bynnag, un peth yw penderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud ag ynni. Mae penderfyniadau strategol ynglŷn â chynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu a chyflenwi trydan, sy'n cael eu heithrio'n benodol o dan y Bil Cymru drafft, yn destun cryn bryder i mi.

Yr eithriad arall sy'n ymddangos fel pe bai'n gwneud ein gallu i lywio ein tynged ein hunain—yn economaidd ac yn gymdeithasol—yn destun gwawd yw bod arbed ynni hefyd wedi'i eithrio, heblaw am annog defnydd effeithlon o ynni ar wahân i wahardd neu reoleiddio. Felly, nid ydym mewn sefyllfa, o dan y drafft hwn, i ddarparu unrhyw gymhellion ariannol neu gosbau i gael pobl i wneud y peth iawn, sy'n golygu ei fod yn clymu dwylo Cymru mewn gwirionedd. Felly, credaf fod hynny'n rhywbeth y mae gwir angen edrych arno.

Mae hefyd yn atal Llywodraeth Cymru rhag blaenoriaethu mynediad at y grid i gynlluniau ynni cymunedol. Gwyddom fod hyn wedi lladd nifer o gynlluniau ynni cymunedol, gan fod y grid wedi gofyn am ffi cysylltu a oedd yn sawl gwaith gwerth costau adeiladu'r cynnyrch. Dywedodd Ofcom, a ddaeth i weld pwyllgor yr amgylchedd heddiw, na allant weithredu ar hyn heb arweiniad penodol gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd. Os na ddaw'r arweiniad hwnnw, mae'r model cadw pwerau'n ôl yn golygu y byddai polisi Llywodraeth y DU yn cael blaenoriaeth, beth bynnag fo ewyllys y Cynulliad Cenedlaethol, ac nid wyf yn credu bod hwnnw'n fater y dylid ei benderfynu yn Llundain. Byddai'n llawer mwy priodol ei benderfynu yma yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gennyf bryderon eraill, yn enwedig o ran polisi bwyd. Po hiraf y mae Llywodraeth y DU yn methu â gweithredu ar reoleiddio nwyddau di-fwyd a elwir yn fwyd, sy'n gwenwyno ein poblogaethau, y mwyaf rwyf am i'r Cynulliad Cenedlaethol gael y pwerau i weithredu er mwyn diogelu ein pobl, er fy mod yn cydnabod y byddai'n fwy synhwyrol gwneud hynny ar draws y DU.

Ond i fynd yn ôl at fater sy'n hollbwysig i mi, sef cynhyrchu a throsglwyddo ynni: mae'r system bresennol yn rhoi pŵer gormodol a gormesol i fonopoliau preifat, yn cau busnesau newydd allan, yn llyffetheirio ein gallu i sicrhau ynni glân rhatach, a mwy dibynadwy, a chyflawni ein rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn mygu arloesedd a menter, ac yn ein hatal rhag datblygu un o'n hasedau mwyaf addawol—h.y. ein hadnoddau naturiol—i gefnogi Cymru iachach a chyfoethocach. Felly, rwy'n gobeithio y bydd Senedd y DU yn ailfeddwl am hyn, ac y bydd Llywodraeth y DU yn gweld synnwyr.

Before I start to discuss the depth of the motion before us, I just wanted to also add how delighted I am to be here at what I think is a really crucial point in the development of Welsh society and our Welsh Parliament. Because the draft Wales Bill is part of a long journey that was started over a decade ago by Lord Richard of Ammanford; a journey on which Silk 2 was a vital staging post; a journey that's seen political consensus and the collaboration of Welsh civic society; a journey with the purpose of enabling greater accountability to the people of Wales by the Government of the day; and a journey that's resulted in the St David's Day agreement, which seeks to create a settlement that will be fair, will be clear and will be durable. I am immensely proud that it is a Conservative Government in Westminster that recognised the need for the home nations, including Wales, to have the freedom to embrace devolution in their own ways, to reflect when and how their peoples want further devolution. It is a Conservative Government who understands that power without true accountability is an empty mandate. And it is a Conservative Government that has grasped the moment, that has understood that our time has come, and has delivered the draft Bill before us today. We are on a journey, and this is just part of it.

There is much to commend in the draft Bill, but there is still much that needs to be worked on, and the motion that I speak to today is one such area that needs further analysis and consensus by both administrations. I am grateful for the work done on identifying the extent of the work that is required by the Chair, the members and the team of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

The objective of moving to a reserved-powers model, as set out in the draft Bill, is to provide a clear separation of powers, obviously, between what is devolved and what is reserved. Of course, in the years that we've operated under a conferred model, we have sought to make law in accordance with the devolved areas of competency—a basis where the UK Parliament have ceded responsibility in key areas and where the National Assembly or the Welsh Government have either kept within those competencies or sought agreement to legislate from Westminster. A reserved-powers model turns the construct on its head and, in effect, says that we can legislate on anything that is not expressly reserved.

Cyn i mi ddechrau trafod y cynnig ger ein bron yn fanwl, roeddwn eisiau ychwanegu hefyd cymaint o bleser yw cael bod yma ar bwynt gwirioneddol allweddol yn fy marn i yn y gwaith o ddatblygu cymdeithas Cymru a Senedd Cymru, gan fod y Bil Cymru drafft yn rhan o daith hir a ddechreuwyd dros ddegawd yn ôl gan yr Arglwydd Richard o Rydaman; taith roedd Silk 2 yn fan aros allweddol arni; taith sydd wedi gweld consensws gwleidyddol a chydweithrediad cymdeithas ddinesig Cymru; taith gyda'r diben o alluogi Llywodraeth y dydd i fod yn fwy atebol i bobl Cymru; a thaith sydd wedi arwain at gytundeb Dydd Gŵyl Dewi, sy'n ceisio creu setliad a fydd yn deg, yn glir ac yn barhaol. Rwy'n hynod o falch mai Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan sydd wedi cydnabod yr angen i'r gwledydd cartref, gan gynnwys Cymru, gael y rhyddid i gofleidio datganoli yn eu ffyrdd eu hunain, i adlewyrchu pryd a sut y mae eu pobl eisiau datganoli pellach. Llywodraeth Geidwadol sy'n deall fod pŵer heb wir atebolrwydd go iawn yn fandad wag. A Llywodraeth Geidwadol sydd wedi bachu ar y cyfle, wedi deall bod ein hamser wedi dod, ac wedi cyflwyno'r Bil drafft ger ein bron heddiw. Rydym ar daith, a rhan ohoni'n unig yw hyn.

Mae llawer i'w ganmol yn y Bil drafft, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd, ac mae'r cynnig rwy'n siarad amdano heddiw yn un maes o'r fath sydd angen dadansoddi a chonsensws pellach gan y ddwy weinyddiaeth. Rwy'n ddiolchgar am y gwaith a wnaeth Cadeirydd, aelodau a thîm y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar nodi graddau'r gwaith sydd angen ei wneud.

Amcan symud at fodel cadw pwerau'n ôl, fel y'i nodir yn y Bil drafft, yw sicrhau gwahanu clir rhwng pwerau, yn amlwg, rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn sy'n cael ei gadw. Wrth gwrs, yn y blynyddoedd y buom yn gweithredu o dan fodel rhoi pwerau, rydym wedi ceisio deddfu yn unol â meysydd cymhwysedd datganoledig—ar sail Senedd y DU yn ildio cyfrifoldeb mewn meysydd allweddol a'r Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru naill ai wedi cadw o fewn y cymhwyseddau hynny neu wedi gofyn am gytundeb i ddeddfu o San Steffan. Mae model cadw pwerau'n ôl yn troi'r strwythur ar ei ben ac i bob pwrpas, yn dweud y gallwn ddeddfu ar unrhyw beth nad yw wedi'i gadw'n ôl yn benodol.

As it currently stands, the draft Bill posits an unworkable set of reservations, which, if continued, would frustrate the capability of the Assembly to legislate on behalf of the people in matters that affect just Wales. It has always been my view that the list of reservations proposed by section 3 and Schedules 7A and 7B were drafted by civil servants in Whitehall who were simultaneously trying to get to grips with the enormity of devolution and how the current models worked in different home nations. And they got some of it wrong. The process should not have started exclusively with civil servants based in Whitehall. It should have been a collaborative process from the start. The process and discussions of Silk 2 were not the equivalent of consulting either the Assembly or, indeed, the Government on what might have been included in the draft list. The way the list of reservations has been arrived at makes it very difficult for there to be scrutiny of the arguments civil servants put to themselves in deciding what should go onto the reserved list.

'Reserved' and 'conferred' are not matching negatives of one another, and, by moving to a reserved model, Whitehall needs to grapple with the notion that many of the silent subjects in the current conferred settlement have become reserved matters under the new Bill, and this is the nub of the problem. Currently, the National Assembly can legislate on these silent subjects, provided that the purpose of the legislation also relates fairly and realistically to a subject in Schedule 7 of the Government of Wales Act 2006, and a retraction of this capability would not further the devolution of legislative competencies. However, Whitehall seems to have taken the view that, if an area is silent, it hasn't been devolved, and that is where the boundary has been drawn in this draft Bill. An example of a silent area that will be affected if there's no change to the list of reservations is that of the compulsory purchase of land. Wholly reserving this area will cause difficulties across other devolved areas, such as education, health, highways and a range of local government functions. It is crucial that a reservation that can negatively affect existing competencies, including those that are so important to helping Wales along a path towards prosperity, are removed in the final Bill.

I was heartened by the evidence the Secretary of State gave to the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and I noted that he not only felt that the list of reservations was too long and could create some element of complexity, but that he also expressed a willingness to try and not only reduce the number of reservations but to improve clarity over the reservations. Indeed, the Secretary of State went so far as to express surprise at some of the matters being reserved.

Fel y mae ar hyn o bryd, mae'r Bil drafft yn gosod set o gymalau cadw gerbron na ellir ei gweithredu, set a fydd, os yw'n parhau, yn rhwystro gallu'r Cynulliad i ddeddfu ar ran pobl mewn materion sy'n effeithio ar Gymru'n unig. O'r cychwyn, rwyf wedi credu bod y rhestr o gymalau cadw a gynigir yn adran 3 ac Atodlenni 7A a 7B wedi'i drafftio gan weision sifil yn Whitehall a oedd yn ceisio mynd i'r afael ag anferthedd datganoli ar yr un pryd â sut y mae'r modelau presennol yn gweithio yn y gwahanol wledydd cartref. Ac maent yn anghywir ynglŷn â pheth ohono. Ni ddylai'r broses fod wedi dechrau gyda gweision sifil yn Whitehall yn unig. Dylai fod wedi bod yn broses gydweithredol o'r dechrau. Nid oedd proses a thrafodaethau Silk 2 yn cyfateb i broses ymgynghori naill ai gyda'r Cynulliad, neu'r Llywodraeth yn wir, ar yr hyn y gellid bod wedi'i gynnwys ar y rhestr ddrafft. Mae'r ffordd y cytunwyd ar y rhestr o gymalau cadw yn ei gwneud yn anodd iawn craffu ar y dadleuon a gafwyd rhwng gweision sifil â'i gilydd i benderfynu beth ddylai fynd ar y rhestr o gymalau cadw.

Nid yw 'cadw pwerau' a 'rhoi pwerau' yn gwbl groes i'w gilydd, a thrwy symud at fodel cadw pwerau'n ôl, mae angen i Whitehall fynd i'r afael â'r syniad fod llawer o'r pynciau tawel yn y setliad cyfredol o bwerau a roddwyd wedi dod yn faterion a gadwyd yn ôl o dan y Bil newydd, a dyma hanfod y broblem. Ar hyn o bryd, gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar y pynciau tawel hyn, ar yr amod bod diben y ddeddfwriaeth hefyd yn ymwneud yn deg ac yn realistig â phwnc yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac ni fyddai tynnu'r gallu hwn yn ôl yn hyrwyddo datganoli cymwyseddau deddfwriaethol. Fodd bynnag, ymddengys bod Whitehall o'r farn os yw maes yn dawel, nid yw wedi'i ddatganoli, a dyna ble y gosodwyd y ffin yn y Bil drafft hwn. Un enghraifft o faes tawel yr effeithir arno os na cheir unrhyw newid i'r rhestr o gymalau cadw yw prynu tir yn ofodol. Bydd cadw'r maes hwn yn ôl yn gyfan gwbl yn achosi trafferthion ar draws meysydd datganoledig eraill, megis addysg, iechyd, priffyrdd ac ystod o swyddogaethau llywodraeth leol. Mae'n hanfodol fod modd dileu cymal cadw sy'n gallu effeithio'n negyddol ar gymwyseddau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys y rhai sydd mor bwysig i helpu Cymru ar hyd llwybr tuag at ffyniant, yn y Bil terfynol.

Cefais fy nghalonogi gan y dystiolaeth a roddodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a nodais ei fod yn teimlo bod y rhestr o gymalau cadw'n rhy hir ac y gallai greu rhyw elfen o gymhlethdod, a hefyd ei fod wedi mynegi parodrwydd i geisio lleihau nifer y cymalau cadw yn ogystal â gwella eglurder ynghylch y cymalau cadw. Yn wir, aeth yr Ysgrifennydd Gwladol mor bell â mynegi syndod at rai o'r materion a gedwir.

We are in the position of needing to move to the reserved-powers model in order to improve our accountability, and yet an unforeseen consequence has been that this large list of reservations narrows the scope of the National Assembly's competence rather than broadens it. The reservations, as they stand, will hinder the development of policy, will impact on the coherence and unity of legislation and will, in my view, muddy the waters between legislatures. We would have to consider the effect of policy proposals on over 200 reserved matters rather than the effect on any one conferred area. Above all, the vast majority of people in Wales will not understand what the National Assembly is responsible for, what powers the Welsh Government has, and how they can hold all of us to account.

A number of organisations and individuals have expressed concern over the list of reservations. None of the political parties in the Assembly is comfortable with the proposals in the draft Bill, and the Secretary of State himself has concerns and has undertaken to rework the principles of the list given the further examination of the draft Bill. I do welcome this, and I would ask this Chamber to bear in mind that the purpose of a draft Bill is just this: to enable debate, to scour for problems, to test proposals, to flesh out ideas. I do sense a tetchiness that it has not come as a perfect Bill before us all, but no draft Bill ever is and it is up to us to make the case.

We are not at the end of our journey and I would urge the Secretary of State, I would urge the Welsh Government—and First Minister, you play a crucial role in this—and I would urge Whitehall, to cleave to the principles of the St David's Day agreement and to create together a settlement that will be fair, that will be clear and will be durable. We must hold our nerve on this matter. The journey may not yet be over, but the destination is in sight. We shouldn't just throw it all away because we are not happy with what we see before us. We must work together to change it to be the settlement that we want for Wales in the future.

17:50

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd reiterate some of the comments that were made. You're right: we're not happy with the draft Bill, you're not happy with the draft Bill, the Welsh Government isn't happy with the draft Bill. Even the Secretary of State himself isn't happy with his own Bill. Well, how on earth did we get to where we are today? There are serious questions that need to be answered, I think.

But I'll start by endorsing, of course, the committee's view that the draft Wales Bill should be amended to reduce significantly the number and extent of specific reservations. The issue of reservations, of course, is largely a political one. But it also affects, as we've heard, the coherence of the Bill and the effectiveness of the reserved-powers model. It's also fair to recognise that the UK Government and the Wales Office do have a political view on how the Welsh constitution should develop, as we all do, rather than simply maybe having a legalistic view, which probably would have provided the clarity that many of us are looking for.

Rydym mewn sefyllfa o fod angen symud i'r model cadw pwerau'n ôl er mwyn gwella ein hatebolrwydd, ac eto un canlyniad annisgwyl yw bod y rhestr fawr o gymalau cadw yn cyfyngu ar gwmpas cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na'i ehangu. Bydd y cymalau cadw fel y maent yn llesteirio datblygiad polisi, yn effeithio ar gydlynad ac undod deddfwriaeth ac yn fy marn i, bydd yn peri dryswch rhwng deddfwrfeydd. Byddai'n rhaid i ni ystyried effaith cynigion polisi ar dros 200 o faterion a gadwyd yn ôl yn hytrach na'r effaith ar unrhyw faes a roddwyd. Yn anad dim, ni fydd y mwyafrif llethol o bobl Cymru yn deall beth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol amdano, pa bwerau sydd gan Lywodraeth Cymru, a sut y gallant ddwyn pob un ohonom i gyfrif.

Mae nifer o sefydliadau ac unigolion wedi mynegi pryder ynglŷn â'r rhestr o gymalau cadw. Nid oes yr un o'r pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn gyfforddus gyda'r cynigion yn y Bil drafft. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun bryderon ac mae wedi ymrwymo i ailweithio egwyddorion y rhestr o ystyried yr archwiliad pellach o'r Bil drafft. Rwy'n croesawu hyn, a byddwn yn gofyn i'r Siambwr hon gofio mai pwrpas Bil drafft yw hyn yn unig: galluogi trafodaeth, chwilota am broblemau, profi cynigion, a rhoi cnawd ar esgyrn syniadau. Rwy'n synhwyro piwisrwydd nad yw wedi dod fel Bil perffaith ger ein bron i gyd, ond nid oes yr un Bil drafft erioed wedi gwneud hynny a mater i ni yw llunio'r achos.

Nid ydym ar ddiwedd ein taith a byddwn yn annog yr Ysgrifennydd Gwladol, byddwn yn annog Llywodraeth Cymru—a Brif Weinidog, mae gennych ran hanfodol i'w chwarae yn hyn—a byddwn yn annog Whitehall i lynu at egwyddorion cytundeb Dydd Gŵyl Dewi a dod ynghyd i greu setliad a fydd yn deg, a fydd yn glir ac a fydd yn wydn. Mae'n rhaid i ni beidio â gwangalonni ar y mater hwn. Efallai nad yw'r daith ar ben eto, ond mae ei phen draw yn y golwg. Ni ddylem gael gwared ar y cyfan am nad ydym yn fodlon ar yr hyn a welwn o'n blaenau. Rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i'w newid yn setliad rydym ei eisiau ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

Hoffwn ailadrodd rhai o'r sylwadau a wnaed. Rydych chi'n iawn: nid ydym yn fodlon ar y Bil drafft, nid ydych chi'n fodlon ar y Bil drafft, nid yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y Bil drafft. Nid yw hyd yn oed yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun yn hapus gyda'i Fil ei hun. Wel, sut ar y ddaear y cyrhaeddom lle rydym heddiw? Mae yna gwestiynau difrifol sydd angen eu hateb, rwy'n meddwl.

Ond dechreuaf drwy gefnogi barn y pwyllgor, wrth gwrs, y dylid diwygio'r Bil Cymru drafft er mwyn lleihau yn sylweddol nifer a graddau'r cymalau cadw penodol. Mae mater cymalau cadw, wrth gwrs, yn un gwleidyddol i raddau helaeth. Ond mae hefyd yn effeithio, fel y clywsom, ar gydlynad y Bil ac effeithiolrwydd y model cadw pwerau'n ôl. Mae hefyd yn deg cydnabod bod gan Lywodraeth y DU a Swyddfa Cymru farn wleidyddol ynglŷn â sut y dylai cyfansoddiad Cymru ddatblygu, fel sydd gan bawb ohonom, yn hytrach na safbwynt cyfreithiol yn unig efallai, a fyddai yn ôl pob tebyg wedi darparu'r eglurder y mae llawer ohonom yn chwilio amdano.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The current and previous UK Governments have both responded to external stimuli when making proposals for increased powers for Wales. The UK coalition Government held the Silk commission, which, of course, was directly dependent on the outcome of the 2011 powers referendum, according to the text of the coalition agreement between the Conservatives and the Liberal Democrats. The current UK Government also responded directly to the result of the 2014 Scottish independence referendum, both during the coalition period—with the Prime Minister claiming that Wales should be at the heart of the debate about the future of the union—and under the current Conservative majority Government, of course, with the Secretary of State for Wales stating that he would look at the Smith recommendations coming from Scotland and see whether they would be applied for Wales. But, of course, what we have here isn't fulfilling Silk, let alone Smith.

As an example, there's been a majority in this Assembly in favour of devolving policing since Labour changed its position on the matter during the latter part of 2011. The Silk commission, through a process of compromise, came up with a coherent set of recommendations that included criminal justice being unreserved over a phased period of time. Plaid Cymru would absolutely have compromised on that issue, but that, of course, has been lost because of the lowest-common-denominator approach adopted during the St David's Day process.

The motion tabled in the name of David Melding also notes, of course, that we have the prospect of acquiring income tax powers as a mature, effective and accountable legislature. It would be a very strange situation if our policy powers don't match the maturity being offered on financial powers. It would be very reminiscent, of course, of the half-way houses and messy compromises that we've endured here since 1999—half-way houses, which, by the way, have never worked, I'm sure we would all agree.

The specific reservations in the Bill are therefore a product of a flawed process and we only have to look at a lot of the evidence presented to the committee to underline numerous concerns that have been highlighted time and time again in this debate. There is no coherent view in the Bill of what powers Wales should have as a mature, devolved nation. We're even hearing people talking about devolving powers to Wales here and there in a piecemeal fashion. We have the possibility of sport safety and on hovercrafts being proposed recently.

So, the time has come now, I think, for us to turn the debate on its head. The debate should always be about what should be reserved and not about what should be devolved. There is a key example in energy, of course, which has already been referred to, under the 350 MW limit consent for the Swansea bay tidal lagoon, which would not be reserved. But consenting, of course, for the other proposed lagoons around the Welsh coastline would be reserved. That is not coherent.

Mae Llywodraethau presennol a blaenorol y DU wedi ymateb i ysgogiadau allanol wrth wneud cynigion ar gyfer mwy o bwerau i Gymru. Cynhaliodd Llywodraeth glymblaid y DU gomisiwn Silk, a oedd, wrth gwrs, yn dibynnu'n uniongyrchol ar ganlyniad refferendwm 2011 ar bwerau, yn ôl testun cytundeb y glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ymatebodd Llywodraeth bresennol y DU yn uniongyrchol i ganlyniad refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014 hefyd, yn ystod cyfnod y glymblaid—gyda'r Prif Weinidog yn honni y dylai Cymru fod wrth galon y drafodaeth am ddyfodol yr undeb—ac o dan Lywodraeth fwyafrifol gyfredol y Ceidwadwyr, wrth gwrs, gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn datgan y byddai'n edrych ar argymhellion Smith a ddoi o'r Alban a gweld a fyddent yn cael eu cymhwysu ar gyfer Cymru. Ond wrth gwrs, nid yw'r hyn sydd gennym yma yn cyflawni Silk, heb sôn am Smith.

Er enghraifft, cafwyd mwyafrif yn y Cynulliad hwn o blaid datganoli plismona ers i Lafur newid ei safbwynt ar y mater ar ddiwedd 2011. Drwy broses o gyfaddawd, cyflwynodd comisiwn Silk set gydlynol o argymhellion a oedd yn cynnwys tynnu cyfiawnder troseddol oddi ar y rhestr o faterion a gadwyd yn ôl dros gyfnod graddol o amser. Byddai Plaid Cymru yn bendant wedi cyfaddawdu ar y mater hwnnw, ond wrth gwrs, collwyd hynny oherwydd y dull cyfenwadol lleiaf a fabwysiadwyd yn ystod proses Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r cynnig a gyflwynwyd yn enw David Melding hefyd yn nodi, wrth gwrs, fod gennym y posibilrwydd o gael pwerau treth incwm fel deddfwrfa aeddfed, effeithiol ac atebol. Byddai'n sefyllfa ryfedd iawn pe na bai ein pwerau polisi yn cyd-fynd â'r aeddfedrwydd sy'n cael ei gynnis ar bwerau ariannol. Byddai'n atgoffa rhywun yn fawr, wrth gwrs, o'r manau canol a'r cyfaddawdau anniben rydym wedi'u dioddef yma ers 1999—cyfaddawdau na fyddai byth wedi gweithio, gyda llaw, rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno ar hynny.

Felly, mae'r cymalau cadw penodol yn y Bil yn gynnyrch proses ddiffygiol ac nid oes ond raid i ni edrych ar lawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor i danlinellu nifer o bryderon a amlygwyd dro ar ôl tro yn y ddatl hon. Nid oes safbwynt cydlynol yn y Bil ynghylch y pwerau y dylai Cymru eu cael fel cenedl ddatganoledig aeddfed. Rydym yn hyd yn oed yn clywed pobl yn siarad am ddatganoli pwerau i Gymru yma ac acw mewn ffordd dameidiog. Yn ddiweddar, mae gennym y posibilrwydd o gynnig mesurau i ddiogelu chwaraeon a diogelwch ar hofrenfadau.

Felly, mae'r amser wedi dod bellach, rwy'n meddwl, i ni i droi'r ddatl ar ei phen. Dylai'r drafodaeth ymwneud bob amser â'r hyn y dylid ei gadw ac nid yr hyn y dylid ei ddatganoli. Mae ynni'n enghraifft allweddol y cyfeirwyd ati eisoes, wrth gwrs, o ran y cydsyniad i'r terfyn 350 MW ar gyfer morlyn llanw bae Abertawe, na fyddai'n cael ei gadw'n ôl. Ond byddai cydsyniad i forlynnoedd arfaethedig eraill o amgylch arfordir Cymru yn cael ei gadw'n ôl wrth gwrs. Nid yw hynny'n gydlynol.

The obvious way forward on reservations would not necessarily be replicating Plaid Cymru's demands—we accept that. There is always a question, of course, of a political mandate. But the way forward would be consensus through, as we've already had, an independent commission or direct negotiation between Welsh and UK Governments, with the Welsh Government, of course, representing the majority opinion of this Assembly.

So we should now change the terms of debate and challenge the UK Government to justify what should be reserved to Westminster. A smaller list of reservations means more clarity, less complexity and less scope for legal challenge. It also means less narrowing of the Assembly's powers due to necessity tests or whatever replaces them. There is no way that a list of reservations as long and complex as the draft Bill can work in practice, and we need to see it cut down to something much more similar to Scotland's. If we really want a more sustainable settlement, then cut it down to a level that represents parity with that nation.

17:55

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much support the Constitutional and Legislative Affairs Committee's view that we need to significantly reduce the number, and, indeed, the extent, of specific reservations and restrictions, consistent with the mature, effective and accountable legislature about to get income tax powers. I agree with that, Llywydd, because reducing these limitations on our powers is an important aspect of the changes required, and also because it acknowledges the context of the devolution journey in Wales, which a number of Assembly Members have already referred to, and I do believe it's worth reflecting on that history.

One reasoned response to historian Gwyn Alf Williams's question, 'When was Wales?', is 'since 1999'. Because, before the Assembly, Wales had little opportunity to shape its own destiny here in Wales. So, 1999 was a huge step forward, but also, of course, a great challenge: to set up a devolved assembly and government with little in the way of existing foundations: no separate education system, legal system, substantial civil service, such as Scotland had, for example.

Nid ailadrodd galwadau Plaid Cymru fyddai'r ffordd amlwg ymlaen o reidrydd o ran cymalau cadw—rydym yn derbyn hynny. Mae yna bob amser gwestiwn yn codi ynghylch mandad gwleidyddol, wrth gwrs, ond y ffordd ymlaen fyddai consensws, fel rydym eisoes wedi'i gael, drwgomisiwn annibynnol neu drafod uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gyda Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn cynrychioli barn fwyafrifol y Cynulliad hwn.

Felly, dylem yn awr newid telerau'r drafodaeth a herio Llywodraeth y DU i gyfiawnhau'r hyn y dylid ei gadw'n ôl i San Steffan. Mae rhestr lai o gymalau cadw yn golygu mwy o eglurder, llai o gymhlethdod a llai o le i her gyfreithiol. Mae hefyd yn golygu llai o gyfyngu ar bwerau'r Cynulliad o ganlyniad i brofion angenrheidiol neu beth bynnag a roddir yn eu lle. Nid oes unrhyw ffordd y gall rhestr o gymalau cadw mor hir a chymhleth â'r Bil drafft weithio'n ymarferol, ac mae angen i ni ei gweld yn cael ei chwotgi'n rhywbeth llawer mwy tebyg i'r hyn sydd gan yr Alban. Os ydym o ddifrif eisiau setliad mwy cynaliadwy, yna cwtogwch y rhestr i lefel sy'n gydradd â'r wlad honno.

Rwy'n frwd fy nghefnogaeth i farn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fod angen i ni leihau cryn dipyn ar nifer a graddau'r cymalau cadw a'r cyfyngiadau penodol a fo'n weddus i ddeddfwrfra aeddfed, effeithiol ac atebol sy'n mynd i gael pwerau treth incwm. Rwy'n cytuno â hynny, Llywydd, oherwydd mae lleihau'r cyfyngiadau hyn ar ein pwerau yn agwedd bwysig ar y newidiadau sydd eu hangen, a hefyd am ei fod yn cydnabod cyd-destun y daith ddatganoli yng Nghymru, y cyfeiriodd nifer o Aelodau'r Cynulliad ati eisoes, ac rwy'n credu ei bod yn werth ystyried yr hanes hwnnw.

Un ymateb rhesymegol i gwestiwn yr hanesydd Gwyn Alf Williams, 'When Was Wales?' yw 'ers 1999'. Oherwydd cyn y Cynulliad, ni chafodd Cymru fawr o gyfle i lunio ei thynged ei hun yma yng Nghymru. Felly, roedd 1999 yn gam mawr ymlaen, ond hefyd, wrth gwrs, roedd yn her fawr: sefydlu cynulliad a llywodraeth ddatganoledig heb fawr o sylfeini a fodolai'n barod: dim system addysg ar wahân, system gyfreithiol, gwasanaeth sifil sylweddol, megis yr hyn a oedd gan yr Alban, er enghraifft.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, as I think some Members have reflected upon in this debate today, Llywydd, those of us who have been fortunate enough and privileged enough to be here since the very beginning have been part of that journey—the journey that followed the secondary legislative powers that we had to begin with. So, we've been through that experience of using those secondary powers, and then through to the legislative competence Orders and Measures, and then, thankfully, to primary powers, thanks to the people of Wales and their support in the referendum. I'm sure that the LCOs and the Measures will provide fertile ground for study for constitutional experts, academics and students for some time to come, given their rather innovative and unique nature, but, for those of us that have been through that history and the twists and turns involved, I think it has been a period of some frustration as well as excitement at the developments that took place. But consistently, I think, we've been talking about obtaining the tools to better serve our communities here in Wales, and it's always been in that context of powers for a purpose. So, you know, some people see these constitutional debates as sterile and not really about on-the-ground delivery for communities here in Wales, but it's a pretty obvious thing to say—but it needs to be said repeatedly—that we are seeking the tools to do a proper job, as it were, for our nation of Wales.

So, in that context, Llywydd, we now have this draft Wales Bill before us, and it really is a major opportunity, isn't it, to put in place a lasting settlement, to move beyond that history and some of those frustrations, to put in place something that will stand the test of time. We can go on, of course, once we get the legislation in place, if we do it effectively, to tell it as it is, as it were, by changing our name to the Welsh Parliament, as other Members have referred to, and, indeed, increasing the number of Assembly Members, again for a purpose, a practical purpose: for better governance and scrutiny. I hope very much, as other Members have mentioned, that we will go on to take those very important steps longed for for many people across Wales over decades and longer.

So, Llywydd, Wales needs a Bill and an Act that provides firm foundations for the exercise of primary law-making powers well into the future. It's clear, isn't it, from the debate we've had today and the debate that's preceded today, that this Bill will not do that without fundamental change. Members have set out the changes required, and indeed, the Constitutional and Legislative Affairs Committee has laid out those necessary changes.

Felly, fel rwy'n credu bod rhai o'r Aelodau wedi sôn yn y ddadl hon heddiw, Lywydd, mae'r rhai ohonom a fu'n ddigon ffodus a breintiedig i fod yma ers y cychwyn cyntaf wedi bod yn rhan o'r daith honno—y daith a ddilynodd y pwerau is-ddeddfwriaethol a oedd gennym i ddechrau. Felly, rydym wedi bod drwy'r profiad o ddefnyddio'r pwerau is-ddeddfwriaethol hynny, ac yna ymlaen i'r Gorchmynion a'r Mesurau cymhwysedd deddfwriaethol, ac yna, diolch byth, ymlaen at bwerau deddfu sylfaenol, diolch i bobl Cymru a'u cefnogaeth yn y refferendwm. Rwy'n siŵr y bydd y Gorchmynion a'r Mesurau cymhwysedd deddfwriaethol yn darparu tir ffrwythlon i arbenigwyr cyfansoddiadol, academyddion a myfyrwyr ei astudio am beth amser i ddod, o ystyried eu natur braidd yn arloesol ac unigryw, ond i'r rhai ohonom a fu drwy'r hanes ac a gerddodd y llwybr troellog, rwy'n credu ei fod wedi bod yn gyfnod o beth rhwystredigaeth yn ogystal â chyffro ynghylch y datblygiadau a ddigwyddodd. Ond yn gyson, rwy'n meddwl, rydym wedi bod yn siarad am gael yr adnoddau i wasanaethu ein cymunedau yma yng Nghymru yn well, a bob amser yng nghyd-destun pwerau i bwrrpas. Felly, wyddoch chi, mae rhai pobl yn gweld y dadleuon cyfansoddiadol hyn yn rhai anffrwythlon a heb fod yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar lawr gwlad i gymunedau yma yng Nghymru, ond mae'n beth eithaf amlwg i'w ddweud—er bod angen ei ddweud dro ar ôl tro—rydym yn chwilio am yr adnoddau i wneud y gwaith yn iawn, fel petai, dros ein cenedl.

Felly, yn y cyd-destun hwnnw, Lywydd, bellach mae gennym y Bil Cymru drafft ger ein bron, ac mae'n gyfle mawr mewn gwirionedd, onid yw, i sefydlu setliad parhaol, i symud y tu hwnt i'r hanes a rhai o'r rhwystredigaethau hynny, i sefydlu rhywbeth a fydd yn sefyll prawf amser. Gallwn fynd ymlaen, wrth gwrs, ar ôl i ni osod y ddeddfwriaeth yn ei lle, os ydym yn ei wneud yn effeithiol, ei dweud hi fel y mae, fel petai, drwy newid ein henw'n Senedd Cymru, fel y soniodd Aelodau eraill, ac yn wir, cynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad, unwaith eto i bwrrpas, pwrpas ymarferol: er mwyn gwella llywodraethu a chraffu. Rwy'n gobeithio'n fawr iawn, fel y mae Aelodau eraill wedi sôn, y byddwn yn symud ymlaen i roi'r camau pwysig hynny ar waith, y camau y mae llawer o bobl ledled Cymru wedi dyheu amdanynt dros y degawdau ac yn hwy na hynny.

Felly, Lywydd, mae Cymru angen Bil a Deddf sy'n darparu sylfeini cadarn ar gyfer arfer pwerau deddfu sylfaenol ymhell i'r dyfodol. Mae'n amlwg, onid yw, o'r ddadl a gawsom heddiw a'r ddadl a gafwyd cyn heddiw, na fydd y Bil hwn yn gwneud hynny heb newid sylfaenol. Mae'r Aelodau wedi nodi'r newidiadau sydd eu hangen, ac yn wir, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi nodi'r newidiadau angenrheidiol hynny.

So, Llywydd, I think it's absolutely clear that there is a strong, clear consensus here today and across Wales, civic society, academics, legal experts and many others that we do need these changes that many Members have referred to today. We do have a strong consensus. The change must be firmly based on subsidiarity and it must address that clear consensus of concern, which I think is so very importantly expressed during this crucial debate, which has gone on for quite some time here today, but I think necessarily so. When we reflect on that debate and we see the changes that hopefully will come, we will see that it is time well spent.

Felly, Lywydd, rwy'n credu ei bod yn gwbl glir fod yna gonsensws cryf ac eglur yma heddiw ac ar draws Cymru, y gymdeithas ddinesig, academyddion, arbenigwyr cyfreithiol a llawer o rai eraill ein bod angen y newidiadau hyn y cyfeiriodd llawer o'r Aelodau atynt heddiw. Mae gennym gonsensws cryf. Mae'n rhaid seilio'r newid yn gadarn ar sybsidiaredd a rhaid iddo fynd i'r afael â'r consensws clir o bryder, y credaf ei fod wedi'i fynegi mewn modd mor bwysig yn ystod y ddadl allweddol hon sydd wedi bod yn mynd rhagddi ers cryn dipyn o amser yma heddiw, ond rwy'n meddwl bod hynny'n angenrheidiol. Pan fyddwn yn ystyried y ddadl ac yn gweld y newidiadau a ddaw, gobeithio, byddwn yn gweld ei fod yn amser wedi'i dreulio'n dda.

18:00

William Powell [Bywgraffiad Biography](#)

I'm very grateful to John Griffiths and indeed also to Llyr Gruffydd for setting this particular section of the debate in its historical context. I think it's fair to observe that, at a much earlier stage in its gestation, this Bill did have a Liberal Democrat midwife in the room, although, following our departure from Government, things have, as we see, gone badly awry. I think it would also be fair to observe that there are some areas where progress is made in what is before us today. Particularly, I would join Professor Roger Scully in hailing the fact that we would at last have control over our own electoral arrangements—I think that's important—although I agree with Jenny Rathbone's comments with regard to the energy consents: this is a step forward but it doesn't go far enough. We heard that emphasised in a ministerial scrutiny session in our Environment and Sustainability Committee just this morning. We would clearly need to go further in this and other areas.

We have long sought devolution of powers for policing and criminal justice, and it is particularly disappointing that we did not secure agreement on this in the St David's Day process. That is something that we need to revisit.

Regarding the reservations list itself, it is clear that this is very much a Whitehall interpretation of where the current boundaries lie between SW1 and CF99. We must keep a watchful eye indeed on what's going on in Westminster departments with regard to any attempt to reverse the Agricultural Wages Board decision in the Supreme Court and any underhand attempt to claw back powers for Westminster.

Rwy'n ddiolchgar iawn i John Griffiths ac yn wir hefyd i Llyr Gruffydd am osod y rhan benodol hon o'r drafodaeth yn ei chyd-destun hanesyddol. Rwy'n credu ei bod yn deg nodi, ar gam llawer cynharach o'i ddatblygiad, roedd gan y Bil hwn fydwraig ar ffurf y Democratiaid Rhyddfrydol yn yr ystafell, er bod pethau, ers i ni adael y Llywodraeth, wedi mynd o chwith yn arw, fel y gwelwn. Rwy'n credu y byddai hefyd yn deg nodi bod rhai meysydd lle y gwneir cynnydd yn yr hyn sydd ger ein bron heddiw. Yn benodol, byddwn yn ategu croeso yr Athro Roger Scully i'r ffaith y byddai gennym reolaeth o'r diwedd ar ein trefniadau etholiadol ein hunain—rwy'n credu bod hynny'n bwysig—er fy mod yn cytuno â sylwadau Jenny Rathbone mewn perthynas â'r cydsyniadau ynni: mae'n gam ymlaen, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell. Clywsom hynny'n cael ei bwysleisio mewn sesiwn graffu weinidogol yn ein Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y bore yma. Yn amlwg byddai angen i ni fynd ymhellach yn hyn o beth ac mewn meysydd eraill.

Rydym wedi galw ers amser hir am ddatganoli pwerau dros blismona a chyfiawnder troseddol, ac mae'n arbennig o siomedig na lwyddom i sicrhau cytundeb ar hyn ym mhroses y cytundeb Dydd Gŵyl Dewi. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni edrych arno eto.

O ran y rhestr o gymalau cadw ei hun, yn bendant mae'n amlwg mai dehongliad Whitehall yw hwn o ble y mae'r ffiniau presennol rhwng SW1 ac CF99. Mae'n rhaid i ni gadw llygad barcud yn wir ar yr hyn sy'n digwydd yn adrannau San Steffan mewn perthynas ag unrhyw ymgais i wrthdroi penderfyniad y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn y Goruchaf Lys ac unrhyw ymgais lechwraidd i adfachu pwerau i San Steffan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We must also ask ourselves, as others have observed, whether it is truly a reserved-powers Bill. While there are obvious powers to reserve, the Wales Office also seems to propose that powers over hovercraft, dangerous dogs, gender recognition, driving instruction, exploitation of coal and betting should be controlled by London. This is indeed a bizarre list. Would seeing these powers invested in Wales mean the unravelling of our constitution? I think not. I believe that we must espouse the values of subsidiarity, as has been argued already this afternoon. We must work on the basis that powers are invested in the Welsh people and that they then should be transferred up where the case is made. I don't think that Whitehall would have a difficult time convincing us that defence or space exploration should be reserved matters benefiting from common purpose and direction, economies of scale and so on, but I would love to hear the argument that other powers are best held at Westminster, because I don't believe that that has any basis.

Rhaid i ni ofyn i ni ein hunain hefyd, fel y mae eraill wedi nodi, ai Bil cadw pwerau'n ôl yw hwn go iawn. Er bod pwerau amlwg i'w cadw, mae'n ymddangos bod Swyddfa Cymru hefyd yn cynnig y dylai pwerau dros hofrenfadau, cŵn peryglus, cydnabod rhyw, hyfforddiant gyrru, ymelwa ar lo a betio gael eu rheoli gan Lundain. Mae hon yn rhestr ryfedd yn wir. A fyddai gweld y pwerau hyn yn cael eu rhoi i Gymru yn arwain at ddatod ein cyfansoddiad? Nid wyf yn meddwl hynny. Credaf fod yn rhaid i ni arddel gwerthoedd sybsidiaredd, fel y dadleuwyd eisoes y prynhawn yma. Rhaid i ni weithio ar y sail fod pwerau yn cael eu rhoi i bobl Cymru ac y dylid eu trosglwyddo i fyny os gwneir achos dros hynny. Nid wyf yn credu y byddai Whitehall yn cael amser anodd yn ein hargyhoeddi y dylai amddiffyn neu archwilio'r gofod fod yn faterion a gedwir yn ôl sy'n elwa o bwrpas a chyfeiriad cyffredin, arbedion maint ac yn y blaen, ond buaswn wrth fy modd yn clywed y ddadl mai cadw pwerau eraill yn San Steffan sydd orau, gan na chredaf fod unrhyw sail i hynny.

18:03

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Since this is the first time I've spoken in this debate, can I take the opportunity to thank David Melding, as chair of the committee that has led both the investigation and the inquiry and also the debates this afternoon? I think many of us are very grateful to him for his leadership, which he's shown again in the Chamber. But also I thank staff and the witnesses, whose patience I think we tested on a number of occasions during our inquiry. It was an important inquiry and it was important to get it right. In reviewing the draft Bill that was presented to us, I do take the points that have been made by Angela Burns this afternoon that a draft Bill is a draft Bill, and we accept that, but we read that Bill with the words of the Secretary of State in our ears. When he was here last summer speaking in the Queen's Speech debate he was very, very clear about his ambitions and his visions for that Bill and he was clear about what he wanted that Bill to achieve—a secure place for this institution in the constitution of the United Kingdom and also to settle the question of devolution for a generation. He was very, very clear about his ambition to create clarity and stability in the settlement, and I think the disappointment that's been articulated by many speakers this afternoon is borne not simply of reading the Bill, but also reading the Bill and knowing the ambitions that were set for it by the Secretary of State himself. I think that is certainly the perspective that I come from.

Gan mai dyma'r tro cyntaf i mi siarad yn y ddadl hon, a ga fi fanteisio ar y cyfle i ddiolch i David Melding, fel cadeirydd y pwyllgor a arweiniodd yr archwiliad a'r ymchwiliad a hefyd am y dadleuon y prynhawn yma? Rwy'n meddwl bod llawer ohonom yn ddiolchgar iawn iddo am yr arweinyddiaeth a ddangosodd unwaith eto yn y Siambr. Ond hefyd diolch i'r staff a'r tystion: credaf ein bod wedi profi eu hamynedd ar sawl achlysur yn ystod ein hymchwiliad. Roedd yn ymchwiliad pwysig ac roedd yn bwysig ei gael yn iawn. Wrth adolygu'r Bil drafft a gyflwynwyd i ni, rwy'n derbyn y pwyntiau a wnaeth Angela Burns y prynhawn yma mai Bil drafft yw Bil drafft, ac rydym yn derbyn hynny, ond aethom ati i ddarllen y Bil gyda geiriau'r Ysgrifennydd Gwladol yn ein clustiau. Pan oedd yma yr haf diwethaf yn siarad yn y ddadl ar Araith y Frenhines roedd yn glir iawn, iawn ynglŷn â'i uchelgais a'i weledigaeth ar gyfer y Bil ac roedd yn glir ynghylch yr hyn yr oedd am i'r Bil ei gyflawni—lle diogel ar gyfer y sefydliad hwn yng nghyfansoddiad y Deyrnas Unedig yn ogystal â setlo cwestiwn datganoli am genhedlaeth. Roedd yn glir iawn, iawn ynglŷn â'i uchelgais i sicrhau eglurder a sefydlogrwydd y setliad, ac rwy'n meddwl bod y siom a fynegwyd gan lawer o siaradwyr y prynhawn yma yn deillio nid yn unig o ddarllen y Bil, ond hefyd o ddarllen y Bil a gwybod am yr uchelgeisiau a osodwyd ar ei gyfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun. Yn sicr, rwy'n credu mai dyna yw fy safbwynt i.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

When I looked and read through the draft Bill, what struck me, and I think has struck many people, is that one of its fundamental weaknesses is that there appears to be little evidence of any intellectual or philosophical underpinning of it. The Secretary of State appeared—and he said this in evidence to the committee—and he went on a round robin around Whitehall asking civil servants and other Ministers what they would like to see remaining as a reserved power and then put it straight in the Bill without any examination of that process at all, seemingly, and without any idea of what the cumulative effect of all of those reservations would actually achieve for the powers available here, but also for the balance of powers between here and Westminster and the implications of that for the wider constitution. Having made that mistake, he then decided to put in a whole series of Scottish clauses into the legislation, which, of course, are designed for a situation where the number of reserved powers is significantly smaller. The consequence is that you have a Bill that is inconsistent, unworkable and profoundly disappointing in all sorts of different ways. If he had taken a different stance right at the beginning, then perhaps we wouldn't be having a debate of this nature this afternoon.

It's difficult for anybody here to understand why the powers that are being made available to Wales are so different and so limited when compared with either Northern Ireland or Scotland, or even, when we consider policing, Manchester. It appears to me that there is little consistency and little sense of vision when we review that sort of situation. That isn't a tetchy point; that is a point of absolute analysis of what is being offered. Many of us felt—and we were warned in evidence not to be too optimistic, I accept that—that a reserved-powers model would be a means and a way of resolving the problems that Kirsty Williams and others have described that we've experienced over the last couple of decades.

But this is a reserved-powers model that has been created on a conferred-powers mentality, and, as a consequence of that, it is the worst possible reserved-powers model. It has received the support of no significant part or element of Welsh life, as far as I can see. We heard from no witnesses in front of the committee who supported the Secretary of State in what he was proposing and his approach. Nobody at all came to the committee providing written or oral evidence saying that they supported the structure and the architecture of the Bill that was being proposed. That, I think, is a very, very great disappointment.

The evidence that has been provided by committees of the National Assembly, I think, is equally as important, because it demonstrates not only issues where reservations should not have been made, but also where the competence of this place is being limited and reduced. If we are—and I agree very much with the point made in his opening speech by the First Minister—in this place to be a parliament, it has to be a parliament in fact and not simply in name. That means that it has to have the powers that are commensurate with a parliamentary democracy within the United Kingdom and that means a comparison with the other home-rule parliaments that exist within the United Kingdom. That, I think, is a starting point for where we need to be.

Pan edrychais ar y Bil drafft a darllen drwyddo, yr hyn a'm trawodd i, ac rwy'n meddwl ei fod wedi taro llawer o bobl, yw mai un o'i wendidau sylfaenol yw ei bod yn ymddangos nad oes llawer o dystiolaeth o unrhyw sail ddeallusol neu athronyddol iddo. Ymddangosodd yr Ysgrifennydd Gwladol—a dywedodd hyn mewn tystiolaeth i'r pwyllgor—ac aeth ar daith o amgylch Whitehall i ofyn i weision sifil a Gweinidogion eraill beth fyddent yn hoffi ei weld yn aros yn bŵer a gedwir yn ôl ac yna ei roi'n syth yn y Bil heb archwilio'r broses honno o gwbl, yn ôl pob golwg, a heb unrhyw syniad o'r hyn y byddai effaith gronnyd yr holl gymalau cadw hynny mewn gwirionedd yn ei gyflawni o ran y pwerau a fyddai ar gael yma, ond hefyd o ran cydbwysu'r pwerau rhwng y fan hon a San Steffan a goblygiadau hynny i'r cyfansoddiad ehangach. Ar ôl gwneud y camgymeriad hwnnw, penderfynodd gynnwys cyfres gyfan o gymalau o'r Alban yn y ddeddfwriaeth wedyn, cymalau a luniwyd, wrth gwrs, ar gyfer sefyllfa lle y mae nifer y pwerau a gadwyd yn ôl gryn dipyn yn llai. Y canlyniad yw bod gennych Fil sy'n anghyson, yn anymarferol a hynod o siomedig mewn pob math o ffyrdd gwahanol. Pe bai wedi mabwysiadu safbwynt gwahanol ar y dechrau, yna efallai na fyddem yn cael dadl fel hon y prynhawn yma.

Mae'n anodd i neb yma ddeall pam y mae'r pwerau sy'n cael eu rhoi i Gymru mor wahanol ac mor gyfyngedig o gymharu â naill ai Gogledd Iwerddon neu'r Alban, neu hdy yn oed Manceinion, wrth ystyried plismona. Ymddengys i mi mai ychydig o gysondeb ac ychydig o synnwyr o weledigaeth a geir wrth i ni adolygu sefyllfa o'r fath. Nid piwisrwydd yw hynny; mae'n bwynt sy'n ddadansoddiad absoliwt o'r hyn sy'n cael ei gynnig. Teimlai llawer ohonom—a chawsom ein rhybuddio mewn tystiolaeth i beidio â bod yn rhy optimistaidd, rwy'n derbyn hynny—y byddai model cadw pwerau'n ôl yn fodd ac yn ffordd o ddatrys y problemau y mae Kirsty Williams ac eraill wedi disgrifio, problemau a brofwyd gennym dros y ddau ddegawd diwethaf.

Ond mae hwn yn fodel cadw pwerau'n ôl a grëwyd yn ôl meddylfryd rhoi pwerau, ac o ganlyniad i hynny, dyma'r model cadw pwerau'n ôl gwaethaf posibl. Nid yw wedi cael cefnogaeth unrhyw ran neu elfen arwyddocaol o fywyd Cymru, cyn belled ag y gallaf weld. Ni chlywsom gan unrhyw dystion gerbron y pwyllgor a gefnogodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr hyn a gynigiai a'i ddull o weithredu. Ni ddaeth neb o gwbl i'r pwyllgor wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth lafar i ddweud eu bod yn cefnogi strwythur a phensaerniaeth y Bil a gâi ei gynnig. Mae hynny, rwy'n meddwl, yn siom enbyd.

Rwy'n meddwl bod y dystiolaeth a ddarparwyd gan bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yr un mor bwysig, gan ei bod yn dangos nid yn unig y materion lle na ddylid bod wedi gwneud cymalau cadw, ond hefyd lle y mae cymhwysedd y lle hwn yn cael ei gyfyngu a'i leihau. Os ydym—a chytunaf yn llwyr â'r pwynt a wnaeth y Prif Weinidog yn ei araith agoriadol—i fod yn senedd yn y lle hwn, mae'n rhaid iddi fod yn senedd mewn gwirionedd ac nid mewn enw'n unig. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid iddi gael y pwerau sy'n gymesur â bod yn ddemocratiaeth seneddol o fewn y Deyrnas Unedig ac mae hynny'n golygu cymhariaeth â seneddau cartref ymreolus eraill sy'n bodoli o fewn y Deyrnas Unedig. Rwy'n meddwl bod hwnnw'n fan cychwyn ar gyfer lle y mae angen i ni fod.

I agree with the points that were made by the committee and were outlined by David Melding in his introduction. The principle of subsidiarity should have been the starting point for this process, but not simply subsidiarity in a vacuum, if you like, but within a vision of what the United Kingdom has to be, itself. All too often, our debates on the powers of this place revolve around the powers of this place. We also need to recognise that we need to have a vision of the powers that are reserved and that are rightly and properly held in Westminster for the effective function of the United Kingdom state. That means that we need to have a very clear vision of what that happens to be. The most coherent and convincing vision that I've heard outlined was that of the Welsh Government, which, I think, based its views on the Calman commission in 2009, in evidence to the House of Lords committee on this matter, where it described the United Kingdom as an economic union, a political union and a social union, and that the powers that need to be held in the United Kingdom have to be powers to ensure that there are no barriers to trade or to business and employment across the different parts of the United Kingdom, and that the politics and the social union—so important, I think, to ensure a sense of unity amongst the different peoples of the United Kingdom—are reserved powers, and that those reserved powers have a coherence in themselves. So, we're not simply talking about devolved powers that have a coherence, but reserved powers that have a coherence as well.

And I believe that we also need to look at how we share responsibility for some issues, particularly in the cultural sphere. We've been debating broadcasting in recent times, and I think broadcasting is an example where economic regulation should rightly be held by the Westminster Parliament and be a UK responsibility, but the cultural impact of broadcasting and the place of Wales and the peoples of the United Kingdom, as demonstrated on our screens and by our broadcasters, is rightly something that this place and other parliaments would take an interest in.

Let me finish on a point about the issues of finance. I agree with the position taken by the Secretary of State on the devolution of income tax powers. I don't believe that a referendum is necessary for that, but I do believe that an Assembly and a parliamentary process has to lead and underpin that process. I don't believe that the Secretary of State should be able to take that decision somewhere up in Whitehall or Westminster, or somewhere else, to telephone or write to the First Minister, or whoever, and say, 'This is happening whether you like it or not, and it's going to happen in this way whether you like it or not'. That is not a respect agenda, and neither is it emblematic of a relationship between institutions within a federal system. And we need to have a process for the devolution of these additional powers, and it needs to happen with the consent of this place as well.

Cytunaf â'r pwyntiau a wnaeth y pwyllgor ac a amlinellwyd gan David Melding yn ei gyflwyniad. Dylai egwyddor sybsidiaredd fod wedi bod yn fan cychwyn ar gyfer y broses hon, ond nid sybsidiaredd mewn gwacter, os mynnwch, ond yn rhan o'r weledigaeth o'r hyn sy'n rhaid i'r Deyrnas Unedig ei hun fod. Yn rhy aml o lawer, mae ein dadleuon ar bwerau'r lle hwn yn troi o gwmpas bwerau'r lle hwn. Mae angen i ni hefyd gydnabod bod angen i ni gael gweledigaeth ynghylch y bwerau a gedwir yn ôl ac a ddelir yn gywir ac yn briodol yn San Steffan ar gyfer gweithrediad effeithiol gwladwriaeth y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n golygu bod angen i ni gael gweledigaeth glir iawn o'r hyn yw hynny'n digwydd bod. Y weledigaeth fwyaf cydlynol ac argyhoeddiadol y clywais ei disgrifio oedd un Llywodraeth Cymru, a seiliodd ei barn ar gomisiwn Calman yn 2009, mewn tystiolaeth i bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar y mater hwn, lle y disgrifiodd y Deyrnas Unedig fel undeb economaidd, undeb gwleidyddol ac undeb cymdeithasol, a bod yn rhaid i'r bwerau sydd angen eu cadw yn y Deyrnas Unedig fod yn bwerau i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i fasnachu neu i fusnesau a chyflogaeth ar draws y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, a bod yr undeb gwleidyddol a'r undeb cymdeithasol—sydd mor bwysig, rwy'n meddwl, ar gyfer sicrhau ymdeimlad o undod ymysg gwahanol bobloedd y Deyrnas Unedig—yn cael eu cadw'n ôl, a bod y bwerau hynny a gedwir yn ôl yn gydlynol ynddynt eu hunain. Felly, nid ydym yn sôn yn unig am bwerau datganoledig cydlynol, ond am bwerau a gadwyd yn ôl sy'n gydlynol hefyd.

Ac rwy'n credu bod angen i ni edrych hefyd ar sut rydym yn rhannu cyfrifoldeb am rai materion, yn enwedig yn y maes diwylliannol. Rydym wedi bod yn trafod darlledu yn ddiweddar, ac rwy'n meddwl bod darlledu yn enghraifft lle y dylai Senedd San Steffan ysgwyddo cyfrifoldeb am reoleiddio economaidd a dylai fod yn gyfrifoldeb y DU, ond mae effaith ddiwylliannol darlledu a lle Cymru a phobloedd y Deyrnas Unedig, fel y dangoswyd ar ein sgriniau a chan ein darlledwyr, yn gywir ddigon yn rhywbeth y byddai'r lle hwn a seneddau eraill â diddordeb ynddo.

Gadewch i mi orffen ar bwynt yn ymwneud â materion cyllid. Rwy'n cytuno â safbwynt yr Ysgrifennydd Gwladol ar ddatganoli bwerau treth incwm. Nid wyf yn credu bod angen refferendwm ar gyfer hynny, ond rwy'n credu bod yn rhaid i Gynulliad a phroses seneddol arwain a bod yn sail i'r broses honno. Nid wyf yn credu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol allu mynd â'r penderfyniad hwnnw i rywle yn Whitehall neu San Steffan, neu yn rhywle arall, a ffonio neu ysgrifennu at y Prif Weinidog, neu bwy bynnag, a dweud, 'Mae hyn yn digwydd pa un a ydych yn ei hoffi ai peidio, ac mae'n mynd i ddigwydd yn y ffordd hon pa un a ydych yn ei hoffi ai peidio'. Nid agenda parch yw honno, ac nid yw ychwaith yn arwydd o berthynas rhwng sefydliadau o fewn system ffederal. Ac mae angen i ni gael proses ar gyfer datganoli'r bwerau ychwanegol hyn, ac mae angen iddo ddigwydd gyda chydysyniad y lle hwn hefyd.

Let me just say in closing that when we do have those powers here, we do need to look at how the redistribution of wealth within the United Kingdom actually works and works fairly for everybody in the United Kingdom, and not simply a means of us saying, 'Well, we want more money here or we want more money there', which, of course, is a fair position to take, but a means of ensuring that there is fairness across the United Kingdom. If Wales was in the happy situation of having a gross domestic product that is higher than the average—higher than many parts of England, Scotland or Northern Ireland—I would be very happy for this country to pay into that UK pot to be redistributed to other parts of the United Kingdom that need it and that are poorer—a fundamental part of an economic and social union. But that has to be done fairly, and I don't believe that the Treasury can be trusted, quite frankly, to do that fairly. So, we need to have a UK institution that will be responsible for the distribution and redistribution of wealth across the United Kingdom. Thank you.

Gadewch i mi ddweud wrth gloi, pan fydd gennym y pwerau hynny yma, mae angen i ni edrych ar sut y mae aiddosbarthu cyfoeth o fewn y Deyrnas Unedig yn gweithio mewn gwirionedd ac yn gweithio'n deg i bawb yn y Deyrnas Unedig, ac nid yn unig yn fodd i ni ddweud, 'Wel, rydym am gael mwy o arian yma neu rydym am gael mwy o arian yn y fan acw', sy'n safbwynt teg i'w gymryd, wrth gwrs, ond yn fodd o sicrhau tegwch ar draws y Deyrnas Unedig. Pe bai Cymru yn y sefyllfa hapus o gael cynnyrch domestig gros sy'n uwch na'r cyfartaledd—yn uwch na sawl rhan o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon—byddwn yn hapus iawn i'r wlad hon dalu i mewn i'r pot hwnnw ar gyfer y DU i'w aiddosbarthu i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig sydd ei angen ac sy'n dlotach—rhan sylfaenol o undeb economaidd ac undeb cymdeithasol. Ond mae'n rhaid ei wneud yn deg, ac nid wyf yn credu y gellir ymddiried yn y Trysorlys, a dweud y gwir, i wneud hynny yn deg. Felly, mae angen i ni gael sefydliad yn y DU a fydd yn gyfrifol am ddsosbarthu ac aiddosbarthu cyfoeth ar draws y Deyrnas Unedig. Diolch.

18:13 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When the Secretary of State for Wales gave his evidence before the Welsh Affairs Committee on the issue of reservations, he said that

'If there are quirks in the list of reservations that clearly stick out as, "That looks odd. Why would you be holding that back, given that you have devolved other areas?" then let's bring that out, make the case for that, for example things like street pedlars, which is one of the reservations in the list'.

Now, that makes you wonder, doesn't it, whose Bill it actually is and who is actually in control of the Bill. And that probably explains why it is that the list of reservations we have has got no explanation as to why they've been reserved, what the logic is and what the impact would actually be on this place and on devolution.

When the committees came to actually consider the impact of the draft Bill, certainly the committees I was on found that it was almost impossible to actually work out what we could do, because it was such an extensive list, and because the reserved-powers model would undermine the Supreme Court judgment on the Agricultural Sector (Wales) Bill, effectively, it would mean that this place would be almost paralysed; it would be able to do little more other than to administer what it is currently doing. And that paralysis was almost the reason why the committees were unable to actually say, 'What impact would this have on these areas of responsibility?', because no-one could actually work it out, so bad was the drafting and so extensive was the list.

One of the areas I was pleased to see in the correspondence from Welsh Government to the Secretary of State for Wales was to actually say, 'Why on earth is gambling included?', and that followed on from the individual Member debate we had here and the motion that was passed here. But if it's good enough for Scotland, why shouldn't it be here? Why shouldn't we, as a public health matter, be able to actually control fixed-odd betting machines and so on?

Pan roddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Materion Cymreig ar fater cymalau cadw, dywedodd

'If there are quirks in the list of reservations that clearly stick out as, "That looks odd. Why would you be holding that back, given that you have devolved other areas?" then let's bring that out, make the case for that, for example things like street pedlars, which is one of the reservations in the list'.

Nawr, mae hynny'n gwneud i chi feddwl, onid yw, Bil pw y hwn mewn gwirionedd a phwy mewn gwirionedd sy'n rheoli'r Bil. Ac mae hynny egluro pam, yn ôl pob tebyg, nad yw'r rhestr o gymalau cadw sydd gennym yn cynnwys unrhyw esboniad ynglŷn â pham eu bod wedi cael eu cadw, beth yw'r rhesymeg a beth fyddai'r effaith mewn gwirionedd ar y lle hwn, ac ar ddatganoli.

Pan ddaeth y pwyllgorau i ystyried effaith y Bil drafft, roedd y pwyllgorau roeddwn yn gwasanaethu arnynt yn canfod ei bod bron yn amhosibl gweithio allan beth y gallem ei wneud mewn gwirionedd, oherwydd ei bod yn rhestr mor helaeth, ac oherwydd y byddai'r model cadw pwerau yn tansellio dyfarniad y Goruchaf Lys ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru), yn ymarferol, byddai'n golygu y byddai'r lle hwn yn cael ei barlysu bron; ni fyddai'n gallu gwneud llawer mwy na gweinyddu'r hyn y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. A'r parlys hwnnw oedd y rheswm i raddau pam na allai'r pwyllgorau ddweud mewn gwirionedd, 'Pa effaith fyddai hyn yn ei chael ar y meysydd cyfrifoldeb hyn?', gan nad oedd neb yn ei ddeall, mor wael oedd y drafftio ac mor helaeth oedd y rhestr.

Un o'r meysydd roeddwn yn falch o weld yn yr ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru i Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd dweud mewn gwirionedd, 'Pam yn y byd y mae gamblo yn cael ei gynnwys?', ac roedd hynny'n dilyn y ddatl Aelod unigol a gawsom yma a'r cynnig a basiwyd yma. Ond os yw'n ddigon da i'r Alban, pam nad yw'n ddigon da yn fan hyn? Pam na ddylem, fel mater iechyd cyhoeddus, allu rheoli peiriannau betio ods-sefydlog ac yn blaen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The main point I want to make is this: we've talked a lot about consents, restrictions and reservations and so on. But, of course, one area where we will still have to seek consent, in accordance with the Wales Act 2014, is in respect of fiscal powers in respect of devolved areas. I know I've raised this before, and I know it hasn't formed much of the debate, but it seems to me it is still an important area, and that's why I wanted to get that particular point on record. Because if, for example, we want to take a decision within our new powers that, for example, raised a levy on sugary drinks, or a hotel-room levy to help fund tourism, or as, indeed, with the asbestos Bill that I introduced some while back, we don't have the power, unless we actually go under that procedure, under the 2014 Act, to seek the consent of Westminster. I think that is an area that has been overlooked in the discussions, in the debate and in the draft Bill. I don't know whether it's too late to try and rectify that. It hasn't actually been scrutinised in any area, but it seems to me it is a major omission in the discussions that we've actually had.

Y prif bwynt rwyf am ei wneud yw hwn: rydym wedi siarad llawer am ganiatâd, cyfyngiadau a chymalau cadw ac yn y blaen. Ond, wrth gwrs, un maes y bydd angen i ni sicrhau caniatâd ar ei gyfer o hyd, yn unol â Deddf Cymru 2014, yw pwerau cyllidol mewn perthynas â meysydd sydd wedi'u datganoli. Rwy'n gwybod fy mod wedi codi'r mater hwn o'r blaen, ac rwy'n gwybod nad yw wedi'i drafod llawer yn ystod y ddadl, ond mae'n ymddangos i mi ei fod yn dal i fod yn faes pwysig, a dyna pam roeddwn yn awyddus i'r pwynt penodol hwnnw gael ei gofnodi. Oherwydd os, er enghraifft, rydym am wneud penderfyniad o fewn ein pwerau newydd sydd, er enghraifft, yn codi ardoll ar ddiodydd llawn siwgr, neu ardoll ystafell gwesty i helpu i ariannu twristiaeth, neu, yn wir, fel gyda'r Bil asbestos a gyflwynais rywfaint o amser yn ôl, nid oes gennym y pŵer, oni bai ein bod mewn gwirionedd yn mynd o dan y weithdrefn honno, o dan Ddeddf 2014, i geisio caniatâd San Steffan. Credaf ei fod yn faes sydd wedi cael ei anwybyddu yn y trafodaethau, yn y ddadl ac yn y Mesur drafft. Nid wyf yn gwybod a yw'n rhy hwyr i geisio unioni hynny. Nid oes proses graffu wedi'i chynnal mewn unrhyw faes, ond mae'n ymddangos i mi ei fod yn ddiffyg mawr yn y trafodaethau rydym wedi'u cael.

18:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I will be brief, because so many Members have made the points already that I would have wished to make. I have to say, listening to Angela Burns's contribution, much of which I agreed with, I have to say, I did find some of it curious. If a Minister of the Welsh Government appeared before a committee when a committee was considering a Bill, and upon being asked why something was in the Bill said, 'Yes, I'm surprised to see it there myself', Members would be stunned by that response. Members would say, 'Well, it's your Bill, you should know'. It's the same, I'm afraid, with the Secretary of State. He sometimes gives the impression that he is a bystander in a Bill that someone else has introduced. He isn't. It's not civil servants who introduced the Bill, he has. It's his responsibility to ensure that he's read it and is aware of what's in that Bill. The Wales Office is not a big department. It's very much a smaller department, compared to the size of the Welsh Government, and we could have offered this assistance at the very beginning. I'm surprised when I hear the Secretary of State say that, as if this Bill was nothing to do with him. It is his Bill at the end of the day.

Byddaf yn gryno, gan fod cynifer o Aelodau eisoes wedi gwneud y pwyntiau y byddwn wedi dymuno eu gwneud. Mae'n rhaid i mi ddweud, wrth wrando ar gyfraniad Angela Burns, er i mi gytuno â llawer ohono, rhaid i mi ddweud, roedd rhywfaint ohono braidd yn rhyfedd. Pe bai un o Weinidogion Llywodraeth Cymru yn ymddangos gerbron pwyllgor pan oedd pwyllgor yn ystyried Bil, ac yn ymateb i gwestiwn am gynnwys rhywbeth penodol yn y Bil drwy ddweud, 'Ie, rwy'n synnu fy hun ei fod yno', byddai'r Aelodau yn cael eu syfrdanu gan yr ymateb hwnnw. Byddai'r Aelodau yn dweud, 'Wel, eich Bil chi yw e, dylech chi wybod'. Mae'r un peth yn wir, yn anffodus, am yr Ysgrifennydd Gwladol. Weithiau mae'n rhoi'r argraff ei fod yn sefyll o'r neilltu a bod Bil wedi'i gyflwyno gan rywun arall. Nid yw hynny'n wir. Nid gweision sifil sydd wedi cyflwyno'r Bil, ond yr Ysgrifennydd Gwladol. Ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod wedi ei ddarllen a'i fod yn ymwybodol o'r hyn sydd yn y Bil. Nid yw Swyddfa Cymru yn adran fawr. Mae'n adran llawer llai o'i gymharu â maint Llywodraeth Cymru, a galledd fod wedi cynnig y cymorth hwn ar y cychwyn cyntaf. Rwy'n synnu clywed yr Ysgrifennydd Gwladol yn dweud hynny, fel pe bai'r Bil hwn heb unrhyw beth i'w wneud ag ef. Ei Fil ef yw e ar ddiwedd y dydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the Bill itself, the fact is that there are 34 pages with 217 separate reservations. That tells you already that the Bill is too complicated and that there are too many reservations. It is still the case that discussions are taking place with other Whitehall departments where they are coming forward with their own proposals, still, which the Wales Office isn't aware of. So, there was a meeting some weeks ago before Christmas when officials, not from the Wales Office, came and discussed devolution issues with Welsh Government officials. They said they wanted to see coracles and canoes removed from the devolved competence of the Assembly—I'm not aware of coracles existing anywhere else, apart from Wales—on the grounds that they are shipping. [Laughter.] I don't think the Secretary of State knows that. But, it does show that there are officials in other Whitehall departments who are freelancing. Someone needs to get a grip of the process so that we can be confident that, when I am in discussions with the Secretary of State, the Secretary of State is fully across, and has control of, other Whitehall departments.

I'm not going to go through the list of reservations. I'll just draw on some examples of where work needs to be done. It's still anomalous that executive competence over civil contingencies does not rest with Welsh Ministers when it does in Scotland. It's an issue in terms of responding to emergencies. Angela Burns is absolutely right in terms of what she says about compulsory purchase. Just to clarify, it's the legislation around compulsory purchase that wouldn't be devolved, and executive powers would still remain. The planning and the compulsory purchase systems are one and the same. Let's say, for example, there were plans to consolidate the legislation in that area. It couldn't be done, because compulsory purchase isn't devolved. Similarly, the community infrastructure levy tax; it's entirely a planning levy and yet there are no proposals to devolve it. She's absolutely right in terms of what she says there.

O ran y Bil ei hun, y ffaith yw bod yna 34 o dudalennau gyda 217 o gymalau cadw ar wahân. Mae hynny'n dweud wrthyh eisoes bod y Bil yn rhy gymhleth a bod gormod o bwerau wedi'u cadw. Mae'n dal yn wir bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag adrannau eraill yn Whitehall lle y maent yn cyflwyno eu cynigion eu hunain, o hyd, nad yw Swyddfa Cymru yn ymwybodol ohonynt. Felly, roedd yna gyfarfod ychydig wythnosau yn ôl cyn y Nadolig pan ddaeth swyddogion, nid o Swyddfa Cymru, i drafod materion datganoli gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Dywedasant eu bod eisiau gweld cwryglau a chanwôd yn cael eu dileu o'r meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad - nid wyf yn ymwybodol bod cwryglau yn bodoli unrhyw le arall ar wahân i Gymru - ar y sail eu bod yn llongau. [Chwerthin.] Nid wyf yn credu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwybod hynny. Ond, mae'n dangos bod yna swyddogion mewn adrannau eraill yn Whitehall sy'n gwneud gwaith llawrydd. Mae angen i rywun gael gafael ar y broses fel y gallwn fod yn hyderus, pan fyddaf yn trafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu ar draws, ac yn rheoli, adrannau eraill yn Whitehall.

Nid wyf yn mynd i fynd trwy'r rhestr o gymalau cadw. Y cwbl rwyf am ei wneud yw nodi rhai enghreifftiau lle mae angen gwneud gwaith. Mae'n dal i fod yn anghyson nad yw cymhwysedd gweithredol dros argyfyngau sifil yn perthyn i Weinidogion Cymru pan mai dyna'r sefyllfa yn yr Alban. Mae'n ymwneud ag ymateb i argyfyngau. Mae Angela Burns yn gwbl gywir yn yr hyn y mae'n ei ddweud am brynu gorfodol. I egluro'r sefyllfa, ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â phrynu gorfodol yn cael ei datganoli, a byddai pwerau gweithredol yn dal i aros. Nid oes gwahaniaeth rhwng y systemau cynllunio a phrynu gorfodol. Gadewch i ni ddweud, er enghraifft, bod yna gynlluniau i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth yn y maes hwnnw. Ni fyddai modd gwneud hynny, gan nad yw pryniant gorfodol wedi'i ddatganoli. Mae'r un peth yn wir am y dreth ardoll seilwaith cymunedol; nid oes amheuaeth ei bod yn ardoll gynllunio ac eto nid oes unrhyw gynigion i'w datganoli. Mae hi'n hollol gywir yn yr hyn mae hi'n ei ddweud yn y cyswllt hwn.

Other areas: the licensing of opencast mining is for the UK Government, but land restoration is for the Welsh Government. Well, thanks for that, because that leaves us, of course, with the mess. When it comes to energy, yes indeed, there are proposals on the face of the Bill to see further, but it's still limited devolution of energy consents. But the transmission of energy isn't going to be devolved. So, in fact, there is an effective veto there for the UK Government in terms of whether an energy project goes ahead in Wales, because it can simply refuse to give consent for the transmission of that electricity. In Scotland, the executive consents are devolved. And of course, within the Bill itself, there's a serious question mark as to whether the Welsh Government will have the ability to have separate pay and conditions in the public sector. They already exist, particularly in the NHS. On the face of the Bill, it would appear that we would not be able to have separate Welsh contracts, and that would mean, for example, that we would be tied by whatever was agreed in Whitehall, particularly in the NHS. Now that's something that clearly rolls back on the current settlement. There are numerous other examples. The debate has gone on for a long time; I'm not going to go through them all. Other Members have identified other examples, but it's quite clear that much more work needs to be done in terms of reservations. We support the current motion that we're dealing with.

Meysydd eraill: Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am drwyddedu cloddio glo brig, ond Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am adfer tir. Wel, diolch am hynny, oherwydd mae hynny'n ein gadael ni, wrth gwrs, gyda'r llanast. O safbwynt ynni, ie yn wir, mae'n ymddangos bod y Bil yn cynnwys cynigion ar gyfer rhagor o ddatganoli caniatâd ar gyfer prosiectau ynni, ond mae'n parhau i fod yn gyfyngedig. Ond nid yw'r mater o drawsyrro ynni yn cael ei ddatganoli. Felly, mewn gwirionedd, gall Llywodraeth y DU benderfynu a yw prosiect ynni yn mynd rhagddo yng Nghymru, oherwydd yn syml iawn mae'n gallu gwrthod rhoi caniatâd i drawsyrro'r trydan. Yn yr Alban, mae caniatâd gweithredol wedi'i ddatganoli. Ac wrth gwrs, yn y Bil ei hun, mae amheuo'n ddirifol ynghylch a fydd Llywodraeth Cymru yn gallu pennu tâl ac amodau ar wahân yn y sector cyhoeddus. Maent eisoes yn bodoli, yn enwedig yn y GIG. Mae'n ymddangos na fyddai'r Bil yn ein galluogi i gael contractau ar wahân i Gymru, a byddai hynny'n golygu, er enghraifft, y byddem yn gaeth i beth bynnag sydd wedi'i gytuno yn Whitehall, yn enwedig yn y GIG. Dyna rywbeth sy'n gwanhau'r setliad presennol yn amlwg. Mae yna nifer o enghreifftiau eraill. Mae'r ddadl wedi mynd ymlaen am amser hir; nid wyf yn mynd i fynd drwy bob un ohonynt. Mae Aelodau eraill wedi nodi enghreifftiau eraill, ond mae'n gwbl glir bod angen gwneud llawer mwy o safbwynt cymalau cadw. Rydym yn cefnogi'r cynnig presennol sy'n cael ei drafod.

18:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the committee to reply to the debate. David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb i'r ddadl. David Melding.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:20 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Again, I think this is a very important area. We've had a long debate, so I shall just refer briefly to one or two points Members have made. Jenny Rathbone started by really diving into a very important area—a tidal lagoon; I don't know if you can dive into a tidal lagoon, but anyway. Energy is hugely important for quality of life in Wales and for economic development and all sorts of things. On these areas, we really do need to develop consensus.

Diolch i chi, Lywydd. Unwaith eto, rwy'n credu bod hwn yn faes pwysig iawn. Rydym wedi cael dadl hir, felly byddaf ond yn cyfeirio'n fyr at un neu ddau bwynt a godwyd gan Aelodau. Dechreuodd Jenny Rathbone trwy blymio i mewn i faes pwysig iawn - morlyn llanw; nid wyf yn gwybod os gallwch blymio i mewn i forlyn llanw, ond bid a fo am hynny. Mae ynni'n bwysig iawn i ansawdd bywyd yng Nghymru ac ar gyfer datblygu economaidd a phob math o bethau. Mae gwir angen i ni ddatblygu consensws ar y materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Angela Burns, I think I can probably sum up a lot of your contribution in saying there's been too much Whitehall and not enough made in Wales, and I agree with that; I think that has clearly come through in the evidence. And the use of a mechanism that, if an area is silent, it should become reserved automatically, is hugely problematic. I think that's at the heart of a lot of the problems we've ended up with. The principles of the St David's Day agreement, and the consensus around that, would have been a better way to inform the development of the draft Bill.

Angela Burns, rwy'n meddwl y gallaf yn ôl pob tebyg grynhai llawer o'ch cyfraniad drwy ddweud bod gormod wedi'i wneud yn Whitehall a dim digon yng Nghymru, ac rwy'n cytuno â hynny; credaf fod y dystiolaeth wedi dangos hynny'n glir. Ac mae defnyddio system sy'n pennu bod maes tawel yn cael ei gadw yn ôl yn awtomatig yn creu problemau mawr. Rwy'n credu mai dyna sydd wrth wraidd llawer o'r problemau sydd gennym. Byddai egwyddorion cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, a'r consensws ynghylch hynny, wedi bod yn ffordd well o lywio datblygiad y Bil drafft.

Llyr Gruffydd said that we are all unhappy. In parts, we are content with what's been proposed, but I think we've all recognised that the draft Bill needs significant improvement. When you say that we're getting income tax powers, and surely then, our policy powers should match the magnitude of that shift, I agree. It is important that we see a coherent set of powers. The question should be: what powers does central Government need to operate? I think Alun Davies, in a very strong contribution, took this principle a bit further. It's one I referred to in my opening address as well, and I think that has been lacking in this whole approach, and has led to a level of incoherence.

John Griffiths reminded us that this has been a journey. It's been exciting in places, but it's time to reach a coherent destination. I say amen to that.

William Powell urged the Secretary of State to call the midwife. No doubt that would be of great benefit and would see a more thorough application of the principle of subsidiarity. And then the very liberal principle that powers are invested in the people, and from there, they percolate through the various political institutions that are needed for effective governance.

Alun Davies, as I said, made a very important contribution. He said that he was disappointed that the Secretary of State's vision that was expressed to the Assembly is not obviously apparent in the draft Bill. So, I think we should urge that that spirit is what now fuels the consideration of our next moves forward. Can I thank him also for commending the evidence we received from the Assembly's committees? I'd failed to do that; it was an omission on my part, because we had excellent evidence on the likely consequences of reservations from the Assembly's committees. So, I do thank the Members and the secretariats for that. We don't want to end up with a reserved-powers model that is, in effect, limited by a conferred-powers mentality. That is not delivering what we thought had been established in the consensus following the Supreme Court judgment.

Mick Antoniw said that there's no explanation, really, for the reservations, and we do need to have a principled, logical approach. Again, I completely agree with that.

Finally, the First Minister said that the list of reservations is not only too long, but has been expanded. That is alarming if that is true. And coracles as a form of shipping—may or may not be, I don't know. No doubt journalists will follow that up to see if there is a danger of us losing our powers over coracles. But, there is a lack of clarity—he referred to the NHS—and there is a fear that the current settlement has been rolling back. And that's not what should be informing this debate. I urge Members to support the motion.

Dywedodd Llyr Gruffydd ein bod i gyd yn anhapus. Mewn rhannau, rydym yn fodlon â'r hyn sy'n cael ei gynig, ond rwy'n meddwl ein bod i gyd wedi cydnabod bod angen gwella'r Mesur drafft yn sylweddol. Pan fyddwch yn dweud ein bod yn cael pwerau treth incwm, a'i bod yn amlwg y dylai ein pwerau polisi gyfateb i'r newid mawr hwnnw, rwy'n cytuno. Mae'n bwysig ein bod yn gweld set gydlynol o bwerau. Dylai'r cwestiwn fod: pa bwerau sydd eu hangen ar Lywodraeth ganolog i weithredu? Rwy'n meddwl bod Alun Davies, mewn cyfraniad cryf iawn, wedi mynd â'r egwyddor hon ychydig ymhellach. Mae'n un y cyfeiriais ato yn fy araith agoriadol hefyd, a chredaf fod diffyg cyffredinol wedi bod yn y cyswllt hwn, gan arwain at lefel o ddiffyg cydlynad.

Cawsom ein hatgoffa gan John Griffiths mai taith fu'r broses hon. Mae wedi bod yn gyffrous mewn mannau, ond mae'n amser i ni gyrraedd cyrchfan cydlynol. Rwy'n dweud amen i hynny.

Anogodd William Powell yr Ysgrifennydd Gwladol i alw'r fydwraig. Nid oes amheuaeth y byddai hynny o fudd mawr ac yn arwain at ddefnydd mwy trylwyr o egwyddor sybsidiaredd. Ac yna'r egwyddor ryddfrydol iawn bod pwerau yn cael eu breinio yn y bobl, ac oddi yno, maent yn treiddio drwy'r sefydliadau gwleidyddol gwahanol sydd eu hangen ar gyfer llywodraethu effeithiol.

Roedd cyfraniad Alun Davies, fel y dywedais, yn bwysig iawn. Dywedodd ei fod yn siomedig nad oedd gweledigaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a fynegwyd i'r Cynulliad yn amlwg iawn yn y Mesur drafft. Felly, rwy'n meddwl y dylai'r ysbryd hwnnw fod yn sylfaen wrth i ni ystyried ein camau nesaf. A allaf ddiolch iddo hefyd am ganmol y dystiolaeth a gawsom gan bwyllgorau'r Cynulliad? Roeddwn wedi methu â gwneud hynny; roedd yn esgeulustod ar fy rhan, oherwydd cawsom dystiolaeth ragorol gan bwyllgorau'r Cynulliad ynglŷn â chanlyniadau tebygol cymalau cadw. Felly, rwy'n diolch i'r Aelodau a'r ysgrifenyddiaethau am hynny. Nid ydym eisiau gweld model cadw pwerau sydd, i bob pwrpas, wedi'i gyfyngu gan feddylfryd rhoi pwerau. Nid yw hynny'n cyflawni'r hyn roeddem yn meddwl a oedd wedi'i sefydlu gan y consensws yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys.

Dywedodd Mick Antoniw nad oes unrhyw esboniad, mewn gwirionedd, ar gyfer y cymalau cadw, a bod angen dull gweithredu egwyddorol, rhesymegol. Unwaith eto, rwy'n cytuno'n llwyr â hynny.

Yn olaf, dywedodd y Prif Weinidog fod y rhestr o gymalau cadw nid yn unig yn rhy hir, ond ei bod yn hirach bellach. Mae hynny'n frawychus os yw'n wir. A chwyrglau fel math o longau – gall hynny fod yn wir ai peidio, nid wyf yn gwybod. Diau y bydd newyddiadurwyr yn astudio hynny i weld a oes perygl i ni gollu ein pwerau dros gyryglau. Ond, mae diffyg eglurder—cyfeiriodd at y GIG—ac mae ofn bod y setliad presennol wedi cael ei wanhau. Ac ni ddylai hynny fod yn llywio'r ddadl hon. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, and therefore the motion is agreed unanimously in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, ac felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unfrydol yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next and final motion relates to a distinct jurisdiction, and again I call on David Melding to move the motion.

Mae'r cynnig nesaf ac olaf yn ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân, ac unwaith eto rwy'n galw ar David Melding i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5916 David Melding

Motion NDM5916 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i gynnwys awdurdodaeth benodol fel bod Deddfau Cymru yn berthnasol i Gymru yn unig ac yn addasu cyfraith Cymru a Lloegr fel sy'n briodol i'w gorfodi o fewn rheswm.

To propose that the National Assembly for Wales notes the Constitutional and Legislative Affairs Committee's view that the draft Wales Bill should be amended to include a distinct jurisdiction in which Welsh Acts extend only to Wales and modify England and Wales law as appropriate for reasonable enforcement.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We believe there would be merit in exploring further the concept of a distinct Welsh jurisdiction as a means of delivering a clearer, more workable settlement. Within a distinct jurisdiction, Welsh Acts would extend only to Wales and modify what is currently England-and-Wales law as appropriate for reasonable enforcement.

Rydym yn credu y byddai'n fanteisiol archwilio ymhellach y cysyniad o awdurdodaeth ar wahân i Gymru fel modd o gyflwyno setliad diriach, mwy ymarferol. Oddi mewn i awdurdodaeth benodol, byddai Deddfau Cymru yn berthnasol i Gymru yn unig ac yn addasu'r hyn sy'n gyfraith Lloegr a Chymru ar hyn o bryd fel y bo'n briodol ar gyfer gorfodaeth resymol.

A distinct jurisdiction is not a separate jurisdiction. Distinct bodies of Welsh and English law would be administered within a unified courts system in England and Wales. The Supreme Court would remain as the ultimate arbiter of both English and Welsh cases.

Nid awdurdodaeth ar wahân mo awdurdodaeth benodol. Byddai cyrff penodol o gyfraith Cymru a Lloegr yn cael eu gweinyddu o fewn system y llysoedd unedig yng Nghymru a Lloegr. Byddai'r Goruchaf Lys yn parhau i fod yn gyfrifol am ddyfarnu ar achosion yng Nghymru a Lloegr.

In our view, a distinct jurisdiction would have the benefit of recognising that there is a body of Welsh law that is distinct from English law. It will also highlight that distinction to the legal profession throughout the UK and for the benefit of citizens who from time to time need to access legal advice.

Yn ein barn ni, mantais awdurdodaeth benodol fyddai cydnabod bodolaeth corff o gyfraith Cymru sy'n wahanol i gyfraith Lloegr. Bydd hefyd yn amlygu'r gwahaniaeth hwnnw i'r proffesiwn cyfreithiol ledled y DU ac er budd dinasyddion y mae angen iddynt gael gafael ar gyngor cyfreithiol o bryd i'w gilydd.

It's about time that theory caught up with practice in this area. I'm sure not many people—certainly not many of our citizens—realise that, currently, the laws we pass extend to England and Wales, although they can only be applied in Wales. This may enable many people in Whitehall to sleep easier at night, but really it is a fiction, and it's a damaging one, because it inhibits clear constitutional thought. I urge Members to support the motion.

Mae'n hen bryd i theori ac ymarfer gyd-fynd â'i gilydd yn y maes hwn. Rwy'n siŵr nad yw llawer o bobl—yn sicr nid llawer o'n dinasyddion—yn sylweddoli bod y deddfau rydym yn eu pasio ar hyn o bryd yn ymestyn i Gymru a Lloegr, er eu bod yn berthnasol i Gymru yn unig. Mae'n bosibl bod llawer o bobl yn Whitehall yn cysgu'n well yn y nos oherwydd hynny, ond nid yw'n wir mewn gwirionedd, ac mae'n niweidiol gan ei bod yn atal meddwl cyfansoddiadol clir. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Just a couple of short points on this. The evidence that Stephen Crabb, again, gave to the Welsh Affairs Committee continually places the issue of protecting a single jurisdiction as the main obstacle to a lot of the reforms, but it is very clear that there is quite a lot of confusion about what actually is being suggested, and the way in which the debate has been developing, so that we are now far more talking about the idea of a distinct jurisdiction. In fact, what he actually said was that

‘Whitehall’s view is driven by the view of the Government and the view of the Government is that a single joint jurisdiction across England and Wales, which has served the people of England and Wales very well for centuries, is still the right framework’.

He does give some light in the sense that

‘We can have the discussion, and I am, about how we strengthen the delivery of a specific justice function’.

Now, the only point I’d like to make is this: we’ve actually been down this road in the UK before, because we used to be susceptible to the European convention on human rights, and in actual fact, you can actually appeal from the UK, but you had to go to court in Europe in order to actually enforce the rights under the human rights convention. Of course, the Human Rights Act 1998 that was brought in by the Labour Government, all it did was actually enable you to have those rights within the UK courts. The way in which the courts actually dealt with effectively incorporating this new European jurisdiction into British law was to stick a tick box on the application forms in court: ‘Does this involve a matter involving the human rights law?’ If so, it would then go to a specialist judge.

The actual creation of a distinct Welsh jurisdiction is dead simple. It’s not rocket science. It’s not complicated. It’s not about taking over the courts or the judges. It’s not about breaking up the jurisdiction, the system that we actually have. All it actually requires is that, in any matter that comes before the courts, if it involves a matter of Welsh law, you have to identify it and there’s then an administrative process, and it goes into, effectively, a distinct Welsh jurisdiction—however you want to call it, whatever specific name you want to give it. So, there’s no great complexity to this, and I would hope that there will be no obstacle, and that the obstacles that have been raised will now be seen as outdated arguments. It seems very clear that the judiciary are moving along this way, and understand it. Certainly, the whole debate understands it as a way forward—a significant way forward—to creating a distinct jurisdiction that ensures that Welsh laws are properly dealt with, and have a proper environment. It takes many of the obstacles and obstructions that exist in existing drafting of the legislation away.

Dim ond un neu ddau o bwyntiau byr ar y mater hwn. Mae’r dystiolaeth a gyflwynodd Stephen Crabb, unwaith eto, i’r Pwyllgor Materion Cymreig yn parhau i osod y mater o ddiogel awdurdodaeth sengl fel y prif rwystr i lawer o’r diwygiadau, ond mae’n amlwg iawn bod yna gryn dipyn o ddryswch ynglŷn â’r hyn sy’n cael ei awgrymu mewn gwirionedd, a’r ffordd y mae’r ddadl wedi bod yn datblygu, fel ein bod yn awr yn siarad llawer mwy am y syniad o awdurdodaeth benodol. Yn wir, yr hyn a ddywedodd mewn gwirionedd oedd bod

‘Safbwynt Whitehall yn seiliedig ar safbwynt y Llywodraeth, a safbwynt y Llywodraeth yw mai awdurdodaeth sengl ar y cyd ledled Cymru a Lloegr, sydd wedi gwasanaethu pobl Cymru a Lloegr yn dda iawn ers canrifoedd, yw’r fframwaith cywir o hyd’.

Mae’n cynnig rhywfaint o oleuni drwy ddweud

‘Gallwn gael y drafodaeth, ac rwy’n gwneud hynny, am sut i gryfhau’r broses o gyflwyno swyddogaeth cyfiawnder benodol’.

Yn awr, yr unig bwynt yr hoffwn ei wneud yw hwn: mewn gwirioneddol, rydym wedi gweld y sefyllfa hon yn y DU o’r blaen, oherwydd ein bod yn arfer bod yn agored i’r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, ac mewn gwirionedd, gallwch apelio o’r DU, ond roedd angen mynd i’r llys yn Ewrop er mwyn gorfodi’r hawliau o dan y confensiwn hawliau dynol. Wrth gwrs, unig effaith Deddf Hawliau Dynol 1998 Llywodraeth Lafur oedd galluogi pobl i fod â’r hawliau hynny yn llysoedd y DU. Er mwyn ymgorffori’r awdurdodaeth Ewropeaidd newydd hon yng nghyfraith Prydain yn effeithiol, aeth y llysoedd ati i gynnwys blwch ticio ar y ffurflenni cais yn y llys: ‘A yw’r ddeddf hawliau dynol yn berthnasol i’r mater hwn?’ Os felly, byddai’n mynd wedyn i farnwr arbenigol.

Mewn gwirionedd, mae’r broses o greu awdurdodaeth benodol i Gymru yn syml iawn. Nid yw’n astrus iawn. Nid yw’n gymhleth. Nid yw’n ymwneud â chymryd cyfrifoldeb am y llysoedd neu’r barnwyr. Nid yw’n ymwneud â chwalu’r awdurdodaeth, y system sydd gennym mewn gwirionedd. Y cyfan y mae’n ei olygu mewn gwirionedd yw bod unrhyw fater sy’n dod gerbron y llysoedd y mae cyfraith Cymru yn berthnasol iddo yn cael ei nodi a bod proses weinyddol yn cael ei gweithredu wedyn, ac mewn gwirionedd, mae’n mynd i awdurdodaeth benodol Cymru—beth bynnag rydych am ei galw, pa bynnag enw penodol rydych am ei roi arni. Felly, nid yw’n fater cymhleth iawn, a byddwn yn gobeithio na fydd unrhyw rwystr, ac y bydd y rhwystrau sydd wedi’u codi yn cael eu gweld fel hen ddadleuon bellach. Mae’n ymddangos yn glir iawn bod y farnwriaeth yn symud i’r cyfeiriad hwn, ac yn ei ddeall. Yn sicr, mae’r holl ddadl yn ei deall fel ffordd ymlaen—ffordd sylweddol ymlaen—i greu awdurdodaeth benodol sy’n sicrhau bod deddfau Cymru yn cael eu trin yn briodol, a bod amgylchedd priodol ar eu cyfer. Mae’n dileu llawer o’r rhwystrau sy’n bodoli wrth ddrafftio’r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to also thank the CLA committee for their work on this report on the draft Wales Bill. If I can preface my comments on this issue by firstly pointing out that, whilst there are differences of opinion about this, we are in this position because the UK Government decided to press ahead with the process of deepening devolution and of seeking to make it work better. As David Melding pointed out in his earlier comments, this wasn't always the case for the Conservative Party. So, let us be pleased that we are where we are, and we are actually looking now at a consensus for an improvement in the process and a desire on all parts to move forward, even if there are differences in how we do that.

I intervened earlier on Mick Antoniw and actually I agreed with a lot of what you said, Mick. I think that this does need to be got right. When you said—a point that was dismissed by many—that it was better to have good law rather than a preponderance of law, I think you were exactly right. I think we need to make sure that the laws that we pass in this place are the right laws—the right laws for Wales and right, indeed, for the United Kingdom, as a part of the union. That should be our starting point.

Turning to some of the concerns and this whole issue of a legal jurisdiction and whether it's a single England and Wales jurisdiction, it's been interesting to look through some of the wide range of consultation responses that were received when the Welsh Government sought views on this. Some of the responses—one or two, I think, from some Plaid Cymru councillors and members—want complete separation, a completely separate jurisdiction and, indeed, a court system. Other responses call for a continuation of the status quo and cite the costs of setting up a completely separate system. And, yes, a lot has been said about Scotland, and Scotland does indeed have a separate jurisdiction, as does Northern Ireland, but you do have to recognise that the England-Wales border is a different animal, as Gerry Holtham highlighted—it is a highly porous border with cross-border flows and 50 per cent, or thereabouts, of the Welsh population are living within close proximity of it. So, separate jurisdictions would have a much greater visible impact than in the other devolved nations of the UK. That is not an argument for saying that it shouldn't be done—it is simply a fact of the matter and you have to think very seriously, of course you do, before you go down this road because there will be major consequences to creating a separate jurisdiction.

I agree with what many Members have said in that there is a sense that this has not been completely thought through as much as it should have in advance of this. The CLA committee is rightly clearly concerned that retaining a single legal jurisdiction may frustrate the needs of a growing Welsh identity and the will of the parties involved in the run up to the St David's Day agreement and we have to take on board the concerns of the committee.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ei waith ar yr adroddiad hwn ar Fesur Cymru drafft. Os gallaf ragflaenu fy sylwadau ar y mater hwn drwy nodi yn gyntaf, er bod gwahaniaeth barn ar y mater, ein bod wedi cyrraedd y sefyllfa hon oherwydd penderfyniad Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r broses o ddyfnhau datganoli a cheisio gwneud iddi weithio yn well. Fel y dywedodd David Melding yn ei sylwadau cynharach, nid oedd hyn yn wir bob amser am y Plaid Geidwadol. Felly, gadewch i ni fod yn falch ein bod yn y sefyllfa hon, a'n bod mewn gwirionedd yn ceisio sicrhau consensws i wella'r broses a bod awydd ar ran pawb i symud ymlaen, hyd yn oed os oes gwahaniaeth barn ar sut i wneud hynny.

Ymyrrais yn gynharach ar Mick Antoniw ac mewn gwirionedd rwy'n cytuno â llawer o'r hyn a ddywedaso, Mick. Credaf fod angen i ni weithredu'n gywir ar y mater hwn. Pan ddywedaso—pwynt a wrthodwyd gan lawer—ei bod yn well cael deddf dda yn hytrach na gormod o ddeddfau, rwy'n meddwl eich bod yn gwbl gywir. Rwy'n credu bod angen i ni sicrhau bod y deddfau rydym yn eu pasio yn y lle hwn yn ddeddfau cywir—y deddfau cywir i Gymru ac yn wir, i'r Deyrnas Unedig, fel rhan o'r undeb. Dyna ein man cychwyn yn fy marn i.

Gan droi at rai o'r pryderon a'r holl gwestiwn o awdurdodaeth gyfreithiol ac a yw'n awdurdodaeth sengl i Gymru a Lloegr, mae wedi bod yn ddirorol edrych ar amrywiaeth eang yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd pan ofynnodd Llywodraeth Cymru am safbwyntiau ar y mater hwn. Mae rhai o'r ymatebion—un neu ddau, rwy'n meddwl, gan rai cynghorwyr ac aelodau Plaid Cymru—eisiau gweld awdurdodaeth, ac yn wir, system llysoedd, gwbl ar wahân. Mae ymatebion eraill yn galw am barhau â'r sefyllfa bresennol, gan gyfeirio at gostau sefydlu system gwbl ar wahân. Ac, ie, mae llawer wedi cael ei ddweud am yr Alban, ac mae'n wir fod gan yr Alban awdurdodaeth ar wahân, felly hefyd Gogledd Iwerddon, ond mae'n rhaid i chi gydnabod bod natur y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn wahanol, fel y nododd Gerry Holtham—mae'n ffin dyllog iawn gyda llif trawsffiniol a thua 50 y cant o boblogaeth Cymru yn byw yn agos ati. Felly, byddai awdurdodaethau ar wahân yn cael llawer mwy o effaith weledol nag yng ngwledydd datganoledig eraill y DU. Nid yw hynny'n ddadl dros ddweud na ddylid ei wneud—dyna wirionedd y sefyllfa ac mae'n rhaid i chi feddwl yn ofalus iawn, wrth reswm, cyn dilyn y llwybr hwn oherwydd y bydd awdurdodaeth ar wahân yn arwain at ganlyniadau mawr.

Rwy'n cytuno â'r hyn y mae llawer o Aelodau wedi'i ddweud ynglŷn â'r teimlad nad yw'r mater hwn wedi'i ystyried yn llawn ymlaen llaw. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gywir i bryderu y gallai cadw awdurdodaeth gyfreithiol sengl rwystro anghenion hunaniaeth Gymreig gynyddol ac ewyllys y partion perthnasol yn y cyfnod cyn cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, ac mae'n rhaid i ni ystyried pryderon y pwyllgor.

One thing is undeniable: devolution is a fact of life. There is a growing body of Welsh law that is distinct from English law and this will require a measure of increasing distinctness with time. This is a natural consequence of the devolution process—the process and not the event, as someone once famously referred to it—and that is a follow-on from the further powers referendum of 2011 and indeed the move to a reserved-powers model in the draft Wales Bill.

Going back to Simon Thomas's point in the earlier debate—you said that it was ironic that the issue of taxes has been dealt with so much more easily than the issue of laws and yet, actually, the referendum in 2011 was about the issue of the full devolution of law, aside from reserved areas. I remember taking part in that referendum campaign and campaigning for a 'Yes' vote and I was telling constituents—I was certainly telling mine—that this was an issue about the devolution of law, not about taxes. Yet here we are now getting taxes down the line, devolved, without a referendum in terms of income tax, it would seem, while at the same time, an area that should not have been confusing at all, because a majority of Wales voted for it, has suddenly become a confusing area—. Well, it was not a majority in my neck of the woods, but that was a slightly different case and I'm not going to go back over those arguments. So, we are in a situation that I think many people do find surprising.

The fact is, if you have a distinct law-making process, you will also require, over time, a distinctive legal framework to support and administer it. That is not rocket science as other Members have said. As Dafydd Elis-Thomas said in the earlier debate, law making needs to be clear; it needs to strive to be understandable—that is the essence of democracy. You know that there have been lots of laments in here today about lethargy of pace towards a final settlement. Well, I'm less pessimistic about that. I would rather have—. I would point to the old adage about more haste and less speed. I would rather we get to a settlement that actually works in the longer term—in five years' time, in 10 years' time—and we're not having to constantly re-tread these arguments over and over again, and our successors having to do that and try to get to a settlement that works. Let's try and get it right.

As the Chair of the CLA committee said, in opening, the Secretary of State has said that the Bill that receives Royal Assent will be markedly different from the Bill before us today; something I'm sure many Members will welcome. I certainly do.

A 'stronger, clearer and fairer devolution settlement'—those were the words of the Secretary of State. And as Andrew R.T. Davies said earlier, this Bill does actually contain a whole host of new powers for the Assembly, which we shouldn't dismiss, including electoral powers, including, as many Members have said, the ability of this institution to decide what it calls itself. As people know, I personally favour National Assembly for Wales not Parliament, but that is beside the point. It will become the decision of this place; it will become the decision of the people of Wales, not the decision of the Parliament in Westminster. I think that is the right way to go.

Mae un peth na ellir ei wadu: mae datganoli yn un o feithiau bywyd. Mae corff cynyddol o gyfraith Cymru sy'n wahanol i gyfraith Lloegr a bydd angen mesur o arwahanrwydd cynyddol ar gyfer hyn dros amser. Canlyniad naturiol y broses ddatganoli yw hwn—y broses ac nid y digwyddiad, yn ôl disgrifiad enwog rhywun rywbryd—ac mae hynny'n dilyn y refferendwm ar ragor o bwerau yn 2011 ac yn wir y newid i fodel cadw bwerau ym Mil Cymru drafft.

I ddychwelyd at bwynt Simon Thomas yn y ddadl yn gynharach—dywedasoch ei bod yn eironig bod y cwestiwn trethi wedi cael ei ddatrys gymaint yn haws na'r cwestiwn cyfreithiau ac eto, mewn gwirionedd, roedd y refferendwm yn 2011 yn ymwneud â datganoli'r gyfraith yn llawn, ar wahân i'r meysydd a gedwir yn ôl. Rwy'n cofio cymryd rhan yn ymgyrch y refferendwm ac yn ymgyrchu dros bleidlais 'le', ac roeddwn yn dweud wrth etholwyr—yn enwedig fy etholwyr i—fod y mater hwn yn ymwneud â datganoli'r gyfraith, nid trethi. Ac eto dyma ni yn awr yn gweld trethi'n cael eu datganoli, heb refferendwm yn nhermau treth incwm, mae'n ymddangos, tra ar yr un pryd, mae maes na ddylai fod wedi peri dryswch o gwbl, gan fod y rhan fwyaf o Gymru wedi pleidleisio drosto, wedi dod yn faes dryslyd yn sydyn—. Wel, ni chafwyd mwyafrif yn fy ardal i, ond mater ychydig yn wahanol yw hynny ac nid wyf am ddychwelyd i'r dadleuon hynny. Felly, rydym mewn sefyllfa sy'n peri syndod i lawer o bobl rwy'n meddwl.

Y ffaith amdani yw, os oes gennych broses ddeddfu ar wahân, bydd angen hefyd, dros gyfnod o amser, fframwaith cyfreithiol ar wahân i'w chefnogi a'i gweinyddu. Nid yw'n anodd deall hynny, fel y mae Aelodau eraill wedi ei ddweud. Fel y dywedodd Dafydd Elis-Thomas yn y ddadl gynharach, mae'n rhaid i'r broses ddeddfu fod yn glir; mae angen iddi geisio bod yn ddealladwy—dyna hanfod democratiaeth. Rydych yn gwybod y bu llawer o gwynion yma heddiw am arafwch y broses o symud tuag at setliad terfynol. Wel, rwy'n llai pesimistaidd am hynny. Byddai'n well gennyf—. Byddwn yn tynnu sylw at yr hen ddywediad am fwy o frys a llai o gyflymder. Byddai'n well gennyf sicrhau bod y setliad yn llwyddo yn yr hirdymor—ymhen pum mlynedd, ymhen 10 mlynedd—ac nad ydym yn gorfod dychwelyd at y dadleuon hyn drosodd a throsodd, gan orfodi ein holynwyr i wneud hynny, a cheisio sicrhau setliad sy'n gweithio. Gadewch i ni geisio cael hyn yn iawn.

Fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, wrth agor y ddadl, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud y bydd y Mesur sy'n derbyn Cydsyniad Brenhinol yn wahanol iawn i'r Mesur sydd ger ein bron heddiw; rhywbeth rwy'n siŵr y bydd llawer o Aelodau yn ei groesawu. Rwy'n sicr yn ei groesawu.

'Setliad datganoli cryfach, cliriach a thecach'—dyna eiriau'r Ysgrifennydd Gwladol. Ac fel y dywedodd Andrew RT Davies yn gynharach, mae'r Bil hwn yn cynnwys lluo o bwerau newydd ar gyfer y Cynulliad, na ddylem eu diystyru, gan gynnwys bwerau etholiadol, sy'n cynnwys, fel y mae llawer o Aelodau wedi'i ddweud, gallu'r sefydliad hwn i ddewis ei enw ei hun. Fel sy'n hysbys, yn bersonol mae'n well gennyf yr enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Senedd, ond nid dyna'r pwynt. Y lle hwn fydd yn gwneud y penderfyniad; pobl Cymru fydd yn penderfynu, nid Senedd San Steffan. Dyna'r trywydd iawn i'w ddilyn yn fy marn i.

I did agree with Gwenda Thomas, in her earlier comments, that people out there probably look at debates—if they look at debates like this at all—and probably think, ‘Why are they talking about that again? Why can’t they get on with the process of delivery?’ Yes, I agree with you that, actually, the process of how we get to delivering is important. That needs to be sorted out, but we also do need to keep an eye on the fact that if we do continue to talk about the constitutional situation, then people may get fed up of that and think, ‘Why aren’t they actually getting on with it?’ So, we do need to get this situation sorted out. That’s why I welcome the findings of the CLA committee.

In conclusion, you don’t necessarily need a separate jurisdiction, but you do need to look at ways of developing a distinct jurisdiction, as many Members have said. The question, then, is how best you achieve that, and this is where our focus should now be. One thing is clear: with the passage of time, like it or not, the laws of England and Wales are going to diverge and it would be bizarre if they didn’t. The legal jurisdiction within Wales will have to allow for this. This is simply the way it is, and the UK framework will have to keep up with it.

18:37

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Until we heard the story about the coracle and the Whitehall civil servant, perhaps the debate we’ve had, although fascinating for ourselves, was a little lacking in some of the human touch, perhaps, that takes it on. But I think that the admiral of the port of Carmarthen will be distraught to know that coracles are going to be taken away from the control of the Welsh Government in Carmarthen.

I think, given the time and the debate that we’ve already had—and we’ve already been over some of these issues—I can illustrate what the committee is trying to address here by telling a story. It won’t be as entertaining as Max Bygraves, perhaps, but it will be a genuine story that illustrates the difference between what we have today in terms of jurisdiction: a distinct jurisdiction and a separate jurisdiction.

Roeddwn yn cytuno â Gwenda Thomas, yn ei sylwadau cynharach, bod pobl yn ôl pob tebyg yn edrych ar ddadleuon—os ydynt yn edrych ar ddadleuon fel hyn o gwbl—ac yn meddwl mae’n debyg, ‘Pam maen nhw’n siarad am hynny eto? Pam na allant fwrw ymlaen â’r broses o gyflawni?’ Ydw, rwy’n cytuno â chi, mewn gwirionedd, bod y broses o sut rydym yn mynd ati i gyflawni yn bwysig. Mae angen datrys hynny, ond mae angen i ni hefyd gofio’r ffaith, os ydym yn parhau i siarad am y sefyllfa gyfansoddiadol, y gall pobl gael llond bol ar hynny a meddwl, ‘Pam nad ydynt yn bwrw ymlaen â’r gwaith?’ Felly, mae angen i ni ddatrys y sefyllfa hon. Dyna pam rwy’n croesawu canfyddiadau’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

I gloi, nid oes angen awdurdodaeth ar wahân o reidrwydd, ond mae angen edrych ar ffyrdd o ddatblygu awdurdodaeth benodol, fel y mae nifer o Aelodau wedi ei ddweud. Y cwestiwn, felly, yw sut i gyflawni hynny, a dylem fod yn canolbwyntio ar y mater hwnnw bellach. Mae un peth yn glir: gyda threigl amser, ei hoffi neu beidio, mae cyfreithiau Cymru a Lloegr yn mynd i ymrannu, a byddai’n rhyfedd pe na baent yn gwneud hynny. Bydd angen i’r awdurdodaeth gyfreithiol yng Nghymru ganiatáu ar gyfer hyn. Dyma’r sefyllfa sydd ohoni, a bydd yn rhaid i fframwaith y DU addasu i hynny.

Nes i ni glywed y stori am y cwrwgl a’r gwas sifil yn Whitehall, mae’n bosibl bod y ddadl rydym wedi’i chael, er yn ddiddorol i ni ein hunain, braidd yn brin o ryw faint o’r elfen ddynol, efallai, sy’n ei symud ymlaen. Ond rwy’n credu y bydd llyngesydd porthladd Caerfyrddin yn hynod drist i wybod bod cwryglau yn mynd i gael eu cymryd o reolaeth Llywodraeth Cymru yng Nghaerfyrddin.

Rwy’n meddwl, o ystyried yr amser a’r drafodaeth rydym eisoes wedi’i chael—ac rydym eisoes wedi bod dros rai o’r materion hyn—gallaf ddangos yr hyn y mae’r pwyllgor yn ceisio mynd i’r afael ag ef yma drwy ddweud stori. Ni fydd mor ddifyr â Max Bygraves, efallai, ond bydd yn stori go iawn sy’n dangos y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd gennym heddiw o ran awdurdodaeth: awdurdodaeth benodol ac awdurdodaeth ar wahân.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I was contacted last week by a constituent who was very excited to have found out that there is an Act passed, called the Self-build and Custom Housebuilding Act 2015. He was involved in rural housing in my region, and he was very keen to use this Act to encourage self-build homes in west Wales. So, he contacted me and said, 'How can we use this Act to develop self-build homes in west Wales?' So, I thought, 'I'm usually awake in the Assembly; I don't remember passing this Act. Let's see what this is'. And, of course, it's an Act of the London Parliament—it's an Act of the Westminster Parliament. So, I went back to him and said, 'I've had a quick look at the Act'—and thankfully, it's only about four pages—and it only relates to English local authorities, national parks and so forth. I'm afraid we can't use it in Wales, and I'm sure that if you write to the housing Minister, she will look at how regulations and other things might work in Wales.' His response was quite interesting. He said, 'But it says the Act extends to England and Wales. Why can't I use the Act? It extends to England and Wales. Why can't you simply pass the regulation? It says it extends to England and Wales. Pass the regulation in the Assembly to allow me, as a practitioner on the ground, to do what I want to do to support self-builders in Wales.' That actually illustrates the confusion that comes around with this single jurisdiction, where we apply bits of the jurisdiction only in Wales, from our perspective, but in England they're applying it in an England and Wales restriction. Of course, only last night we had the first-ever English votes for English laws debate in the House of Commons as well.

So, this is the confusion that's emerging. And the more laws that we pass here, the more the confusion will grow. If we've got genuinely interested people who want to use legislation to deliver their job on the ground—supporting housing in this case—who are confused about this, then I think we need to do something about it. Clearly, Plaid Cymru is of the view that a separate legal jurisdiction will address this issue, which it clearly would, but that it would bring additional benefits in terms of building up the legal profession in Wales, expertise in Wales and repatriating some of those jobs that are now in London, perhaps, back to Wales. We've seen what happens in Northern Ireland. A separate legal jurisdiction for a country the size of Wales can work well, could be economically successful, could work with our universities in supporting the legal profession and be a success. That may not command the support of the whole Assembly. What may command the support of the whole Assembly today is the concept of a distinct jurisdiction, because, if we had a distinct jurisdiction, that Self-build and Custom Housebuilding Act 2015 would have said, 'This Act applies to England only.' My constituent wouldn't have been confused, I wouldn't have had to deal with an English piece of legislation, and we'd have all rested a lot happier.

Yr wythnos diwethaf cysylltodd un o'm hetholwyr â mi a oedd yn llawn cyffro ar ôl darganfod bod Deddf a elwir yn Custom Housebuilding Act 2015 wedi'i phasio. Roedd yn gweithio ym maes tai gwledig yn fy ardal i, ac roedd yn awyddus iawn i ddefnyddio'r Ddeddf hon i hyrwyddo cartrefi hunan-adeiladu yng ngorllewin Cymru. Felly, cysylltodd â mi gan ddweud, 'Sut allwn ni ddefnyddio'r Ddeddf hon i ddatblygu cartrefi hunan-adeiladu yng ngorllewin Cymru?' Felly, meddyliais, 'Rwy'n effro yn y Cynulliad fel arfer; nid wyf yn cofio pasio'r Ddeddf hon. Gadewch i ni weld beth yw hi'. Ac, wrth gwrs, un o Ddeddfau Senedd Llundain yw hi—un o Ddeddfau Senedd San Steffan. Felly, fe es yn ôl ato a dweud, 'Rwyf wedi cael golwg sydyn ar y Ddeddf—a diolch byth, dim ond tua phedair tudalen yw hi—'ac nid yw ond yn berthnasol i awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac ati yn Lloegr. Rwy'n ofni na allwn ni ei defnyddio yng Nghymru, ac rwy'n siŵr os byddwch yn ysgrifennu at y Gweinidog Tai, bydd hi'n ystyried sut y gallai rheoliadau a phethau eraill weithio yng Nghymru.' Roedd ei ymateb yn eithaf diddorol. Dywedodd, 'Ond mae'n dweud bod y Ddeddf yn ymestyn i Gymru a Lloegr. Pam na allaf ddefnyddio'r Ddeddf? Mae'n ymestyn i Gymru a Lloegr. Pam na allwch basio'r rheoliad? Mae'n dweud ei fod yn ymestyn i Gymru a Lloegr. Pasiwch y rheoliad yn y Cynulliad fel y gallaf i, fel ymarferydd ar lawr gwlad, wneud yr hyn rwyf am ei wneud i gefnogi hunan-adeiladwyr yng Nghymru.' Dyna enghraifft o'r dryswch sy'n deillio o'r awdurdodaeth sengl, lle rydym yn defnyddio darnau o'r awdurdodaeth yn unig yng Nghymru, o'n safbwynt ni, ond yn Lloegr maent yn ei defnyddio mewn cyfyngiad Lloegr a Chymru. Wrth gwrs, dim ond neithiwr y cafwyd y ddadl gyntaf erioed yn Nhŷ'r Cyffredin ar bleidleisiau Seisnig ar gyfer deddfau Seisnig.

Felly, dyma'r dryswch sy'n dod i'r amlwg. A pho fwyaf o deddfau rydym yn eu pasio yma, y mwyaf y bydd y dryswch yn tyfu. Os oes pobl â diddordeb gwirioneddol sydd am ddefnyddio deddfwriaeth i wneud eu gwaith ar lawr gwlad—cefnogi tai yn yr achos hwn—wedi eu drysu ynglŷn â hyn, yna rwy'n credu bod angen gwneud rhywbeth am y peth. Yn amlwg, mae Plaid Cymru o'r farn y bydd awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn mynd i'r afael â'r mater hwn, ac mae'n amlwg y byddai'n gwneud hynny, ond y byddai'n dod â manteision ychwanegol o ran datblygu'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, arbenigedd yng Nghymru ac efallai dychwelyd rhai o'r swyddi sydd bellach yn Llundain i Gymru. Rydym wedi gweld yr hyn sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon. Gall awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer gwlad debyg i faint Cymru weithio'n dda, fod yn llwyddiannus yn economaidd, a gallai weithio gyda'n prifysgolion i gefnogi'r proffesiwn cyfreithiol a bod yn llwyddiannus. Efallai nad yw hynny'n ennyn cefnogaeth y Cynulliad cyfan. Yr hyn a allai ennyn cefnogaeth y Cynulliad cyfan heddiw yw'r cysyniad o awdurdodaeth benodol, oherwydd, pe bai gennym awdurdodaeth benodol, byddai'r Self-build and Custom Housebuilding Act 2015 wedi dweud, 'Mae'r Ddeddf hon yn berthnasol i Lloegr yn unig.' Ni fyddai fy etholwr wedi cael ei ddrysu, ni fyddwn wedi gorfod delio â darn o deddfwriaeth Lloegr, a byddem i gyd wedi gorffwys llawer yn hapusach.

Today, my group will support this motion regarding creating a distinct but not separate jurisdiction for Wales-only Acts of law. The Secretary of State has at least been clear on this point, saying, and I quote:

'You do need to create some kind of boundary there if you're to maintain the integrity of the single jurisdiction, which we're committed to.'

Many of the problems that we've witnessed today, from the necessity tests to the ministerial consents would, I argue, clearly be seen to derive from the difficulty of creating a reserved-powers model within a single jurisdiction. It's clear that this is at the heart of the Government's approach to the draft Wales Bill. But we've never justified why there is such a strong commitment to that single jurisdiction when so many problems would be solved by the diverging of the jurisdictions in a managed and ordered way. We must question that commitment, and Simon Thomas has given an interesting illustration just now. The accidental reservations of private and criminal law to prevent a separate jurisdiction are not the same as other reservations. These are not policy areas, but rather ways of making policy. If we cannot lead in particular policy areas in Wales, what are we for? As Professor Watkin says, and I quote:

'Structures for the administration of justice should keep pace with developments within the society which they serve.'

Welsh law is a nascent and evolving force and the administration of that justice must keep pace. We do not need to see a costly and ineffective duplication of administration in a separate Welsh court system. As the First Minister has previously said, we could see a shared court system, run by the Ministry of Justice with the same judiciary and administrative system, buildings et cetera, as is the case now. We know that the Welsh Government will be publishing the results of their work with the Lord Chief Justice in this particular direction. The Lord Chief Justice, recently said that, and I quote again:

'It is right for me to say that there is no reason why a unified court system encompassing England and Wales cannot serve two legal jurisdictions.'

We know also that Welsh law is emerging. The professions need to know that and the structures need to reflect it. We must be cautious, however, not putting the cart before the horse, but we must also be willing to embrace a new jurisdiction. Our policy in the submissions to the Silk commission originally noted that we have no objection in principle to the development of a separate legal jurisdiction for Wales and that also, and I quote,

'We accept that the case for a separate Welsh jurisdiction will be strengthened as divergence between laws in Wales and England increases.'

Heddiw, bydd fy ngrŵp yn cefnogi'r cynnig hwn ynglŷn â chreu awdurdodaeth benodol, ond nid ar wahân, ar gyfer Deddfau sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi siarad yn glir ar y pwynt hwn o leiaf, gan ddweud, ac rwy'n dyfynnu:

'Mae angen creu rhyw fath o ffin yno os ydych am gynnal dilysrwydd yr awdurdodaeth sengl rydym wedi ymrwymo iddi.'

Yn fy marn i, mae llawer o'r problemau rydym wedi clywed amdanynt heddiw, o'r profion angenrheidrwydd i gydsyniadau Gweinidogion, yn deillio'n glir o'r anhawster o greu model cadw pwerau mewn awdurdodaeth sengl. Mae'n amlwg mai dyna sydd wrth wraidd agwedd y Llywodraeth at Fil Cymru drafft. Ond nid ydym erioed wedi cyfiawnhau pam y mae ymrwymiad mor gryf i'r awdurdodaeth sengl pan fyddai cynifer o broblemau yn cael eu datrys drwy wahanu'r awdurdodaethau mewn ffordd reoledig a threfnus. Mae'n rhaid i ni gwestiynu'r ymrwymiad hwnnw, ac mae Simon Thomas newydd roi enghraifft ddiddorol. Nid yw cymalau cadw damweiniol cyfraith breifat a chyfraith trosedd sy'n rhwystro awdurdodaeth ar wahân yr un fath â chymalau cadw erail. Nid yw'r rhain yn feysydd polisi, ond yn hytrach ffyrdd o wneud polisiau. Os na allwn ni arwain mewn meysydd polisi penodol yng Nghymru, beth yw ein diben? Fel y dywed yr Athro Watkin, ac rwy'n dyfynnu:

'Dylai strwythurau ar gyfer gweinyddu cyfiawnder gyd-fynd â datblygiadau yn y gymdeithas y maent yn ei gwasanaethu.'

Mae cyfraith Cymru yn rym newydd ac esblygol, ac mae'n rhaid i'r broses o weinyddu cyfiawnder ddatblygu ar yr un cyflymder. Nid oes angen i ni weld dyblygu costus ac aneffeithiol o waith gweinyddu mewn system llysoedd ar wahân i Gymru. Fel y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud o'r blaen, gallem weld system llysoedd a rennir, wedi'i chynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyda'r un farnwriaeth a system weinyddol, adeiladau ac ati, fel sy'n digwydd yn awr. Rydym yn gwybod y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canlyniadau ei gwaith gyda'r Arglwydd Brif Ustus yn y cyswllt hwn. Dywedodd yr Arglwydd Brif Ustus yn ddiweddar, ac rwy'n dyfynnu eto:

'Mae'n iawn i mi ddweud nad oes unrhyw reswm pam na all system llysoedd unedig sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr wasanaethu dwy awdurdodaeth gyfreithiol.'

Rydym yn gwybod hefyd bod cyfraith Cymru yn dod i'r amlwg. Mae angen i'r proffesiynau wybod hynny ac mae angen i'r strwythurau adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â rhoi'r drol o flaen y ceffyl, ond rhaid i ni hefyd fod yn barod i gofreidio awdurdodaeth newydd. Yn wreiddiol, nododd ein polisi yn y cyflwyniadau i gomisiwn Silk nad oes gennym unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i ddatblygu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru, a hefyd, ac rwy'n dyfynnu,

'Rydym yn derbyn y bydd y ddatl o blaid awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn cael ei chryfhau wrth i'r gwahaniaeth rhwng deddfau yng Nghymru a Lloegr gynyddu.'

According to the Silk commission, as far as the connection between reserved powers and a separate jurisdiction is concerned, we understand from our discussions, including some with former Parliamentary Counsel that preserving the fundamental principles of law and basic legal rules would be possible under a reserved-powers model. Hence, a separate jurisdiction would not necessarily be a consequence of such a model. It appears that this is where such drafting has come from in this Bill. While the commission was not therefore convinced of the case for devolving the court system or creating a Welsh judiciary and legal profession at present, it went on to recommend that a separate Welsh court system and a separate Welsh judiciary is something that must be contemplated in the future and that the two Governments review the case for this within the next 10 years. Perhaps it is worth discussing that 10 years was perhaps too long a time frame and that this is a dynamic process and is moving at a faster pace. We would hope to see more detail on these proposals for a distinct jurisdiction, but it seems to echo our own calls for such a jurisdiction in previous debates, and also the proposals from the Welsh Governance Centre and University College London's constitutional unit. We look forward to seeing the Secretary of State's response to these particular proposals.

Yn ôl comisiwn Silk, o safbwynt y cysylltiad rhwng cadw pwerau yn ôl ac awdurdodaeth ar wahân, rydym yn deall o'n trafodaethau, gan gynnwys rhai gyda chyn Gwnsler Seneddol, y byddai modd cadw egwyddorion sylfaenol y gyfraith a rheolau cyfreithiol sylfaenol o dan fodel cadw pwerau. Felly, ni fyddai awdurdodaeth ar wahân yn deillio o fodel o'r fath o reidrwydd. Mae'n ymddangos mai dyma sylfaen drafftio o'r fath yn y Bil. Felly, er nad oedd y comisiwn wedi'i argyhoeddi o'r achos dros ddatganoli system y llysoedd neu greu barnwriaeth a phroffesiwn cyfreithiol i Gymru ar hyn o bryd, aeth ymlaen i argymhell bod system llysoedd ar wahân i Gymru a barnwriaeth ar wahân i Gymru yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried yn y dyfodol ac y dylai'r ddwy Lywodraeth adolygu'r achos dros wneud hyn ymhen y 10 mlynedd nesaf. Efallai ei bod yn werth trafod bod 10 mlynedd yn amser rhy hir efallai a bod hon yn broses ddeinamig sy'n symud yn gyflymach. Byddem yn gobeithio gweld mwy o fanylion am y cynigion hyn ar gyfer awdurdodaeth benodol, ond ymddengys eu bod yn adleisio ein galwadau ein hunain ar gyfer awdurdodaeth o'r fath mewn dadleuon blaenorol, a hefyd cynigion Canolfan Llywodraethiant Cymru ac uned gyfansoddiadol Coleg Prifysgol Llundain. Rydym yn edrych ymlaen at weld ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cynigion penodol hyn.

18:45

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I must say, I did not start this process with any strong views on whether we should have a separate or distinct legal jurisdiction at all. I took the view that the means by which we deliver the law is simply a means to an end and not an end in itself. I've changed my mind. I've been through this process in quite some detail over the past period and it has been clear to me that, unless we do establish a jurisdiction of some description, then we are going to be continuing these debates and these discussions for a very long time indeed. It has become clear to me, whilst examining the draft Bill and the implications of a draft Bill and how that draft Bill would actually operate in reality, that the biggest obstacle and barrier we face to achieving the settlement that all of us have said we wish to see—a settlement that is clear, that has accountability written into it, where there is a clear sense of who does what either side of the border, and where we end the conflicts that we've seen in courts, politically and elsewhere in terms of delivery of policy—is a determination to preserve and protect a jurisdiction that, for most people, has little meaning at all.

Rhaid i mi ddweud, ar ddechrau'r broses hon nid oedd gennyf unrhyw farn gref ynglŷn ag a ddylem gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân neu benodol o gwbl. Roeddwn o'r farn fod y ffordd y byddwn yn cyflwyno'r gyfraith yn fodd o gyflawni rhywbeth ac nid yn ddiben ynddo'i hun. Rwyf wedi newid fy meddwl. Rwyf wedi bod drwy'r broses hon mewn cryn fanylder yn ystod y cyfnod diweddar ac mae wedi bod yn amlwg i mi, oni bai ein bod yn sefydlu awdurdodaeth o ryw fath, yna byddwn ni'n parhau â'r dadleuon hyn a'r trafodaethau hyn am amser hir iawn. Mae wedi dod yn amlwg i mi, wrth edrych ar y Bil drafft a goblygiadau Bil drafft a sut y byddai'r Bil drafft yn cael ei weithredu yn ymarferol, bod y rhwystr mwyaf sy'n ein hwynebu i sicrhau'r setliad y mae pob un ohonom wedi dweud ein bod am ei weld—setliad sy'n glir, sy'n cynnwys atebolrwydd, lle mae ymdeimlad eglur o bwy sy'n gwneud beth y ddwy ochr i'r ffin, a lle mae'r gwrthdaro a welwyd yn y llysoedd yn dod i ben, yn wleidyddol ac mewn llefydd eraill o ran cyflwyno polisi—yw penderfyniad i gadw a gwarchod awdurdodaeth sy'n golygu ychydig iawn i'r rhan fwyaf o bobl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If the purpose of the Bill is to preserve and protect the jurisdiction, I have to say I think that's the wrong purpose to have. The purpose of the Bill should be to enhance the democracy of Wales and the United Kingdom. The purpose of the Bill should be to enhance the constitution of the United Kingdom. When I hear the arguments that are being put forward, the arguments against establishing a jurisdiction here in Wales, it seems to me that they are arguments of, 'Yes, but not yet'—the arguments that we have heard many times about all aspects of devolution over the years. But, what we haven't heard is a strong argument as to why this will create a conflict, a barrier, or a problem that doesn't exist today, or why this will not solve the problems that do exist today. I have to say, my experience of Government tells me that, where there are issues, where you do not understand properly the difference in responsibilities for the Welsh Government and the United Kingdom Government, that creates conflict. Conflict is created not by clarity, but by the lack of clarity. A jurisdiction—and a separate jurisdiction—will create clarity. My view is that that clarity will be a powerful element of ensuring that we take conflict out of the devolution settlements within the United Kingdom. It's not there as some sort of emblematic nationalist identity; it's there as a pragmatic response to the sort of constitutional settlement that we have and we say we want to see and we want to see grow into the future.

We've discussed here this afternoon, and other times, the Supreme Court referral on the agricultural sector Bill. I have to say, I took the decisions around that and I took the decisions that we would legislate, I took the decisions that we would oppose the UK Government on that issue. I have to say, I thought the decision that I took to introduce legislation here and then the inevitable reference to the Supreme Court was a failure; not a success, but a failure. It was a failure of the process, it was a failure of the system, and it was a failure of the structures that we have today. Unless and until we're able to achieve a situation where we do have far, far greater clarity within the structures of the United Kingdom, then there will be more and not fewer of those failures in the future. That is why I believe that we should—. I understand the arguments and I believe there's a consensus here in favour of a distinct jurisdiction rather than a separate jurisdiction—I understand the arguments for that—but my fear is that this will be another messy compromise, that this will be the second-best option and that this will not provide us with the clarity and stability that we will need into the future. I think all of us, whatever our perspectives on these matters this afternoon, are united by a desire to move away from debates around the settlement to actually delivering our ambitions for that settlement. And all of us—. David Melding's warning at the beginning of the debate was very clear: we do not want to see a Wales Act 2016 and then a requirement for another Wales Act in 2019, 2020, 2021—nobody wants that. And that is why I believe that we should look towards long-term stability in what we're seeking to do today, and that we should look towards a jurisdiction that will provide and underpin that stability.

Os mai diben y Bil yw cadw a gwarchod yr awdurdodaeth, rhaid i mi ddweud fy mod yn credu mai dyna'r pwrpas anghywir. Dylai diben y Bil ganolbwyntio ar wella democratiaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Dylai diben y Bil ganolbwyntio ar wella cyfansoddiad y Deyrnas Unedig. Pan fyddaf yn clywed y dadleuon sy'n cael eu cyflwyno, y dadleuon yn erbyn sefydlu awdurdodaeth yma yng Nghymru, mae'n ymddangos i mi eu bod yn ddadleuon sy'n dweud, 'Ie, ond dim eto'—y dadleuon rydym wedi'u clywed droeon am bob agwedd ar ddatganoli dros y blynyddoedd. Ond, yr hyn nad ydym wedi'i glywed yw dadl gref ynglŷn â pham y bydd hyn yn creu gwrthdaro, rhwystr, neu broblem nad yw'n bodoli heddiw, neu pam na fydd hyn yn datrys y problemau sy'n bodoli heddiw. Rhaid i mi ddweud, mae fy mhrofiad o Lywodraeth yn dweud wrthyf, os oes problemau, lle nad ydych yn deall yn iawn y gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, bod hynny'n creu gwrthdaro. Mae gwrthdaro yn cael ei greu nid gan eglurder, ond gan ddiffyg eglurder. Bydd awdurdodaeth—ac awdurdodaeth ar wahân—yn creu eglurder. Yn fy marn i, bydd eglurder yn elfen gref o sicrhau ein bod yn dileu gwrthdaro o'r setliadau datganoli yn y Deyrnas Unedig. Nid yw yn fel rhyw fath o hunaniaeth genedlaetholgar arwyddluniol; mae yno fel ymateb pragmatig i'r math o setliad cyfansoddiadol sydd gennym ac rydym yn dweud ein bod am ei weld ac rydym am ei weld yn tyfu yn y dyfodol.

Rydym wedi trafod yma'r prynhawn yma, ac ar adegau eraill, atgyfeirio Bil y sector amaethyddol i'r Goruchaf Lys. Rhaid i mi ddweud mai fi a gymerodd y penderfyniadau ynglŷn â hynny a'r penderfyniadau y byddem yn deddfu, ac mai fi a gymerodd y penderfyniadau i wrthwynebu Llywodraeth y DU ar y mater hwnnw. Rhaid i mi ddweud, roeddwn yn meddwl bod fy mhenderfyniad i gyflwyno deddfwriaeth yma ac yna'r atgyfeiriad anochel i'r Goruchaf Lys yn fethiant; nid yn llwyddiant, ond yn fethiant. Roedd yn fethiant o ran y broses, roedd yn fethiant o ran y system, ac roedd yn fethiant o ran y strwythurau sydd gennym heddiw. Oni bai a hyd nes ein bod yn gallu creu sefyllfa lle mae gennym lawer, llawer mwy o eglurder oddi mewn i strwythurau'r Deyrnas Unedig, yna bydd mwy ac nid llai o'r methiannau hyn yn y dyfodol. Dyna pam rwy'n credu y dylem—. Rwy'n deall y dadleuon ac rwy'n credu bod yna gonsensws yma o blaid awdurdodaeth benodol yn hytrach nag awdurdodaeth ar wahân—rwy'n deall y dadleuon dros hynny—ond rwy'n ofni y bydd hyn yn gyfaddawd anniben arall, mai hwn fydd yr opsiwn ail-orau ac na fydd hyn yn rhoi i ni'r eglurder a'r sefydlogrwydd y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol. Rwy'n meddwl bod pob un ohonom, pa safbwyntiau bynnag sydd gennym ar y materion hyn y prynhawn yma, yn cael ein huno gan awydd i symud i ffwrdd oddi wrth ddadleuon am y setliad tuag at fynd ati i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y setliad. Ac mae pob un ohonom—. Roedd rhybudd David Melding ar ddechrau'r dadl yn glir iawn: nid ydym eisieu gweld Deddf Cymru 2016 ac yna ofyniad am Ddeddf Cymru arall yn 2019, 2020, 2021—does neb eisieu hynny. A dyna pam rwy'n credu y dylem edrych tuag at sefydlogrwydd hirdymor o ran yr hyn rydym yn ceisio ei wneud heddiw, ac y dylem edrych tuag at awdurdodaeth a fydd yn darparu'r sefydlogrwydd hwnnw ac yn sylfaen iddo.

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dyma'r gair olaf, ond rwyf eisiau dechrau drwy anghytuno gyda fy nghyd-Aelod o'r pwyllgor. Nid methiant oedd beth wnaeth o wrth basio'r Ddeddf yna, nag ychwaith yr ystyriaeth a gafodd hi gan y Goruchaf Lys, ond llwyddiant, oherwydd fe gawsom ni ddiffiniad cwbl glir o'r sefyllfa gyfansoddiadol rydym ni ynddi ar hyn o bryd, gyda'r pwerau sydd gyda ni a gyda'r model sydd gyda ni o bwerau wedi'u rhoi. Ac mae'r diffiniad yna—nid af i ganmol barnwyr unigol neu efallai y gwnaf ddrwg i'w—. Wel, maen nhw wedi cyrraedd yn ddigon pell erbyn hyn, ond efallai y gwnaf ddrwg i'w gyrfaeod nhw. Ond, y mae'r diffiniad yna yn glir iawn, ac mae'n rhaid i mi ddweud—ac rwy'n meddwl fy mod i wedi ei ddweud o'r blaen, hyd yn oed efallai yn fan hyn—mae'n well gen i weithio gyda'r diffiniad clir yna gan y Goruchaf Lys o'r pwerau sydd gyda ni nawr na beth sydd yn cael ei gynnis i ni yn y Bil drafft presennol. Ac rwy'n meddwl bod hwnnw'n safbwynt cwbl gyson a chwbl glir.

Yn fyr iawn, mae yna lot o rwdlan, fel rydym yn ddweud yn y gogledd, wedi bod ynglŷn ag awdurdodaeth yn y busnes yma. Ar yr ystâd hon, yn adeilad y Pierhead, yn fuan ar ôl iddo ddod i'w aruchel swydd, dyma Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr yn dweud ein bod ni'n byw yn barod mewn o leiaf dair awdurdodaeth. Ac os edrychwn ni ar ein cyfansoddiad ac ar ein Deddfau ni, rydym yn gwybod ein bod ni'n gorfod derbyn yr hyn sydd yn Neddfau'r Deyrnas Unedig, yn Neddfau Ewrop ac mi fuaswn yn dweud, wrth gwrs, mewn cyfraith ryngwladol ac yn arbennig yr hyn sy'n datblygu'n gynyddol, yn enwedig ym maes yr amgylchedd, gan y Cenhedloedd Unedig a chytundebau rhyngwladol eraill, a'r pwerau sydd ynddyn nhw. Felly, rydym mewn pedair, efallai, awdurdodaeth. Ac felly nid awdurdodaeth—. Mae'r ddadl ynglŷn ag awdurdodaeth, os y bu hi'n unrhyw beth erioed, yn rhoi y drol o flaen y ceffyl.

Mi orffennaf drwy gyfeirio—. Rwyf wedi cyfeirio at un tyst disglair cyfreithiol, ac rwyf am gyfeirio at y llall—at Emyr Lewis. Mi ddywedodd yn glir iawn wrthym ni yn y pwyllgor nad oedd o'n meddwl mai awdurdodaeth llysoedd oedd y broblem, ond bod gennym ni'r disgrifiadau yma o gyrrf o gyfraith, o gyfraith Cymru a Lloegr, a chyfreithiau hefyd sydd yn wahanol yng Nghymru na beth ydyn nhw yn Lloegr. Ac, yna, mae'r rhain yn mynd yn gyson yn fwy gwahanol, ond eto mae yna awydd gan rai pobl anneallus, megis gweision sifil yn San Steffan, i wasgu y cyfan i mewn i un corff o gyfraith Cymru a Lloegr. Rwan, medraf ddweud wrth y bobl yma, yn y canol oesoedd, nid oedd yna broblem. Yn y Mers ac yng Nghymru roedd yna dair cyfraith yn cyd-fynd.

This will be my final word, but I want to start by disagreeing with my fellow committee member. What he did in passing that piece of legislation was not a failure, and neither was the consideration given to it by the Supreme Court a failure. It was a success because we had a clear definition of the constitutional situation that we are currently in, with the powers that we currently have and the model that we currently have of conferred powers. That definition—and I won't praise individual judges or I may damage their reputation—. Perhaps they've gone far enough, but I might damage their careers. But, that definition is very clear and I have to say—and I think I may have said this before, possibly in this place—that I'd prefer to work with that clear definition provided by the Supreme Court of the powers that we have now, than what is being proposed in the current draft Bill. I think that is an entirely consistent position and a clear position to take.

Very briefly, there's been a great deal of rubbish talked in terms of jurisdiction in relation to this. On this estate, in the Pierhead building, soon after he came to his esteemed position, the Lord Chief Justice of England and Wales said that we were already living in at least three jurisdictions. If we look at our constitution and our legislation, we know that we do have to accept what is in UK legislation, in European legislation, and I would also say in international law and particularly what is increasingly developing, particularly in terms of the environment, within the United Nations and the various international treaties, and the powers contained in them. So, we may be in four jurisdictions. And, therefore, jurisdiction is not—. The debate on jurisdiction, if it were ever anything, is putting the cart before the horse.

I will conclude by referring—. I've already referred to one brilliant legal witness and I want to refer to another: Emyr Lewis. He stated very clearly at the committee that he didn't think that the court jurisdiction was the problem, but that we had these descriptions of bodies of law, of England and Wales law, for example, and also laws that are different in Wales to what they are in England. These are diverging more and more, but there is still a desire by some unintelligent people, such as civil servants in Westminster, to actually compress it all into one body of England and Wales law. Now, I can tell those people that, in the middle ages, there was no problem. In the Marches and in Wales there were three bodies of law living simultaneously.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hear, hear.

Clywch, clywch.

18:53

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr. Rwyf yn falch o gefnogaeth fy nghyfaill o Sir Fynwy bob amser. Roedd yna dair system o gyfraith yn cyd-fynd, ac roedd y diffinnydd lwcus mewn achosion sifil yn gallu dewis: 'Plis, syr, a allaf i gael fy mhrofi dan gyfraith y brenin?', meddai un. 'Plis, a gaf i gael fy mhrofi dan gyfraith y Mers a chyfraith y barwniaid?' Nid wyf yn siŵr a oedd hwnnw yn beth defnyddiol, ond mi roedd y llall yn ddiddorol iawn: 'Plis, a gaf i fy mhrofi dan gyfraith Hywel?' Ac felly rydym wedi bod yma o'r blaen. Mae'r syniad bod amrywiaeth cyfraith yn broblem i gyfreithwyr—. Fel yn sicr mae'r Prif Weinidog wedi ei awgrymu'n barod, mae'n fanteisiol iddyn nhw. Ond dewch i ni beidio â dychmygu bod yna fath beth â Chymru a Lloegr yn dal i fod fel y buodd hi, achos, a dweud y gwir, fuodd hi erioed fel yna.

Thank you. I'm pleased to have the support of my colleague from Monmouthshire on all occasions, of course. We had three systems of law running simultaneously and the lucky defendant in civil cases could choose: 'Please, sir, can I be tried under Crown law?', said one. 'Please, can I be tried under the law of the Marches and the barons?' I'm not sure if that was useful, and the other was very interesting: 'Please, can I be tried under the laws of Hywel Dda?' So, we've been here before. This idea that a divergence in law is a problem for lawyers—. As the First Minister has already said, it's a benefit to them. Let's not actually imagine that there is such a thing as England and Wales that still exists as it did in the past, because it truly never was the case.

18:54

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the First Minister to speak on behalf of the Government. Carwyn Jones.

Galwaf ar y Prif Weinidog i siarad ar ran y Llywodraeth. Carwyn Jones.

18:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, Llywydd. Could I begin by saying that at the heart of the Bill is this issue, that it reserves the law in its entirety, and then confers powers out from that reservation? Because of that, it's not truly a reserved-powers model. If we look at the law itself, can I say, from the beginning, as I start, that I was unconvinced about the need for a jurisdiction at the beginning of this process? Now, I am utterly convinced. Because I know that the issue of the preservation of the single jurisdiction is at the very heart of the flaw in the Wales Bill. It's because of the single jurisdiction that the Bill is flawed. That's why it has to be addressed.

Diolch i chi, Lywydd. Gaf i ddechrau drwy ddweud mai dyma'r mater sydd wrth wraidd y Bil, ei fod yn cadw yn ôl y gyfraith yn ei chyfanrwydd, ac yna'n rhoi pwerau o'r cymal cadw hwnnw? Oherwydd hynny, nid yw'n fodel cadw pwerau'n ôl mewn gwirionedd. Os edrychwn ni ar y gyfraith ei hun, gaf i ddweud, o'r dechrau, wrth i mi gychwyn, nad oeddwn wedi fy argyhoeddi o'r angen am awdurdodaeth ar ddechrau'r broses hon? Yn awr, rwy'n gwbl argyhoeddedig. Oherwydd rwy'n gwybod mai'r mater o warchod yr awdurdodaeth sengl sydd wrth wraidd y diffyg ym Mil Cymru. Yr awdurdodaeth sengl sy'n gyfrifol am ddiffygion y Bil. Dyna pam y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi.

We have a situation now where judges cannot sit in Wales unless they're trained in areas of Welsh law. That's happening now. We have practitioners—I've heard this from judges—who come into Wales and argue the wrong law because they think the law in England and Wales is the same. We have legislation that, on the face of the legislation, says that it applies to England and Wales, but it doesn't. So, my question is: why the obsession with preserving the single jurisdiction? We know that things have changed. To say it's been there for centuries is to ignore devolution, because we have a National Assembly. It is a law-making Assembly and, of course, in time, a Parliament.

Mae gennym sefyllfa yn awr lle na all barnwyr eistedd yng Nghymru oni bai eu bod wedi'u hyfforddi mewn meysydd o gyfraith Cymru. Mae hynny'n digwydd yn awr. Mae gennym ymarferwyr—rwyf wedi clywed hyn gan farnwyr—sy'n dod i Gymru ac yn dadlau'r gyfraith anghywir oherwydd eu bod yn credu bod y gyfraith yng Nghymru a Lloegr yr un fath. Mae gennym ddeddfwriaeth sydd, ar wyneb y ddeddfwriaeth, yn dweud ei bod yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ond nid yw hynny'n wir. Felly, fy nghwestiwn yw: beth yw'r rheswm am yr obsesiwn gyda chadw'r awdurdodaeth sengl? Rydym yn gwybod bod pethau wedi newid. Mae dweud ei bod wedi bod yno ers canrifoedd yn anwybyddu datganoli, gan fod gennym Gynulliad Cenedlaethol. Mae'n Gynulliad deddfu ac, wrth gwrs, ymhen amser, yn Senedd.

Whilst, of course, I accept and agree with the motion itself, there are one or two issues that I think need further examination. I don't understand the difference between a 'distinct' and a 'separate' jurisdiction, I have to say. You cannot have a distinct jurisdiction within a jurisdiction. So, the question I would ask is: what does that mean exactly? I'm sure part of the answer is that it would mean that laws only extend to Wales. But, what is the difference between a distinct and a separate jurisdiction? One way, possibly, of explaining it would be that a separate jurisdiction would have a separate court system; a distinct jurisdiction would be a separate jurisdiction, but without a separate court system. I accept that. One of the issues that I had with the issue of a separate jurisdiction was the cost of setting up a separate court system. But, the Lord Chief Justice himself has said there's no need to do that. So, the cost of setting up a court system disappears. In fact, if the Ministry of Justice were to look at this carefully, they would understand that if we share a court system with them, we would have to contribute towards it, because we're sharing the court system. There's a saving for them. They haven't quite twigged that yet, but they know that. We accept that that is going to be the case.

We know that there is an obsession with keeping the law of England and Wales, but, if you have a distinct jurisdiction, you cannot have a law of England and Wales. It has to be a law of Wales and a law of England. Is that such a radical move? England and Wales is the only jurisdiction anywhere in the world where there are two legislatures that pass laws in the same policy areas. It's abnormal. That can never work in the long term. The UK does not exist as a legal jurisdiction. Scotland does. Northern Ireland does. The Isle of Man does. Jersey does. Guernsey does. There are hundreds of jurisdictions with the US. They all exist with very porous borders. So, actually, it's not that radical a suggestion to set up a Welsh jurisdiction with a shared court system. Northern Ireland did it less than 100 years ago. Northern Ireland is half the size of Wales. The route through the courts in Northern Ireland leads ultimately to the Supreme Court. The route in the Scottish courts, in the civil courts, leads to the Supreme Court—not in the criminal courts, which are completely self-contained.

The issue of a porous border: well, again, in America, there's any number of jurisdictions with porous borders. There is no more porous border than the border between Northern Ireland and the Republic of Ireland, and that's a border between two sovereign states. And, if UKIP have their way, the border between the UK and the EU. That border is very, very similar to the border between England and Wales in terms of the travel across it, in terms of the settlements on both sides of it. There's no problem there in terms of the fact that not only are there different jurisdictions, but, of course, they're physically two sovereign states. So, the issue of the porousness of the border, to my mind, doesn't apply.

Er, wrth gwrs, fy mod yn derbyn ac yn cytuno â'r cynnig ei hun, mae un neu ddau fater sydd angen eu harchwilio ymhellach yn fy marn i. Nid wyf yn deall y gwahaniaeth rhwng awdurdodaeth 'benodol' ac awdurdodaeth 'ar wahân', rhaid i mi ddweud. Ni allwch gael awdurdodaeth benodol o fewn awdurdodaeth. Felly, y cwestiwn y byddwn yn ei ofyn yw: beth mae hynny'n ei olygu yn union? Rwy'n siŵr mai rhan o'r ateb yw y byddai'n golygu bod cyfreithiau yn ymestyn i Gymru yn unig. Ond, beth yw'r gwahaniaeth rhwng awdurdodaeth benodol ac awdurdodaeth ar wahân? Un ffordd, o bosibl, o egluro'r gwahaniaeth yw y byddai gan awdurdodaeth ar wahân system llysoedd ar wahân; byddai awdurdodaeth benodol yn awdurdodaeth ar wahân, ond heb system llysoedd ar wahân. Rwy'n derbyn hynny. Un o'r problemau a oedd gennyf gyda'r mater o awdurdodaeth ar wahân oedd y gost o sefydlu system llysoedd ar wahân. Ond, mae'r Arglwydd Brif Ustus ei hun wedi dweud nad oes angen gwneud hynny. Felly, mae'r gost o sefydlu system llysoedd yn diflannu. Yn wir, pe bai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn edrych ar hyn yn ofalus, byddent yn deall pe baem yn rhannu system llysoedd gyda hwy, byddai'n rhaid i ni gyfrannu tuag ati, oherwydd ein bod yn rhannu system y llysoedd. Byddai'n arwain at arbedion iddynt hwy. Nid ydynt wedi sylweddoli hynny eto, ond maent yn gwybod hynny. Rydym yn derbyn mai dyna fydd yn digwydd.

Rydym yn gwybod bod yna obsesiwn gyda chadw cyfraith Cymru a Lloegr, ond, os oes gennych awdurdodaeth benodol, ni allwch gael cyfraith Cymru a Lloegr. Mae'n rhaid iddi fod yn gyfraith Cymru a chyfraith Lloegr. A yw hwnnw'n newid radical mewn gwirionedd? Cymru a Lloegr yw'r unig awdurdodaeth yn y byd lle mae dwy ddeddfwrfa sy'n pasio deddfau yn yr un meysydd polisi. Mae'n annormal. Ni all hynny weithio yn yr hirdymor. Nid yw'r DU yn bodoli fel awdurdodaeth gyfreithiol, yn wahanol i'r Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, Jersey a Guernsey. Mae cannoedd o awdurdodaethau yn yr Unol Daleithiau. Maent i gyd yn bodoli gyda ffiniau tyllog iawn. Felly, mewn gwirionedd, nid yw'n awgrym mor radical â hynny i sefydlu awdurdodaeth i Gymru gyda system llysoedd a rennir. Gwnaeth Gogledd Iwerddon hynny lai na 100 mlynedd yn ôl. Mae Gogledd Iwerddon hanner maint Cymru. Mae'r llwybr drwy'r llysoedd yng Ngogledd Iwerddon yn arwain yn y pen draw at y Goruchaf Lys. Mae'r llwybr yn llysoedd yr Alban, yn y llysoedd sifil, yn arwain at y Goruchaf Lys—nid yn y llysoedd troseddol, sy'n gwbl hunangynhwysol.

Ynglŷn â'r mater o ffin dyllog: wel, unwaith eto, yn America, mae llawer iawn o awdurdodaethau â ffiniau tyllog. Nid oes unrhyw ffin fwy tyllog na'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, a ffin rhwng dwy wladwriaeth sofran yw honno. Ac, os yw UKIP yn cael ei ffordd, y ffin rhwng y DU a'r UE. Mae'r ffin honno yn debyg iawn iawn i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr o ran teithio ar ei thraws, o ran yr aneddiadau ar y naill ochr a'r llall. Nid oes unrhyw broblem yno o ran y ffaith fod awdurdodaethau gwahanol yno, ac, wrth gwrs, y ffaith eu bod yn ddwy wladwriaeth sofran yn ffisegol. Felly, nid yw'r mater o natur dyllog y ffin yn berthnasol yn fy marn i.

If we take out the issue of the cost, and this is an issue that the Secretary of State and I have debated—take out that issue—the next issue that's put in place is the issue of how would the professions work. Would it be possible for lawyers in Wales to practice in England? Good question, and an important question. The answer is, 'Of course they would'. They'd have a unified court system with the same rules, the same procedures. When I was in practice, it wasn't difficult to go and practice in Northern Ireland, or the Isle of Man, or Jersey, or Guernsey, or the Australian states, or New Zealand—but not in Scotland—because they were all common law jurisdictions. This idea that somehow there would be a barrier put in place for lawyers travelling between the two is nonsense because we see it in jurisdictions elsewhere. So, that argument goes out the window.

We're at the point now, in dealing with the UK Government, where, when we say, 'What is the point, then, of keeping things as they are?', the answer simply is, 'Because we want to'. There's no more reasoning behind it. So, what we look at when we talk about a distinct jurisdiction is not something radical; it's normal. It's not something that somehow affects the unity of the UK, because the UK doesn't have a legal jurisdiction. It's a model that is replicated across many, many other parts of the world. It doesn't carry a major cost, because we would not have a separate courts system, we would not have a separate penal system—they do carry costs; I understand that. There would not be a problem in terms of the legal professionals being able to operate in different jurisdictions either. So, we come back to this point: what is the point of keeping something that is so complicated when there is a simple alternative? That is something that we need to wrestle with, I would argue.

That said, the committee, of course, has looked at this in detail. It's certainly a step forward to have a situation where we do not have laws that technically apply in England or laws that say that they apply across England and Wales but only apply in England and not in Wales. That can't be tidy. We know that the jurisdiction as it stands is the fundamental flaw at the heart of the Bill. Unless that is dealt with, then that flaw will always remain. Now, I'm open to ideas that would show that there are other alternatives. What the committee has come up with is an interesting idea, but are we really saying that the Welsh Parliament, if it's called that in the next Assembly term, will be the only parliament in the world without a jurisdiction, because that's what it would be? It doesn't mean it has to control all the laws. There are UK laws that operate in Scotland and Northern Ireland that operate within those jurisdictions. There's no difficulty with that. It's a widely accepted situation. But we have to understand that if we're going to get a tidy, clear, simple settlement, then avoiding the issue is not an option. One of the options has been put forward by the committee. I welcome that, and there will be many other options, I am sure, that will be looked at over the course of the next few months.

Os ydym yn diystyru'r mater o gost, ac mae hwn yn fater rwyf i a'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i drafod—diystyrwch y mater hwnnw—y cwestiwn nesaf yw sut y byddai'r proffesiynau yn gweithio? A fyddai'n bosibl i gyfreithwyr yng Nghymru ymarfer yn Lloegr? Cwestiwn da, a chwestiwn pwysig. Yr ateb yw, 'Wrth gwrs y byddai'. Byddai ganddynt system llysoedd unedig gyda'r un rheolau, yr un gweithdrefnau. Pan oeddwn yn ymarfer, nid oedd yn anodd mynd i ymarfer yng Ngogledd Iwerddon, neu Ynys Manaw, neu Jersey, neu Guernsey, neu daleithiau Awstralia, neu Seland Newydd—ond nid yn yr Alban—oherwydd eu bod i gyd yn awdurdodaethau cyfraith cyffredin. Mae'r syniad y byddai rhwystr yn cael ei gosod rywsut i atal cyfreithwyr rhag teithio rhwng y ddwy yn nonsens oherwydd ein bod yn ei weld mewn awdurdodaethau mewn llefydd eraill. Felly, nid yw'r ddadl honno yn berthnasol.

Rydym wedi cyrraedd y pwynt yn awr, wrth drafod â Llywodraeth y DU, ble, pan ein bod yn dweud, 'Beth yw'r pwynt, felly, o gadw pethau fel ag y maent?', yr ateb syml yw, 'Oherwydd ein bod ni eisiau'. Nid oes unrhyw resymeg arall amdano. Felly, pan fyddwn yn sôn am awdurdodaeth benodol, nid ydym yn edrych ar rywbeth radical; mae'n rhywbeth cyffredin. Nid yw'n rhywbeth sydd rywsut yn effeithio ar undod y Deyrnas Unedig, oherwydd nid oes gan y DU awdurdodaeth gyfreithiol. Mae'n fodel sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawer iawn o rannau eraill o'r byd. Nid yw'n arwain at gost fawr, gan na fyddai gennym system llysoedd ar wahân na system cosbi ar wahân—mae costau ynghlwm wrth y rheiny; rwy'n deall hynny. Ni fyddai problem o ran gallu gweithwyr cyfreithiol proffesiynol i weithio mewn awdurdodaethau gwahanol chwaith. Felly, rydym yn dod yn ôl at y pwynt hwn: beth yw diben cadw rhywbeth sydd mor gymhleth pan fo dewis amgen syml ar gael? Dyna rywbeth y mae angen i ni ei bwysu a'i fesur yn fy marn i.

Wedi dweud hynny, mae'r pwyllgor, wrth gwrs, wedi edrych ar hyn yn fanwl. Mae'n sicr yn gam ymlaen i gael sefyllfa lle nad oes gennym ddeddfau sy'n berthnasol yn dechnegol i Loegr neu ddeddfau sy'n dweud eu bod yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ond sydd ond yn berthnasol i Loegr ac nid i Gymru. Ni all hynny fod yn daclus. Rydym yn gwybod mai'r awdurdodaeth fel y mae yw diffyg sylfaenol y Bil. Oni bai yr ymddrinnir â hi, ni fydd modd cael gwared â'r diffyg. Nawr, rwy'n fodlon gwrandao ar syniadau a fyddai'n dangos bod dewisiadau amgen ar gael. Mae'r pwyllgor wedi datblygu syniad diddorol, ond a ydym yn dweud mewn gwirionedd mai Senedd Cymru, os mai dyna yw ei theitl yn nhymor nesaf y Cynulliad, fydd yr unig senedd yn y byd heb awdurdodaeth, oherwydd dyna fyddai'r sefyllfa? Nid yw'n golygu bod yn rhaid iddi reoli'r holl ddeddfau. Mae rhai o ddeddfau'r DU yn gweithredu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon oddi mewn i'r awdurdodaethau hynny. Nid oes unrhyw anhawster gyda hynny. Mae'n sefyllfa a dderbynnir yn eang. Ond mae'n rhaid i ni ddeall, os ydym yn mynd i gael setliad taclus, clir, syml, nid yw osgoi'r broblem yn opsiwn. Mae un o'r opsiynau wedi cael ei gyflwyno gan y pwyllgor. Rwy'n croesawu hynny, a bydd llawer o opsiynau eraill, rwy'n siŵr, a fydd yn cael eu hystyried dros y misoedd nesaf.

19:02

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee to reply to the debate—David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymateb i'r ddadl—David Melding.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:02

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. As this will be the last contribution to this afternoon's debates on the draft Wales Bill, can I thank all Members who have taken part? I think we've had a hugely important and constructive debate, or series of debates, and I think it does demonstrate that we want to come up with the solutions to the challenges of Welsh governance and what would be a settled constitutional position.

Mick Antoniw started this section by saying that a distinct jurisdiction is a simple, practical reform, and it does allow theory to catch up with practice. He referred, in this sense, that the judiciary are already more or less treating Wales as if it's a distinct jurisdiction so that Welsh laws can be properly administered. And that very much reflects the tone of the evidence that we've had from various representatives from the judiciary.

Lots of people have referred to a separate jurisdiction, and I will reply to some of the First Minister's questions in a moment, but can I say to Nick Ramsay that you did concentrate on a separate jurisdiction rather than what the committee recommended, which is distinct? I do think that that's a distinction with a difference. I don't think a distinct jurisdiction is just another name for a separate jurisdiction, as I will indicate. So, I would say to you that, in supporting this motion, and acknowledging that we do need a distinct jurisdiction, you are not, by doing that, saying that you agree with a move in the near future to a separate jurisdiction, if that helps you this afternoon.

Simon Thomas just demonstrated—

19:04

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

19:04

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll give way.

19:04

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry to intervene. For the record, I think I do need to point out that I did support the CLA committee's call for a distinct jurisdiction. I think that would be understood by most Members in the Chamber.

19:04

David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, and, certainly, if you vote in favour of the motion, then that's exactly what you'll be doing, and it should not be confused with endorsing at this stage a separate jurisdiction. Perhaps I did not express myself very clearly.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch i chi, Lywydd. Gan mai hwn fydd y cyfraniad olaf i ddadleuon y prynhawn yma ar Fil Cymru drafft, a gaf i ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan? Rwy'n credu ein bod wedi cael dadl hynod bwysig ac adeiladol, neu gyfres o ddadleuon, ac rwy'n credu ei bod yn dangos ein bod yn awyddus i ddog o hyd i atebion i heriau llywodraethu yng Nghymru a'r hyn a fyddai'n creu sefyllfa gyfansoddiadol sefydlog.

Dechreuodd Mick Antoniw yr adran hon drwy ddweud bod awdurdodaeth benodol yn ddiwygiad syml, ymarferol, sy'n golygu bod theori ac ymarfer yn cyd-fynd â'i gilydd. Cyfeiriodd, yn y cyswllt hwn, at y ffaith fod y farnwriaeth eisoes yn trin Cymru i raddau helaeth fel awdurdodaeth benodol fel bod deddfau Cymru yn cael eu gweinyddu'n briodol. Ac mae hynny'n adlewyrchu naws y dystiolaeth a gawsom gan gynrychiolwyr gwahanol o'r farnwriaeth.

Mae llawer o bobl wedi cyfeirio at awdurdodaeth ar wahân, a byddaf yn ymateb i rai o gwestiynau'r Prif Weinidog cyn bo hir, ond gaf i ddweud wrth Nick Ramsay eich bod wedi canolbwyntio ar awdurdodaeth ar wahân yn hytrach na'r hyn a argymhellodd y pwyllgor, sy'n wahanol? Rwy'n credu bod awdurdodaeth benodol yn wahanol. Nid wyf yn credu mai dim ond enw arall am awdurdodaeth ar wahân yw awdurdodaeth benodol, fel y byddaf yn ei ddangos. Felly, byddwn yn dweud wrthy, wrth gefnogi'r cynnig hwn, a chydabod bod angen awdurdodaeth benodol arnom, nad ydych, drwy wneud hynny, yn dweud eich bod yn cytuno â'r syniad o symud tuag at awdurdodaeth ar wahân yn y dyfodol agos, os yw hynny yn eich helpu'r prynhawn yma.

Mae Simon Thomas newydd ddangos—

A wnewch chi ildio?

Byddaf yn ildio.

Mae'n ddrwg gennyf ymyrryd. Er mwyn i bawb gael gwybod, rwy'n meddwl bod angen i mi nodi fy mod wedi cefnogi galwad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer awdurdodaeth benodol. Rwy'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf o Aelodau yn y Siambr yn deall hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Simon Thomas gave us an example of the current fiction that means that England-and-Wales law extends to England and Wales even when it is only applied in England, or applied in Wales—whatever. Your confused citizen ought to have been confused. He asked a very rational question. We don't serve our electorate very well, I think, if we don't attempt, at least, to bring some clarity to this area.

William Powell said that the administration of justice needs to keep pace with the consequences of devolution. Again, I think the judiciary absolutely take that on board. And that divergence is inevitable. Even if we continue under the current fiction that it's meaningful to say that something only applies in England or Wales but extends to both, even if you keep on with that concept, divergence is inevitable, because more and more law is going to be made to be specifically applied in Wales, and more and more laws will be made specifically to be applied in England. Divergence is a consequence of devolved Government. It is going to happen, and it is going to increase.

Alun Davies said that to preserve and protect the single jurisdiction should not be one of the purposes of the Bill, however much you want a single jurisdiction, should that be your view, and I agree with that. I think that has been part of the problem. It is one of the design flaws, I'm afraid. I also think you were very wise in reminding us that conflict is very often just caused by a lack of clarity, and it leads to huge problems. Again, it doesn't help the proper intergovernmental relations that you want to see develop if there's just this horrible confusion as to who can do what.

Dafydd Elis-Thomas said that the Supreme Court did clarify our constitutional position, without question. It was a landmark judgment and it helped Welsh governance. It brought great clarity. And, of course, it did it by interpreting the intention of Members of Parliament when they passed the Government of Wales Act 2006. There is a danger that this clarity will now be lost. That would be backwards step, there's absolutely no question about it, and we need to prevent that occurring. Then you talked about the overlapping jurisdictions, which is just part of modern governance, as it was part of medieval governance, and I'm sure we will all reflect on these deep historical judgments and comparisons that you've made.

The First Minister said that one of the problems with the draft Bill is that it reserves 'the law', and that is not a proper field to say is reserved, because law extends to all legislative action in public policy areas, and to reserve 'the law' in that sense is a confusing and unhelpful thing to do. It certainly, if you do that, means that, whatever you then say are the powers of the Assembly, then you are, in effect, conferring those powers on it, and it continues this conferred-powers mentality.

Rhododd Simon Thomas enghraifft i ni o'r myth presennol sy'n golygu bod cyfraith Cymru a Lloegr yn ymestyn i Gymru a Lloegr, hyd yn oed pan ei bod yn berthnasol i Loegr yn unig, neu i Gymru yn unig—neu beth bynnag. Nid oes syndod bod eich dinesydd dryslyd wedi'i ddrwsu. Gofynnodd gwestiwn rhesymegol iawn. Nid ydym yn gwasanaethu ein hetholwyr yn dda iawn, yn fy marn i, os nad ydym yn ceisio, o leiaf, dod â rhywfaint o eglurder i'r maes hwn.

Dyweddodd William Powell fod angen i'r broses o weinyddu cyfiawnder gadw i fyny â chanlyniadau datganoli. Unwaith eto, rwy'n meddwl bod y farnwriaeth yn rhoi pob ystyriaeth i hynny. A bod gwahaniaeth yn anochel. Hyd yn oed os byddwn yn parhau â'r myth presennol ei bod yn ystyrion dweud bod rhywbeth ond yn berthnasol i Gymru neu Loegr ond ei fod yn ymestyn i'r ddwy wlad, hyd yn oed os ydych yn parhau â'r cysyniad hwnnw, mae gwahaniaeth yn anochel, gan fod mwy a mwy o ddeddfau yn mynd i gael eu llunio ar gyfer Cymru yn benodol, a bydd mwy a mwy o ddeddfau yn cael eu llunio ar gyfer Lloegr yn benodol. Mae gwahaniaeth yn ganlyniad Llywodraeth ddatganoledig. Mae'n mynd i ddiwydd, ac mae'n mynd i gynyddu.

Dyweddodd Alun Davies na ddylai cadw a gwarchod yr awdurdodaeth sengl fod yn un o ddibenion y Bil, faint bynnag y mae rhywun eisiau awdurdodaeth sengl, os mai dyna ei safbwynt, a chytunaf â hynny. Dyna fu rhan o'r broblem rwy'n meddwl. Mae'n un o ddiffygion y cynllun, yn anffodus. Rwyf hefyd yn meddwl eich bod yn ddoeth iawn i'n hatgoffa bod gwrthdaro yn aml iawn yn deillio o ddiffyg eglurder yn unig, ac mae'n arwain at broblemau enfawr. Unwaith eto, nid yw'n helpu'r cysylltiadau rhynglywodraethol priodol y mae rhywun am eu gweld yn datblygu os oes dryswch ofnadwy ynglŷn â phwy sy'n gallu gwneud beth.

Dyweddodd Dafydd Elis-Thomas fod y Goruchaf Lys wedi egluro ein sefyllfa gyfansoddiadol, heb amheuaeth. Roedd yn ddyfarniad nodedig a oedd o gymorth i drefn llywodraethu Cymru. Arweiniodd at eglurder mawr. Ac, wrth gwrs, fe wnaeth hynny drwy ddehongli bwriad Aelodau Seneddol pan aethant ati i basio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae perygl y bydd yr eglurder hwn yn awr yn cael ei gollu. Byddai hynny'n gam yn ôl, nid oes amheuaeth am hynny, ac mae angen i ni atal hynny rhag digwydd. Wedyn aethoch ati i siarad am yr awdurdodaethau sy'n gorgyffwrdd, sy'n rhan o lywodraethu modern mewn gwirionedd, yn debyg i drefn llywodraethu canoloesol, ac rwy'n siŵr y byddwn ni i gyd yn myfyrio ar y dyfarniadau a chymariaethau hanesyddol dwfn o'ch eiddo.

Dyweddodd y Prif Weinidog mai un o broblemau'r Bil drafft yw ei fod yn cadw yn ôl y 'gyfraith', ac nid yw hwnnw'n faes priodol i ddweud ei fod wedi'i gadw yn ôl, gan fod y gyfraith yn ymestyn i'r holl gamau deddfwriaethol ym meysydd polisi cyhoeddus, a bod cadw yn ôl y 'gyfraith' yn y cyswllt hwnnw yn beth dryslyd ac anfuiddiol i'w wneud. Yn sicr, os ydych yn gwneud hynny, mae'n golygu, sut bynnag rydych yn disgrifio pwerau'r Cynulliad wedyn, eich bod, i bob diben, yn rhoi'r pwerau hynny iddo, ac mae'n parhau â'r meddylfryd rhoi pwerau.

You also acknowledged that the judiciary now behave as if Wales is a distinct jurisdiction. Again, as I said earlier, that has been an impressive part of the constitutional affairs committee's work, I think, just to see how effective the judiciary have been in responding to the challenges of devolution. You did then say you didn't quite understand what a distinct jurisdiction is, compared to a separate jurisdiction. I would commend the report we did on the desirability, or otherwise, of a separate jurisdiction, published two or three years ago now. At great depth we examined this question.

In one way, a distinct jurisdiction is obviously an important move away from the concept of a unified jurisdiction at the moment, even if a unified system continues in terms of the administration of law in England and Wales. But it was our conclusion that, to coherently speak about a separate jurisdiction, we would have to look at the whole issue of criminal law and the administration of justice, particularly over things like penal policy and policy over the length of sentences for criminal offences. That sort of thing would inevitably have to come into play, and to have a separate jurisdiction that didn't cover criminal law would be problematic, particularly for the public.

Also, a separate jurisdiction most certainly would need its own system of higher courts. I completely agree with you: you wouldn't demolish all current Crown Courts or not use them. Of course, what would happen is that all current courts, the buildings, would just transfer to the Welsh jurisdiction. But, in terms of what would be necessary, there would have to be a Welsh high court and that would come at some cost—not prohibitive; there are easy ways of allowing higher courts, and even appeal courts, to operate that would continue to draw on the expertise that's available on an England-and-Wales basis. You could have appeal court judges that sit as appeal court judges in London but then have a ticket also to deal with cases in Wales. That can happen, but you would have to look at all that if you were really aiming at a separate jurisdiction, and that does, I think, have a greater degree of magnitude in terms of the importance of the decisions being made than what we're talking about in terms of a distinct jurisdiction.

A distinct jurisdiction would mean the laws we pass here apply and extend to Wales. That would be an important change. It would be a change that would permit us, then, to consider the full case for a separate jurisdiction, but it would not make a separate jurisdiction, as I've defined it, inevitable. With that, I close this afternoon's series of debates and urge Members to support this motion.

Gwnaethoch gydnabod hefyd bod y farnwriaeth yn awr yn ymddwyn fel pe bai Cymru yn awdurdodaeth benodol. Unwaith eto, fel y dywedais yn gynharach, bu'r gwaith hwnnw'n rhan nodedig o waith y pwyllgor materion cyfansoddiadol, rwy'n credu, dim ond i weld pa mor effeithiol y mae'r farnwriaeth wedi bod wrth ymateb i heriau datganoli. Dywedasoch wedyn nad oeddech yn deall yn iawn beth yw ystyr awdurdodaeth benodol, o'i chymharu ag awdurdodaeth ar wahân. Byddwn yn cymeradwyo ein hadroddiad ar ba mor ddymunol, neu fel arall, yw awdurdodaeth ar wahân, a gyhoeddwyd dwy neu dair blynedd yn ôl nawr. Archwiliwyd y cwestiwn hwn gennym yn fanwl iawn.

Mewn un ffordd, mae'n amlwg bod awdurdodaeth benodol yn gam pwysig i ffordd oddi wrth y cysyniad o awdurdodaeth unedig ar hyn o bryd, hyd yn oed os yw system unedig yn parhau o ran gweinyddu cyfraith yng Nghymru a Lloegr. Ond yn ôl ein casgliad ni, er mwyn siarad yn ystyrion am awdurdodaeth ar wahân, byddai'n rhaid i ni edrych ar yr holl fater o gyfraith trosedd a gweinyddu cyfiawnder, yn enwedig dros faterion fel polisi cosbi a pholisi dros hyd dedfrydau am droseddau. Byddai'n rhaid ystyried materion o'r fath, a byddai awdurdodaeth ar wahân nad oedd yn cwmpasu cyfraith trosedd yn achosi problemau, yn enwedig i'r cyhoedd.

Hefyd, byddai awdurdodaeth ar wahân yn sicr o fod angen ei system ei hun o uwch lysoedd. Cytunaf yn llwyr â chi: ni fydddech yn dymchwel yr holl Lysoedd y Goron presennol neu'n peidio â'u defnyddio. Wrth gwrs, yr oll a fyddai'n digwydd yw y byddai'r holl lysoedd presennol, yr adeiladau, yn trosglwyddo i'r awdurdodaeth Gymreig. Ond o ran yr hyn a fyddai'n angenrheidiol, byddai'n rhaid bod uchel lys Cymreig a byddai rhywfaint o gost ynghlwm wrth hwnnw—ni fyddai'n afresymol; mae yna ffyrdd hawdd o ganiatáu i lysoedd uwch, a hyd yn oed llysoedd apêl, weithredu a fyddai'n parhau i bwyso ar yr arbenigedd sydd ar gael ar sail Cymru a Lloegr. Gallech gael barnwyr llys apêl sy'n eistedd fel barnwyr llys apêl yn Llundain ond â hawl hefyd i ymdrin ag achosion yng Nghymru. Gall hynny ddigwydd, ond byddai'n rhaid i chi edrych ar hynny i gyd pe baech mewn gwirionedd yn anelu at awdurdodaeth ar wahân, ac rwy'n credu bod hynny ar raddfa lawer yn fwy o ran pwysigrwydd y penderfyniadau a gaiff eu gwneud na'r hyn rydym yn sôn amdano o ran awdurdodaeth benodol.

Byddai awdurdodaeth benodol yn golygu bod y deddfau a basiwn yma yn gymwys i Gymru ac mewn grym yng Nghymru. Byddai hynny'n newid pwysig. Byddai'n newid a fyddai felly'n caniatáu i ni ystyried yr achos llawn ar gyfer awdurdodaeth ar wahân, ond ni fyddai'n gwneud awdurdodaeth ar wahân, fel rwyf wedi'i diffinio, yn anochel. Gyda hynny, rwy'n cloi'r gyfres o ddadleuon y prynhawn yma ac yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn.

19:11

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed unanimously in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig yn unfrydol yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:11

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The six debates this afternoon have been agreed by the whole Assembly, and I would like to thank Members for their considered and well-thought-out contributions. I think it's been very instructive, particularly on the future of the Welsh coracle fleet—something I hadn't considered before. [Laughter.] So, thank you very much.

Mae'r chwe dadl y prynhawn yma wedi cael eu derbyn gan y Cynulliad cyfan, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau ystyrllon a meddylgar. Rwy'n credu ei bod wedi bod yn addysgiadol iawn, yn enwedig ar ddyfodol fflyd cwryglau Cymru—rhywbeth nad oeddwn wedi'i ystyried o'r blaen. [Chwerthin.] Felly, diolch yn fawr iawn.

We now move to the next item on the agenda, which is the short debate.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef y ddadl fer.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.

The Deputy Presiding Officer took the Chair.

19:12

6. Dadl Fer: Cenedl sy'n Cynnig Lloches? Y Rôl y Gall Cymru ei Chwarae yn yr Argyfwng Ffoaduriaid

6. Short Debate: A Nation of Sanctuary? The Role that Wales Can Play in the Refugee Crisis Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will Members who are leaving the Chamber do so quickly and quietly, please? The final item, then, is the short debate, and I call on William Powell to speak on the topic he has chosen.

A wnaiff yr aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel, os gwelwch yn dda? Yr eitem olaf, felly, yw'r dadl fer, a galwaf ar William Powell i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

19:12

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I am very pleased to be able to bring forward this important debate today on this otherwise historic afternoon and evening and look forward to contributions from Jeff Cuthbert, Joyce Watson and Kirsty Williams on this topic. I would like to begin by inviting you to watch a short video that's been produced by the Welsh Refugee Council, airing these issues. It will be before us just now.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o allu cyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw ar brynghawn a chyda'r nos sy'n hanesyddol am resymau eraill ac rwy'n edrych ymlaen at gyfraniadau gan Jeff Cuthbert, Joyce Watson a Kirsty Williams ar y pwnc hwn. Hoffwn ddechrau drwy eich gwahodd i wyllo fideo byr a gynhyrchwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru i roi sylw i'r materion hyn. Fe gaiff ei ddangos yn awr.

Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn dyfynodau isod yn drawsgrifiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD. Mae'r cyflwyniad ar gael drwy ddilyn y linc hon:

A DVD was shown. The transcription in quotation marks below is a transcription of the oral contributions on the DVD. The presentation can be accessed by following this link:

[Cyflwyniad DVD.](#)

[DVD presentation.](#)

'Hannah Wharf: The Nation of Sanctuary would mean for Wales that it's the first country in the world to demonstrate and actively commit to being a place of welcome and sanctuary for refugees and asylum seekers.'

'Hannah Wharf: byddai bod yn Genedl Noddfa yn golygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddangos a mynd ati i ymrwymo i fod yn fan lle y ceir croeso a lloches i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.'

'Rocio Cifuentes: This is the worst refugee crisis since the second world war, and we have a history in Wales—during the second world war we opened our homes and our doors to welcome children and families fleeing from Hitler's regime. We welcomed Jewish people from Austria, from Germany, from across Europe, so this is what we want to do now for children who are now fleeing war-ridden conflict zones. We want to offer that same sanctuary, welcome and a place for these people to build a new future and a new life in Wales.'

'Rocio Cifuentes: Dyma'r argyfwng ffoaduriaid gwaethaf ers yr ail ryfel byd, ac mae gennym hanes yng Nghymru—yn ystod yr ail ryfel byd aethom ati i agor ein cartrefi a'n drysau i groesawu plant a theuluoedd a oedd yn ffoi rhag cyfundrefn Hitler. Fe groesawom Iddewon o Awstria, o'r Almaen, o bob rhan o Ewrop, felly dyma rydym am ei wneud yn awr i blant sy'n ffoi yn awr o rannau o'r byd lle y ceir gwrthdaro rhyfeloedd. Rydym am gynnig yr un lloches, croeso a lle i'r bobl hyn allu adeiladu dyfodol newydd a bywyd newydd yng Nghymru.'

'Hannah Wharf: It would mean that the Welsh Government shows its commitment through policy and then delivery and implementation of that policy and legislation to improve the lives of asylum seekers and refugees. It would mean that individuals and people living in Wales take an active role to welcome refugees into their communities, into their neighbourhood, into Welsh society.'

'Mustafa Hameed: It can be either giving a donation of clothes, food, visiting your local refugee/asylum-seeking centre, supporting those people who are delivering those front-line services, or just basically smiling at an asylum seeker and refugee and just making them feel generally welcome, because they've been through so much.'

'Betty Nyamwenge: It has helped me, actually most of all, to gain trust, because when I fled, I could not trust anybody. It was the fear, you know, the traumas and, you know, just cut off from everything. But, involving myself with City of Sanctuary, I regained my life and the generosity that I received is what keeps me moving forward and looking forward to how I can be part of the sanctuary even more, to, you know, provide the kind of help that I was given.'

'Aliya Khalil: They changed our lives, they helped us, they showed us what to do, where to go, and that was really, really very important for my family because I felt—me and my family felt—like we were aliens. Yes, we feel very grateful to them and wish every asylum seeker could have this support and this help.'

'Hannah Wharf: There's a global humanitarian crisis and it is our responsibility as individuals, as society, as nations to play our part to ensure that people around the world have access to sanctuary. You can make a difference to the lives of refugees and asylum seekers: you can pledge your individual support for a Nation of Sanctuary; you can ask and lobby your organisation, where you work or where you volunteer, to pledge their support to City of Sanctuary; you can donate money and clothing to support services across Wales; you can join social media campaigns and lobby your AM or your local MP or your councillors; and you can create a community and a neighbourhood of welcome through being friendly, being kind and being nice to people who are newly arrived in Wales.'

'Hannah Wharf: Byddai'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn dangos ei hymrwymiad drwy bolisi ac yna'n cyflawni ac yn gweithredu'r polisi hwnnw a deddfwriaeth i wella bywydau ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Byddai'n golygu bod unigolion a phobl sy'n byw yng Nghymru yn chwarae rhan weithredol yn croesawu ffoaduriaid i'w cymunedau, i'w cymdogaeth, i gymdeithas yng Nghymru.'

'Mustafa Hameed: Gellir gwneud hyn naill ai drwy rodd o ddillad neu fwyd, drwy ymweld â'ch canolfan ffoaduriaid/pobl sy'n ceisio lloches yn lleol, drwy gynorthwyo'r bobl sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen o'r fath, neu drwy ddim ond gwenu ar rywun sy'n ceisio lloches neu ffoadur a gwneud iddynt deimlo bod croeso iddynt yn gyffredinol, am eu bod wedi bod trwy gymaint.'

'Betty Nyamwenge: Mae wedi fy helpu, yn fwy na dim, mew'n gwirionedd, i feithrin ymddiriedaeth, oherwydd pan oeddwn yn ffoi, ni allwn ymddiried yn neb. Roedd yr ofn, wyddoch chi, y trawma a chael eich cau oddi wrth bopeth. Ond drwy ymwneud â Dinas Noddfa, cefais fy mywyd yn ôl a'r haelioni a gefais sy'n fy nghadw i symud ymlaen ac i edrych ymlaen at sut y gallaf fod yn fwy o ran o'r noddfa, ac i ddarparu'r math o gymorth a roddwyd i mi.'

'Aliya Khalil: Maent wedi newid ein bywydau, maent wedi ein helpu, maent wedi dangos i ni beth i'w wneud, ble i fynd, ac roedd hynny'n wirioneddol bwysig i fy nheulu oherwydd fy mod yn teimlo—roeddwn i a fy nheulu'n teimlo—fel pe baem yn estroniaid. Ydym, rydym yn teimlo'n ddiolchgar iawn iddynt a hoffem pe bai pob ceisiwr lloches yn cael yr un gefnogaeth a chymorth.'

'Hannah Wharf: Mae yna argyfwng dyngarol byd-eang a'n cyfrifoldeb fel unigolion, fel cymdeithas, fel cenhedloedd yw chwarae ein rhan i sicrhau bod pobl ar draws y byd yn cael lloches. Fe allwch chi wneud gwahaniaeth i fywydau ffoaduriaid a cheiswyr lloches: gallwch addo eich cefnogaeth fel unigolion i Cenedl Noddfa; gallwch holi a lobio eich sefydliad, lle rydych yn gweithio neu lle rydych yn gwirfoddoli, i addo eu cefnogaeth i Dinas Noddfa; gallwch roi arian a dillad i wasanaethau cymorth ledled Cymru; gallwch ymuno ag ymgyrchoedd y cyfryngau cymdeithasol a lobio eich AC neu eich AS lleol neu eich cynghorwyr; a gallwch greu cymuned a chymdogaeth o groeso drwy fod yn gyfeillgar, yn garedig ac yn hynaws wrth bobl sydd newydd gyrraedd Cymru.'

Again, I'd like to put on record my thanks to the Wales Refugee Council for enabling us to show that film this afternoon. Wales is rich in culture and heritage. The story of refugees coming to our country from different lands around this globe is very much a part of that story. In the nineteenth century, Jewish refugees fleeing persecution in Russia and eastern Europe settled in our main city ports of Cardiff, Newport and Swansea. Similarly, Wales became a safe haven for Jews fleeing Nazi persecution, and migrants from across Europe and beyond have added to the diversity and the richness of our communities. In a smaller way, in my own family, the Black mountains, back in the late eighteenth and early nineteenth centuries, offered sanctuary to some members of my own family who'd been unfortunate enough to support Bonnie Prince Charlie in his unsuccessful bid for the throne and, as a result, suffered some persecution of their own kind. That's part of my own story.

I was really proud recently to have had the opportunity to take part in a very important and poignant Nation of Sanctuary event held in the Senedd before Christmas, and hosted by our Minister. I spoke to a number of asylum seekers and refugees, some of whom were referred to and took part in the film. Many of them had suffered terrible ordeals before arriving in Wales and I was moved particularly by a number of the testimonies that I heard on that day. There were of course differing views voiced at the event, but the overriding message was that those seeking to find a safe haven from conflict or starvation not of their making are, and should be, welcome here in our country.

One speaker that we did hear from at the event was Rocio Cifuentes, director of Ethnic Youth Support Team, a charity based in Swansea. Rocio's parents came to Wales from Chile when she was but a young child, in order to escape the Pinochet dictatorship, which killed thousands and created around 1 million political refugees. Through the financial support, quality education, housing and healthcare support that her parents were given access to, they were able to start a new life here in Wales and make an active contribution to the society of which they're now part. Her father went to work as a teacher and has now worked as an educational psychologist for Swansea county borough for more than 20 years, whilst her mother qualified as a social worker and has worked in charities and for the local authority's refugee support scheme as well as teaching Spanish to adult learners for over 30 years. I believe that this is a story that could be replicated many times over as to how we would benefit if Wales were to become a Nation of Sanctuary.

We have heard a lot in recent months about how we are facing the biggest refugee crisis since the second world war, and there are some shocking statistics out there that demonstrate just how severe the crisis that we face is. One in every 122 human beings on this planet is a refugee, asylum seeker or displaced person, and over half of those are children.

Unwaith eto, hoffwn gofnodi fy niolch i Gyngor Ffoaduriaid Cymru am ein galluogi i ddangos y ffilm y prynhawn yma. Mae Cymru yn gyfoethog o ran diwylliant a threftadaeth. Mae stori ffoaduriaid sy'n dod i'n gwlad o wahanol wledydd o amgylch y byd yn sicr yn rhan o'r stori honno. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymsefydlodd ffoaduriaid Iddewig a oedd yn ffoi rhag erledigaeth yn Rwsia a dwyrain Ewrop yn ein prif ddinasoedd porthladd yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Yn yr un modd, daeth Cymru yn hafan ddiogel i Iddewon a oedd yn ffoi rhag erledigaeth y Natsïaïd, ac mae ymfudwyr o bob rhan o Ewrop a thu hwnt wedi ychwanegu at amrywiaeth a chyfoeth ein cymunedau. Mewn ffordd lai, yn fy nheulu fy hun, cynigiodd y Mynydd Du loches, yn ôl yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, i rai aelodau o fy nheulu a oedd wedi bod yn ddigon anffodus i gefnogi Bonnie Prince Charlie yn ei gais aflwyddiannus i gipio'r orsedd ac wedi dioddef peth erledigaeth o'u math eu hunain o ganlyniad i hynny. Mae hynny'n rhan o fy stori i.

Yn ddiweddar, roeddwn yn falch iawn o gael cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiad Cenedl Noddfa pwysig ac ingol iawn a gynhaliwyd gan ein Gweinidog yn y Senedd cyn y Nadolig. Siaradais â nifer o geiswyr lloches a ffoaduriaid; cyfeiriwyd at rai ohonynt ac roeddent yn cymryd rhan yn y ffilm. Roedd llawer ohonynt wedi dioddef profiadau erchyll cyn cyrraedd Cymru a gwnaeth nifer o'r hanesion a glywais y diwrnod hwnnw argraff arbennig arnaf. Lleisiwyd safbwyntiau gwahanol yn y digwyddiad wrth gwrs, ond y neges gyffredinol oedd y dylai'r rhai sy'n ceisio dod o hyd i hafan ddiogel rhag gwrthdaro neu newyn nad ydynt yn gyfrifol amdano gael croeso yma yn ein gwlad.

Un siaradwr a glywsom yn siarad yn y digwyddiad oedd Rocio Cifuentes, cyfarwyddwr y Tim Cefnogi Ieuenctid Ethnig, elusen yn Abertawe. Daeth rhieni Rocio i Gymru o Chile pan oedd yn blentyn ifanc er mwyn dianc rhag unbennaeth Pinochet, a laddodd filoedd o bobl ac a grëodd oddeutu 1 filiwn o ffoaduriaid gwleidyddol. Trwy'r cymorth ariannol, addysg o ansawdd, tai a chymorth gofal ieuchyd a roddwyd i'w rhieni, gallodd y teulu ddechrau bywyd newydd yma yng Nghymru a chyfrannu'n weithredol at y gymdeithas y maent yn rhan ohoni yn awr. Aeth ei thad i weithio fel athro ac erbyn hyn mae wedi bod yn gweithio fel seicolegydd addysgol i fwrdeistref sirol Abertawe ers dros 20 mlynedd, ac mae ei mam wedi cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol ac wedi gweithio mewn elusennau ac i gynllun cefnogi ffoaduriaid yr awdurdod lleol yn ogystal â dysgu Sbaeneg i ddysgwyr sy'n oedolion ers dros 30 mlynedd. Credaf fod hon yn stori y gellid ei hailadrodd sawl gwaith drosodd o ran sut y byddem yn elwa pe bai Cymru'n dod yn Genedl Noddfa.

Rydym wedi clywed llawer yn y misoedd diwethaf am y ffordd rydym yn wynebu'r argyfwng ffoaduriaid mwyaf ers yr ail ryfel byd, a cheir rhai ystadegau syfrdanol sy'n dangos pa mor ddifrifol yw'r argyfwng sy'n ein hwynebu. Mae un o bob 122 o fodau dynol y blaned hon yn ffoaduriaid, yn geiswyr lloches neu'n bobl wedi'u dadleoli, a thros hanner y rheini'n blant.

Conflict and persecution have forced over 4 million Syrian refugees into camps in Jordan, Lebanon and Turkey, and the International Organization for Migration has recorded the deaths of over 2,600—2,600—people crossing the Mediterranean in their desperation to find safety. The UNHCR report that over 42,000 people are being displaced in, or forced out of, Syria every day. Yet, in many ways, the narrative from politicians, commentators and some members of the public is hardening on this issue, and the UK Government's Syrian vulnerable people's resettlement scheme will see only 20,000 Syrian refugees resettled from refugee camps by 2020. This is wholly inadequate, and I'm very proud that my own party has been very strong in their condemnation of the UK Government's inadequate response to this disaster.

Thankfully, there are a lot of really effective projects and hard-working organisations out there doing some fantastic work. For example, the Welsh Refugee Coalition is a coalition of organisations working in Wales with asylum seekers and refugees and with the communities in which they live, at every stage of their journey.

The City of Sanctuary organisations, which work in Cardiff, Swansea, and the more recently established Hay, Brecon & Talgarth organisation in my own region, operate with the aim creating a network of towns and cities throughout our country that are proud to be places of safety for people seeking sanctuary and helping them to integrate into those local communities. This worked very effectively indeed just last month, when Kirsty Williams and I were able to attend an event hosted by that Hay, Brecon & Talgarth team at Hay castle with refugees from Swansea, enabling them to spend time in the beautiful, if rather chilly, Welsh countryside and also to see an area of our country that they would not otherwise have had the opportunity to visit.

There is no easy solution to the refugee crisis that we face, and there's certainly no clear consensus on exactly how many the UK as a whole should be accepting, nor on exactly what the impact will be on our local services. But what's equally clear is that this refugee crisis is not going to go away, and the problem is likely to get worse, particularly as the winter months drag on. The recent reports from the besieged town of Madaya in Syria, where people are literally starving to death, are a stark reminder of this, and reporters have said that there are numerous other towns and cities across Syria that face similar circumstances.

The words we heard spoken in this Chamber towards the end of last year, when the refugee crisis really came to the fore, were very encouraging, and Members from every party were pleased to hear both the First Minister and the Minister for Communities and Tackling Poverty stating that refugees and asylum seekers are welcome in Wales.

Mae gwrthdaro ac erledigaeth wedi gorfodi dros 4 miliwn o ffoaduriaid Syria i mewn i wersylloedd yn yr Iorddonen, Libanus a Thwrci, ac mae'r Sefydliad Ymfudo Rhyngwladol wedi cofnodi marwolaethau dros 2,600—2,600—o bobl yn croesi Môr y Canoldir yn eu hysfa i ddod o hyd i ddiogelwch. Mae Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid yn nodi bod dros 42,000 o bobl yn cael eu dadleoli, neu eu gorfodi allan o Syria bob dydd. Eto i gyd, mewn sawl ffordd, mae naratif gwleidyddion, sylwebyddion a rhai aelodau o'r cyhoedd yn caledu ar y mater hwn, a dim ond 20,000 o ffoaduriaid Syria a fydd yn cael eu hadsefydlu drwy gynllun adsefydlu Llywodraeth y DU ar gyfer pobl agored i niwed o Syria erbyn 2020. Mae hyn yn gwbl annigonol, ac rwy'n falch iawn fod fy mhlaid wedi bod yn gryf iawn yn eu condemniad o ymateb annigonol Llywodraeth y DU i'r trychineb hwn.

Diolch byth, mae llawer o brosiectau gwirioneddol effeithiol a sefydliadau sy'n gweithio'n galed ac yn gwneud gwaith gwych. Er enghraifft, mae Clymblaid Ffoaduriaid Cymru yn cynnwys sefydliadau sy'n gweithio yng Nghymru gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid a chyda'r cymunedau lle y maent yn byw, ar bob cam o'u taith.

Mae sefydliadau Dinas Noddfa, sy'n gweithio yng Nghaerdydd, Abertawe, a sefydliad y Gelli, Aberhonddu a Thalgarth a sefydlwyd yn fwy diweddar yn fy rhanbarth i, yn gweithredu gyda'r nod greu rhwydwaith o drefi a dinasoedd ledled ein gwlad sy'n falch o fod yn fannau diogel ar gyfer pobl sy'n chwilio am loches ac yn eu helpu i integreiddio yn y cymunedau lleol hynny. Roedd hyn yn gweithio'n effeithiol iawn yn wir y mis diwethaf, pan oedd Kirsty Williams a minnau yn bresennol mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan dîm y Gelli, Aberhonddu a Thalgarth yng nghastell y Gelli gyda ffoaduriaid o Abertawe, gan eu galluogi i dreulio amser yng nghefn gwlad hardd, os ychydig yn oer, Cymru a hefyd i weld ardal o'n gwlad na fyddent wedi cael cyfle i ymweld â hi fel arall.

Nid oes ateb hawdd i'r argyfwng ffoaduriaid sy'n ein hwynebu, ac yn sicr, nid oes consensws clir ynghylch faint yn union y dylai'r DU yn ei chyfanrwydd ei dderbyn, na beth yn union fydd yr effaith ar ein gwasanaethau lleol. Ond yr hyn sydd yr un mor glir yw nad yw'r argyfwng ffoaduriaid hwn yn mynd i ddiplannu, ac mae'r broblem yn debygol o waethygu, yn enwedig wrth i fisoedd y gaef lusgo yn eu blaenau. Mae'r adroddiadau diweddar o dref Madaya yn Syria sydd dan warchae, a lle y mae pobl yn llythrennol yn llwgu i farwolaeth, yn ein hatgoffa'n glir o hyn, ac mae gohebwyr wedi dweud bod yna nifer o drefi a dinasoedd eraill ar draws Syria sy'n wynebu amgylchiadau tebyg.

Mae'r geiriau a glywsom yn y Siambr hon tuag at ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, pan ddaeth yr argyfwng ffoaduriaid i'r amlwg go iawn, yn galonogol iawn, ac roedd Aelodau o bob plaid yn falch o glywed y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn datgan bod croeso yng Nghymru i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

We need more than warm words, however, and I'd like to highlight, in summing up, some of the particular points that were made in the video about what the Welsh Government can do: fund further advice, advocacy and support services; ensure that the outcomes of resettlement schemes are consistently monitored, so that effective systems can be established; use devolved powers over equalities, housing and social care so as to ensure that all people living in Wales, including asylum seekers and refugees, are treated with equal respect and dignity; promote the participation and inclusion of asylum seekers and refugees in local communities; and, of course, support the 'Wales: Nation of Sanctuary' initiative.

In conclusion, I believe the ultimate way of showing Wales's commitment to helping to address the crisis would be to declare ourselves a Nation of Sanctuary, and I hope that the Minister will be able to give serious consideration to this proposal this evening. Although the Welsh Government has limited powers over who's allowed into this country, there is so much more that could be done to make these refugees comfortable in their new land. I'm sure that we would welcome nothing more than a total commitment to Wales being what it always has been: a nation of sanctuary.

19:24

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank William Powell for allowing me to speak? Wales has a long tradition of welcoming refugees during times of war and strife. Wales must continue to do this, and I am pleased that Caerphilly County Borough Council has taken the lead by becoming one of the first Welsh local authorities to accept a small number of Syrian refugees.

Despite the negative news headlines focusing on the issue of jihadist infiltrators, we must not forget that the overwhelming majority of refugees are genuinely fleeing conflict and persecution in their increasingly hostile home country. Ordinary Syrian people of all faiths have been caught between both the Assad regime on one side and the so-called Islamic State or Daesh on the other. Many now have little choice but to flee their home country to safety.

I too have met with the Welsh Refugee Council on a number of occasions and have seen the excellent work that they do to support and promote the welfare of refugees in Wales, many of whom are very vulnerable. My daughter, Sally Osborne, organised a fun event to raise money for refugees and also organised a clothes collection to donate unwanted items. My other daughter, Amy Wallace, who lives in—

19:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Quickly now, please. You can finish, but be quick.

Mae angen mwy na geiriau caredig, fodd bynnag, ac wrth grynhoi hoffwn dynnu sylw at rai o'r pwyntiau penodol a wnaed yn y fideo am yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud: ariannu gwasanaethau cyngor, eiriolaeth a chymorth pellach; sicrhau bod canlyniadau cynlluniau adsefydlu yn cael eu monitro'n gyson, er mwyn gallu sefydlu systemau effeithiol; defnyddio pwerau datganoledig dros gydraddoldebau, tai a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod yr holl bobl sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, yn cael eu trin â pharch ac urddas cyfartal; hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant ceiswyr lloches a ffoaduriaid mewn cymunedau lleol; ac wrth gwrs, cefnogi menter 'Cymru: Cenedl Noddfa'.

I gloi, rwy'n credu mai'r ffordd orau o ddangos ymrwymiad Cymru i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng fyddai datgan ein hunain yn Genedl Noddfa, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cynnig hwn heno. Er mai cyfyngedig yw pwerau Llywodraeth Cymru dros bwy sy'n cael dod i mewn i'r wlad hon, mae cymaint mwy y gellid ei wneud i sicrhau bod y ffoaduriaid hyn yn gyfforddus yn eu gwlad newydd. Rwy'n siŵr na fyddem yn croesawu dim llai nag ymrwymiad llwyr i wneud Cymru yr hyn y bu erioed: yn genedl noddfa.

Hoffwn ddiolch i William Powell am ganiatáu i mi siarad? Mae gan Gymru draddodiad hir o groesawu ffoaduriaid yn ystod adegau o ryfel a chynnen. Rhaid i Gymru barhau i wneud hyn, ac rwy'n falch fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi arwain ar hyn drwy ddod yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i dderbyn nifer fach o ffoaduriaid Syria.

Er gwaethaf y penawdau newyddion negyddol yn canolbwyntio ar jihadwyr yn ymdreiddio i'w plith, rhaid i ni beidio ag anghofio bod y mwyafrif llethol o ffoaduriaid o ddifrif yn ffoi rhag gwrthdaro ac erledigaeth yn eu gwlad sy'n mynd yn fwyfwy gelyniaethus. Mae pobl gyffredin Syria o bob ffydd wedi cael eu dal rhwng cyfundrefn Assad ar un ochr a'r hyn a elwir yn Wladwriaeth Islamaidd neu Daesh ar y llall. Nid oes fawr o ddewis gan lawer ohonynt bellach ond ffoi i ddiogelwch o'u mamwlad.

Rwyf hefyd wedi cyfarfod â Chyngor Ffoaduriaid Cymru ar sawl achlysur ac wedi gweld y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud yn cefnogi a hyrwyddo lles ffoaduriaid yng Nghymru, gyda llawer ohonynt yn agored iawn i niwed. Trefnodd fy merch, Sally Osborne, ddiwyddiad hwyl i godi arian ar gyfer ffoaduriaid a hefyd trefnodd ymgyrch gasglu dillad i gyfrannu eitemau nad oes mo'u hangen. Mae fy merch arall, Amy Wallace, sy'n byw yn—

Yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda. Gallwch orffen, ond byddwch yn gyflym.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

19:26	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography My other daughter, Amy Wallace, from Cardiff Central, also organised a large van and drove to Calais in France to deliver clothes and other much-needed items to refugees who are stranded there. Indeed, Bargoed YMCA, where my constituency office is based, opened its doors and collected a vast amount of clothes and survival equipment, which were sent on to where they were needed.	Hefyd, trefnodd fy merch arall, Amy Wallace, o Ganol Caerdydd, fan fawr a gyrru i Calais yn Ffrainc i ddarparu dillad ac eitemau eraill mawr eu hangen i ffoaduriaid sy'n gaeth yno. Yn wir, agorodd YMCA Bargoed, lle y mae fy swyddfa etholaethol, ei ddrysau a chasglu llawer iawn o ddillad ac offer goroesi, a anfonwyd i ble roedd eu hangen.	Senedd.tv Fideo Video
	As these examples show, I've been heartened by the response of ordinary Welsh people to the plight of the world's refugees, despite the efforts of some politicians to opportunistically score points on the issue ahead of elections and referenda later this year.	Fel y mae'r enghreifftiau hyn yn dangos, cefais fy nghalonogi gan ymateb pobl gyffredin Cymru i drafferthion ffoaduriaid y byd, er gwaethaf ymdrechion rhai gwleidyddion i sgorio pwyntiau yn fanteisgar ar y mater cyn etholiadau a refferenda yn ddiweddarach eleni.	
19:26	Joyce Watson Bywgraffiad Biography I'm extremely grateful to William Powell for bringing this debate today, in the most sensitive of times, and actually addressing one of the most serious issues that need addressing. The video, really, said it all: it was extremely powerful, and the imagery within it has to appeal to our common humanity. As the speakers in that video said, and as has been expanded since, this is the largest refugee crisis since the second world war. We must have all been truly shaken by the images, and the most disturbing images and the stories that recall the darkest episodes of the past century, of death and destruction and starvation. Perhaps we believed we would never see those things again, but that is hubris at its most dangerous. It is the responsibility of this generation, of us, to make sure that we don't repeat the mistakes of the past or ignore those warning signs. In Europe today, the fences are being re-erected, but international co-operation, not national chauvinism and isolation, is the only road to peace.	Rwy'n hynod ddiolchgar i William Powell am gyflwyno'r ddadl heddiw, ar adeg sensitif iawn, ac am dynnu sylw at un o'r materion mwyaf difrifol sydd angen i ni fynd i'r afael ag ef. Roedd y fideo'n dweud y cyfan mewn gwirionedd: roedd yn hynod o bwerus, ac mae'n rhaid bod y lluniau ynddo'n apêl at ein dynoliaeth gyffredin. Fel y dywedodd y siaradwyr yn y fideo, ac fel yr ymhelaethwyd wedyn, dyma'r argyfwng ffoaduriaid mwyaf ers yr ail ryfel byd. Mae'n rhaid ein bod ni i gyd wedi cael ein hysgwyd yn wirioneddol gan y lluniau, ac roedd y lluniau a'r straeon mwyaf ysgytwol yn dwyn i gof gyfnodau tywyllaf y ganrif ddiwethaf, lluniau o farwolaeth a dinistr a newyn. Efallai ein bod yn credu na fyddem byth yn gweld pethau hynny eto, ond dyna hwbris ar ei fwyaf peryglus. Cyfrifoldeb y genhedlaeth hon, ein cyfrifoldeb ni, yw gwneud yn siŵr nad ydym yn ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol neu'n anwybyddu'r rhybuddion hynny. Yn Ewrop heddiw, mae'r ffensys yn cael eu hailgodi, ond cydweithredu rhyngwladol, nid siofnyddiaeth ac ynysu cenedlaethol, yw'r unig ffordd i heddwch.	Senedd.tv Fideo Video
	So, yes, let us celebrate the vision and humanity of groups like the Hay, Brecon & Talgarth Sanctuary for Refugees, yes, let us support—	Felly, ie, gadewch i ni ddathlu gweledigaeth a dynoliaeth grwpiau fel Seintwar Ffoaduriaid y Gelli, Aberhonddu a Thalgarth, ie, gadewch i ni gefnogi—	
19:28	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Quickly, now.	Yn gyflym, yn awr.	Senedd.tv Fideo Video
19:28	Joyce Watson Bywgraffiad Biography [Continues.]—local authorities like Ceredigion and Powys, who are inviting people within their borders, but, most of all, let us keep human kindness at the forefront of this.	[Yn parhau.]—awdurdodau lleol megis Ceredigion a Phowys, sy'n gwahodd pobl o fewn eu ffiniau, ond yn bennaf oll, gadewch i ni gadw caredigrwydd dynol ar y blaen yn hyn oll.	Senedd.tv Fideo Video
19:28	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography We're well over time, but is Kirsty Williams still trying to attract my eye? Kirsty Williams. The subject merits flexibility. Kirsty Williams.	Rydym ymhell dros yr amser, ond a yw Kirsty Williams yn dal i geisio tynnu fy sylw? Kirsty Williams. Mae'r pwnc yn haeddu hyblygrwydd. Kirsty Williams.	Senedd.tv Fideo Video

19:28

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful for the indulgence of the Deputy Presiding Officer and I too would like to pay tribute to the work in my constituency under the Hay, Brecon & Talgarth group, and the concept of delivering respite days—so, for refugees who are currently housed in some of our big cities, the ability to come to the countryside and experience something different is very worth while. But can I ask the Minister—? Minister, you know that some of the most vulnerable groups are the unaccompanied children who find themselves scattered throughout Europe. Save the Children believe that Britain could take 3,000 of those unaccompanied, most vulnerable children. What action can you take to put pressure on the Westminster Government to play its part in ensuring that there is a safe haven for those children, and that they should be allowed to come to our country and settle here?

Rwy'n ddiolchgar iawn am oddefgarwch y Dirprwy Lywydd a hoffwn innau hefyd dalu teyrnged i'r gwaith yn fy etholaeth drwy grŵp y Gelli, Aberhonddu a Thalgarth, a'r cysyniad o gyflwyno dyddiau seibiant—felly, i ffoaduriaid sy'n cartrefu ar hyn o bryd yn rhai o'n dinasoedd mawr, mae'r gallu i ddod i gefn gwlad a phrofi rhywbeth gwahanol yn werth chweil. Ond a gaf fi ofyn i'r Gweinidog—? Weiniidog, fe wyddoch mai rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yw'r plant ar eu pen eu hunain sydd wedi'u gwasgaru ledled Ewrop. Mae Achub y Plant yn credu y gallai Prydain gymryd 3,000 o'r plant hynny sydd ar eu pen eu hunain, ac sy'n fwyaf agored i niwed. Pa gamau y gallwch eu cymryd i roi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i chwarae ei rhan yn sicrhau bod yna hafan ddiogel i'r plant hynny, ac y dylent gael caniatâd i ddod i'n gwlad a setlo yma?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

19:29

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply—Lesley Griffiths.

A'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ateb—Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

19:29

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I too welcome William Powell's choice of topic for this short debate and for his and Jeff Cuthbert's, Joyce Watson's, and Kirsty Williams's contributions about making Wales a Nation of Sanctuary for refugees. I think we do have a very proud history of offering shelter to those in need, and I think that's really been very much reflected in the warm response of people across Wales towards this crisis. As the First Minister has clearly stated, the Welsh Government supports the principle of Wales as a nation of sanctuary.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwyf innau hefyd yn croesawu'r pwnc y mae William Powell wedi'i ddewis ar gyfer y ddadl fer hon ac am ei gyfraniad ef, Jeff Cuthbert, Joyce Watson, a Kirsty Williams ynglŷn â sicrhau bod Cymru yn Genedl Noddfa i ffoaduriaid. Rwy'n credu bod gennym hanes balch iawn o gynnis lloches i'r rhai sydd mewn angen, a chredaf fod hynny wedi'i adlewyrchu'n fawr iawn yn ymateb cynnes pobl ledled Cymru i'r argyfwng hwn. Fel y mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o Gymru fel cenedl noddfa.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, a sanctuary must be a place where everyone can feel safe and secure. I think it's important to emphasise that we have sought and received assurances from the UK Government that all of the Syrian refugees coming to the UK have been thoroughly vetted through a detailed two-stage process. We're continuing to work to ensure that people from different backgrounds and cultures work together to combat all forms of extremism. I know that the police in Wales are particularly vigilant in dealing with terrorism and hate crime from whatever source it may come. I think, together, we are working to ensure that Wales continues to be a safe and welcoming place.

Wrth gwrs, mae'n rhaid i noddfa fod yn fan lle y gall pawb deimlo'n saff a diogel. Credaf ei bod yn bwysig pwysleisio ein bod wedi ceisio ac wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU fod pob un o'r ffoaduriaid o Syria sy'n dod i'r DU wedi cael eu harchwilio'n drylwyr drwy broses fanwl mewn dau gam. Rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod pobl o wahanol gefndiroedd a diwyllianau yn gweithio gyda'i gilydd i frwydro yn erbyn pob math o eithafiaeth. Gwn fod yr heddlu yng Nghymru yn arbennig o wylidwrs wrth ymdrin â therfysgaeth a throseddau casineb o ba ffynhonnell bynnag. Gyda'n gilydd, rwy'n credu ein bod yn gweithio i sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn fan diogel a chroesawgar.

I fund a number of organisations that support refugees and asylum seekers, including the Welsh Refugee Council, the Trinity Centre in Cardiff, and the British Red Cross in Newport. Displaced People in Action and Oxfam Cymru are key players in the City of Sanctuary movement, and they're members of the Syrian refugee operations board.

Rwy'n ariannu nifer o sefydliadau sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Canolfan y Drindod yng Nghaerdydd, a'r Groes Goch Brydeinig yng Nghasnewydd. Alltudion ar Waith ac Oxfam Cymru yw'r sefydliadau allweddol ym mudiad Dinas Noddfa, ac maent yn aelodau o'r bwrdd gweithredu ar gyfer ffoaduriaid Syria.

I've been very pleased to see that local groups have been forming to offer support, not just in areas that have already settled Syrian refugees, but as William Powell and Kirsty Williams highlighted, in rural areas such as your constituency and your region. I think, if Wales is to become a true nation of sanctuary, then we do need to encourage more areas that haven't previously had links with refugees to offer support.

All 22 local authorities in Wales are preparing to play an active role in the UK Government's Syrian vulnerable person resettlement programme. The Prime Minister introduced his own target of resettling 1,000 refugees before Christmas, and I considered that to be a very artificial deadline, because what I was very concerned about, and what I'm still very keen to see, is that local authorities have all the necessary services in place before they settle refugees. Nevertheless, I think it was really good to see Ceredigion, Torfaen, Caerphilly and Neath Port Talbot, none of which had had previous experience of resettling refugees, to be among the first local authorities in the UK—not just in Wales, but in the UK—to accept Syrian refugees. I really think that that sort of demonstrated the spread of support for refugees, and I think that that brings us closer to making a reality Wales as a nation of sanctuary.

Of course, immigration is not devolved. The Welsh Government doesn't have any control over support received by asylum seekers or the numbers that are dispersed to Wales. Cardiff, Newport, Swansea and Wrexham have all seen increases in the numbers of asylum seekers that they've received.

My officials work very closely with the Home Office, with local authorities and the Wales Strategic Migration Partnership to identify challenges at an early stage, and then work in partnership to be able to identify any solutions. Similarly, while the First Minister has called on the Prime Minister to do more to help those who are travelling across Europe in search of safety, or who are currently in camps in Europe, I think this is a decision for the UK Government. I've had a meeting with Richard Harrington, the Syrian refugee Minister, and I've written to the immigration Minister on a number of occasions, raising issues, particularly over the immigration Bill and the lack of support for unaccompanied asylum-seeking children in Wales. I was very pleased that the immigration Minister did accept that the remit of the children's panel in England should be extended to Wales, because it wasn't initially.

To date, no unaccompanied refugee children have come to Wales as part of the programme. Kirsty Williams is quite right: we need to ensure the safety of unaccompanied children and, if necessary, when they're here, we need to make sure that they don't become victims of human trafficking. I know that that's an area that Joyce Watson and I have discussed.

Roeddwn yn falch iawn o weld bod grwpiau lleol wedi cael eu ffurfio i gynnal cefnogaeth, nid yn unig mewn ardaloedd sydd eisoes wedi adsefydlu ffoaduriaid Syria, ond fel yr amlygodd William Powell a Kirsty Williams, mewn ardaloedd gwledig megis eich etholaeth a'ch rhanbarth chi. Os yw Cymru i ddod yn genedl noddfa go iawn, rwy'n meddwl bod angen i ni annog mwy o ardaloedd nad ydynt wedi cael cysylltiadau â ffoaduriaid o'r blaen i gynnal cymorth.

Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn paratōi i chwarae rhan weithredol yn rhaglen adsefydlu Llywodraeth y DU i bobl agored i niwed o Syria. Cyflwynodd y Prif Weinidog ei darged ei hun o adsefydlu 1,000 o ffoaduriaid cyn y Nadolig, ac roeddwn yn ystyried hwnnw'n derfyn amser artiffisial iawn, oherwydd yr hyn roeddwn yn bryderus iawn yn ei gylch, a'r hyn rwy'n dal yn awyddus iawn i'w weld, yw bod gan awdurdodau lleol yr holl wasanaethau angenrheidiol ar waith cyn iddynt adsefydlu ffoaduriaid. Er hynny, roedd hi'n wirioneddol dda gweld Ceredigion, Torfaen, Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot yn adsefydlu ffoaduriaid, er nad oedd yr un ohonynt wedi cael profiad blaenorol o wneud hynny. Roeddent ymhlith yr awdurdodau lleol cyntaf yn y DU—nid yng Nghymru yn unig, ond yn y DU—i dderbyn ffoaduriaid o Syria. Roeddwn i'n meddwl o ddirif bod hynny'n dangos pam mor eang yw'r gefnogaeth i ffoaduriaid, a chredaf ei fod yn dod â ni yn agosach at wireddu'r nod o wneud Cymru yn genedl noddfa.

Wrth gwrs, nid yw mewnfudo wedi'i ddatganoli. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros gymorth i geiswyr lloches neu'r niferoedd sy'n cael eu dosbarthu i Gymru. Mae cynnydd wedi bod yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam o ran nifer y ceiswyr lloches y maent wedi'u derbyn.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r Swyddfa Gartref, gydag awdurdodau lleol a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru ar nodi heriau'n gynnar, ac yna gweithio mewn partneriaeth i allu nodi unrhyw atebion. Yn yr un modd, er bod Prif Weinidog Cymru wedi galw ar y Prif Weinidog i wneud mwy i helpu'r rhai sy'n teithio ar draws Ewrop i chwilio am ddiogelwch, neu sydd ar hyn o bryd mewn gwerylloedd yn Ewrop, rwy'n credu mai penderfyniad i Lywodraeth y DU yw hwn. Rwyf wedi cael cyfarfod gyda Richard Harrington, y Gweinidog dros ffoaduriaid Syria, ac rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog mewnfudo ar sawl achlysur, i dynnu sylw at faterion, yn enwedig mewn perthynas â'r Bil mewnfudo a'r diffyg cymorth i blant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yng Nghymru. Roeddwn yn falch iawn fod y Gweinidog mewnfudo yn derbyn y dylai cylch gwaith y panel plant yn Lloegr gael ei ymestyn i Gymru, am nad oedd hynny'n digwydd ar y cychwyn.

Hyd yn hyn, nid oes unrhyw blant sy'n ffoaduriaid ar eu pen eu hunain wedi dod i Gymru yn rhan o'r rhaglen. Mae Kirsty Williams yn llygad ei lle: mae angen i ni sicrhau diogelwch plant ar eu pen eu hunain ac os oes angen, pan fyddant yma, mae angen i ni wneud yn siŵr nad ydynt yn dod yn ddiodefwr yn sgil masnachu pobl. Gwn fod hwnnw'n faes y mae Joyce Watson a minnau wedi'i drafod.

I'm concerned about the increasing number of asylum seekers who are facing destitution. My officials will be attending a destitution workshop organised by the Wales Strategic Migration Partnership next month and will then provide me with further information.

The UK Government has fully funded the first year of the five-year resettlement programme, and they've committed to assisting with funding in years 2 to 5. However, I think we need to continue to press it. It's something that I've been doing over the past six months or so. We need to press for clarity on exactly what funding is available, and I have asked for a further meeting with the UK Government Minister for Syrian refugees on this topic. I've agreed to fund the eight regional community cohesion co-ordinators for an additional 12 months. That funding was due to end at the end of March of this year, but I recognise the key role that they play in their localities, to work with local authorities to prepare to resettle refugees through the programme. So, what I've asked my officials to do now is to work with the co-ordinators to come forward with a new one-year delivery plan.

As I said, the co-ordinators play a key role in ensuring there are systems in place for managing tensions at a local level and tackling hate crime. There are particular challenges, we know, in encouraging refugees and asylum seekers to report hate crime. Many of them have very preconceived ideas about the police, for instance. Again, we've been working with the police on the board to ensure that they're aware of these concerns. Many of them are very fearful of drawing attention to themselves, thinking that that could affect their immigration status. So, I've asked the Welsh Refugee Council, as part of their funding, to encourage refugees and asylum seekers to report hate crime. The Wales Race Forum has identified tackling racism and race hate crime as one of its priorities. I'm really grateful to all the third sector organisations in Wales who are working to tackle race and faith-based hate crime.

Tackling hate crime is a key element in making Wales a true nation of sanctuary. No-one should be in fear of hate crime because of the colour of their skin, their faith or their immigration status. As Joyce Watson said, the video that opened your short debate, William Powell, was extremely powerful. It was very interesting to hear of refugees' experiences, and I've met with refugees to hear about what they thought we could have done better when they first arrived in Wales. I thought what they were saying about 'Just smile'—. You know, if you don't have the money to donate or you don't have items of clothing to donate, just be friendly, be nice, be kind to people who are settling in our country.

Rwy'n pryderu am y nifer gynyddol o geiswyr lloches sy'n wynebu amddifadrwydd. Bydd fy swyddogion yn mynychu gweithdy amddifadrwydd a drefnwyd gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru y mis nesaf a byddant yn rhoi rhagor o wybodaeth i mi bryd hynny.

Mae Llywodraeth y DU wedi ariannu blwyddyn gyntaf y rhaglen adsefydlu pum mlynedd yn llawn, ac mae wedi ymrwymo i gynorthwyo gyda chyllid ym mlyneddod 2 i 5. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen i ni barhau i bwysu arni. Mae'n rhywbeth rwyf wedi bod yn ei wneud dros y chwe mis diwethaf. Mae angen i ni bwysu am eglurder ynglŷn â pha gyllid yn union sydd ar gael, ac rwyf wedi gofyn am gyfarfod pellach gyda Gweinidog Llywodraeth y DU dros ffoaduriaid Syria ar y pwnc hwn. Rwyf wedi cytuno i ariannu'r wyth o gydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol am 12 mis ychwanegol. Roedd yr arian hwnnw i fod i ddod i ben ar ddiwedd mis Mawrth eleni, ond rwy'n cydnabod y rôl allweddol y maent yn ei chwarae yn eu hardaloedd, yn gweithio gydag awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer adsefydlu ffoaduriaid drwy'r rhaglen. Felly, yr hyn rwyf wedi gofyn i fy swyddogion ei wneud yn awr yw gweithio gyda'r cydgysylltwyr i gyflwyno cynllun cyflawni newydd un flwyddyn.

Fel y dywedais, mae gan y cydgysylltwyr rôl allweddol yn sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer rheoli tensiynau ar lefel leol a mynd i'r afael â throeddau casineb. Gwyddom fod yna heriau penodol o ran annog ffoaduriaid a cheiswyr lloches i roi gwybod am droeddau casineb. Mae gan lawer ohonynt ragdybiaethau cadarn ynglŷn â'r heddlu, er enghraifft. Unwaith eto, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu ar y bwrdd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r pryderon hyn. Mae llawer ohonynt yn bryderus iawn rhag tynnu sylw atynt eu hunain, gan feddwl y gallai hynny effeithio ar eu statws mewnfudo. Felly, rwyf wedi gofyn i Gyngor Ffoaduriaid Cymru ddefnyddio rhan o'u cyllid i annog ffoaduriaid a cheiswyr lloches i roi gwybod am droeddau casineb. Mae Fforwm Hil Cymru wedi nodi mynd i'r afael â hiliaeth a throeddau casineb ar sail hil fel un o'i flaenoriaethau. Rwy'n hynod ddiolchgar i'r holl sefydliadau trydydd sector yng Nghymru sy'n gweithio i fynd i'r afael â throeddau casineb ar sail hil a ffydd.

Mynd i'r afael â throeddau casineb yw'r elfen allweddol yn y broses o wneud Cymru yn genedl noddfa go iawn. Ni ddylai neb orfod byw mewn ofn rhag troeddau casineb oherwydd lliw eu croen, eu ffydd neu eu statws mewnfudo. Fel y dywedodd Joyce Watson, roedd y fideo a agorodd eich dadl fer, William Powell, yn hynod o bwerus. Roedd yn ddiddorol iawn clywed am brofiadau ffoaduriaid, ac rwyf wedi cyfarfod â ffoaduriaid i glywed am yr hyn y maent yn meddwl y gallem fod wedi'i wneud yn well pan ddaethant i Gymru. Roeddwn i'n meddwl bod yr hyn roeddent yn ei ddweud am wenu—. Wyddoch chi, os nad oes gennych arian i'w roi neu os nad oes gennych eitemau o ddillad i'w cyfrannu, byddwch yn gyfeillgar, byddwch yn hynaws, yn garedig wrth bobl sy'n ymsefydlu yn ein gwlad.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, we will continue to work with local authorities and the third sector in Wales and to use the powers that we have at our disposal to ensure that Wales is a genuinely welcoming country. We are committed to the integration of refugees and asylum seekers, beginning on day 1 of their arrival, not just when they're given leave to remain. So, the Welsh Government is committed to the principle of Wales as a nation of sanctuary. Thank you.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector yng Nghymru ac i ddefnyddio'r pwerau sydd gennym at ein defnydd i sicrhau bod Cymru yn wlad wirioneddol groesawgar. Rydym wedi ymrwmo i integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan ddechrau ar y diwrnod y byddant yn cyrraedd, nid yn unig ar ôl iddynt gael caniatâd i aros. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i'r egwyddor o Gymru fel cenedl noddfa. Diolch.

19:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. And that concludes today's proceedings.

Diolch. A dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 19:37.

The meeting ended at 19:37.